

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

20/01/2015

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiwn Brys: Amseroedd Aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys](#)
[Urgent Question: Accident and Emergency Waiting Times](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Ein Gorffennol a'l Ddyfodol](#)
[Statement: Our Past and Its Future](#)

[Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor \(Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2015](#)
[The Council Tax Reduction Schemes \(Prescribed Requirements and Default Scheme\) \(Wales\) \(Amendment\) Regulations 2015](#)

[Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(Diwygio\) 2015](#)
[The Government of Wales Act 2006 \(Amendment\) Order 2015](#)

[Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Uwch \(Cymru\)](#)
[Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Higher Education \(Wales\) Bill](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30 **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Questions to the First Minister

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The first item this afternoon is questions to the First Minister. Question 1: Elin Jones.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma. Cwestiwn 1: Elin Jones.

Trwyddedau Gyrru a Baner y Deyrnas Unedig

Driving Licences and the UK Flag

13:30 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyflwyno baner y Deyrnas Unedig yn hytrach na baner Cymru ar drwyddedau gyrru? OAQ(4)2055(FM)

1. What discussions has the First Minister had with the UK Government regarding introducing the UK flag rather than the Welsh flag on driving licences? OAQ(4)2055(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid oedd ymgynghoriad â ni ynglŷn â'r newidiadau. Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU er mwyn codi'r mater hwn. Dylai pobl, wrth gwrs, o leiaf gael y dewis.

There was no consultation with us on the changes. The Minister has written to the UK Government to raise this issue. People should of course at least be given the choice.

- 13:31 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch ichi am eich ymateb, Brif Weinidog. Un o fy etholwyr i gychwynnodd y ddeiseb i wrthod jac yr undeb ar y drwydded yrru. Mae 6,000 o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb yna. Mae Llywodraeth San Steffan wedi dweud y bydd baner jac yr undeb ar y trwyddedau yn cryfhau hunaniaeth Brydeinig ac undod. Mae'n amheus gen i mai drwy orfodaeth gan wladwriaeth y mae cryfhau hunaniaeth ac undod. Mae'n fy nharo i taw ymateb y 'Tories' i fgythyad UKIP sydd o bosib wrth wraidd y polisi yma. Mater i'r unigolyn yw penderfynu ar hunaniaeth ac undod, ac mae nifer o fy etholwyr i ac, o bosib, eich rhai chi hefyd, yn ystyried eu hunain yn Gymry cyn eu bod nhw'n ystyried eu hunain yn Brydeinwyr. Fel cyfaddawd, felly—ac rwy'n gobeithio bod hyn yn rhan o'r llythyr rŷch chi fel Llywodraeth wedi'i anfon at Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol—y dych chi wedi gofyn, ac efallai y gwnewch chi hyn yn glir yn eich ateb, fod o leiaf y ddraig goch yn cael ei chynnwys ar y drwydded, neu fod opsiwn i unigolyn gael y ddraig goch yn hytrach na jac yr undeb er mwyn diffinio eu hunaniaeth nhw eu hunain fel unigolion?
- Thank you for your response, First Minister. It was a constituent of mine who raised the petition to reject the union jack on driving licences, and 6,000 people have now signed that petition. The UK Government has said that the union jack flag on licences will enhance British national identity and unity. It is doubtful for me whether it is through compulsion by the state that we achieve that. It would appear to me that it's the Tories' response to the threat of UKIP that is at the heart of this policy. It's a matter for the individual to determine identity and unity, and a number of my constituents, and possibly yours, too, consider themselves to be Welsh before they consider themselves to be British. As a compromise, therefore—and I do hope that this forms part of the letter that you as a Government have sent to the UK Government—have you asked, and perhaps you could make this clear in your response, that the red dragon should at least be included on the licence, or that individuals should have the option of having the red dragon rather than the union jack to define their own national identity themselves, as individuals?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Bydd hwn yn rhywbeth y byddwn ni'n symud ymlaen gydag e. Mae hwn yn digwydd, wrth gwrs, gyda'r platiau rhifau ar geir. Y peth a welais i yr wythnos diwethaf, a'r esgus a oedd yn cael ei roi, oedd y pris. Wel, nid yw hynny'n ddigonol, wrth gwrs. Mi oedd yna drafod mawr ynglŷn â hwn pan oedd trafod ynglŷn â chael Cymraeg ar y pasbort. Mae hynny, wrth gwrs, wedi newid, o leiaf ar y dudalen flaen—y dudalen flaen y tu fewn, ta beth. Ond, na, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n symud y mater hwn ymlaen er mwyn rhoi'r dewis i bobl.
- This is something that we will be progressing. This is happening, of course, with number plates on cars. What I saw last week, and the excuse that was being given, was the price. Well, that's not good enough, of course. There was a great deal of discussion about this when having Welsh on passports was mooted. That, of course, has changed, at least on the front page—the front page on the inside, anyway. But, no, we will ensure that we move this issue forward to give people the choice.
- 13:32 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- While all is well and good to promote the Welsh flag on driving licences and elsewhere, and no-one is a prouder Welshman than I am, it does nothing to help the cause when we see public representatives using appalling language to refer to people who are part of our communities in Wales. First Minister, will you join me in condemning recent comments from Plaid councillor Eurig Wyn, who disgracefully referred to opponents of a planning application in Gwynedd—
- Er nad oes dim o'i le ar hyrwyddo baner Cymru ar drwyddedau gyrru ac mewn manau eraill, ac nad oes unrhyw un sy'n Gymro balchach na fi, nid yw'n gwneud dim i helpu'r achos pan welwn gynrychiolwyr cyhoeddus yn defnyddio iaith warthus i gyfeirio at bobl sy'n rhan o'n cymunedau yng Nghymru. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i gondemnio sylwadau diweddar gan gynghorydd Plaid Cymru Eurig Wyn, a gyfeiriodd yn warthus at wrthwynebwyr cais cynllunio yng Ngwynedd—
- 13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Sorry, I'm going to stop you there. Is this to do with the driving licence? I think not.
- Mae'n ddrwg gennyf, rwy'n mynd i'ch atal yn y fan yna. A yw hyn yn ymwneud â'r drwydded yrru? Nid wyf yn credu ei fod.
- 13:33 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It's to do with 'hunaniaeth', about being seen as a person living—
- Mae'n ymwneud â 'hunaniaeth', am gael eich gweld fel person yn byw—
- 13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think you're stretching it a little far, if I may say. So, can you come to a question?
- Rwy'n meddwl eich bod chi'n ymestyn pethau braidd, os caf i ddweud. Felly, a wnewch chi ofyn cwestiwn?

- 13:33 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Okay. Do you agree with me that calling people 'a gallery of immigrants' has no part to play in public discourse in Wales?
 Iawn. A ydych chi'n cytuno â mi nad oes gan galw pobl yn 'oriel o fewnfudwyr' unrhyw ran i'w chwarae mewn trafodaeth gyhoeddus yng Nghymru?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Yes. I think the remarks were very unfortunate. These were remarks not made by somebody wet behind the ears, but by a very experienced politician—somebody who was a former Member of the European Parliament and now a councillor. If a UKIP councillor had used these remarks, then of course we would all be condemning those remarks. I don't think we can have different standards for those in other parties, and I hope that Plaid Cymru, whose councillor, of course, uttered these remarks, will take the appropriate action. That's a matter for them, of course.
 Ydw. Rwy'n meddwl bod y sylwadau'n anffodus iawn. Ni wnaed y sylwadau hyn gan rywun anaeddfed, ond gan wleidydd profiadol iawn—rhywun a oedd yn gyn-Aelod o Senedd Ewrop ac sy'n gynghorydd erbyn hyn. Pe byddai cynghorydd UKIP wedi defnyddio'r sylwadau hyn, yna, wrth gwrs, byddem i gyd yn condemnio'r sylwadau hynny. Nid wyf yn credu y gallwn ni gael gwahanol safonau ar gyfer pobl mewn pleidiau eraill, ac rwy'n gobeithio y bydd Plaid Cymru, gan mai cynghorydd y blaid honno wnaeth y sylwadau, wrth gwrs, yn cymryd y camau priodol. Mater iddyn nhw yw hynny, wrth gwrs.
- 13:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Byron Davies, on driving licences.
 Byron Davies, ar drwyddedau gyrru.
- 13:34 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you very much, Presiding Officer. Back to driving licences then, First Minister. I can see why the nationalists would not want to strengthen the UK's sense of national identity by displaying a union flag on our driving licences, despite the UK driving licence being issued and organised at a UK authority level. As a proud Welshman myself, will you, First Minister, agree with me that many people in Wales are both proud to be Welsh and British, and will you, like me, carry a new, bilingual driving licence, with the union flag, with pride, emphasising the fact that you can be proud to be both Welsh and British?
 Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Yn ôl at drwyddedau gyrru, felly, Brif Weinidog. Gallaf weld pam na fyddai'r cenedlaetholwyr eisiau cryfhau synnwyr y DU o hunaniaeth genedlaethol trwy arddangos baner yr undeb ar ein trwyddedau gyrru, er gwaethaf y ffaith fod trwydded yrru'r DU yn cael ei chyhoeddi a'i threfnu ar lefel awdurdod y DU. A minnau'n Gymro balch fy hun, a wnewch chi, Brif Weinidog, gytuno â mi bod llawer o bobl yng Nghymru yn falch o fod yn Gymry ac yn Brydeinwyr, ac a wnewch chi, fel finnau, gario trwydded yrru newydd, ddwyieithog, â baner yr undeb arni, gyda balchder, gan bwysleisio'r ffaith y gallwch fod yn falch o fod yn Gymro ac yn Brydeiniwr?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 I think he's made a very coherent argument for people having a choice. I think people should have that opportunity. First of all, it's not a UK driving licence; it's a GB driving licence. Northern Ireland has its own driver licensing system and they have a European Union flag on their licences, as it happens, not a union flag. So, the idea of pulling people together within the union is not quite the correct argument; otherwise, Northern Ireland would also have a union flag—although, as we know, there are complications in Northern Ireland that would make that well-nigh impossible. But, no, my belief is—and he is right to say that most people in Wales find themselves in a position where they are proud to be both Welsh and British—that therefore they should have the opportunity to choose which flag, or even both, that they have on their licences. That choice has been denied to them by the UK Government.
 Rwy'n credu ei fod wedi dadlau'n rhesymegol iawn dros i bobl gael dewis. Rwy'n credu y dylai pobl gael y cyfle hwnnw. Yn gyntaf oll, nid trwydded yrru'r DU yw hi; trwydded yrru Prydain Fawr yw hi. Mae gan Ogledd Iwerddon ei system trwyddedu gyrrwyr eu hunain ac mae ganddyn nhw faner yr Undeb Ewropeaidd ar eu trwyddedau, fel mae'n digwydd, nid baner yr undeb. Felly, nid y syniad o dynnu pobl at ei gilydd o fewn yr undeb yw'r union ddaedl dan sylw; neu fel arall, byddai gan Ogledd Iwerddon faner yr undeb hefyd—er, fel y gwyddom, ceir cymhlethdodau yng Ngogledd Iwerddon a fyddai'n gwneud hynny mwy neu lai yn amhosibl. Ond, na, fy nghred i yw—ac mae'n iawn i ddweud bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn canfod eu hunain mewn sefyllfa lle maen nhw'n falch o fod yn Gymry a Phrydeinwyr—y dylent gael y cyfle felly i ddewis pa faner, neu hyd yn oed y ddwy, fydd ganddynt ar eu trwyddedau. Gwrthodwyd y dewis hwnnw iddynt gan Lywodraeth y DU.

Sector Addysg Uwch

The Higher Education Sector

13:35	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r sector addysg uwch yng Nghymru? OAQ(4)2058(FM)</i></p>	<p><i>2. What plans does the Welsh Government have to develop the higher education sector in Wales? OAQ(4)2058(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, we made a policy statement on higher education, which was published in June 2013. As the Member will know, a review of higher education funding and student finance is currently under way, and the call for evidence has been issued.</p>	<p>Wel, gwnaethom ddatganiad polisi ar addysg uwch, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae adolygiad o gyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr ar y gweill ar hyn o bryd, a gwnaed yr alwad am dystiolaeth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the First Minister for that response. Would he agree that the excellent results obtained in the research excellence framework, particularly in Cardiff University and in Swansea University, do increase the potential of Welsh universities to be leading players in the regenerations of our city regions?</p>	<p>Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. A fyddai'n cytuno bod y canlyniadau rhagorol a gafwyd yn y fframwaith rhagoriaeth ymchwil, yn enwedig ym Mhrifysgol Caerdydd ac ym Mhrifysgol Abertawe, yn cynyddu'r potensial i brifysgolion Cymru fod yn chwaraewyr blaenllaw yn y gwaith o adfywio ein dinas-ranbarthau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:36	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes, I do. The results of the framework show researchers in Wales are among the best in the UK, and the world. We intend to continue to build on these excellent results. We have, of course, the ongoing investment in the research sector, and programmes such as Sêr Cymru. They deliver long-term, sustainable economic and social benefits for Wales. And, of course, the broad range of support that we've put in place for science, innovation and commercialisation is important, in terms of developing our universities in the future. We look forward to working with our universities, in order to make them even more robust in facing the challenges that are out there, in terms of competition from universities, not just in the rest of the UK, but around the world.</p>	<p>Byddwn, mi fyddwn. Mae canlyniadau'r fframwaith yn dangos bod ymchwilwyr yng Nghymru ymhlith y gorau yn y DU, ac yn y byd. Rydym ni'n bwriadu parhau i adeiladu ar y canlyniadau rhagorol hyn. Mae gennym, wrth gwrs, y buddsoddiad parhaus yn y sector ymchwil, a rhaglenni fel Sêr Cymru. Maen nhw'n darparu manteision economaidd a chymdeithasol cynaliadwy hirdymor i Gymru. Ac, wrth gwrs, mae'r ystod eang o gefnogaeth yr ydym ni wedi ei chyflwyno ar gyfer gwyddoniaeth, arloesi a masnacheiddio yn bwysig, o ran datblygu ein prifysgolion yn y dyfodol. Rydym ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'n prifysgolion, er mwyn eu gwneud hyd yn oed yn fwy cadarn wrth wynebu'r heriau sy'n bodoli, o ran cystadleuaeth gan brifysgolion, nid yn unig yng ngweddill y DU, ond ar draws y byd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:36	<p>Angela Burns Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, Minister, I, too, join with you and with Julie Morgan in welcoming some of the great news that's coming out of our universities. I'm sure you'll agree with me that reputation is all-important in developing the higher education sector in Wales. Therefore, First Minister, I wonder whether you'd give your opinion on whether brand Wales should be used if the higher education sector in Wales finds itself once again hosting a group of confederated universities, or would that risk casting a negative light on the sector, given brand Wales's tainted history in this regard?</p>	<p>Wrth gwrs, Weinidog, rwyf innau, hefyd, yn ymuno â chi ac â Julie Morgan i groesawu rhywfaint o'r newyddion gwych sy'n dod allan o'n prifysgolion. Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno â mi bod enw da yn hollbwysig wrth ddatblygu'r sector addysg uwch yng Nghymru. Felly, Brif Weinidog, tybed a fydddech chi'n rhoi eich barn ynghylch pa un a ddylid defnyddio brand Cymru os yw'r sector addysg uwch yng Nghymru yn canfod ei hun, unwaith eto, yn croesawu grŵp o brifysgolion wedi'u cyd-ffedereiddio, neu a fyddai hynny'n creu perygl o fwrw goleuni negyddol ar y sector, o ystyried hanes llygredig brand Cymru yn hyn o beth?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:37

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I don't think Wales has a tainted history at all as a brand, or as a nation. It's a matter, of course, for universities as to how they market themselves, and whether they wish to collaborate—we will encourage them to do that where that is the right thing to do—or whether they wish to promote themselves around the world. But, I don't think in any way that promoting themselves as universities in Wales would mean that they would have a brand that was tainted. She refers, of course, to the University of Wales difficulties, which existed some years ago. That was with regard to a specific institution. I think we can overcome that, and promote Wales as a place of learning and expertise.

Nid wyf yn credu bod gan Gymru hanes llygredig o gwbl fel brand, nac fel cenedl. Mater i brifysgolion, wrth gwrs, yw sut maen nhw'n marchnata eu hunain, a pha un a ydynt yn dymuno cydweithredu—byddwn yn eu hannog i wneud hynny os mai dyna'r peth iawn i'w wneud—neu pa un a ydynt yn dymuno hyrwyddo eu hunain o gwmpas y byd. Ond, nid wyf yn credu mewn unrhyw ffordd y byddai hyrwyddo eu hunain fel prifysgolion yng Nghymru yn golygu y byddai ganddynt frand a oedd yn llygredig. Mae hi'n cyfeirio, wrth gwrs, at anawsterau Prifysgol Cymru, a oedd yn bodoli rai blynyddoedd yn ôl. Roedd hynny'n ymwneud â sefydliad penodol. Rwy'n meddwl y gallwn ni oresgyn hynny, a hyrwyddo Cymru fel man ar gyfer dysgu ac arbenigedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, er mwyn parhau â'r gwaith ardderchog mewn rhai prifysgolion o safbwynt ymchwil, rŷm ni newydd weld, yn ein hymchwiliad ymchwil, fod yn rhaid, wrth gwrs, barhau i fuddsoddi yn ein prifysgolion ni. Nawr, hyd yn oed bedair blynedd yn ôl, cyn cyflwyno'r polisi presennol o ffioedd dysgu, roedd prifysgolion yng Nghymru yn cwyno bod yna fwlch cyllido o £64 miliwn neu £65 miliwn. A ydy e'n fwrriad gyda chi, gyda'r adolygiad Diamond yn yr arfaeth, i barhau—os ydych chi'n Brif Weinidog yn y Cynulliad nesaf—â'r system o gyllido presennol ar gyfer myfyrwyr?

Well, to continue with the excellent work under way in some universities in terms of research, we have just seen, in our research inquiry, that we must, of course, continue to invest in our universities. Now, even four years ago, before the introduction of the current policy on tuition fees, universities in Wales were complaining that there was a funding gap of £64 million or £65 million. Is it your intention, given that the Diamond review is in the pipeline, to continue—if you are First Minister in the next Assembly—with the current system of funding for students?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Wel, mae hwnnw'n rhywbeth i faniifestos y pleidiau—rwy'n siŵr o hynny. Mae yna Fil o flaen y Cynulliad y prynhawn yma. Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod yna heriau sy'n wynebu'r sector, ac rwy'n siŵr y bydd pob plaid yn dod â'u polisïau o flaen etholwyr Cymru dros y flwyddyn nesaf.

Well, that is something for the party manifestos—I'm sure of that. There is a Bill before the Assembly this afternoon. We know, of course, that there are challenges facing the sector, and I'm sure that every party will be bringing their policies before the Welsh electorate over the next year.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon we have the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood sydd gyntaf y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Diolch, Lywydd. First Minister, the number of people waiting for longer than four hours at major accident and emergency departments is rising, and figures show that, for each of the past three Decembers, there has been little difference in the actual numbers of people attending those departments. In fact, there were slightly fewer people attending a major A&E last December than was the case in December 2013. What explanation can you give for the increase in the number of patients waiting longer for treatment at major A&E departments?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae nifer y bobl sy'n aros mwy na phedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr yn cynyddu, ac mae ffigurau'n dangos, ar gyfer pob un o'r tri mis Rhagfyr diwethaf, mai prin fu'r gwahaniaeth yn nifer wirioneddol y bobl a aeth i'r adrannau hynny. Yn wir, aeth ychydig yn llai o bobl i adrannau damweiniau ac achosion brys mawr fis Rhagfyr diwethaf nag oedd yn wir ym mis Rhagfyr 2013. Pa esboniad allwch chi ei roi am y cynnydd yn nifer y cleifion sy'n aros yn hwy am driniaeth mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have seen the pressures that have been in place—not just in Wales, but in England, in Scotland, and especially so in Northern Ireland. We expected the local health boards to come forward with their winter plans. Those plans have, by and large, been robust. It is not right to say that A&E times are rising now—they're not; they're now dropping—but it is right to say that, for around about a week, things were exceptionally difficult, and I thank NHS staff for the work that they did.

Rydym ni wedi gweld y pwysau a fu ar waith—nid yn unig yng Nghymru, ond yn Lloegr, yn yr Alban, ac yn arbennig felly yng Ngogledd Iwerddon. Roeddem ni'n disgwyl i'r byrddau iechyd lleol gyflwyno eu cynlluniau gaeaf. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau hynny wedi bod yn gadarn. Nid yw'n iawn i ddweud bod amseroedd damweiniau ac achosion brys yn cynyddu nawr—dydyn nhw ddim; maen nhw'n gostwng bellach—ond mae'n iawn i ddweud, am tua wythnos, bod pethau'n eithriadol o anodd, ac rwy'n diolch i staff y GIG am y gwaith a wnaethant.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There's been no increase in the numbers of people actually attending A&E but people are waiting longer when they're there. Isn't it the case that the problem is down to a lack of access to GPs and also the inability of GPs to refer on to community hospital beds, because they've been cut? On the other hand, beds in hospitals are being occupied by people who are not being able to be transferred into social care. Now, if you accept that these are the causes of some of these pressures, can you tell us what you intend to do about it, please?

Ni fu unrhyw gynnydd yn nifer y bobl a aeth i adrannau damweiniau ac achosion brys mewn gwirionedd ond mae pobl yn aros yn hwy pan fyddant yno. Onid yw'n wir bod y broblem yn bodoli oherwydd diffyg mynediad at feddygon teulu yn ogystal ag anallu meddygon teulu i gyfeirio ymlaen at welyau ysbytai cymuned, gan eu bod wedi eu torri? Ar y llaw arall, mae gwelyau mewn ysbytai yn cael eu llenwi gan bobl nad ydynt yn gallu cael eu trosglwyddo i ofal cymdeithasol. Nawr, os ydych chi'n derbyn mai'r rhain yw achosion rhywfaint o'r pwysau hyn, a allwch chi ddweud wrthym beth yr ydych chi'n bwriadu ei wneud am y peth, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, first of all, it's not right to say that the numbers of people coming into A&E have been stable for some years. We have seen a pressure in the last—well, it's about a fortnight ago now. That was the greatest pressure for five years. I think what she means is that the numbers of people coming through in December were below the numbers of people going through in the summer. That much is true, but then, what we have found is that the people who come through A&E in the summer tend to be people quite often who have had accidents, so they're out, and they can be resolved very, very quickly. The people who come in in the winter tend to have more complex conditions, particularly elderly people, and particularly respiratory conditions. That means they take longer to treat. So, looking at the numbers doesn't give the full picture. Also, bear in mind that the effect of the flu that we've seen has also had an effect on the staff, and that, of course, has meant that staff have not been available in the numbers that we would want because of the effect that the flu has had on them. So, simply comparing July, for example, with December doesn't give a true comparison because, of course, the conditions treated in the summer are very different from the conditions treated in December.

Wel, yn gyntaf oll, nid yw'n gywir dweud bod nifer y bobl sy'n dod i mewn adrannau damweiniau ac achosion brys wedi bod yn sefydlog ers rhai blynnyddoedd. Rydym ni wedi gweld pwysau yn ystod—wel, mae tua phythefnos yn ôl erbyn hyn. Dyna oedd y pwysau mwyaf ers pum mlynedd. Rwy'n credu mai'r hyn y mae hi'n ei olygu yw bod nifer y bobl a ddaeth i mewn ym mis Rhagfyr yn is na nifer y bobl a ddaeth i mewn yn yr haf. Mae cymaint â hynny'n wir, ond wedyn, yr hyn yr ydym ni wedi ei ganfod yw bod y bobl sy'n dod trwy adrannau damweiniau ac achosion brys yn yr haf yn tueddu i fod yn bobl yn aml iawn sydd wedi cael damweiniau, felly maen nhw allan, a gellir eu datrys yn gyflym iawn, iawn. Mae'r bobl sy'n dod i mewn yn y gaeaf yn tueddu i fod â chyflyrau mwy cymhleth, yn enwedig pobl oedrannus, ac yn enwedig cyflyrau anadlol. Mae hynny'n golygu ei bod yn cymryd mwy o amser i'w trin. Felly, nid yw edrych ar y niferoedd yn rhoi'r darlun llawn. Hefyd, cofiwch fod effaith y ffliw yr ydym ni wedi ei gweld hefyd wedi cael effaith ar y staff, ac, wrth gwrs, wedi golygu nad yw staff wedi bod ar gael yn y niferoedd y byddem yn ei ddymuno oherwydd yr effaith y mae'r ffliw wedi ei chael arnynt. Felly, nid yw cymharu Gorffennaf, er enghraifft, â Rhagfyr yn cynnig cymhariaeth gywir oherwydd, wrth gwrs, bod y cyflyrau sy'n cael eu trin yn yr haf yn wahanol iawn i'r cyflyrau sy'n cael eu trin ym mis Rhagfyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would accept, First Minister, that we have an ageing population, many people have chronic conditions, and when those patients come to A&E they will require more intensive care than some of the more straightforward conditions that we might see during the summer months. But there are pressures and those pressures are twofold. One of the reasons is down to a lack of doctors, and of course, you'll be aware that Plaid Cymru's proposal is to recruit an additional 1,000 doctors—proposals that you have dismissed. So, why is it, then, that against this backdrop, the Welsh Government has slashed spending on doctor recruitment from over £45,000 in 2012-13 to less than £3,500 in this financial year? Is it not the case, First Minister, that due to such poor planning on your part, patients can expect further deterioration next winter?

Byddwn yn derbyn, Brif Weinidog, fod gennym boblogaeth sy'n heneiddio, bod gan lawer o bobl gyflyrau cronig, a phan fydd y cleifion hynny'n dod i adrannau damweiniau ac achosion brys, bod angen gofal mwy dwys arnynt na rhai o'r cyflyrau mwy syml y gallem ni eu gweld yn ystod misoedd yr haf. Ond ceir pwysau ac mae'r pwysau hwnnw'n ddeublyg. Un o'r rhesymau yw diffyg meddygon, ac wrth gwrs, byddwch yn ymwybodol mai cynnig Plaid Cymru yw recriwtio 1,000 o feddygon ychwanegol—cynnigion yr ydych chi wedi eu gwrthod. Felly, pam felly, yn erbyn y cefndir hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi torri gwariant ar recriwtio meddygon o fwy na £45,000 yn 2012-13 i lai na £3,500 yn y flwyddyn ariannol hon? Onid yw'n wir, Brif Weinidog, y gall cleifion ddisgwyl dirywiad pellach y gaeaf nesaf oherwydd cynllunio mor wael ar eich rhan chi?

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

No, because you have to remember, of course, that when we look at doctor recruitment, it's a world market not a Welsh market. You can train as many doctors as you want in Wales, but if they don't stay in Wales then it doesn't help you. Now, what we need to do is to continue with the work of making sure that we have hospital departments that are attractive, in terms of bringing in the top consultants. That is by far the most important factor. I've heard what she said about the 1,000 doctors, and we've discussed this at length in this Chamber. I mean, the questions I still would have are, which specialism did you mean with those 1,000 doctors, and where do they come from, because they're not out there? There are great difficulties in saying that it's possible to recruit a substantial number of doctors, when everybody knows that they are not there in those numbers. It also is the case that it takes 10 years to train a consultant. You can't train somebody in a few years. Also, if you train people in Wales, they can just as easily go somewhere else to practise. What we need to do is to make sure, as we have been doing, that Wales is an attractive place to practise, and bring doctors in from outside Wales in order to practise in Wales.

Nac ydy, oherwydd mae'n rhaid i chi gofio, wrth gwrs, pan fyddwn ni'n edrych ar recriwtio meddygon, ei bod yn farchnad byd-eang nid marchnad Gymreig. Gallwch hyfforddi cynifer o feddygon ag y dymunwch yng Nghymru, ond os nad ydynt yn aros yng Nghymru, yna nid yw'n eich helpu. Nawr, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw parhau gyda'r gwaith o wneud yn siŵr bod gennym adrannau ysbty sy'n ddeniadol, o ran denu'r ymgynghorwyr gorau. Dyna yw'r ffactor pwysicaf o bell ffordd. Rwyf wedi clywed yr hyn a ddywedodd am y 1,000 o feddygon, ac rydym ni wedi trafod hyn yn helaeth yn y Siambr hon. Hynny yw, y cwestiynau a fyddai gennyf fi o hyd fyddai pa arbenigedd oeddech chi'n ei olygu gyda'r 1,000 o feddygon hynny, ac o ble maen nhw'n mynd i ddod, gan nad ydyn nhw ar gael? Ceir anawsterau mawr o ran dweud ei bod yn bosibl recriwtio nifer sylweddol o feddygon, pan fo pawb yn gwybod nad ydyn nhw ar gael yn y niferoedd hynny. Mae hefyd yn wir ei bod yn cymryd 10 mlynedd i hyfforddi ymgynghorydd. Ni allwch chi hyfforddi rhywun mewn ychydig flynyddoedd. Hefyd, os byddwch chi'n hyfforddi pobl yng Nghymru, gallant fynd i rywle arall i ymarfer yr un mor rhwydd. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw gwneud yn siŵr, fel yr ydym ni wedi bod yn ei wneud, bod Cymru yn lle deniadol i ymarfer, a dod â meddygon i mewn o'r tu allan i Gymru er mwyn iddynt ymarfer yng Nghymru.

These are pressures and challenges that exist across Wales, England, Scotland and, indeed, Northern Ireland. We have the medical recruitment campaign. The vacancy rate that exists amongst doctors in Wales is very low, at 5% or below and, of course, our LHBs do all that they can to recruit consultants where they are able to, including advertising abroad, which is exceptionally important in what is a world market.

Mae'r rhain yn bwysau a heriau sy'n bodoli ledled Cymru, Lloegr, yr Alban ac, yn wir, Gogledd Iwerddon. Mae'r ymgyrch recriwtio meddygol gennym. Mae'r gyfradd swyddi gwag sy'n bodoli ymhlith meddygon yng Nghymru yn isel iawn, 5% neu'n is ac, wrth gwrs, mae ein BILLau yn gwneud popeth o fewn eu gallu i recriwtio ymgynghorwyr pryd y gallant, gan gynnwys hysbysebu dramor, sy'n eithriadol o bwysig mewn marchnad sy'n fydd-eang.

13:44

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:44

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you, Presiding Officer. First Minister, your Government 2008 framework for the foundation phase says:

'We aim to ensure that all children and young people...are not disadvantaged by any type of poverty.'

Last week, a study by Cardiff University said that the foundation phase had not been associated with any significant changes in the differences in outcomes for children from poorer backgrounds. Why has the foundation phase not achieved its framework aims?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae fframwaith 2008 eich Llywodraeth ar gyfer y cyfnod sylfaen yn dweud:

'Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc...heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.'

Yr wythnos diwethaf, dywedodd astudiaeth gan Brifysgol Caerdydd nad oedd y cyfnod sylfaen wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwahaniaethau mewn canlyniadau i blant o gefndiroedd tlotach. Pam nad yw'r cyfnod sylfaen wedi cyflawni ei nodau fframwaith?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, the foundation phase, of course, is still fairly new—it has been there for some years, that's true—but it will take some time to understand how the foundation phase affects young children as they go through school up to the age of 16. The foundation phase, of itself, can't deliver a reduction in attainment levels. The pupil deprivation grant is one area where that can help and, of course, schemes such as schools challenge Cymru, which seek to help those schools who need help the most.

Wel, mae'r cyfnod sylfaen, wrth gwrs, yn dal i fod yn weddol newydd—mae wedi bod yno ers rhai blyneddoddedd, mae hynny'n wir—ond bydd yn cymryd cryn amser i ddeall sut mae'r cyfnod sylfaen yn effeithio ar blant ifanc wrth iddynt fynd drwy'r ysgol hyd at 16 oed. Ni all y cyfnod sylfaen, ar ei ben ei hun, arwain at ostyngiad i lefelau cyrhaeddiad. Mae'r grant amddifadedd disgyblion yn un maes lle y gall hynny helpu ac, wrth gwrs, cynlluniau fel her ysgolion Cymru, sy'n ceisio helpu'r ysgolion hynny sydd angen cymorth fwyaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it was a stated aim in your framework for the foundation phase that it would assist in that particular goal, and I'm still not clear from your answer this afternoon why you feel that has not been achieved. Three years ago, your then Minister for Education and Skills, Leighton Andrews, described the literacy and numeracy framework as a key tool

'to transform standards of literacy and numeracy in Wales'.

Last week, Estyn found that the provision for the development of literacy remains just 'adequate' and that standards of literacy were much the same in 2014 as they had been in 2012. Is adequacy the transformation that your Government was hoping for?

Brif Weinidog, roedd yn nod datganedig yn eich fframwaith ar gyfer y cyfnod sylfaen y byddai'n cynorthwyo yn y nod penodol hwnnw, ac nid wyf yn eglur o hyd o'ch ateb y prynhawn yma pam yr ydych chi'n teimlo nad yw hynny wedi cael ei gyflawni. Dair blynedd yn ôl, disgrifiodd eich Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Leighton Andrews, y fframwaith llythrennedd a rhifedd fel dull allweddol

i weddnewid safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru.

Yr wythnos diwethaf, canfu Estyn fod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd yn parhau i fod dim ond yn 'ddigonol', a bod safonau llythrennedd fwy neu lai yr un fath yn 2014 ag yr oeddent yn 2012. Ai digonolrwydd oedd y gweddnewid yr oedd eich Llywodraeth yn gobeithio amdano?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

No, but bear in mind, of course, that literacy and numeracy as subjects being taught in the comprehensive schools, for example, have only just started. They started in September. That is when this cohort of students started studying those subjects as stand-alone subjects. And, of course, we expect to see an increase in literacy and numeracy as a result of the changes that, in fairness, have only been in place for the last five months.

Nage, ond cofiwch, wrth gwrs, bod llythrennedd a rhifedd fel pynciau sy'n cael eu dysgu yn yr ysgolion cyfun, er enghraifft, dim ond newydd ddechrau. Fe'u dechreuwyd ym mis Medi. Dyna pryd y dechreuodd y garfan hon o fyfyrwyr astudio'r pynciau hynny fel pynciau annibynnol. Ac, wrth gwrs, rydym ni'n disgwyl gweld cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd o ganlyniad i'r newidiadau sydd, a bod yn deg, dim ond wedi bod ar waith ers pum mis.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, your then education Minister said that that programme would be transformational. Two years later, it is simply described by your own inspectors as 'adequate'. You would agree with me, I am sure, that the key to Wales's future economic success is a highly skilled workforce, and that literacy and numeracy are the bedrock of that. We also know that tracking of individual pupils' attainment is successful, but last week's report goes on to say that the tracking of pupils' literacy skills remains 'under-developed in most schools'. Now, Welsh Liberal Democrats have consistently called for a national tracking programme. Why is your Government tolerating a system that means that most schools are not tracking the literacy skills of their pupils properly?

Brif Weinidog, dywedodd eich Gweinidog addysg ar y pryd y byddai'r rhaglen yn weddnewidiol. Dwy flynedd yn ddiweddarach, fe'i disgrifir yn syml gan eich arolygwyr eich hun fel bob yn 'ddigonol'. Byddech yn cytuno â mi, rwy'n siŵr, mai'r allwedd i lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol yw gweithlu hynod fedrus, ac mai llythrennedd a rhifedd yw sylfaen hynny. Gwyddom hefyd fod olrhain cyrhaeddiad disgyblion unigol yn llwyddiannus, ond mae adroddiad yr wythnos ddiwethaf yn mynd ymlaen i ddweud bod olrhain sgiliau llythrennedd disgyblion 'wedi'i danddatblygu o hyd yn y rhan fwyaf o ysgolion'. Nawr, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi galw'n gyson am raglen olrhain genedlaethol. Pam mae eich Llywodraeth yn goddef system sy'n golygu nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn olrhain sgiliau llythrennedd eu disgyblion yn briodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I don't believe that that's fair or right, bearing in mind, of course—. She is right to point out that the literacy and numeracy framework is something that'll be transformative, but I think two years is pretty soon in terms of seeing the scale of that transformation. For many students, as I've said, they started studying those subjects as discrete subjects in September. We expect to see that transformation take place in the next few years. I'll give you an example with what has happened to GCSEs. We know that the gap that did exist in terms of getting five good GCSEs with England has been almost closed. We're in a good position this summer to be on a par and, we hope, doing better than England when it comes to GCSEs. So, we see the work that schools have done in terms of improving GCSE performance, and I expect to see the literacy and numeracy framework having that transformative effect over the next few years.

Nid wyf yn credu bod hynny'n deg nac yn gywir, o gofio, wrth gwrs—. Mae hi'n iawn i nodi bod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn rhywbeth a fydd yn weddnewidiol, ond rwy'n credu bod dwy flynedd yn eithaf buan o ran gweld maint y gweddnewid hwnnw. I lawer o fyfyrwyr, fel rwyf wedi dweud, dechreuasant astudio'r pynciau hynny fel pynciau ar wahân ym mis Medi. Rydym ni'n disgwyl gweld y gweddnewid hwnnw'n digwydd yn ychydig flynyddoedd nesaf. Rhoddaf enghraifft i chi o ran yr hyn sydd wedi digwydd i gymwysterau TGAU. Rydym ni'n gwybod bod y bwch a oedd yn bodoli o ran cael pum TGAU da gyda Lloegr bron wedi ei gau. Rydym ni mewn sefyllfa dda yr haf hwn i fod ar yr un lefel a, gobeithio, gwneud yn well na Lloegr pan ddaw i gymwysterau TGAU. Felly, rydym ni'n gweld y gwaith y mae ysgolion wedi ei wneud o ran gwella perfformiad TGAU, ac rwy'n disgwyl gweld y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cael yr effaith weddnewidiol honno dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, last week your Government announced an additional £40 million to address the problems that accident and emergency in the NHS in Wales have faced with the extraordinary pressures that have been placed on it, and we welcome that additional money to go into the NHS here in Wales. If you'd listened to us in the first place, then many of the emergency infusions—[Interruption.] The muttering can continue, but many of the emergency infusions that this Government has made to the NHS since 2011 have caused real concern. Are they just a sticking plaster to cover up a gaping wound? Excuse the pun. What is serious here now is that you are just responding in a knee-jerk way to many instances that are facing us in the Welsh NHS. How can we have any confidence that that £40 million will actually buy some real resilience in the A&E service so that patients and clinicians will not find themselves facing the chronic waits and the pressures and stresses that they have had to face over recent weeks?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd eich Llywodraeth £40 miliwn yn ychwanegol i fynd i'r afael â'r problemau y mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn y GIG yng Nghymru wedi eu hwynebu yn sgil y pwysau eithriadol a roddwyd arno, ac rydym ni'n croesawu'r arian ychwanegol hwnnw i fynd i mewn i'r GIG yma yng Nghymru. Pe byddech chi wedi gwrandao arnom ni yn y lle cyntaf, yna byddai llawer o'r cyfraniadau brys— [Torri ar draws.] Gall y mwrmian barhau, ond mae llawer o'r cyfraniadau brys y mae'r Llywodraeth hon wedi eu gwneud i'r GIG ers 2011 wedi achosi pryder gwirioneddol. Ai dim ond plaster ydyn nhw i orchuddio clwyf enfawr? Esgusodwch y chwarae ar eiriau. Yr hyn sy'n ddifrifol yma nawr yw mai dim ond ymateb mewn ffordd ddifeddwl ydych chi i nifer o achosion sy'n ein hwynebu yn y GIG yng Nghymru. Sut allwn ni fod ag unrhyw ffydd y bydd y £40 miliwn hwnnw wir yn prynu rhywfaint o gydnerthedd gwirioneddol yn y gwasanaeth damweiniau ac achosion brys fel na fydd cleifion a chlingwyr yn canfod eu hunain yn wynebu'r amseroedd aros cronig a'r pwysau a'r straen y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu dros yr wythnosau diwethaf?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, we have done exactly, oddly enough, what his party has done in England, which is provide extra money to cope with winter pressures. We had hoped that there would be a consequential. We were told firmly that there wouldn't be, so we've had to find that money from our own reserves. Now, in terms of how that money will be spent, we've had the NHS winter plans in place, and they've proven to be, by and large, robust. Nobody could have foreseen—this is not just true of Wales; it is true of all parts of the UK—the surge that would happen in one week, largely because of flu, and a particular strain of flu that was not identified as part of the vaccine for this year, presumably because it didn't exist at that time. Now, of course, we see that the pressures on A&E are diminishing compared with the very difficult situation that existed some 10 to 14 days ago. We expect, of course, the LHBs now to use that money to make sure that the difficulties they've all experienced over the past week or two continue to become less of an issue.

Yn gyntaf oll, ac yn ddigon rhyfedd, rydym ni wedi gwneud yn union yr hyn y mae ei blaid ef wedi ei wneud yn Lloegr, sef darparu arian ychwanegol i ymdopi â phwysau'r gaeaf. Roeddem ni wedi gobeithio y byddai cyllid canlyniadol. Dywedwyd wrthym yn bendant na fyddai, felly bu'n rhaid i ni ddod o hyd i'r arian hwnnw o'n cronfeydd wrth gefn ein hunain. Nawr, o ran sut y bydd yr arian hwnnw'n cael ei wario, mae cynlluniau gaeaf y GIG wedi bod ar waith gennym, ac, ar y cyfan, maen nhw wedi bod yn gadarn. Ni allai neb fod wedi rhagweld—nid am Gymru'n unig y mae hyn yn wir; mae'n wir am bob rhan o'r DU—yr ymchwydd a fyddai'n digwydd mewn un wythnos, yn bennaf oherwydd y ffliw, a straen benodol o ffliw na nodwyd yn rhan o'r brechlyn ar gyfer eleni, gan nad oedd yn bodoli ar yr adeg honno mae'n debyg. Nawr, wrth gwrs, rydym ni'n gweld bod y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn lleihau o'i gymharu â'r sefyllfa anodd iawn a fodolai rhyw 10 i 14 diwrnod yn ôl. Rydym ni'n disgwyl, wrth gwrs, i'r BILLau ddefnyddio'r arian hwnnw nawr i wneud yn siŵr bod yr anawsterau y maen nhw i gyd wedi eu profi dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf yn parhau i ddod yn llai o broblem.

13:50

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you're wrong to say you've done the same as has happened at a UK level. The UK Government made the money available in the summer of last year to address potential winter pressures that were anticipated for this winter. That is a fact—£400 million was made available in July. The real concern, whilst welcoming the additional money, is that it is just throwing money at the system without any long-term plan to address the resilience of the service to meet the demand spikes. Now, Tina Donnelly, for example, of the Royal College of Nursing, has talked of an additional 1,000 acute nurses who are required to meet the demand that is placed week in, week out on the Welsh NHS. Do you believe that, this time next year, there will be more or fewer nurses in the Welsh NHS, and will your Government be making any progress to address the concerns identified by Tina Donnelly and the shortage of nurses within the Welsh NHS?

Brif Weinidog, rydych chi'n anghywir i ddweud eich bod wedi gwneud yr un fath â'r hyn sydd wedi digwydd ar lefel y DU. Rhoddodd Llywodraeth y DU yr arian ar gael yn ystod haf y llynedd i fynd i'r afael â phwysau posibl y gaeaf a ragwelwyd ar gyfer y gaeaf hwn. Mae hynny'n ffaith—rhoddwyd £400 miliwn ar gael ym mis Gorffennaf. Y gwir bryder, er fy mod yn croesawu'r arian ychwanegol, yw mai dim ond achos o daflu arian at y system heb unrhyw gynllun hirdymor i fynd i'r afael â chydnerthedd y gwasanaeth i fodloni'r adegau o gynnydd mewn galw yw hyn. Nawr, mae Tina Donnelly, er enghraifft, o Goleg Brenhinol y Nyrsys, wedi sôn am 1,000 o nyrsys aciwt ychwanegol sydd eu hangen i fodloni'r galw a welir wythnos ar ôl wythnos yn y GIG yng Nghymru. A ydych chi'n credu, yr adeg hon y flwyddyn nesaf, y bydd mwy neu lai o nyrsys yn y GIG yng Nghymru, ac a fydd eich Llywodraeth yn gwneud unrhyw gynnydd i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan Tina Donnelly a'r prinder o nyrsys yn y GIG yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We will always, of course, work with the RCN, and I note Tina Donnelly's words that the NHS shouldn't be a political football, which echo the words of Jeremy Hunt, and they're words that I particularly welcome. We will also expect LHBs to staff departments at an appropriate level. There will be occasions, as we saw recently, when demand increases exponentially compared with what is normally the case, and, of course, we would expect LHBs to have plans in place to deal with such surges in demand, which, by and large, they did. I expect to see all departments in every hospital staffed at the correct level, whether it is doctors and nurses or whether it is support staff, physiotherapists, occupational therapists and speech and language therapists—all of these professions come together in order to deliver our NHS.

Byddwn bob amser, wrth gwrs, yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys, a nodaf eiriau Tina Donnelly na ddylai'r GIG fod yn bêl-droed wleidyddol, sy'n adleisio geiriau Jeremy Hunt, ac maen nhw'n eiriau rwy'n eu croesawu'n arbennig. Byddwn hefyd yn disgwyl i BILlau staffio adrannau ar lefel briodol. Bydd achlysuron, fel y gwelwch yn ddiweddar, pan fydd galw'n cynyddu'n gynt a chynt o'i gymharu â'r hyn sy'n wir fel arfer, ac, wrth gwrs, byddem yn disgwyl i BILlau fod â chynlluniau ar waith i ymdopi ag ymchwydd o'r fath mewn galw, a gwnaethant hynny ar y cyfan. Rwy'n disgwyl gweld pob adran ym mhob ysbty wedi ei staffio ar y lefel gywir, boed hynny'n feddygon a nyrsys neu'n staff cynorthwyol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a therapyddion lleferydd ac iaith—mae'r holl broffesiynau hyn yn dod at ei gilydd er mwyn darparu ein GIG.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do notice, and others will have noticed, that you gave no commitment as to the number of nurses we can expect in 12 months' time—whether we are going to have more nurses or fewer nurses. I think that some clarity on that, so that the nurses who have been at the fighting edge of this crisis over the last three to four weeks could, ultimately, know that the Welsh Government is going to invest in their profession—.

Let me put another question to you, then: the other pressure point seems to be the number of beds that are available in hospitals, as identified by the leading consultant at Wrexham Maelor Hospital when he said that the beds just do not exist in the hospitals now so that we can move patients out of A&E and into the hospital environment. We've lost 20% of the beds over recent years within the hospital environment here in Wales as a direct decision of the funding commitments your Government has made. Will there be more beds available in the Welsh NHS this time next year, or will we be facing the same situation of fewer beds available for surgeons to direct patients to that hospital environment?

Rwyf yn sylwi, a bydd eraill wedi sylwi, na roesoch unrhyw ymrwymiad o ran nifer y nyrsys y gallwn eu disgwyl ymhen blwyddyn—pa un a ydym ni'n mynd i fod â mwy o nyrsys neu lai o nyrsys. Credaf y gallai rhywfaint o eglurder am hynny, fel bod y nyrsys sydd wedi bod ar flaen y gad yn ystod yr argyfwng hwn dros y tair i bedair wythnos diwethaf yn gwybod, yn y pen draw, bod Llywodraeth Cymru yn mynd i fuddsoddi yn eu proffesiwn—.

Gadewch i mi ofyn cwestiwn arall i chi, felly: mae'n ymddangos mai'r pwynt arall o bwysau yw nifer y gwelyau sydd ar gael mewn ysbytai, fel y nodwyd gan yr ymgynghorydd arweiniol yn Ysbyty Maelor Wrecsam pan ddywedodd nad yw'r gwelyau'n bodoli yn yr ysbytai erbyn hyn fel y gallwn symud cleifion allan o adrannau damweiniau ac achosion brys ac i mewn i ysbytai. Rydym ni wedi colli 20% o'r gwelyau dros y blynyddoedd diwethaf mewn ysbytai yma yng Nghymru o ganlyniad i benderfyniad uniongyrchol yr ymrwymadau cyllido y mae eich Llywodraeth chi wedi eu gwneud. A fydd mwy o welyau ar gael yn y GIG yng Nghymru yr adeg hon y flwyddyn nesaf, neu a fyddwn ni'n wynebu'r un sefyllfa o lai o welyau ar gael i lawfeddygon i gyfeirio cleifion i'r ysbytai hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, my understanding is that we have more beds per head in Wales than in England. Wel, fy nealltwriaeth i yw bod gennym ni fwy o welyau fesul pen yng Nghymru nag sydd yn Lloegr.
- 13:52 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
That's not the question. That's not the question—20% fewer beds. Nid dyna'r cwestiwn. Nid dyna'r cwestiwn—20% yn llai o welyau.
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
It is the case. It is the case—it is absolutely true that that is the case. The reality is, then, that, if that is true, England has seen some substantial reductions in bed numbers, well beyond what he even says is correct of Wales. It is not simply a question of beds; it is a question of getting more people out of hospital when they are ready through dealing with delayed transfers of care, which we see increasing in England because social services' budgets are being cut. It is a fact that we have more beds per head in Wales than in England. It is, secondly, the case that beds are just part of the picture. It is important that people are able to return home as quickly as possible in order for those beds to be made available, and that's why, of course, we have focused very strongly on delayed transfers of care, which are going in the right direction in Wales—they're going in the opposite direction in England. Dyna'r ffaith. Dyna'r ffaith—mae'n gwbl wir mai dyna'r ffaith. Y gwir amdani, felly, yw, os yw hynny'n wir, y bu gostyngiadau sylweddol yn nifer y gwelyau yn Lloegr, ymhell y tu hwnt i'r hyn y mae e'n ei ddweud sy'n wir yng Nghymru hyd yn oed. Nid yw'n fater syml o welyau; mae'n fater o gael mwy o bobl allan o'r ysbyty pan eu bod yn barod trwy ymdrin ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, yr ydym yn eu gweld yn cynyddu yn Lloegr gan fod cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu torri. Mae'n ffaith fod gennym fwy o welyau fesul pen yng Nghymru nag yn Lloegr. Yn ail, mae'n wir mai dim ond rhan o'r darlun yw gwelyau. Mae'n bwysig fod pobl yn gallu dychwelyd adref cyn gynted â phosibl er mwyn bod y gwelyau hynny ar gael, a dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni wedi canolbwyntio'n gryf iawn ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, sy'n symud i'r cyfeiriad cywir yng Nghymru—maen nhw'n symud i'r cyfeiriad arall yn Lloegr.
- 13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We now move back to questions on the paper, and it is question 3—Eluned Parrott. Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr, a chwestiwn 3—Eluned Parrott.

Problemau Teithio ar Reilffyrdd

Rail Travel Disruption

- 13:53 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y problemau teithio sydd wedi deillio o waith i wella rheilffyrdd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)2057(FM)
3. Will the First Minister make a statement regarding the travel disruption that has resulted from rail improvement works in South Wales Central? OAQ(4)2057(FM)
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rail infrastructure, of course, is non-devolved, but any disruption experienced by passengers as a result of these works is regrettable. We are working closely with Network Rail and the rail industry to ensure better performance and minimal disruption. Nid yw'r seilwaith rheilffyrdd, wrth gwrs, wedi ei ddatganoli, ond mae unrhyw darfu y mae teithwyr yn ei ddioddef o ganlyniad i'r gwaith hwn yn destun gofid. Rydym ni'n gweithio'n agos â Network Rail a'r diwydiant rheilffyrdd i sicrhau gwell perfformiad a chyn lleied o darfu â phosibl.

13:54

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. You'll know that the Windsor bridge has been closed in Cardiff, and there may be other bridges in the area that will need to be closed at the same time—that will be closed for more than a year. I've had complaints from local people that the diversion signs are small, infrequent and unclear, and, from some directions, they actually still direct you over the closed road, where there is an absent bridge. As project manager for Valleys lines electrification, how will you ensure that this kind of disruption is minimised when we're having those transformational works on our own infrastructure? Can you liaise with Network Rail, Cardiff council and the trunk road agencies to improve the current situation in Splott and Adamsdown, which is truly chaotic sometimes?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod bod pont Windsor wedi ei chau yng Nghaerdydd, ac efallai y bydd pontydd eraill yn yr ardal y bydd angen eu cau ar yr un pryd—a fydd ar gau am fwy na blwyddyn. Rwyf wedi cael cwynion gan bobl leol bod yr arwyddion gwyrriad yn fach, yn brin ac yn aneglur, ac, o rai cyfeiriadau, mae nhw'n dal i'ch cyfeirio ar hyd y ffordd sydd ar gau, lle nad oes pont. Fel rheolwr prosiect trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, sut wnewch chi sicrhau bod cyn lleied o'r math hwn o darfu â phosibl pan fyddwn ni'n cael y gwaith trawsnewidiol hwnnw ar ein seilwaith ein hunain? A allwch chi drafod â Network Rail, cyngor Caerdydd a'r asiantaethau cefnffyrdd i wella'r sefyllfa bresennol yn Sblot ac Adamsdown, sydd wir yn draed moch weithiau?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I'm not the project manager for electrification; I've many, many roles, but that's one that I think I'll have to decline at this stage. I think that the point she raises is this: the sheer amount of time it's proposed to carry out these works. We have those concerns as well. The fact, for example, that the Windsor Road bridge will reopen next spring is of immense concern to us. We know that, as a result of Valleys lines electrification, there will be other bridges that will need work, and what we do not want to see is work taking too long, for there to be disruption in many Valleys communities—more than would otherwise be the case—and the same is true of the Windsor Road bridge. I know that the Minister has requested regular updates from Network Rail and I think it is fair to say we expect this work to be carried out as quickly as possible, because I know of the disruption that's occurring, of course, for many citizens—not just of Cardiff, but for people who commute into the city.

Wel, nid fi yw'r rheolwr prosiect trydaneiddio; mae gen i lawer iawn o swyddogaethau, ond mae honno'n un yr wyf yn credu y bydd yn rhaid i mi ei gwrthod ar hyn o bryd. Credaf mai'r pwynt y mae hi'n ei godi yw hwn: yr amser y bwriedir ei gymryd i wneud y gwaith hwn. Mae'r pryderon hynny gennym ninnau hefyd. Mae'r ffaith, er enghraifft, y bydd pont Heol Windsor yn ailagor y gwanwyn nesaf yn destun pryder mawr i ni. Rydym ni'n gwybod, o ganlyniad i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, y bydd pontydd eraill y bydd angen gwneud gwaith arnynt, a'r hyn nad ydym eisiau ei weld yw gwaith yn cymryd gormod o amser, i darfu ar lawer o gymunedau yn y Cymoedd—mwy nag a fyddai'n wir fel arall—ac mae'r un peth yn wir am bont Heol Windsor. Gwn fod y Gweinidog wedi gofyn am ddiweddariadau rheolaidd gan Network Rail ac rwy'n credu ei bod yn deg dweud ein bod yn disgwyl i'r gwaith hwn gael ei wneud cyn gynted â phosibl, oherwydd rwyf yn ymwybodol o'r tarfu sy'n digwydd, wrth gwrs, i lawer o ddinasyddion—nid yn unig yng Nghaerdydd, ond i bobl sy'n cymudo i mewn i'r ddinas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, whilst traffic improvements generally are welcome, obviously the construction phase is a challenge for traffic delays when that construction is taking place. One point, for example, in the Vale of Glamorgan, is that the Gileston bends by Aberthaw have been a horrendous bottleneck for anyone commuting from Llantwit Major or the western vale to their place of work. This is a Welsh Government project, commissioned by your good selves, that just seems to have gone on forever and a day. Could I urge that the Welsh Government assesses its management of that particular scheme and explain why there does seem to have been such a delay on this project that has caused such traffic chaos to the western Vale of Glamorgan?

Brif Weinidog, er bod gwelliannau traffig i'w croesawu'n gyffredinol, mae'n amlwg bod y cyfnod adeiladu yn her o ran oediadau traffig pan fydd y gwaith adeiladu hwnnw'n cael ei gynnal. Un pwynt, er enghraifft, ym Mro Morgannwg, yw bod troadau Silstwn ger Aberddawan wedi bod yn dagfa erchyll i unrhyw un sy'n cymudo o Lanilltud Fawr neu orllewin y fro i'w gweithle. Mae hwn yn brosiect Llywodraeth Cymru, a gomisiynwyd gennych chi, y mae'n ymddangos ei fod wedi mynd ymlaen am byth. A gaf fi annog Llywodraeth Cymru i asesu ei rheolaeth o'r cynllun penodol hwn ac esbonio pam mae'n ymddangos y bu cymaint o oedi ar y prosiect hwn sydd wedi achosi cymaint o draed moch o ran traffig i orllewin Bro Morgannwg?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:56	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is very difficult; as somebody who has sat in those lights both ways, I do understand that there are delays there. It's important, of course, to move ahead as quickly as possible with the work. We are doing that. There's bound to be some disruption in the meantime. The result will be a road that's far straighter than the fairly tricky bends that were there to begin with, and one that will, of course, help to connect more effectively the airport with St Athan.</p>	<p>Mae'n anodd iawn; fel rhywun sydd wedi eistedd wrth y goleuadau hynny y ddwy ffordd, rwyf yn deall bod oediadau yno. Mae'n bwysig, wrth gwrs, symud ymlaen â'r gwaith cyn gynted â phosibl. Rydym ni'n gwneud hynny. Mae'n rheidrwydd y bydd rhywfaint o darfu yn y cyfamser. Y canlyniad fydd ffordd sy'n llawer sythach na'r troeon eithaf anodd a oedd yno i ddechrau, ac a fydd, wrth gwrs, yn helpu i gysylltu'r maes awyr â Sain Tathan yn fwy effeithiol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:56	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>The independent public body, Passenger Focus, has found that travel disruption is not always conveyed clearly and concisely to passengers in South Wales Central. So, for example, when services have been cancelled, leaving coach travel as the only alternative means of transport home, that hasn't always been conveyed clearly to passengers, and it can lead to confusion and anger. Do you agree with me, First Minister, that passenger communication could be improved? Will you ensure that this is made an essential part of any discussions around the Plaid Cymru policy, which you've since adopted, for a train service run as a not-for-dividend subsidiary of the Welsh Government?</p>	<p>Mae'r corff cyhoeddus annibynnol, Passenger Focus, wedi canfod nad yw achosion o darfu ar deithiau yn cael eu cyfleu'n eglur ac yn gryno bob amser i deithwyr yng Nghanol De Cymru. Felly, er enghraifft, pan fo gwasanaethau wedi cael eu canslo, gan adael teithio ar fws fel yr unig ffordd arall o deithio adref, nid yw hynny wedi cael ei gyfleu'n eglur i deithwyr bob amser, a gall arwain at ddryswch a dichter. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, y gellid gwella cyfathrebu â theithwyr? A wnewch chi sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn rhan hanfodol o unrhyw drafodaethau ar bolisi Plaid Cymru, yr ydych chi wedi ei fabwysiadu ers hynny, ar gyfer gwasanaeth trenau a redir fel is-gwmni di-ddifidend o Lywodraeth Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:57	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I think it's absolutely crucial for passenger information to be as clear as possible. It's disappointing to hear that there are examples where that may not have happened, but I would expect the train operators and, of course, Arriva, as the operator of the stations, to convey that information as clearly as possible. Nobody wants to see passengers stranded, having missed the last mode of transportation home.</p>	<p>Rwy'n credu ei fod yn gwbl hanfodol i wybodaeth i deithwyr fod mor eglur â phosibl. Mae'n siomedig dlywed bod enghreifftiau lle efallai nad yw hynny wedi digwydd, ond byddwn yn disgwyl i'r gweithredwyr trenau ac, wrth gwrs, Arriva, fel gweithredydd y gorsafoedd, i gyfleu'r wybodaeth honno mor eglur â phosibl. Nid oes unrhyw un eisiau gweld teithwyr yn cael eu gadael heb gludiant ar ôl colli'r dull olaf o gludiant adref.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Y Diwydiant Llaeth</p>		<p>The Dairy Industry</p>	
13:58	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography <i>4. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant llaeth? OAQ(4)2051(FM)</i></p>	<p><i>4. How is the Welsh Government supporting the dairy industry? OAQ(4)2051(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:58	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We have our dairy taskforce, which is the ongoing independent review of the dairy sector and which is due to report shortly to Ministers, and, of course, we have the rural development plan.</p>	<p>Mae ein tasglu llaeth gennym ni, sef yr adolygiad annibynnol parhaus o'r sector llaeth ac y disgwylir iddo adrodd i Weinidogion yn fuan, ac, wrth gwrs, mae gennym ni'r cynllun datblygu gwledig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:58

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. It is claimed that the minimum price a dairy farmer can survive on is around 30p per litre, however, as you will know, according to the National Farmers Union, some of their farmers have recently witnessed a drop of 10p per litre over the last year. In fact, payments of just 20p have also been talked about. It's clear that many supermarkets operating in Wales are using milk as a loss-leader to entice customers into their stores, and this ultimately will lead to the degradation of our dairy industry and will have knock-on effects for other aspects of farming as well. What pressure are you able to exert on supermarkets to guarantee that our dairy industry is paid a sustainable price that will support the industry as we move on in the months and years to come?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Honnir mai'r pris isaf y gall ffermwr llaeth oroesi arno yw tua 30c y litr, fodd bynnag, fel y gwyddoch, yn ôl Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, yn ddiweddar, mae rhai o'u ffermwyr wedi gweld gostyngiad o 10c y litr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn wir, soniwyd am daliadau o ddim ond 20c hefyd. Mae'n amlwg bod llawer o archfarchnadoedd sy'n gweithredu yng Nghymru yn defnyddio llaeth fel nwydd ar goll i ddenu cwsmeriaid i mewn i'w siopau, a bydd hyn yn arwain yn y pen draw at ddirywiad ein diwydiant llaeth ac yn cael sgil-ffeithiau ar agweddau eraill ar ffermio hefyd. Pa bwysau allwch chi ei roi ar archfarchnadoedd i sicrhau y telir pris cynaliadwy i'n diwydiant llaeth a fydd yn cefnogi'r diwydiant wrth i ni symud ymlaen yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The issue of the supermarkets is a matter for the UK Government to take a view on, but there's no doubt at all that the current price of milk is unsustainable as far as most producers are concerned. Production costs in dairy do vary, but the reality is that the price that's on offer at the moment is not sufficient. It is a perpetual theme, unfortunately, in the dairy industry that prices do go up and down. It's particularly difficult at the moment because there is oversupply on the European market and, of course, there will be concern for those who are dairy producers because of the knowledge that there's a spike in the summer in production, always. To have this kind of price drop at this time of year is particularly concerning.

Mater i Lywodraeth y DU gynnis safbwynt arno yw mater yr archfarchnadoedd, ond nid oes amheuaeth o gwbl bod pris llaeth yn anghynaliadwy ar hyn o bryd cyn belled ag y mae'r rhan fwyaf o gynhyrchwyr yn y cwestiwn. Mae costau cynhyrchu ym maes llaeth yn amrywio, ond y gwir amdani yw nad yw'r pris sy'n cael ei gynnis ar hyn o bryd yn ddigonol. Mae'n thema dragwyddol, yn anffodus, yn y diwydiant llaeth bod prisiau yn codi a gostwng. Mae'n arbennig o anodd ar hyn o bryd gan fod gorgyflenwad ar yr farchnad Ewropeaidd ac, wrth gwrs, bydd pryder i'r rhai sy'n gynhyrchwyr llaeth oherwydd eu bod yn gwybod bod cynnydd o ran cynhyrchiad yn yr haf bob amser. Mae cael y math hwn o ostyngiad yn y pris ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn peri pryder arbennig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That said, in terms of what the Minister has done, she has obviously taken a leading role in this. She made a written statement and, of course, she has met with the dairy taskforce and agreed the terms of reference. In terms of First Milk, which I know is a particular issue for some dairy farmers, I know that the Deputy Minister has met with First Milk. My concern, and I think it's worth saying this, is that First Milk has announced a two-week payment holiday, as Members will be aware. That should not be a permanent two-week holiday. The deferral of payment should not be something that goes on in perpetuity in the future; farmers deserve to be paid for what they've produced.

Wedi dweud hynny, o ran yr hyn y mae'r Gweinidog wedi ei wneud, mae hi'n amlwg wedi cyflawni swyddogaeth arweiniol yn hyn. Gwnaeth ddatganiad ysgrifenedig ac, wrth gwrs, mae hi wedi cyfarfod â'r tasglu llaeth a chytuno ar y cylch gorchwyl. O ran First Milk, yr wyf yn gwybod sy'n broblem benodol i rai ffermwyr llaeth, gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi cyfarfod â First Milk. Fy mhryder, ac rwy'n credu ei bod yn werth dweud hyn, yw bod First Milk wedi cyhoeddi gwyliau talu o bythefnos, fel y gwyr yr Aelodau. Ni ddylai hwnnw fod yn wyliau pythefnos parhaol. Ni ddylai gohirio taliadau fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn barhaol yn y dyfodol; mae ffermwyr yn haeddu cael eu talu am yr hyn y maen nhw wedi ei gynhyrchu.

14:00

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Byddwch yn ymwybodol hefyd, rwy'n siŵr, Brif Weinidog, fod y Pwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig—EFRA—yn San Steffan wedi cyhoeddi adroddiad y bore yma ar brisiau llaeth. Ymhlith eu hargymhellion mae galw ar roi mwy o bwerau i'r 'Groceries Code Adjudicator' er mwyn amddiffyn ffermwyr llaeth rhag camddefnydd grym o fewn y sector gyflenwi, o gyfeiriad archfarchnadoedd yn bennaf. Nawr, dyma oedd union alwad Aelodau Seneddol Plaid Cymru pan sefydlwyd y GCA 18 mis, ddwy flynedd yn ôl. A wnewch chi felly ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol yn San Steffan yn eu hannog nhw i fabwysiadu yr argymhellion penodol yna, yn bennaf i sicrhau bod ystod cyfrifoldebau y goruchwyliwr yn cyrraedd y lefel yna o fewn y gadwn gyflenwi llaeth, a hefyd fel bod gan y goruchwyliwr y dannedd angenrheidiol er mwyn sicrhau bod newid yn digwydd?

You will also be aware, First Minister, I am sure, that the Environment, Food and Rural Affairs Committee—EFRA—in Westminster has published a report this morning on milk prices. Among their recommendations is a call for more powers for the Groceries Code Adjudicator to protect dairy farmers from abuse of power within the supply chain, from the direction of supermarkets particularly. Now, this was the exact call made by Plaid Cymru Members of Parliament when the GCA was established 18 months, two years ago. So, will you therefore write to the relevant Minister in Westminster, encouraging them to adopt those particular recommendations, mainly to ensure that the range of responsibilities of the adjudicator reaches that level in the supply chain and also that the adjudicator has the teeth required to ensure change actually occurs?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn cysylltu gyda Llywodraeth San Steffan i roi barn ffermwyr Cymru ynglŷn â'r sefyllfa â llaeth. Mae wastad yn anodd o achos y ffaith bod yna ormod o laeth ar gael ar hyn o bryd; mae hwnnw'n un rheswm—dim yr unig reswm—pam mae'r pris wedi gostwng. Rydym ni gyd yn gwybod beth sydd wedi digwydd yn yr archfarchnadoedd dros y blynyddoedd, lle mae llaeth wedi cael ei werthu o dan y pris maen nhw wedi ei roi wrth ei brynu. Ond rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn parhau i gysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth honno yn deall beth yw'r heriau mawr sy'n wynebu ffermwyr Cymru ar hyn o bryd.

I am sure that the Deputy Minister will contact the Westminster Government to give the opinion of farmers in Wales in terms of the situation in the dairy industry. It is always difficult because there is too much milk; that is one reason—it is not the only reason—why the price has fallen. We all know what has happened in supermarkets over the years, where milk has been sold under the purchase price. But I am sure the Deputy Minister will continue to contact the UK Government in order to ensure that that Government understands the major challenges facing the farmers of Wales at present.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one group of farmers that risks being particularly badly affected by the current dairy crisis is the Welsh organic sector. As the First Minister may well know, there's been an alarming exodus from organic in recent months, driven partly by market conditions but also by concerns about proposals coming forward in the European Commission that may make it more difficult for them to retain and maintain their organic accreditation. One initiative that's been particularly successful both in Italy and France in supporting the organic dairy sector has been to encourage the education and health authorities across those countries to actually source a proportion of their milk from organic farms. I wondered whether, in that context, First Minister, you'd consider working with your Cabinet colleagues to roll out a trial programme that might actually be a shot in the arm for the organic sector, as well as accruing benefits both to pupils and to hospital patients.

Brif Weinidog, un grŵp o ffermwyr sydd mewn perygl o gael ei effeithio'n arbennig o wael gan yr argyfwng llaeth presennol yw sector organig Cymru. Fel efallai y bydd y Prif Weinidog yn gwbl ymwybodol, bu ymadawiad dychrynlyd o gynhyrchu organig yn y misoedd diwethaf, wedi ei sbarduno'n rhannol gan amodau'r farchnad ond hefyd gan bryderon ynglŷn â chynigion sy'n cael eu cyflwyno yn y Comisiwn Ewropeaidd a allai ei gwneud yn fwy anodd iddyn nhw gadw a chynnal eu hachrediad organig. Un fenter sydd wedi bod yn arbennig o lwyddiannus yn yr Eidal a Ffrainc i gefnogi'r sector llaeth organig oedd annog yr awdurdodau addysg ac iechyd ar draws y gwledydd hynny i gaffael cyfran o'u llaeth o ffermydd organig. Roeddwn i'n meddwl tybed, yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, a fydddech chi'n ystyried gweithio gyda'ch cydweithwyr yn y Cabinet i gyflwyno rhaglen arbrofol a allai fod yn hwb gwirioneddol i'r sector organig, yn ogystal â sicrhau buddiannau i ddisgyblion ac i gleifion mewn ysbytai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I understand the Member's sentiments; I'd be careful, though, in terms of creating a situation where those Welsh dairy farmers who are not organic find it more difficult to supply, for example, public sector contracts. The organic dairy sector is one that, over the years, has shown that the price will fluctuate up and down quite dramatically quite often. Where the price goes up, lots of people go into organic production, there's oversupply and those people then leave. It has yo-yoed back and forth, even to the extent that some organic suppliers have, in the past, simply sold their milk as conventional milk because the premium isn't high enough. We have done, of course, over the years, through the organic farming scheme, through the support we've given to organic farming. Then there are successful companies like Calon Wen, in terms of their promotion of organic milk across supermarkets in Wales. They have shown that they have found a market. But in terms of putting some Welsh dairy farmers in a more favourable position than other Welsh dairy farmers, I think we should be very careful about doing that.

Rwy'n deall teimladau'r Aelod; byddwn yn ofalus, fodd bynnag, o ran creu sefyllfa lle mae'r ffermwyr llaeth hynny yng Nghymru nad ydynt yn organig yn ei chael hi'n fwy anodd cyflenwi, er enghraifft, contractau sector cyhoeddus. Mae'r sector llaeth organig yn un sydd, dros y blynyddoedd, wedi dangos y bydd y pris yn amrywio i fyny ac i lawr yn dra sylweddol yn aml iawn. Pan fydd y pris yn codi, mae llawer o bobl yn dechrau cynhyrchu'n organig, ceir gorgyflenwi ac yna mae'r bobl hynny'n gadael. Mae wedi mynd yn ôl ac ymlaen, hyd yn oed i'r graddau bod rhai cyflenwyr organig, yn y gorffennol, wedi gwerthu eu llaeth fel llaeth confensiynol gan nad yw'r premiwm yn ddigon uchel. Rydym ni wedi gwneud, wrth gwrs, dros y blynyddoedd, drwy'r cynllun ffermio organig, drwy'r gefnogaeth yr ydym ni wedi ei rhoi i ffermio organig. Yna ceir cwmnïau llwyddiannus fel Calon Wen, o ran eu gwaith o hyrwyddo llaeth organig ar draws archfarchnadoedd yng Nghymru. Maen nhw wedi dangos eu bod wedi dod o hyd i farchnad. Ond o ran rhoi rhai ffermwyr llaeth yng Nghymru mewn sefyllfa fwy ffafriol na ffermwyr llaeth eraill yng Nghymru, rwy'n credu y dylem ni fod yn ofalus iawn o ran gwneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Signal Ffôn Symudol yn Sir Gaerfyrddin

Mobile Phone Signal in Carmarthenshire

14:04 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am argaeledd signal ffôn symudol yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)2047(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

5. Will the First Minister make a statement on the availability of mobile phone signal in Carmarthenshire? OAQ(4)2047(FM)

14:04 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rydym yn cydweithio â'r diwydiant, Ofcom a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd yn gyfrifol, wrth gwrs, am wella'r sefyllfa. Rydym am sicrhau bod Cymru yn elwa o broiect seilwaith symudol Llywodraeth y DU, os yw hwnnw'n parhau; nid yw'n glir ar hyn o bryd y bydd hwnnw yn parhau yn y dyfodol. Mae'n bwysig dros ben i sicrhau bod mwy o signal ar gael i drigolion sir Gâr a thrigolion Cymru wledig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

We are working with the industry, Ofcom and the UK Government, which is, of course, responsible for improving the situation. We want to ensure that Wales benefits from the UK Government's mobile infrastructure project, if that continues; it is not clear at present that that will continue in future. It is very important to secure a better signal for the people of Carmarthenshire and rural Wales.

14:04 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Brif Weinidog, beth yw eich neges chi i drigolion ardaloedd fel Cwm-du, Salem, Talylychau a Phumsaint, lle bues i'n gweithio yn ddiweddar gyda'r Aelod Seneddol, Jonathan Edwards, oherwydd bod eu llinell ffôn sylfaenol nhw â nam arno fe, ac, ar ben hynny, nid oedden nhw'n gallu cael signal ffôn ar gyfer ffonau symudol. Onid oes yna berygl gwirioneddol fod rhai o'n hardaloedd gwledig ni yn mynd i gael eu gadael ar ôl gyda'r datblygiadau yma gyda signal ffôn symudol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

First Minister, what is your message to the residents of areas such as Cwm-du, Salem, Talylychau and Pumsaint, where I worked recently with the MP, Jonathan Edwards, because their basic landline is deficient and, on top of that, they couldn't get a mobile phone signal either. Isn't there a very real risk that some of our rural areas will be left behind with these developments in terms of mobile phone signal?

14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Dyna pam mae e mor bwysig, wrth gwrs, i sicrhau bod y project seilwaith symudol yn cael effaith ar Gymru wledig. Mae Ofcom, yn dweud bod y rhan fwyaf o bobl yn cael rhyw fath o signal—99% o'r boblogaeth. Wel, nid yw'n bosib i fi gael signal yn y tŷ ym Mhen-y-bont, felly nid wyf yn credu bod hynny'n hollol wir bob tro, efallai. O ran trigolion Cymru wledig, lle mae'n amhosib ar hyn o bryd i gael unrhyw fath o signal, mae'n bwysig dros ben bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen gyda'r project hwn er mwyn helpu trigolion sir Gâr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

That is why it is so important to ensure that the mobile infrastructure project does have benefits for rural Wales. According to Ofcom, the majority of people have some kind of signal—99% of the population. Well, I can't get a signal in the house in Bridgend, so I'm not sure that that's always entirely true, perhaps. In terms of rural residents, where it is impossible to get a signal of any kind, it is very important that the UK Government moves forward with this project in order to help the residents of Carmarthenshire.

14:05 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Mae signal ffonau symudol, yn enwedig adeiladu ar y rhwydwaith 3G a 4G, yn fater yr wyf eisoes wedi'i godi gyda phob darparwr gwasanaeth. Yn ddiweddar, mae datganiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sôn am rannu mastiau mewn ardaloedd lle mae'r signal yn wan. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi fod cysylltiadau personol, preifat a busnes yn hanfodol i fannau mynediad gwan yn fy etholaeth, a bod angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig sicrhau nad yw mastiau ar y cyd yn cael eu gorlwytho ac yn achosi problemau pellach i drigolion lleol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Mobile phone signal, particularly building on the 3G and 4G networks, is a matter that I have already raised with all service providers. Recently, there was a statement by the UK Government about sharing masts in areas where the signal is weak. Does the First Minister agree with me that personal, private and business connections are crucial where there are not spots in my constituency and that the UK Government needs to ensure that joint masts are not overloaded, thereby causing further problems for local residents?

14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Wel, rydym ni wedi sicrhau, wrth gwrs, fod yna fuddsoddiad ynglŷn â band eang yn ardaloedd gwledig Cymru. Mae'n bwysig dros ben, felly, fod yna fuddsoddiad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a hefyd y cwmnïau preifat, ynglŷn â signal ffonau symudol; mae hynny'n bwysig. Nawr, un o'r pethau, wrth gwrs, mae'r project Prydeinig yn ceisio ei wneud yw sicrhau bod cwmnïau'n siaro mastiau, yn lle eu bod nhw'n adeiladu eu rhai eu hunain, a sicrhau, wrth gwrs, drwy wneud hynny, bod y costau maen nhw'n eu safio yn cael eu hailfuddsoddi yn eu rhwydwaith eu hunain. Dyna pam mae'n hollbwysig bod y project hwn gan y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen.

Well, we have ensured that there is investment in broadband in rural areas of Wales. It is very important, therefore, that there is investment by the UK Government, and by private companies, in terms of mobile phone signal; that is important. Now, one thing that the UK project tries to do is to ensure that companies share masts, so that they don't all build their own, ensuring, of course, that where they do that, the costs are reinvested in their own networks. That is why it is vital that this UK project does move forward.

14:07 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, I'm sure you agree that, for rural communities, mobile phones and broadband are key drivers for the economic prosperity of those areas. As Rhodri Glyn Thomas has already mentioned, I have identified some 24 postcodes in Carmarthen that the Superfast Cymru project will be unable to reach; they will therefore go to the Superfast Cymru infill project. Now, you have said that you intend to roll out Superfast Cymru by 2016, but there's no indication as to when you will complete the infill project. During that timeframe, aren't you concerned that this will lead to some serious digital inequality in these more rural areas?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn cytuno, bod ffonau symudol a band eang yn sbardun allweddol i gymunedau gwledig ar gyfer ffyniant economaidd yr ardaloedd hynny. Fel y mae Rhodri Glyn Thomas wedi ei grybwyll eisoes, rwyf wedi nodi tua 24 o godau post yng Nghaerfyrddin na fydd y prosiect Cyflymu Cymru yn gallu eu cyrraedd; byddant felly yn mynd i brosiect mewnlenni Cyflymu Cymru. Nawr, rydych chi wedi dweud eich bod yn bwriadu cyflwyno Cyflymu Cymru erbyn 2016, ond nid oes unrhyw arwydd pryd y byddwch chi'n cwblhau'r prosiect mewnlenni. Yn ystod y cyfnod hwnnw, onid ydych chi'n pryderu y bydd hyn yn arwain at rywfaint o anghydraddoldeb digidol difrifol yn yr ardaloedd mwy gwledig hyn?

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Our target is, of course, to ensure that 96% of premises are connected by next year; that remains the target. There will be some properties in that 4% that are more difficult to reach, and the solutions for them may lie elsewhere, other than through conventional line-provided broadband. But the target that we have always made public in this Chamber and elsewhere is a target that we'll adhere to and one that we believe will benefit so many communities in rural Wales that otherwise would never have access to broadband.

Ein targed, wrth gwrs, yw sicrhau bod 96% o safleoedd yn cael eu cysylltu erbyn y flwyddyn nesaf; dyna'r targed o hyd. Bydd rhai adeiladau yn y 4% hwnnw sy'n fwy anodd eu cyrraedd, ac efallai y bydd atebion gwahanol iddyn nhw, yn hytrach na thrwy fand eang confensiynol a ddarperir trwy wifren. Ond mae'r targed yr ydym ni bob amser wedi ei wneud yn gyhoeddus yn y Siambr hon ac mewn manau eraill yn darged y byddwn yn cadw ato ac yn un yr ydym yn credu y bydd o fudd i gymaint o gymunedau yng nghefn gwlad Cymru na fyddent byth yn cael mynediad at fand eang fel arall.

Myfyrwyr o Gymru

Welsh Students

14:08 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y myfyrwyr o Gymru sy'n mynd i mewn i addysg uwch ar hyn o bryd? OAQ(4)2046(FM)

6. Will the First Minister make a statement on the current number of Welsh students entering higher education? OAQ(4)2046(FM)

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. The latest figures show that just over 100,000 Welsh-domiciled enrolments took place at UK institutions. That was for the year 2013-14.

Gwnaf. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos y bu ychydig dros 100,000 o gofrestrïadau yn hanu o Gymru mewn sefydliadau yn y DU. Roedd hynny ar gyfer y flwyddyn 2013-14.

14:08

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer. First Minister, I was delighted to learn for the 2014 entry, the University of Oxford made the highest number of offers to Welsh candidates in four years. I hope to see these figures rise in coming years, following the Welsh Government's establishment of the national network of learning hubs to help our brightest students secure a place in the UK's most prestigious universities. The Welsh Government's Oxbridge ambassador, Paul Murphy, identified the perception of elitism presented a significant barrier to increasing the application to Oxbridge, and that alumni are uniquely placed to help dispel this view. What role will alumni play in the new programme?

Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, roeddwn i wrth fy modd clywed, ar gyfer derbynriad 2014, bod Prifysgol Rhydychen wedi gwneud y nifer uchaf o gynigion i ymgeiswyr o Gymru ers pedair blynedd. Rwy'n gobeithio gweld y ffigurau hyn yn codi yn y blynyddoedd nesaf, ar ôl i Lywodraeth Cymru sefydlu'r rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau dysgu i helpu ein myfyrwyr mwyaf disgrair sicrhau lle ym mhrifysgolion mwyaf uchel eu parch y DU. Nododd cennad Rhydgrawnt Llywodraeth Cymru, Paul Murphy, bod y dybiaeth o elitaeth yn rhwystr sylweddol i gynyddu nifer y ceisiadau i Rydgrawnt, a bod cyn-fyfyrwyr mewn sefyllfa unigryw i helpu i gael gwared ar y syniad hwnnw. Pa swyddogaeth fydd cyn-fyfyrwyr yn ei chyflawni yn y rhaglen newydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we are developing an alumni engagement strand. The expectation is twofold. Firstly, that it will help to dispel some myths about Oxford, Cambridge and other leading universities and to show, as it were, our students that people like them can also, of course, go to a world-leading university. The second thing that we want to explore is to work with the partnership hubs to support students with interview preparation and, of course, with the delivery of super-curricular—extra-curricular, even—and subject-specific activities.

Wel, rydym ni'n datblygu elfen ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr. Mae'r disgwyliad yn ddeublyg. Yn gyntaf, bydd yn helpu i gael gwared â rhai syniadau cyfeiliornus am Rydychen, Caergrawnt a phrifysgolion blaenllaw eraill ac i ddangos, fel petai, i'n myfyrwyr y gall pobl fel hwythau hefyd, wrth gwrs, fynd i un o'r prifysgolion gorau yn y byd. Yr ail beth yr ydym ni eisiau ei archwilio yw gweithio gyda'r canolfannau partneriaeth i gynorthwyo myfyrwyr i baratoi ar gyfer cyfweiliadau ac, wrth gwrs, gyda'r ddarpariaeth o weithgareddau uwch-gwricwlar—allgwricwlar, hyd yn oed—a phenodol i bwnc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thank you for that answer to Gwyn Price, First Minister. I think a response to the review was necessary, and a quick response, particularly in view of Estyn's ongoing complaints that children from the poorest backgrounds who are bright are not being offered the kind of opportunities that you would expect they would receive. How confident are you that this hub model will persuade all schools—and I mean all schools—to promote the expectation that they may house children who would benefit from an Oxbridge education and that every school is able to provide the practical support to those students if they would so benefit?

Wel, diolch i chi am yr ateb yna i Gwyn Price, Brif Weinidog. Rwy'n credu bod ymateb i'r adolygiad yn angenrheidiol, ac ymateb cyflym, yn enwedig o ystyried cwynion parhaus Estyn nad yw plant o'r cefndiroedd tlotaf sy'n benig yn cael cynnig y math o gyfleoedd y byddech chi'n disgwyl iddynt eu cael. Pa mor hyderus ydych chi y bydd y model canolfannau hwn yn perswadio pob ysgol—ac rwy'n golygu pob ysgol—i hyrwyddo'r disgwyliad y gallai fod plant yn eu mynychu a fyddai'n elwa o addysg Rhydgrawnt ac y bydd pob ysgol yn gallu darparu'r gefnogaeth ymarferol i'r myfyrwyr hynny os byddent yn elwa ar hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we're grateful to Paul Murphy, who is our Oxbridge ambassador, who has done so much work on this, and we are confident that the partnership hubs will support students, particularly with interview skills. Quite often, of course, that is an area of weakness in young people. That is something we want to help them with, because quite often that interview is so crucial in terms of gaining an offer to get to some of the leading universities, and the partnership hubs will help to make sure that our young people do understand that they are fully able to apply to universities such as Oxford and Cambridge and fully able, of course, to go there having achieved the grades required as part of their offer.

Wel, rydym ni'n ddiolchgar i Paul Murphy, sef ein cennad Rhydgrawnt, sydd wedi gwneud cymaint o waith ar hyn, ac rydym ni'n hyderus y bydd y canolfannau partneriaeth yn cynorthwyo myfyrwyr, yn enwedig gyda sgiliau cyfweiliad. Yn aml iawn, wrth gwrs, mae hwnnw'n wendid ymhlith pobl ifanc. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni eisiau eu helpu nhw ag ef, gan fod y cyfweiliad hwnnw mor hanfodol yn aml iawn o ran ennill cynnig lle mewn rhai o'r prifysgolion mwyaf blaenllaw, a bydd y canolfannau partneriaeth yn helpu i wneud yn siŵr bod ein pobl ifanc yn deall y cânt yn bendant wneud cais i brifysgolion fel Rhydychen a Chaergrawnt ac y cânt, wrth gwrs, yn bendant fynd yno ar ôl ennill y graddau sy'n ofynnol yn rhan o'u cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, obviously, statistics are showing England and Wales-based stats with regard to women entering university. Looking at the stats earlier, I saw that there was a lower proportion of women entering architecture, building and engineering studies. I think that it is something we should be focusing on, if we are trying to encourage women to look at alternative studies and not just what they believe perhaps some of the school career service would apply to them. So, I wonder what you are doing as a Government to look at this in more detail so that we can get to grips with this issue.

Brif Weinidog, yn amlwg, mae ystadegau yn dangos ystadegau Cymru a Lloegr ar gyfer menywod sy'n mynd i'r brifysgol. O edrych ar yr ystadegau'n gynharach, gwelais fod cyfran is o fenywod sy'n dilyn astudiaethau pensaernïaeth, adeiladu a pheirianneg. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y dylem ni fod yn canolbwyntio arno, os ydym ni'n ceisio annog menywod i ystyried astudiaethau amgen ac nid dim ond yr hyn y maen nhw'n ei gredu efallai y byddai rhai o'r gwasanaeth gyrfaoedd yn yr ysgol yn ei nodi fel bod yn addas ar eu cyfer. Felly, tybed beth ydych chi'n ei wneud fel Llywodraeth i ystyried hyn yn fwy manwl fel y gallwn fynd i'r afael â'r mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I entirely agree. Under no circumstances should the impression be given that architecture, building and engineering are for young men. I just give one example of where that's being helped to be dispelled: the work of ESW, Essential Skills Wales—the work that they have done on encouraging young women into engineering. That has borne fruit. We're still not quite there yet in terms of people's perceptions of a subject like engineering. But the direction is right; things are moving in the direction that we would want and, of course, there is the support that we've put in place to help get the right kind of advice to young women in order that they can study these subjects, where their talents and skills are needed.

Rwy'n cytuno'n llwyr. Ni ddylid rhoi'r argraff dan unrhyw amgylchiadau mai ar gyfer dynion ifanc yn unig y mae pensaernïaeth, adeiladu a pheirianneg. Rhoddaf un enghraifft yn unig o ble mae hynny'n cael cymorth i'w ddileu: gwaith SHC, Sgiliau Hanfodol Cymru—y gwaith maen nhw wedi ei wneud ar annog menywod ifanc i faes peirianneg. Mae hynny wedi dwyn ffrwyth. Nid ydym ni wedi cyrraedd y nod eto o ran tybiaethau pobl am bwnc fel peirianneg. Ond mae'r cyfeiriad yn iawn; mae pethau'n symud i'r cyfeiriad y byddem yn dymuno ac, wrth gwrs, ceir y gefnogaeth yr ydym ni wedi ei rhoi ar waith i helpu i gael y math cywir o gyngor i fenywod ifanc fel y gallant astudio'r pynciau hyn, lle mae angen eu doniau a'u sgiliau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diwydiant Amaethyddol Cymru

The Welsh Agricultural Industry

14:12

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gryfhau diwydiant amaethyddol Cymru yn 2015? OAQ(4)2060(FM)

7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities to grow the Welsh agricultural industry in 2015? OAQ(4)2060(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, our priority is to ensure that the farming industry in Wales is profitable, sustainable, resilient and professionally managed.

Wel, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod y diwydiant ffermio yng Nghymru yn broffidiol, yn gynaliadwy, yn wydn ac yn cael ei reoli'n broffesiynol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The current state and future development of the dairy industry in Wales continues to be a concern. I appreciate the earlier questions on this. Last week, I was pleased to host your colleague the Deputy Minister at a dairy farm in my constituency to listen first-hand to farmers' concerns, which were not just about the farm-gate pricing but also about how they are expected to invest in their businesses to grow them over the longer term. Clearly, they're struggling to keep their heads above water at the moment. Data from the 2014 Welsh dairy farmers survey showed that 50% of respondents have invested less than £100,000 in their businesses over the last five years, which is relatively low, considering the high capital cost of maintaining a dairy unit. So, can I ask what the Welsh Government is doing now to examine its grant schemes to incentivise and make it easier for Welsh dairy farmers to access funding and also how the Government intends to use the rural development plan to increase opportunities to access capital funding for growth?

Mae cyflwr y diwydiant llaeth yng Nghymru ar hyn o bryd a'i ddatblygiad yn y dyfodol yn parhau i fod yn bryder. Rwy'n gwerthfawrogi'r cwestiynau cynharach am hyn. Yr wythnos diwethaf, roeddwn i'n falch o groesawu eich cydweithiwr, y Dirprwy Weinidog ar fferm laeth yn fy etholaeth i wrando'n bersonol ar bryderon ffermwyr, nad oeddent yn ymwneud â phrisiau wrth giât y fferm yn unig, ond hefyd am y modd y disgwylir iddyn nhw fuddsoddi yn eu busnesau i'w tyfu dros y tymor hwy. Yn amlwg, maen nhw'n cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd ar hyn o bryd. Dangosodd data o arolwg 2014 o ffermwyr llaeth yng Nghymru bod 50% o'r ymatebwyr wedi buddsoddi llai na £100,000 yn eu busnesau yn ystod y pum mlynedd diwethaf, sy'n gymharol isel, o ystyried cost cyfalaf uchel cynnal uned laeth. Felly, a gaf i ofyn beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud nawr i archwilio ei chynlluniau grant i gymell a'i gwneud yn haws i ffermwyr llaeth yng Nghymru gael mynediad at gyllid a hefyd sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r cynllun datblygu gwledig i gynyddu cyfleoedd i gael gafael ar arian cyfalaf ar gyfer twf?

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, Farming Connect has been very successful over the last 14 years in terms of providing assistance to farmers who wish to diversify, which doesn't mean diversify out of agriculture necessarily, to enable their farms to become more sustainable. There are always discussions, of course, with the industry to help shape, for example, our agricultural strategy in the future. The Member will be aware of the young entrants' support scheme, which is also in place in order to help those enter into farming, and the perpetual challenge in farming is the age balance of those in farming. There is a tendency, particularly in farming families, I know, for people to carry on farming and wait for some time before passing the farm on to their children. That's an old tradition. So, being able to keep those young people in farming is also important in terms of the industry's sustainability in the future.

Wel, mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y 14 mlynedd diwethaf o ran darparu cymorth i ffermwyr sy'n dymuno arallgyfeirio, nad yw'n golygu arallgyfeirio allan o amaethyddiaeth o reidrwydd, i alluogi eu ffermydd i fod yn fwy cynaliadwy. Ceir trafodaethau bob amser, wrth gwrs, gyda'r diwydiant er mwyn helpu i lunio, er enghraifft, ein strategaeth amaethyddol yn y dyfodol. Bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid ifanc, sydd hefyd ar waith i helpu'r rheini ymuno â'r byd ffermio, a'r her barhaol ym maes ffermio yw cydbwysedd oedran y rhai yn y byd ffermio. Ceir tueddiad, yn enwedig mewn teuluoedd ffermio, mi wn, i bobl barhau i ffermio ac aros cryn amser cyn trosglwyddo'r fferm ymlaen i'w plant. Mae hwnnw'n hen draddodiad. Felly, mae gallu cadw'r bobl ifanc hynny myd ffermio hefyd yn bwysig o ran cynaliadwyedd y diwydiant yn y dyfodol.

14:15

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae'n flaenoriaeth yn Ynys Môn i adfer capasiti lladd-dai yn y gogledd-orllewin—siawns ei bod yn flaenoriaeth i Gymru gyfan hefyd o ran peidio â cholli'r lefi. Rŵan, mi wnaeth y diwydiant amaeth a'r darpar brynwyr bopeth a allant, rwy'n meddwl, i geisio ailagor lladd-dy Welsh Country Foods yn y Gaerwen. Mi wnaeth swyddogion y Llywodraeth hefyd, wrth gwrs, chwarae eu rhan. Felly, rwy'n siomedig iawn; rwy'n siŵr bydd y Prif Weinidog yn rhannu fy siom i glywed adroddiadau, rŵan, bod y safle hwnnw yn cael ei stripio.

It's a priority in Ynys Môn to restore the abattoir capacity in the north-west—surely it's a priority for the whole of Wales too, in terms of not losing the levy. Now, the agriculture industry and prospective buyers did everything they could, I think, to try to reopen the Welsh Country Foods abattoir in Gaerwen. Welsh Government officials also played their part in that, of course. So, I am very disappointed, and I'm sure the First Minister will share my disappointment, that there are reports now that that site is being stripped.

A wnaiff y Prif Weinidog, yn gyntaf, longyfarch pawb a wnaeth geisio gweithio tuag at ailagor y lladd-dy? Ac, a all o geisio rhoi ateb i ni am beth yn union aeth o'i le efo'r ymdrechion bryd hynny? Mae hwn yn safle, wrth gwrs, sydd wedi derbyn arian sylweddol gan Lywodraethau yn y gorffennol. A wnaiff o roi addewid y bydd y Llywodraeth yn taflu'i phwysau y tu ôl i unrhyw ymdrechion yn y dyfodol i, o bosib, agor lladd-dy llai ar gyfer y farchnad leol yn gyntaf, ond a allai dyfu o hynny?

Will the First Minister, first of all, congratulate everyone who worked towards reopening the abattoir? Can he try to give us some sort of response as to what exactly went wrong with those efforts? This is a site that has received significant funding from Governments in the past. Will he give a pledge that the Government will put its weight behind any attempts in future to perhaps open a smaller abattoir for the local market first, but that could grow in future?

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

A gaf ddiolch i'r Aelod am y geiriau twym a oedd gydag e tuag at bawb a oedd wedi ymdrechu'n galed iawn er mwyn sicrhau dyfodol i'r safle? Colli marchnad, rwy'n credu, os cofiaf, oedd y broblem, ac, wrth gwrs, weithiau, gyda lladd-dai, un prynwr sydd ganddyn nhw weithiau, ac os yw'r prynwr hwnnw'n mynd i rywle arall, mae yna problemau mawr ynglŷn â dyfodol y lladd-dy ei hun. Mae'n siomedig, wrth gwrs, i weld bod y lladd-dy yn cael ei stripio, fel y dywedodd e, ac, wrth gwrs, mae'n siomedig dros ben i feddwl nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd, ta beth, i sicrhau bod y lladd-dy yn ailgor. Rydym wastad wedi gweithio'n agos iawn gyda chwmnïau sy'n rhedeg lladd-dai yng Nghymru er mwyn sicrhau, wrth gwrs, bod yna ddigon o gapasiti yng Nghymru i ladd yn enwedig cig coch—cig oen yn enwedig a chig eidion, sy'n bwysig dros ben. Ond, wrth ddweud hynny wrth gwrs, mae'n bwysig bod capasiti gennym yng nghig gwyn hefyd—mae hynny'n wir. Achos, y peth nad ydym moyn gweld yw sefyllfa lle mae'r rhan fwyaf o anifeiliaid yng Nghymru yn cael eu lladd, neu'u difa, yn Lloegr. Wedyn, wrth gwrs, byddai effaith ar yr arian a fydd ar gael yn ôl y lefi.

Could I thank the Member for those warm words for everyone who campaigned very hard to ensure a future for the site? Losing market share, I think, was the problem, if I remember rightly, and sometimes with an abattoir, they have only one buyer and if that buyer goes somewhere else, well, there are major problems in terms of the future of the abattoir itself. It is very disappointing, of course, to see that the abattoir is being stripped, as he said. Of course, it is very disappointing to think that there aren't any plans at present to ensure that the abattoir will reopen. We've always worked very closely with companies that run abattoirs in Wales, in order to ensure that we have enough capacity in Wales to slaughter red meat in particular—lamb, especially, but also beef, which is very important. Of course, in doing that, it's important that we have the capacity for white meat as well—that is true. Because, what we don't want to see is a situation where the majority of animals in Wales are slaughtered in England. Of course, there would then be an impact on the money that would be available through the levy.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, farmers in the Elan valley in my constituency welcome very much the Government's change of heart with regard to the moorland line payments. However, that change of heart now leads to a certain amount of uncertainty with regard to what the Welsh Government's basic scheme will look like. Could you explain to me how a group of upland farmers identified sections of the Government's proposed scheme that did not comply with the relevant EU regulations, whilst the Welsh Government, its Ministers and all its resources managed to overlook the same regulations?

Brif Weinidog, mae ffermwyr yn nyffryn Elan yn fy etholaeth i yn croesawu'n fawr penderfyniad y Llywodraeth i newid ei meddwl am y taliadau llinell rhostir. Fodd bynnag, mae'r newid meddwl hwnnw bellach yn arwain at gryd dipyn o ansicrwydd o ran sut y bydd cynllun sylfaenol Llywodraeth Cymru yn edrych. A allech chi egluro i mi sut y nododd grŵp o ffermwyr ucheldir rannau o gynllun arfaethedig y Llywodraeth nad oeddent yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol yr UE, tra llwyddodd Llywodraeth Cymru, ei Gweinidogion a'i holl adnoddau i fethu â gweld yr un rheoliadau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That's what the court decided. The pot of money will remain the same. Of course, we will put in place a scheme as quickly as possible, with a view, of course, to ensuring there are no delays in any payments towards the end of the year. That is something that we committed to—or, I committed to—in this Chamber last week and I know the Minister's also done so publicly.

Dyna'r hyn a benderfynodd y llys. Bydd y pot o arian yn aros yr un fath. Wrth gwrs, byddwn yn rhoi cynllun ar waith cyn gynted â phosibl, gyda'r bwriad, wrth gwrs, o sicrhau nad oes unrhyw oediadau i unrhyw daliadau tuag at ddiwedd y flwyddyn. Mae hynny'n rhywbeth yr ymrwymasom ni iddo—neu yr ymrwymais i iddo—yn y Siambur hon yr wythnos diwethaf ac rwy'n gwybod bod y Gweinidog wedi gwneud hynny yn gyhoeddus hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rhaglen Diwygio Lles

The Welfare Reform Programme

14:18

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru am effeithiau rhaglen diwygio lles Llywodraeth y DU? OAQ(4)2049(FM)

8. Will the First Minister make a statement on the Auditor General for Wales's report on the effects of the UK Government's welfare reform programme? OAQ(4)2049(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we have repeatedly expressed our concern about the UK Government's welfare reforms and the scale, scope and speed of those changes. I am pleased the report recognises the Welsh Government's significant investment to help people cope with the impact of those reforms. We are considering the report's findings in detail.

Wel, rydym ni wedi mynegi ein pryder am ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU dro ar ôl tro, a graddfa, cwmipas a chyflymder y newidiadau hynny. Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cydnabod buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru i helpu pobl i ymdopi ag effaith y diwygiadau hynny. Rydym ni wrthi'n ystyried canfyddiadau'r adroddiad yn fanwl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, First Minister. As you say, the report published the week before last confirmed the worst fears of many of us on this side of the Chamber, namely that the Tory-led UK Government's misguided welfare reform programme has ended up hitting the most vulnerable. Citizens advice bureaux across Wales have reported being inundated with cases of benefit and welfare-related problems. Nevertheless, the report does highlight the good work being done by Labour-controlled Caerphilly County Borough Council to help those affected by welfare reforms, by working with Dŵr Cymru and with the Jobcentre Plus in order to help some of the most vulnerable citizens.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y dywedwch, cadarnhaodd yr adroddiad a gyhoeddwyd bythefnos yn ôl ofnau gwaethaf llawer ohonom ni ar yr ochr hon i'r Siamber, sef bod rhaglen diwygio lles gyfeiliornus Llywodraeth y DU dan arweiniad y Toriaid wedi taro'r rhai mwyaf agored i niwed yn y pen draw. Mae canolfannau cyngor ar bopeth ledled Cymru wedi adrodd eu bod yn cael eu boddi mewn achosion o broblemau'n ymwneud â budd-dal a lles. Serch hynny, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y gwaith da sy'n cael ei wneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dan reolaeth y blaid Lafur i helpu'r rhai y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt, trwy weithio gyda Dŵr Cymru a chyda'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn helpu rhai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, will you agree with me that we need to see more of this kind of support being provided by other local authorities across Wales, and will you also agree with me that the Welsh Government will continue to work with all of its partners to help combat the worst effects of Tory welfare reform?

Brif Weinidog, a wnech chi gytuno â mi bod angen i ni weld mwy o'r math hwn o gymorth yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, ac a wnech chi gytuno â mi hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phob un o'i phartneriaid i helpu i frwydro yn erbyn effeithiau gwaethaf diwygio lles y Toriaid?

14:19 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, one thing we know and that is that if the party opposite gets into Government after May, there's a lot worse to come—a lot worse to come. According to the Institute for Fiscal Studies, there could be a 26% cut in real terms—in real terms—in terms of welfare benefit provision. I welcome the approach that Caerphilly county borough have adopted as part of their financial inclusion policy to support and promote all of the benefits, tax credits and financial help available to people. Of course, I would encourage other local authorities to consider a similar, successful model.

Wel, yr un peth yr ydym ni'n ei wybod yw os yw'r blaid gyferbyn yn llwyddo i gael i mewn i Lywodraeth ar ôl Mai, mae llawer gwaeth i ddod—llawer gwaeth i ddod. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, gallai fod toriad o 26% mewn termau real—mewn termau real—o ran y ddarpariaeth o fudd-daliadau lles. Rwy'n croesawu'r dull y mae bwrdeistref sirol Caerffili wedi ei fabwysiadu yn rhan o'i pholisi cynhwysiant ariannol i gefnogi a hyrwyddo'r holl fudd-daliadau, credydau treth a chymorth ariannol sydd ar gael i bobl. Wrth gwrs, byddwn yn annog awdurdodau lleol eraill i ystyried model llwyddiannus tebyg.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The housing benefit reforms, of course, were introduced in response to overcrowding and waiting lists inherited. Guidance on discretionary housing payments was issued by the Department for Work and Pensions from 2011, with priority for disabled people in adapted accommodation or with reliance on local support, but the report highlights concern with the allocation, distribution, administration and use of those payments, and significant inconsistencies and weaknesses by local authorities. What action will the Welsh Government take to communicate to local authorities the recommendations made by the report to improve management, access to and use of discretionary housing payments?

Cyflwynwyd y diwygiadau i fudd-daliadau tai, wrth gwrs, mewn ymateb i orlenwi a rhestrau aros a etifeddwyd. Cyhoeddwyd canllawiau ar daliadau tai dewisol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o 2011, gyda blaenoriaeth i bobl anabl mewn llety wedi'i addasu neu a oedd yn dibynnu ar gymorth lleol, ond mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bryder o ran dyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hynny, ac anghysondebau a gwendidau sylweddol gan awdurdodau lleol. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gyfathrebu i awdurdodau lleol yr argymhellion a wnaed gan yr adroddiad i wella rheolaeth, mynediad at daliadau tai dewisol a'r defnydd ohonynt?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:21	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>These are things that we are considering as part of the report, and we'll consider our response. It is a great shame that local authorities are having to clear up the mess that's been created by the UK Government, and we all know, of course, how deep that mire will get if the result goes the wrong way in May.</p>	<p>Mae'r rhain yn bethau yr ydym ni'n eu hystyried yn rhan o'r adroddiad, a byddwn yn ystyried ein hymateb. Mae'n drueni mawr bod awdurdodau lleol yn gorfod clirio'r llanast a grëwyd gan Lywodraeth y DU, ac rydym ni i gyd yn gwybod, wrth gwrs, faint o helynt y bydd hynny'n ei greu os bydd y canlyniad yn mynd y ffordd anghywir ym mis Mai.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Cwestiwn Brys: Amseroedd Aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys</p> <p>I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Darren Millar to ask that urgent question.</p>	<p>Urgent Question: Accident and Emergency Waiting Times Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Darren Millar i ofyn y cwestiwn brys hwnnw.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cwymp sylweddol ym mherfformiad Cymru o ran amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys? EAQ(4)533(HSS)</p>	<p>Will the Minister make a statement on a significant drop in Wales's performance in accident and emergency waiting times? EAQ(4)533(HSS)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:21	<p>Vaughan Gething Bywgraffiad Biography <i>Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health</i></p> <p>The NHS across the UK is experiencing considerable and sustained pressures as a result of an increase in the number of seriously ill people attending A&E departments, who then need to be admitted to hospital. NHS staff in Wales are working tirelessly with other services to ensure that patients receive the high-quality care that they need.</p>	<p>Mae'r GIG ar draws y DU yn dioddef pwysau sylweddol a pharhaus o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl ddifrifol wael sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys, y mae angen eu derbyn i'r ysbyty wedyn. Mae aelodau staff y GIG yng Nghymru yn gweithio'n ddiflino gyda gwasanaethau eraill i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal o ansawdd uchel sydd ei angen arnynt.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that response, Deputy Minister, but the truth of the matter is that the Welsh NHS is in the midst of a very, very bleak midwinter. Emergency departments, as you say, are facing pressure across the UK, yet there is a gulf in performance here, in Wales, compared to other parts of the United Kingdom and, particularly, just over the border in England. It's been more than five years now, since these targets were last met. Do you regret being part of a Government that has imposed record-breaking cuts on the Welsh national health service in recent years? When can we expect to see an action plan with a clear timetable to turn this situation around? Can you explain to us why there is such a performance gap between Wales and other parts of the UK?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Ddirprwy Weinidog, ond y gwir amdani yw bod y GIG yng Nghymru yng nghanol gaeaf llwm iawn iawn. Mae adrannau achosion brys, fel y dywedwch, yn wynebu pwysau ar draws y DU, ac eto mae gagedor mewn perfformiad yma, yng Nghymru, o'i gymharu â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac, yn arbennig, rhywfaint yr ochr arall i'r ffin yn Lloegr. Mae mwya na phum mlynedd bellach ers i'r targedau hyn gael eu bodloni ddiwethaf. A ydych chi'n difaru bod yn rhan o Lywodraeth sydd wedi gwneud y toriadau mwyaf erioed i'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn y blynyddoedd diweddar? Pryd allwn ni ddisgwyl gweld cynllun gweithredu ag amserlen eglur i wella'r sefyllfa hon? A allwch chi esbonio i ni pam mae'r fath fwlch yn bodoli rhwng perfformiad Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Vaughan Gething Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for the follow-up question and series of points.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn dilynol a'r gyfres o bwyntiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:22	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Three questions, actually.</p>	<p>Tri chwestiwn, a dweud y gwir.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There were a range of points made there, indeed. The Member will be aware that you can't compare English figures with the Welsh ones. They count different figures at different times. You're aware, for example, that English A&E figures count walk-in centres, which don't exist here, in England. It is worth noting that, in terms of achievement here in Wales, it has not simply been the busiest December for the last five years in A&E departments, but that, within that, A&E departments across Wales have seen, treated and discharged more people than in any other December. So, the rate and the number of people being seen within that time and treated within that time have actually gone up.

That is down to the tireless work of A&E staff up and down the country. It does no good whatsoever to the performance of our staff right across the healthcare system to attack the service in the way in which the Member does.

The Member should also reflect, whenever he stands up and talks about funding pressures, on the unavoidable fact that there has been a real-terms reduction of £1.5 billion in the Welsh Government budget. Despite that, it is a fact that, at the start of this Assembly term, the health budget took up 43.6% of the Welsh Government budget; it is now 44.8%. As a percentage of what this Welsh Government is able to spend within its fixed budget, more money than ever before is being spent on the health service.

I should also make the point that, in addition to the hard work being undertaken by staff right up and down the country, the public are part of what can help the service in these most difficult of times. The College of Emergency Medicine estimate that 15% of people who attend A&E do not need any form of medical treatment. They estimate a further 25% need some form of medical treatment, but do not need to be in an A&E department. By recognising the Choose Well message, people can help the service to see and treat the most seriously ill people as they could and should be treated. I'm very proud of what our service has done in the most difficult of times

Gwnaed amryw o bwytiau yn y fan yna, yn wir. Bydd yr Aelod yn ymwybodol na allwch chi gymharu ffigurau Lloegr â rhai Cymru. Maen nhw'n cyfrif gwahanol ffigurau ar wahanol adegau. Rydych chi'n ymwybodol, er enghraifft, bod ffigurau damweiniau ac achosion brys yn Lloegr yn cyfrif canolfannau galw i mewn, nad ydynt yn bodoli yma, yn Lloegr. Mae'n werth nodi, o ran cyflawniad yma yng Nghymru, nid yn unig i ni gael y Rhagfyr prysuraf ers pum mlynedd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ond, o fewn hynny, bod adrannau damweiniau ac achosion brys ledled Cymru wedi gweld, trin a rhyddhau mwy o bobl nag yn ystod unrhyw Ragfyr arall. Felly, mae cyfradd a nifer y bobl a welwyd yn ystod y cyfnod hwnnw ac a gafodd eu trin yn ystod y cyfnod hwnnw wedi cynyddu mewn gwirionedd.

Mae hynny oherwydd gwaith diflino staff damweiniau ac achosion brys ar hyd a lled y wlad. Nid yw'n gwneud unrhyw ddaioni o gwbl i berfformiad ein staff ar draws y system gofal iechyd i ymosod ar y gwasanaeth yn y ffordd y mae'r Aelod yn ei wneud.

Dylai'r Aelod fyfyrho hefyd, pryd bynnag y bydd yn sefyll i fyny a siarad am bwysau ariannu, ar y ffaith anochel y bu gostyngiad mewn termau real o £1.5 biliwn i gyllideb Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf hynny, mae'n ffaith, ar ddechrau'r tymor Cynulliad hwn, bod y gyllideb iechyd yn 43.6% o gyllideb Llywodraeth Cymru; mae'n 44.8% erbyn hyn. Fel canran o'r hyn y gall y Llywodraeth Cymru hon ei wario'n unol â'i chyllideb sefydlog, mae mwy o arian nag erioed o'r blaen yn cael ei wario ar y gwasanaeth iechyd.

Dylwn hefyd wneud y pwynt, yn ogystal â'r gwaith caled sy'n cael ei wneud gan staff ar hyd a lled y wlad, bod y cyhoedd yn rhan o'r hyn a all helpu'r gwasanaeth yn y cyfnod mwyaf anodd hwn. Mae'r Coleg Meddygaeth Frys yn amcangyfrif nad oes angen unrhyw fath o driniaeth feddygol ar 15% o bobl sy'n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Maen nhw'n amcangyfrif bod 25% arall angen rhyw fath o driniaeth feddygol, ond nad oes angen iddynt fod mewn adran damweiniau ac achosion brys. Trwy gydnabod neges Dewis Doeth, gall pobl helpu'r gwasanaeth i weld a thrin y bobl fwyaf ddifrifol wael yn y ffordd y gallent ac y dylent gael eu trin. Rwy'n falch iawn yn y hyn y mae ein gwasanaeth wedi ei wneud yn y cyfnod mwyaf anodd hwn.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I'll compare Welsh figures with Welsh figures. Attendance at major A&E has been remarkably constant over the last four Decembers—around 62,000 people attending A&E in December 2011, December 2012, December 2013 and December 2014—and, despite this, the percentage of people waiting over four hours has worsened significantly over the past four Decembers. That's why we are here discussing it today. Now, I understand that there are more complex illnesses in winter, but people haven't suddenly become much older, much more ill in three years. In fact, we're all only three years older than we were three years ago. So, what else has changed to make this happen?

Ddirprwy Weinidog, mi wnaif gymharu ffigurau Cymru gyda ffigurau Cymru. Mae presenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr wedi bod yn hynod gyson dros y pedwar mis Rhagfyr diwethaf—aeth tua 62,000 o bobl i adrannau damweiniau ac achosion brys ym mis Rhagfyr 2011, mis Rhagfyr 2012, mis Rhagfyr 2013 a mis Rhagfyr 2014—ac, er gwaethaf hyn, mae canran y bobl sy'n aros dros bedair awr wedi gwaethygu'n sylweddol dros y pedwar mis Rhagfyr diwethaf. Dyna pam rydym ni yma'n ei drafod heddiw. Nawr, rwy'n deall bod afiechydon mwy cymhleth yn y gaeaf, ond nid yw pobl wedi mynd yn llawer hŷn, yn llawer mwy sâl yn sydyn mewn tair blynedd. Yn wir, dim ond tair blynedd yn hŷn nag oeddem ni dair blynedd yn ôl yw pob un ohonom. Felly, beth arall sydd wedi newid i beri i hyn ddigwydd?

Do you agree with me that the closure of community hospital beds, where GPs used to be able to refer the elderly in winter for serious conditions, and also the closure of more 24-hour mental health beds in the community over the past three years, have all had a contributory effect on the pressures on A&E and paramedic services this winter? How do you intend, then, to increase 24-hour community services to make sure that there are less people—fewer people, even—inappropriately being admitted to A&E than currently, so that they can be cared for in the NHS in the appropriate place?

A ydych chi'n cytuno â mi bod cau gwyliau mewn ysbytai cymuned, lle'r oedd Meddygon Teulu yn arfer gallu atgyfeirio'r henoed yn y gaeaf ar gyfer cyflyrau difrifol, a hefyd cau mwy o wyliau iechyd meddwl 24 awr yn y gymuned dros y tair blynedd diwethaf, i gyd wedi cyfrannu at y pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys a gwasanaethau parafeddygol y gaeaf hwn? Sut ydych chi'n bwriadu, felly, cynyddu gwasanaethau cymunedol 24 awr i wneud yn siŵr bod llai o bobl yn cael eu derbyn yn amhriodol i adran damweiniau ac achosion brys nag ar hyn o bryd, fel y gellir gofalu amdanynt yn y GIG yn y lle priodol?

14:26 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the comments and questions. In reflecting honestly on the challenge that the NHS faces in dealing with the numbers of people who go into our A&E departments, it is unavoidable that you have to talk about the types of patient that are being seen in larger numbers than before. It's the reason why the College of Emergency Medicine expressed their concern at the changing nature of the patient. The average age of admittance into A&E now is 86, and the complexity of those conditions means that more people—[Interruption.]

Diolch am y sylwadau a'r cwestiynau. Wrth fyfyrion onest ar yr her sy'n wynebu'r GIG wrth ymdrin â nifer y bobl sy'n mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys, mae'n anochel bod yn rhaid i chi siarad am y mathau o gleifion sy'n cael eu gweld mewn niferoedd mwy nag o'r blaen. Dyma'r rheswm pam y mynegodd y Coleg Meddygaeth Frys ei bryder am y newid yn natur y claf. 86 yw oedran cyfartalog y claf a dderbynnir i adran damweiniau ac achosion brys erbyn hyn, ac mae cymhlethdod y cyflyrau hynny yn golygu bod mwy o bobl —[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I want to hear what the Deputy Minister is saying.

Trefn. Hoffwn glywed yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei ddweud.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—need to be seen, treated and then admitted into a hospital than before, and those people are more likely to stay longer than before. That is why we need to see this in the context of the whole system and the pressures, not just of those who are going into hospital, but then what happens at the other end.

[Yn parhau.]—angen cael eu gweld, eu trin ac yna eu derbyn i'r ysbyty nag o'r blaen, ac mae'r bobl hynny'n fwy tebygol o aros yn hwy nag o'r blaen. Dyna pam mae angen i ni ystyried hyn yng nghyd-destun y system gyfan a'r pwysau, nid dim ond y rhai sy'n mynd i'r ysbyty, ond yna beth sy'n digwydd y pen arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Part of the reason why the system has not broken is because we have maintained investment in the social care service, and unlike in England, where they've had real terms cuts, social care has helped to make sure that flow has been maintained through the system. That does not mean that we are complacent about where we are, and I've been very clear with health boards that I expect more of them to achieve to the same level that Cwm Taf health board does, where patient flow is the best of any health board area in Wales. That is hugely important to make sure the system continues to work.

Rhan o'r rheswm pam nad yw'r system wedi torri yw oherwydd ein bod wedi cynnal buddsoddiad yn y gwasanaeth gofal cymdeithasol, ac yn wahanol i Loegr, lle maen nhw wedi cael toriadau termau real, mae gofal cymdeithasol wedi helpu i sicrhau bod llif wedi ei gynnal drwy'r system. Nid yw hynny'n golygu ein bod yn hunanfodlon ynglŷn â'r sefyllfa yr ydym ni ynnddi, ac rwyf wedi bod yn eglur iawn gyda byrddau iechyd fy mod i'n disgwyl i fwy ohonynt gyrraedd yr un lefel y mae bwrdd iechyd Cwm Taf yn ei gyrraedd, lle y ceir y llif cleifion gorau o unrhyw ardal bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae hynny'n hynod o bwysig i sicrhau bod y system yn parhau i weithio.

We also recognise that primary care is a big part of the solution to try to make sure that people are seen and treated in primary care wherever possible—that people access the primary care services—but, in particular, that the whole service must be better at intervening earlier, so that the people who we recognise as being frail, and more likely to be admitted at times over the winter, are seen on a proactive basis. That is exactly what is happening in Betsi Cadwaladr, in Denbighshire and in Ynys Môn, where I spoke to some of those staff. Within that primary health care team, it's the advanced nurse petitioners, working with GP practices and working with social care in the local authority, who are doing quite significant work in ensuring that people do not need to go into hospital. I want to see what the outcomes of that project are and then to understand how much more that can be rolled out right across Wales to have a more consistent picture, because those models of care will be increasingly more important for the kind of health service we will need to see now and in the future.

Rydym ni hefyd yn cydnabod bod gofal sylfaenol yn rhan fawr o'r ateb i geisio gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu gweld a'u trin mewn gofal sylfaenol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl—bod pobl yn cael mynediad at y gwasanaethau gofal sylfaenol—ond, yn arbennig, bod yn rhaid i'r gwasanaeth cyfan fod yn well o ran ymyrryd yn gynharach, fel bod y bobl yr ydym yn eu cydnabod fel bod yn fregus, ac yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty ar adegau yn ystod y gaeaf, yn cael eu gweld ar sail ragweithiol. Dyna'n union yr hyn sy'n digwydd yn Betsi Cadwaladr, yn Sir Ddinbych ac yn Ynys Môn, lle y siaradais â rhai o'r staff hynny. O fewn y tîm gofal iechyd sylfaenol hwnnw, deisebwyr nyrs uwch, yn gweithio gyda meddygyfeydd teulu ac yn gweithio gyda gofal cymdeithasol yn yr awdurdod lleol, sy'n gwneud gwaith tra arwyddocaol o ran sicrhau nad oes angen i bobl fynd i'r ysbyty. Hoffwn weld beth yw canlyniadau'r prosiect hwnnw ac yna deall faint mwy y gellir ei gyflwyno ledled Cymru gyfan i gael darlun mwy cyson, gan y bydd y modelau gofal hynny'n gynyddol bwysig ar gyfer y math o wasanaeth iechyd y bydd angen i ni ei weld nawr ac yn y dyfodol.

14:29

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, the problems that the Welsh A&E departments are facing are not unique to Wales and the causes are complex and the answers aren't simple. I would have slightly more sympathy with your position, however, if your colleague across the border, Andy Burnham, didn't go around describing it as an NHS A&E crisis when performance is at 92% in England, and then, in Wales, 'It is not a crisis,' when our performance is at 81%.

Now, you've just given a very rational analysis of some of the solutions to Elin Jones. But, isn't it the reality, Deputy Minister, that we have had the Gwent frailty project for a number of years? We know, for instance, in Powys that our virtual ward model is successful in keeping people well and keeping people out of A&E departments. We also know that busy A&E departments and busy DGHs are not the appropriate place for the elderly person with a lot of complex problems, perhaps coming towards the end of their life; that's not the appropriate place for them to be. We know all this. We've known it for a long time. My question to you is: when are you going to move from the analysis into real system change in our NHS so that people get to the right place, at the right time, with the appropriately trained staff to look after them?

Ddirprwy Weinidog, nid yw'r problemau y mae adrannau damweiniau ac achosion brys Cymru yn eu hwynebu yn unigryw i Gymru ac mae'r achosion yn gymhleth, ac nid yw'r atebion yn syml. Byddai gennyf ychydig mwy o gydymdeimlad â'ch safbwynt, fodd bynnag, pe na byddai eich cydweithiwr dros y ffin, Andy Burnham, yn mynd o gwmpas yn ei ddisgrifio fel argyfwng damweiniau ac achosion brys y GIG pan fo perfformiad yn 92% yn Lloegr, ac yna, yng Nghymru, 'Nid yw'n argyfwng,' pan fo ein perfformiad yn 81%.

Nawr, rydych chi newydd gynnig dadansoddiad rhesymegol iawn o rai o'r atebion i Elin Jones. Ond, onid y gwir amdani, Ddirprwy Weinidog, yw y bu prosiect eiddilwch Gwent gennym ers nifer o flynyddoedd? Rydym ni'n gwybod, er enghraifft, ym Mhowys bod ein model ward rithwir yn llwyddo i gadw pobl yn iach a chadw pobl allan o adrannau damweiniau ac achosion brys. Rydym ni hefyd yn gwybod nad adrannau damweiniau ac achosion brys ac Ysbytai Cyffredinol Dosbarth prysur yw'r lle priodol ar gyfer unigolion oedrannus â llawer o broblemau cymhleth, sydd efallai'n dod at ddiwedd eu hoes; nid dyna'r lle priodol iddyn nhw fod ynddo. Rydym ni'n gwybod hyn i gyd. Rydym ni'n ei wybod ers amser maith. Fy nghwestiwn i chi yw: pryd ydych chi'n mynd i symud o'r dadansoddi i newid gwirioneddol yn ein system GIG fel bod pobl yn cyrraedd y lle iawn, ar yr adeg iawn, gydag aelodau staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ofalu amdanynt?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, having the right patient being seen by the right clinician at the right time is exactly what we want our service to deliver. I recognise some of the frustration about the level of consistency in achievement and in service redesign. There's a recognition that for all the reform the NHS has managed to achieve here in Wales—the fact that we see more people, we treat more people than ever before—there is a need to go further. There's been recognition of this for some time and there's been some consensus on this. But the urgency with which the system now needs to achieve that is there. It's partly because of the reality that we are getting less money, and we expect to get less money as a Welsh Government for a number of years, at least, in the future. But it is also about how we deliver the right outcomes for the patient. And I'm at least as interested in that as dealing with the reality of our budget, and I have been remarkably clear with each health board about the need for them to achieve that urgency in redesigning services. I am frustrated at times at the lack of achievement within that necessary service redesign, and I can be absolutely clear that I will not let up in the conversation that I continue to have, and in the urgency with which I expect people to address this issue as we move forward.

For example, in winter plans, we see a level of achievement in the way that social care works with the health service. In particular, that's helped hospitals to run and have a certain amount of flow. Well, I would like to see that urgency undertaken year round, because the pressures are there across the year. They are extended and exacerbated in the winter, but there's a point here about the service needing to front up and do what we all think it could and should do. I will support the service and I will stand up for the service in what it continues to do, but the NHS itself, I believe, in Wales recognises where it does need to go.

Wel, i'r claf iawn gael ei gweld gan y clinigydd iawn ar yr adeg iawn yw'r union beth yr ydym ni eisiau i'n gwasanaeth ei gyflawni. Rwy'n cydnabod rhywfaint o'r rhwystredigaeth ynglŷn â lefel y cysondeb o ran cyflawniad ac ailgynllunio gwasanaethau. Er gwaethaf yr holl ddiwygio y mae'r GIG wedi llwyddo i'w gyflawni yma yng Nghymru—y ffaith ein bod yn gweld mwy o bobl, ein bod yn trin mwy o bobl nag erioed o'r blaen—ceir cydnabyddiaeth bod angen mynd ymhellach. Bu cydnabyddiaeth o hyn ers cryn amser a bu rhywfaint o gonsensws ar hyn. Ond mae'r brys y mae angen i'r system ei gymryd bellach i gyflawni hynny yno. Mae'n rhannol oherwydd y gwirionedd ein bod yn cael llai o arian, ac rydym ni'n disgwyl cael llai o arian fel Llywodraeth Cymru am nifer o flynyddoedd, o leiaf, yn y dyfodol. Ond mae hefyd yn ymwneud â sut yr ydym ni'n sicrhau'r canlyniadau cywir i'r claf. Ac mae gen i o leiaf cymaint o ddiddordeb yn hynny ag mewn ymdrin â realiti ein cyllideb, ac rwyf wedi bod yn hynod eglur gyda phob bwrdd iechyd am yr angen iddo gyflawni'r brys hwnnw wrth ailgynllunio gwasanaethau. Rwy'n teimlo'n rhwystredig â'r diffyg cyflawniad o ran yr ailgynllunio gwasanaethau angenrheidiol hwnnw ar adegau, a gallaf fod yn gwbl eglur na fyddaf yn lleihau fy ymroddiad i'r sgwrs rwy'n parhau i'w chael, ac o ran y brys rwy'n ei ddisgwyl gan bobl wrth iddynt fynd i'r afael â'r mater hwn wrth i ni symud ymlaen.

Er enghraifft, yng nghynlluniau'r gaeaf, rydym ni'n gweld lefel o lwyddiant yn y ffordd y mae gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'r gwasanaeth iechyd. Yn arbennig, mae hynny wedi helpu ysbytai i redeg a chael rhywfaint o lif. Wel, hoffwn weld y brys hwnnw trwy gydol y flwyddyn, gan fod y pwysau yno drwy gydol y flwyddyn. Maen cael ei ymestyn a'i waethygu yn y gaeaf, ond ceir pwynt yma am yr angen i'r gwasanaeth gymryd cyfrifoldeb a gwneud yr hyn yr ydym ni i gyd yn meddwl y gallai ac y dylai ei wneud. Byddaf yn cefnogi'r gwasanaeth a byddaf yn sefyll dros y gwasanaeth yn yr hyn y mae'n parhau i'w wneud, ond mae'r GIG ei hun, rwy'n credu, yng Nghymru yn cydnabod ble mae angen iddo fynd.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this weekend, we heard an emergency medicine consultant at Wrexham Maelor A&E blaming a drop in the hospital's performance on a lack of capacity in parts of the region, including a reduction in community beds, which he said means that patients cannot be discharged if they have nowhere to go. Yesterday, we heard of a nurse working in the same unit who believes that A&E staff are close to breaking point. She also said that she works with an excellent team of nurses, doctors and consultants, and, of course, she does. How do you respond to the NHS staff I spoke to yesterday in Holywell Community Hospital who said that, with pressure on our general hospitals, we should be trying to take pressure off Glan Clwyd and Wrexham Maelor, but that they're not being given the staff to do it, that this is happening everywhere, and that extra investment in our local community hospitals, such as Holywell, and NHS community beds in Flint, would take pressure off our general hospitals, help tackle the A&E crisis and enable the health board to use its resources more efficiently?

Wel, y penwythnos hwn, clywsom ymgynghorydd meddygaeth frys yn adran damweiniau ac achosion brys ysbyty Maelor Wrecsam yn beio'r dirywiad ym mherfformiad yr ysbyty ar ddiffyg capasiti mewn rhannau o'r rhanbarth, gan gynnwys gostyngiad yn nifer y gwelyau cymunedol, a dywedodd bod hynny'n golygu na all cleifion gael eu rhyddhau os nad oes ganddynt unman i fynd. Ddoe, clywsom am nyrs sy'n gweithio yn yr un uned sydd o'r farn bod staff damweiniau ac achosion brys yn agos at ben eu tennyn. Dywedodd hefyd ei bod yn gweithio gyda thîm ardderchog o nyrsys, meddygon ac ymgynghorwyr, ac, wrth gwrs, mae hi. Sut ydych chi'n ymateb i staff y GIG y siaradais i â nhw ddoe yn Ysbyty Cymuned Treffynnon a ddywedodd, gyda phwysau ar ein hysbytai cyffredinol, y dylem fod yn ceisio cymryd pwysau oddi ar Glan Clwyd a Maelor Wrecsam, ond nad ydynt yn cael y staff i wneud hynny, bod hyn yn digwydd ym mhob man, ac y byddai buddsoddiad ychwanegol yn ein hysbytai cymuned lleol, fel Treffynnon, a gwelyau cymuned y GIG yn y Fflint, yn cymryd pwysau oddi ar ein hysbytai cyffredinol, yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng damweiniau ac achosion brys ac yn galluogi'r bwrdd iechyd i ddefnyddio ei adnoddau'n fwy effeithlon?

14:33

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This goes back to similar points that have been made in terms of the model of care services that we run across the NHS in Wales. They need to make better use of all the services that exist within primary care from both the public's point of view—what we all can do in the way that we use the services—and the way in which health professionals within primary care, and it is that broad primary care team, support and maintain people outside of secondary care, and the way that we actually see and want to recognise that social care will continue to work with the hospital-based services. Now, there's no disagreement on those being the challenges. The difficulty is how hard-pressed staff, with a significant rise in demand—And that demand is not just numbers, it is the point I made earlier: it is the type of patients, who are, frankly, older and sicker than we've seen before. Now, there's no point pretending that there will be a quick-fix solution and that I can flick a button or deliver more into the system within the next week to deal with those complex challenges. It is about how the service uses the time as it gets through the end of winter, and how it uses the next year, when there will be more money going into the NHS, not just the £40 million that we announced for winter pressures now, but more money—an extra £295 million for the NHS next year—in the most difficult of circumstances financially. So, there's a real level of commitment from the Government in supporting the NHS to do its job for, and on behalf, of our citizens. That's the job that we will continue to do, and I make no apology for standing up for what the NHS does. It continues to do a remarkable job for citizens up and down Wales.

Mae hyn yn mynd yn ôl at bwyntiau tebyg a wnaed o ran y model gwasanaethau gofal yr ydym ni'n eu rhedeg ar draws y GIG yng Nghymru. Mae angen iddyn nhw wneud gwell defnydd o'r holl wasanaethau sy'n bodoli mewn gofal sylfaenol, o safbwynt y cyhoedd—yr hyn y gall pob un ohonom ni ei wneud yn y ffordd yr ydym ni'n defnyddio'r gwasanaethau—a'r ffordd y mae gweithwyr iechyd proffesiynol ym maes gofal sylfaenol, a'r tîm gofal sylfaenol eang hwnnw, yn cefnogi a chynnal pobl y tu allan i ofal eilaidd, a'r ffordd yr ydym ni wir yn gweld ac eisïau cydnabod y bydd gofal cymdeithasol yn parhau i weithio gyda'r gwasanaethau mewn ysbys. Nawr, nid oes unrhyw anghytuno mai dyma'r heriau. Yr anhawster yw faint o bwysau sydd ar staff, gyda chynnydd sylweddol mewn galw—. Ac nid niferoedd yn unig yw'r galw hwnnw, mae'n ymwneud â'r pwynt a wnaed gennyf yn gynharach: y math o gleifion, sydd, a dweud y gwir, yn hŷn ac yn fwy sâl nag yr ydym ni wedi ei weld o'r blaen. Nawr, nid oes pwynt cymryd arnom y bydd ateb cyflym ac y gallaf i bwysu botwm neu gyfrannu mwy i'r system yn ystod yr wythnos nesaf i ymdrin â'r heriau cymhleth hynny. Mae'n ymwneud â sut y bydd y gwasanaeth yn defnyddio'r amser wrth iddo gyrraedd diwedd y gaeaf, a sut y bydd yn defnyddio'r flwyddyn nesaf, pan fydd mwy o arian yn mynd i mewn i'r GIG, nid dim ond y £40 miliwn a gyhoeddwyd gennym ar gyfer pwysau'r gaeaf nawr, ond mwy o arian—£295 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG y flwyddyn nesaf—dan yr amgylchiadau ariannol anoddaf. Felly, ceir lefel wirioneddol o ymrwymiad gan y Llywodraeth i gefnogi'r GIG i wneud ei waith ar gyfer, ac ar ran, ein dinasyddion. Dyna'r gwaith y byddwn yn parhau i'w wneud, ac nid wyf yn ymddiheuro am sefyll dros yr hyn y mae'r GIG yn ei wneud. Mae'n parhau i wneud gwaith anhygoel i ddinasyddion ar hyd a lled Cymru.

14:35

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you.

Diolch yn fawr.

14:35

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the business statement, and I call the Minister, Jane Hutt.

Symudwn nawr at y datganiad busnes, a galwaf y Gweinidog, Jane Hutt.

14:35

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Thank you, Llywydd. There are no changes to this week's business, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Nid oes dim newidiadau i fusnes yr wythnos hon, ac mae busnes y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

- 14:35 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I want to ask you for a statement from your department, if I may. It's regarding the distribution of grants for deprivation. And the reason for that is that Monmouthshire County Council, in their allocation this year, have not received any money for deprivation whatsoever. Last year, they received £400; this year, nothing. Why is that?
- Weinidog, hoffwn ofyn ichi am ddatganiad gan eich adran, os caf. Mae'n ymwneud â dosbarthu grantiau ar gyfer amddifadedd. A'r rheswm am hynny yw nad yw Cyngor Sir Fynwy, yn ei ddyraniad eleni, wedi derbyn dim arian o gwbl ar gyfer amddifadedd. Y llynedd, cafodd £400; eleni, dim byd. Pam hynny?
- 14:35 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, this is a matter of distribution according to a clear formula, which is worked out not only with Welsh Government but our partners in Welsh local government.
- Wrth gwrs, mae hyn yn fater o ddsbarthu yn ôl fformiwla glir, sy'n cael ei chyfrifo nid yn unig gyda Llywodraeth Cymru ond gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol yng Nghymru.
- 14:36 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Earlier this afternoon, the First Minister mentioned Sêr Cymru in an answer to a question from Julie Morgan. On Saturday, I attended the court of Swansea University, where Sêr Cymru was raised. Can I ask for a statement on the success of Sêr Cymru in bringing world-class researchers into Welsh universities?
- Yn gynharach y prynhawn yma, soniodd y Prif Weinidog am Sêr Cymru wrth ateb cwestiwn gan Julie Morgan. Ddydd Sadwrn, roeddwn yn bresennol yn llys Prifysgol Abertawe, lle codwyd mater Sêr Cymru. A gaf fi ofyn am ddatganiad am lwyddiant Sêr Cymru o ran dod ag ymchwilwyr o'r radd flaenaf i mewn i brifysgolion Cymru?
- 14:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, as Mike Hedges says, Sêr Cymru is playing a very strong part in attracting world-class researchers in Wales. The Minister for Economy, Science and Transport has provided regular updates on Sêr Cymru—oral statements, in fact, last year, on 3 June and 2 December and also, the Chief Scientific Adviser for Wales, Professor Julie Williams, updating the Assembly. But, of course, further updates will be provided as it progresses, and also demonstrating the positive impacts, as you say, because that will help raise the profile in attracting world-class researchers to Wales.
- Wel, fel y dywed Mike Hedges, mae Sêr Cymru yn rhan bwysig iawn o'r gwaith o ddenu ymchwilwyr o'r radd flaenaf i Gymru. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi bod yn rhoi'r newyddion diweddaraf yn rheolaidd inni am Sêr Cymru—datganiadau llafar, mewn gwirionedd, y llynedd, ar 3 Mehefin a 2 Rhagfyr a hefyd, bu Prif Gyngorydd Gwyddonol Cymru, yr Athro Julie Williams, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad. Ond, wrth gwrs, rhoddir rhagor o ddiweddariadau wrth i hyn fynd rhagddo, gan ddangos yr effeithiau cadarnhaol hefyd, fel y dywedwch, oherwydd bydd hynny'n helpu i godi'r proffil er mwyn denu ymchwilwyr o'r radd flaenaf i Gymru.
- 14:37 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Hoffwn i ofyn i'r Gweinidog am ddau ddatganiad, os yw'n bosib, gan y Llywodraeth. Yn gyntaf oll, a gaf i ddatganiad ynglŷn â phrisoedd tanwydd a'r peth mae'r Llywodraeth yn ei wneud ynglŷn â phrisoedd tanwydd? Byddwch chi'n ymwybodol, Weinidog, bod Nwy Prydain, ac E.ON, rwy'n meddwl, wedi gostwng pris tanwydd ychydig, er bod y prisoedd ar y farchnad wedi bod dipyn yn fwy, ac mae hynny i'w groesawu i'r graddau y mae'n digwydd. Ond, wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o'm hetholwyr i yn byw oddi ar y grid, o safbwynt nwy, ac yn ddibynol ar danwydd yn cael ei gludo i mewn, mewn lorïau, ac nid yw'r pris hwnnw wedi gostwng o gwbl yn ddiweddar. Yn wir, mae'n dueddol o fod yn fwy tymhorol, yn hytrach nag yn ymateb i'r farchnad fel y cyfryw.
- I would like to ask the Minister for two statements, if possible, from Government. First of all, I would like a statement on fuel prices and what the Government is doing about fuel prices. You'll be aware, Minister, that British Gas and E.ON, I think, have reduced the price of energy a little, although the reduction in market price has been far greater, and that is to be welcomed to the extent that it happens. But most of my constituents live off-grid, in terms of gas, and are reliant on fuel being brought in by lorry, and that price hasn't gone down at all recently. Indeed, it tends to be more seasonal, rather than responding to market conditions as such.

Pa gamau, felly, y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i hyrwyddo dulliau amgen o brynu tanwydd yn yr ardaloedd cefn gwlad hyn, sydd yn danwydd tanc, a pha gamau mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan, sy'n bennaf cyfrifol am y farchnad yn y cyd-destun hwn, i sicrhau bod gostyngiad pris yn digwydd yn y tanwydd yma, yn ogystal ag yn y tanwydd sy'n cael ei drosglwyddo gan Nwy Prydain a thrwy'r gwifrau grid, felly? Achos mae'n bwysig bod pobl sydd oddi ar y grid hefyd yn cael mantais pan mae pris tanwydd, yn rhyngwladol, yn gostwng.

Yr ail ddatganiad, os caf i ofyn am hyn i'r Gweinidog, yw datganiad gan y Prif Weinidog ynglŷn â Trident. Byddwch yn gwybod, Weinidog, bod heddiw yn ddiwrnod trafod Trident yn San Steffan. Mae'n anffodus iawn bod y rhan fwyaf o Aelodau Seneddol Llafur wedi penderfynu peidio â chymryd rhan, na hyd yn oed bod yn bresennol, yn San Steffan, a gwneud eu gwaith yn siarad dros Gymru yn y ddatl honno. Mae Plaid Cymru o'r farn bod diddymu Trident yn arbed o leiaf £100 biliwn i'r wladwriaeth Brydeinig, a fyddai'n gallu cael ei roi tuag at atal y llymder sy'n ein hwynebu ni o dan y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar hyn o bryd. Yn fwy penodol, wrth gwrs, roedd y Prif Weinidog o blaid symud Trident i fy etholaeth i—hynny yw, yn Aberdaugleddau. Nid ydym byth wedi cael datganiad gan y Llywodraeth ar y materion hyn, a byddwn yn gofyn am ddatganiad ysgrifenedig, os yw'n bosib, gan y Prif Weinidog, gan ddweud nad oes unrhyw fwrriad bellach gan Lywodraeth Cymru i groesawu, neu roi cartref, i'r fath erchyllbeth â Trident.

So, what steps is the Government taking to promote alternative methods of purchasing fuel in these rural areas, which is tank fuel, and what steps is the Government taking to put pressure on the Westminster Government, which is chiefly responsible for the market in this context, to ensure that there is a price reduction in this fuel, as well as the fuel actually provided by British Gas and through the grid? Because it is important that those people who are off-grid also benefit when the price of fuel falls on a global level.

The second statement I'd like to ask the Minister for is a statement from the First Minister on Trident. You will be aware, Minister, that today is a day when Trident is to be discussed in Westminster. It's very unfortunate that most Labour MPs have decided not to participate—not even being present in Westminster and speaking on behalf of Wales in that debate. Plaid Cymru's of the view that abolishing Trident would save the state at least £100 billion, which could then be invested to prevent the austerity that we're facing under the Tories and Liberal Democrats at present. More specifically, of course, the First Minister was in favour of moving Trident to my region, in Milford Haven. We've never had a statement from Government on these issues, and I would request a written statement, if possible, from the First Minister, stating that there is now no intention for the Welsh Minister to welcome or to give such a horrific thing as Trident a home here in Wales.

14:39

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Simon Thomas has raised two matters that relate principally to the powers and responsibility of the UK Government. But, I think, on the first point, it is very important, of course; Simon Thomas has heard the First Minister on many occasions make it clear that he has made representations in terms of unacceptable fuel prices. And I am very proud that the leader of the Labour Party—Ed Miliband—of course, has taken the lead and has had a huge impact in terms of addressing this issue, but I think Simon Thomas raises an important point about how we can play our part within our powers in terms of looking for ways in which we can support communities in terms of alternative sources of power. Of course, we do have examples of that as well—of ways in which we can tackle fuel poverty as a result of our strategy.

Wel, mae Simon Thomas wedi codi dau fater sy'n ymwneud yn bennaf â phwerau a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Ond, credaf, o ran y pwynt cyntaf, fod hynny'n bwysig iawn, wrth gwrs; mae Simon Thomas wedi clywed y Prif Weinidog lawer gwaith yn ei gwneud yn glir ei fod wedi cyflwyno sylwadau am brisiau tanwydd annerbyniol. Ac rwyf yn falch iawn fod arweinydd y Blaid Lafur—Ed Miliband—wrth gwrs, wedi dangos arweiniad ac wedi cael effaith aruthrol o ran ymdrin â'r mater hwn, ond rwyf yn meddwl bod Simon Thomas yn codi pwynt pwysig ynglŷn â sut y gallwn chwarae ein rhan gyda'r pwerau sydd gennym o ran chwilio am ffyrdd y gallwn gefnogi cymunedau o ran ffynonellau ynni amgen. Wrth gwrs, mae gennym enghreifftiau o hynny hefyd—o ffyrdd y gallwn frwydro yn erbyn tlodi tanwydd yn sgil ein strategaeth.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:40

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, over the last two years, three out of the seven high schools in my constituency have been placed in special measures, yet no school in my constituency is in receipt of support under the Schools Challenge Cymru fund. Will the Minister for Education and Skills make a statement on what support is available to schools that find themselves categorised as in special measures by Estyn, but do not fall into the category of receiving support under that Government initiative? If that statement could have special emphasis on the resources being made available to both the consortia and to local authorities to support schools in special measures, I'd be very grateful.

Weinidog, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae tair o'r saith ysgol uwchradd yn fy etholaeth i wedi cael eu gosod mewn mesurau arbennig, ac eto nid oes yr un ysgol yn fy etholaeth yn cael cymorth o gronfa Her Ysgolion Cymru. A wnaiff y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad am ba gymorth sydd ar gael i ysgolion sy'n cael eu rhoi mewn categori mesurau arbennig gan Estyn, ond nad ydynt yn y categori sy'n cael cymorth gan fenter Her Ysgolion Cymru y Llywodraeth? Pe gallai'r datganiad hwnnw roi pwyslais arbennig ar yr adnoddau sy'n cael eu darparu i'r consortia ac i awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion sydd mewn mesurau arbennig, byddwn yn ddiolchgar iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:41

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Kirsty Williams for that question. Clearly, there are schools in special measures throughout Wales where, in response to Estyn inspections, action plans are then devised, closely monitored, and re-inspections take place. The criteria, as the Member is clearly aware, of eligibility for Schools Challenge Cymru are carefully crafted and delivered in terms of expertise and the advice given to the Minister. But it is important that we make sure that the support, which is often in terms of professional delivery and change, as well as resources, is made available to those schools that need it, in special measures. Of course, the Minister will take note of your query on this point.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn hwnnw. Wrth gwrs, mae ysgolion mewn mesurau arbennig ar hyd a lled Cymru lle y caiff cynlluniau gweithredu, yn sgil arolygiadau Estyn, eu llunio a'u monitro'n ofalus, a chaiff ailrolygiadau eu cynnal. Mae meini prawf cymhwysra Her Ysgolion Cymru, fel y mae'r Aelod yn amlwg yn ei wybod, wedi'u llunio a'u darparu'n ofalus o ran arbenigedd ac o ran y cyngor a roddir i'r Gweinidog. Ond mae'n bwysig sicrhau bod y gefnogaeth, sy'n aml yn fater o newid a chyflenwi proffesiynol, yn ogystal ag adnoddau, ar gael i'r ysgolion hynny sydd ei hangen, mewn mesurau arbennig. Wrth gwrs, bydd y Gweinidog yn nodi eich ymholiad ar y pwynt hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I request three statements today, please? Firstly, an update from the Minister for Health and Social Services on the response of the Welsh NHS to the Francis report: Members will recall that the Minister made £10 million available to increase the number of nurses in the Welsh NHS, and yet just yesterday the 'Daily Post' was highlighting the fact that the number of nurses in north Wales has actually fallen by over 350 over the past five years. That is a concern to me, as it is to my constituents, so I would be grateful if the Minister could make a statement on progress against the expectations of the Government. In addition to that, could I ask for a statement from the Minister for Natural Resources? It is the twenty-fifth anniversary of the Towyn floods coming up next month. This provides, I would suggest, a unique opportunity to engage people in flood awareness along the north Wales coast, and I would be grateful for a statement from the Minister on any action that the Welsh Government is taking to commemorate those floods, and indeed to communicate about flood awareness with the people of north Wales.

Weinidog, a gaf fi ofyn am dri datganiad heddiw, os gwelwch yn dda? Yn gyntaf, y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ymateb y GIG yng Nghymru i adroddiad Francis: bydd yr Aelodau'n cofio bod y Gweinidog wedi darparu £10 miliwn i gynyddu nifer y nyrsys yn y GIG yng Nghymru, ac eto ddoe ddiwethaf roedd y 'Daily Post' yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer y nyrsys yn y gogledd wedi gostwng dros 350 dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hynny'n peri pryder i mi, ac i'm hetholwyr, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog wneud datganiad am gynnydd yn erbyn disgwyliadau'r Llywodraeth. Yn ogystal â hynny, a gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol? Bydd pumed pen-blwydd ar hugain llifogydd Towyn y mis nesaf. Mae hyn, yn fy marn i, yn gyfle unigryw i ennyn diddordeb pobl mewn ymwybyddiaeth o lifogydd ar hyd arfordir y gogledd, a byddwn yn ddiolchgar am ddatganiad gan y Gweinidog am unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i goffâu'r llifogydd hynny, ac yn wir i gyfathrebu â phobl y gogledd ynglŷn ag ymwybyddiaeth o lifogydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, can I ask for a statement from the Minister for Communities and Tackling Poverty in respect of the Welsh Government's commitment to the armed forces? It has been some time now since the Welsh Government gave an indication that it was supporting and exploring proposals to bring forward a veterans card in Wales. This has been a longstanding commitment, of course, of this party on these benches, and I wonder if you could provide an update on the much-needed opportunity that a veterans card could bring to Wales.

Yn olaf, a gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ynglŷn ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r lluoedd arfog? Mae cryn dipyn o amser bellach ers i Lywodraeth Cymru nodi ei bod yn cefnogi ac yn archwilio cynigion i gyflwyno cerdyn cyn-filwyr yng Nghymru. Mae hynny wedi bod yn ymrwymiad hirsefydlog, wrth gwrs, gan y blaid hon ar y meinciau hyn, a tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyfle pwysig y gallai cerdyn cyn-filwyr ei gynnig i Gymru?

14:43

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Three questions from Darren Millar. In terms of the response to the Francis report, of course, the Minister for Health and Social Services did immediately respond with the announcement of the £10 million to improve nursing levels in Wales, and indeed then, of course, commissioned the independent Nuffield report to guide us in terms of the financial response. Of course, Vaughan Gething, the Deputy Minister, has just also indicated the importance of that extra funding that we're putting into the health service next year to respond to the Nuffield report in terms of the needs of the health service in terms of resilience, sustainability and staffing levels. On the two other issues you raise, of course it is important that we draw attention to the beneficial impact of our investment in terms of flood prevention as well as flood alleviation, and of course that is something that we regularly will do. But it is in terms of the planning by the Minister with Natural Resources Wales, in terms of the capital planning arrangements for flood protection, which is important in terms of public awareness. I know that the Minister who is responsible for armed services has already taken action in terms of moving forward support services, particularly in relation to veterans.

Tri chwestiwn gan Darren Millar. O ran yr ymateb i adroddiad Francis, wrth gwrs, ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar unwaith drwy gyhoeddi'r £10 miliwn i wella lefelau nyrsio yng Nghymru, ac yn wir, wedyn, wrth gwrs, comisiynodd adroddiad annibynnol Nuffield i roi arweiniad inni o ran yr ymateb ariannol. Wrth gwrs, mae Vaughan Gething, y Dirprwy Weinidog, hefyd newydd ddangos pa mor bwysig yw'r arian ychwanegol hwnnw yr ydym yn ei roi i'r gwasanaeth iechyd y flwyddyn nesaf er mwyn ymateb i adroddiad Nuffield o safbwynt anghenion y gwasanaeth iechyd o ran cydnerthedd, cynaliadwyedd a lefelau staffio. Ar y ddau fater arall a godwch, wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn tynnu sylw at effaith fuddiol ein buddsoddi er mwyn atal llifogydd, yn ogystal â lliniaru llifogydd, ac wrth gwrs mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei wneud yn rheolaidd. Ond gwaith cynllunio'r Gweinidog gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, o ran y trefniadau cynllunio cyfalaf ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd, sy'n bwysig o ran ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gwn fod y Gweinidog sy'n gyfrifol am y lluoedd arfog eisoes wedi cymryd camau i fwrw ymlaen â gwasanaethau cymorth, yn enwedig ar gyfer cyn-filwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, it's been about a year since the Minister for Economy, Science and Transport announced her plans for taxpayer investment in the Pinewood studios not very far from here. When can we expect a statement setting out progress against key performance indicators, so that we can assess whether that investment has been good value for money?

Weinidog, mae tua blwyddyn wedi mynd heibio ers i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyhoeddi ei chynlluniau i fuddsoddi arian y trethdalwr yn stiwdios Pinewood nid nepell o'r fan hon. Pryd y gallwn ddisgwyl datganiad yn nodi cynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, fel y gallwn asesu a yw'r buddsoddiad hwnnw wedi rhoi gwerth da am arian?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, the announcement was widely welcomed, and the work is now being undertaken to take this forward, in terms of Pinewood Studio Wales. I know the Minister will want to update as we move forward to the outcomes in terms of the joint investment and, indeed, the important commitment that has been made by this world-leading studio.

Wel, wrth gwrs, cafodd y cyhoeddiad groeso eang, ac mae'r gwaith yn awr yn mynd rhagddo i ddatblygu hyn, o ran Stiwdio Pinewood Cymru. Gwn y bydd y Gweinidog yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf wrth inni symud ymlaen at ganlyniadau'r buddsoddiad ar y cyd ac, yn wir, yr ymrwymiad pwysig sydd wedi'i wneud gan y stiwdio flaenllaw hon.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, for the last hour and 15 minutes, we've been talking quite a lot about NHS underachievement and problems, but one area where money can really be saved by the NHS is the shortage of beds in hospital. During the winter season, there's no pre-planning, while there are certain areas that are surplus in registered nursing homes that could be acquired during that period. In hospitals, ordinarily, one bed costs the taxpayer around about £1,400 to £1,500 a week—sorry, a day. So, why can't this money— No, a week. Why not acquire a bed in a nursing home for £700 a week during the winter season, so at least the shortage of beds can be, you know, eliminated from the NHS, and money can be saved? Only in the Gwent area, if that happens, you can save more than £2 million. All over Wales, I can guarantee well over £10 million, Minister. Thank you.

Weinidog, am yr awr a 15 munud diwethaf, rydym wedi bod yn siarad cryn dipyn am dangyflawni a phroblemau'r GIG, ond un maes lle y gall y GIG arbed arian gwirioneddol yw prinder gwelyau mewn ysbytai. Yn ystod tymor y gaeaf, nid oes dim cynllunio ymlaen llaw, er bod rhai ardaloedd lle ceir lleoedd dros ben mewn cartrefi nyrsio cofrestredig y gellid eu defnyddio yn ystod y cyfnod hwnnw. Mewn ysbytai, fel arfer, mae un gwely'n costio tua £1,400 i £1,500 yr wythnos i'r trethdalwr—mae'n ddrwg gennyf, y diwrnod. Felly, pam na all yr arian hwn—. Na, yr wythnos. Beth am gaffael gwely mewn cartref nyrsio am £700 yr wythnos yn ystod tymor y gaeaf, fel y gallwn, wyddoch chi, gael gwared ar y prinder gwelyau yn y GIG o leiaf, ac arbed arian? Yn ardal Gwent yn unig, pe bai hynny'n digwydd, gallech arbed dros £2 filiwn. Ar hyd a lled Cymru, gallaf warantu ymhell dros £10 miliwn, Weinidog. Diolch.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hope you can get your facts right, Mohammad Asghar, when you come to us with these important questions, because this is very important on the public record, in terms of the importance of the planning that took place—the planning for resilience over this winter. The winter pressures planning, of course, undertaken by the health boards has enabled those health boards, and the staff who work so hard, to deliver on the services that, of course, are so important at these pressurised times.

I mean, I think it is very important to recognise, in terms of nurses, doctors and bed numbers, that the Welsh NHS is treating people more quickly than ever. More care is being delivered in the community. Often, of course, that's patients being cared for in their own homes, not just in the care sector. Also, we, along with the rest of the UK, have moved on from using the number of hospital beds as currency within the NHS, as we focus more, which I'm sure you would want to do, on treating people in the community when appropriate.

Rwyf yn gobeithio y gallwch gael eich ffeithiau'n gywir, Mohammad Asghar, pan ddowch atom â'r cwestiynau pwysig hyn, oherwydd mae hyn yn bwysig iawn ar y cofnod cyhoeddus, o ran pwysigrwydd y cynllunio a ddigwyddodd—y cynllunio ar gyfer cydnheredd yn ystod y gaeaf. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf, wrth gwrs, a wnaethpwyd gan y byrddau iechyd wedi galluogi'r byrddau iechyd hynny, a'r staff sy'n gweithio mor galed, i ddarparu'r gwasanaethau sydd, wrth gwrs, mor bwysig yn y cyfnod hwn o bwysau.

Hynny yw, credaf ei bod yn bwysig iawn cydnabod, o ran nyrsys, meddygon a nifer y gwelyau, fod y GIG yng Nghymru'n trin pobl yn gynt nag erioed. Mae mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn y gymuned. Yn aml, wrth gwrs, cleifion yw'r rhain sy'n cael gofal yn eu cartrefi eu hunain, nid dim ond yn y sector gofal. Hefyd, rydym wedi symud ymlaen, ynghyd â gweddill y DU, o ddefnyddio nifer y gwelyau mewn ysbytai fel arian cyfredol o fewn y GIG, wrth inni ganolbwyntio mwy, fel yr wyf yn siŵr y byddech am ei wneud, ar drin pobl yn y gymuned pan fo hynny'n briodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could we have a statement from the Minister for Economy, Science and Transport on any involvement that her department may have had in, or indeed a Government view of, the former four Cyprus Airways aircraft being brought to RAF St Athan, a Welsh Government flagship enterprise zone, possibly preventing their seizure whilst involved in a dispute with the European Union on the paying back of €65 million in illegal state funding? I believe that urgent clarity on this matter is required, and would welcome a statement.

Weinidog, a gawn ni ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am unrhyw ran a chwaraeodd ei hadran, neu yn wir safbwynt y Llywodraeth, o ran dod â phedair hen awyren Cyprus Airways i RAF Sain Tathan, un o ardaloedd menter blaenllaw Llywodraeth Cymru, gan eu hatal rhag cael eu hatafael o bosibl yng nghanol anghydfod â'r Undeb Ewropeidd am ad-dalu €65 miliwn o arian gwladwriaethol anghyfreithlon? Credaf fod angen eglurder ar fyrder ar y mater hwn, a byddwn yn croesawu datganiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will raise that matter with the Minister.

Codaf y mater hwnnw gyda'r Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wonder whether we could have a statement from the Welsh Government on how the Welsh Government plans to address the problems highlighted by the recent 'Cities Outlook 2015' report, which highlighted a number of ways in which the urban areas of Wales, outside of Cardiff, have been falling behind the rest of the UK. That report has particularly highlighted Newport as one of those urban areas with the highest rates of people claiming jobseeker's allowance, and an area that has seen the number of people working in the private sector fall by 11.8% over the last decade. This can't be acceptable. I think we need to have some kind of direction from the Welsh Government on how you're going to allow areas like Newport and Swansea to catch up with Cardiff.

Weinidog, tybed a gawn ni ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymdrin â'r problemau a amlygwyd yn yr adroddiad diweddar 'Cities Outlook 2015', a oedd yn tynnu sylw at nifer o ffyrdd y mae ardaloedd trefol Cymru, ar wahân i Gaerdydd, ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU? Mae'r adroddiad hwnnw wedi tynnu sylw arbennig at Gasnewydd fel un o'r ardaloedd trefol hynny sydd â'r cyfraddau uchaf o bobl sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith, ac ardal sydd wedi gweld nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector preifat yn gostwng 11.8% dros y degawd diwethaf. Ni all hyn fod yn dderbyniol. Credaf fod angen rhyw fath o arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut yr ydych yn mynd i alluogi ardaloedd fel Casnewydd ac Abertawe i ddal i fyny â Chaerdydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I appreciate your representing your constituents in terms of the outcomes of that report. I have to say that it's very pleasing to see the way that Cardiff is positioned as our capital city of Wales in terms of the cities report, but also recognising that one of the reasons why, of course, we are progressing, I think, in the right direction is that we have both the creation of the Cardiff capital and Swansea bay city regions, maximising the economic potential of not only Cardiff and Swansea, but Newport as well, helping them to compete in a global market—and, of course, drawing on the opportunities that we're taking forward with the metro project, which, of course, will be of huge benefit in terms of your constituency and area, and will provide that environment where businesses in city region areas can draw on the skills of a larger workforce, with transport being a key connecting force.

Wel, rwyf yn deall eich bod yn cynrychioli eich etholwyr o ran canlyniadau'r adroddiad hwnnw. Rhaid imi ddweud ei bod yn braf iawn gweld safle Caerdydd, prifddinas Cymru, yn yr adroddiad ar ddinasoedd, ond rhaid cydnabod hefyd mai un o'r rhesymau pam, wrth gwrs, yr ydym yn symud, yn fy marn i, i'r cyfeiriad cywir yw ein bod wedi creu dinas-ranbarthau prifddinas Caerdydd a bae Abertawe, gan hybu i'r eithaf botensial economaidd nid yn unig Caerdydd ac Abertawe, ond Casnewydd hefyd, a'u helpu i gystadlu mewn marchnad byd-eang—ac, wrth gwrs, manteisio ar y cyfleoedd yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy o ran prosiect y metro, a fydd, wrth gwrs, o fudd mawr o ran eich etholaeth a'ch ardal chi, ac a fydd yn darparu'r amgylchedd hwnnw lle y gall busnesau yn ardaloedd y dinas-ranbarthau fanteisio ar sgiliau gweithlu mwy o faint, gyda thrafnidiaeth yn rym cysylltu allweddol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch ichi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Datganiad: Ein Gorffennol a'i Ddyfodol

We now move to item 3, which is a statement by the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism: our past and its future. I call on the Deputy Minister, Ken Skates.

Statement: Our Past and Its Future
Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: ein gorffennol a'i ddyfodol. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog, Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Thank you, Presiding Officer. I am pleased to update Members on developments within the historic environment, and I am delighted to share with you some excellent and exciting achievements.

This has been an important year for the historic environment in Wales. We are working on a joined-up national heritage strategy, which brings together many different organisations: Canal and River Trust, National Museum Wales, Natural Resources Wales, the Heritage Lottery Fund, and many others. Our five high-level priorities are: heritage protection and sustainable development; skills and opportunities; public understanding and enjoyment; the economy; and partnership and delivery. I've been delighted with progress against the strategy, and I want to highlight some of what we have done in the past year.

Diolch, Lywydd. Mae'n bleser gennyf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau yn yr amgylchedd hanesyddol, ac rwyf yn falch iawn o rannu rhai llwyddiannau rhagorol a chyffrous â chi.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn bwysig i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Rydym yn gweithio ar strategaeth treftadaeth genedlaethol gydgysylltiedig, sy'n dwyn ynghyd nifer o wahanol gyrff: yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a llawer un arall. Ein pum blaenoriaeth lefel uchel yw: diogelwedd treftadaeth a datblygu cynaliadwy; sgiliau a chyfleoedd; dealltwriaeth a mwynhad y cyhoedd; yr economi; a phartneriaeth a chyflenwi. Rwyf wedi bod yn hapus iawn â'r cynnydd yn unol â'r strategaeth, a hoffwn dynnu sylw at rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think one of the biggest achievements this year has been completing our heritage tourism project, a £19 million EU convergence-funded project. It's about telling the stories that have shaped our past in a compelling, engaging way. For example, we have told the story of the Welsh princes of Gwynedd at different sites managed across Wales, whilst our amazing industrial heritage is showcased in the new interpretation and visitor centre at the Great Orme copper mines and at Hafod-Morfa copperworks in the Swansea valley. We've also supported new work at Pembroke, Swansea, Carmarthen and Dinefwr castles.

As well as delivering benefits to heritage, there are also benefits to visitors and to the economy. Visits to Denbigh Castle have increased by nearly 40%, whilst Caerphilly Castle has seen record monthly visitor figures. At sites such as Conwy Castle, visitors are also staying longer and spending more. A new bridge will be positioned shortly at Harlech Castle, as part of a major £6 million improvement to visitor access and a brand-new visitor centre at the former Castle Hotel.

The project is also supporting jobs. The project sites have the potential to deliver over 1,000 jobs and to contribute over £19 million to the economy per annum. The construction work has already supported around 270 jobs in Wales. This is a phenomenal outcome and further evidence of the important role that the historic environment plays in delivering economic growth.

Of course, we can't look after heritage without people, and so I'd also like to pay tribute to the achievements this year of the many different organisations and individuals who play an important role in caring for our historic environment. In 2014, a survey of heritage organisations in Wales estimated that there are about 700 local groups with over 100,000 members in Wales, which includes community groups, civic societies and buildings preservation trusts. At a national level, the largest heritage organisation, the National Trust, reports 120,000 members in Wales. Volunteers have helped the National Trust at sites such as Penrhyn Castle and Tredegar House, and I particularly want to thank the many dedicated volunteers who help Cadw at Plas Mawr in Conwy. I was also delighted to hear about the hundreds of volunteers who've been helping the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales to crowdsource heritage information through their database of chapels in Wales and their work on aerial photographs.

In September, as part of the Open Doors events, 343 properties across Wales and thousands of volunteers enabled people to explore parts of our heritage that are not always open to the public. I was thrilled that almost 34,000 visitors took advantage of over 1,000 events, and that 2,500 volunteers helped deliver this scheme.

Credaf mai un o lwyddiannau mwyaf eleni oedd cwblhau ein prosiect twristiaeth treftadaeth, prosiect gwerth £19 miliwn wedi'i ariannu gan gronfa cydgyfeiriant yr UE. Mae'n ymwneud ag adrodd y straeon sydd wedi llunio ein gorffennol mewn ffordd ddefnyddig a diddorol. Er enghraifft, rydym wedi adrodd hanes tywysogion Gwynedd ar wahanol safleoedd a reolir ledled Cymru, ac mae ein treftadaeth ddiwydiannol anhygoel yn cael ei harddangos yn y ganolfan ddehongli ac ymwelwyr newydd ym mwyngloddiau copr y Gogarth ac yng ngwaith copr Hafod-Morfa yng Nghwm Tawe. Rydym hefyd wedi cefnogi gwaith newydd yng nghestyll Penfro, Abertawe, Caerfyrddin a Dinefwr.

Yn ogystal â sicrhau manteision o ran treftadaeth, mae manteision i ymwelwyr ac i'r economi hefyd. Bu bron i 40% yn fwy o ymweliadau â Chastell Dinbych, ac yng Nghastell Caerffili gwelwyd y ffigurau misol uchaf erioed o ran niferoedd. Mewn safleoedd fel Castell Conwy, mae ymwelwyr hefyd yn aros yn hwy ac yn gwario mwy. Caiff pont newydd ei chodi'n fuan yng Nghastell Harlech, fel rhan o waith mawr gwerth £6 miliwn i wella hygyrchedd i ymwelwyr a chanolfan ymwelwyr newydd sbon yn hen Westy'r Castell.

Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi swyddi. Mae'n bosibl y gallai safleoedd y prosiect gynnis 1,000 o swyddi a chyfrannu dros £19 miliwn y flwyddyn i'r economi. Mae'r gwaith adeiladu eisoes wedi cefnogi tua 270 o swyddi yng Nghymru. Dyma ganlyniad ardderchog a thystiolaeth bellach o'r rhan bwysig y mae'r amgylchedd hanesyddol yn ei chwarae o ran sicrhau twf economaidd.

Wrth gwrs, ni allwn ofalu am ein treftadaeth heb bobl, ac felly hoffwn hefyd dalu teyrnged i lwyddiannau'r sefydliadau a'r unigolion niferus eleni sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ofalu am ein hamgylchedd hanesyddol. Yn 2014, amcangyfrifodd arolwg o sefydliadau treftadaeth yng Nghymru fod tua 700 o grwpiau lleol a chanddynt dros 100,000 o aelodau yng Nghymru, sy'n cynnwys grwpiau cymunedol, cymdeithasau dinesig ac ymddiriedolaethau cadwraeth adeiladau. Ar lefel genedlaethol, mae gan y sefydliad treftadaeth mwyaf, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 120,000 o aelodau yng Nghymru. Mae gwirfoddolwyr wedi helpu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn safleoedd fel Castell Penrhyn a Thŷ Tredegar, ac rwyf yn arbennig o awyddus i ddiolch i'r llu o wirfoddolwyr ymroddedig sy'n helpu Cadw ym Mhlas Mawr yng Nghonwy. Roeddwn yn falch iawn hefyd o glywed am y cannoedd o wirfoddolwyr sydd wedi bod yn helpu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru i ddod o hyd yn dorfol i wybodaeth treftadaeth drwy ei gronfa ddata o gapeli yng Nghymru a'i waith ar ffotograffau o'r awyr.

Ym mis Medi, fel rhan o'r digwyddiadau Drysau Agored, mewn 343 eiddo ledled Cymru a chyda chymorth miloedd o wirfoddolwyr bu modd i bobl archwilio rhannau o'n treftadaeth nad ydynt bob amser ar agor i'r cyhoedd. Roeddwn wrth fy modd bod bron i 34,000 o ymwelwyr wedi manteisio ar dros 1,000 o ddigwyddiadau, a bod 2,500 o wirfoddolwyr wedi helpu i roi'r cynllun hwn ar waith.

I'm also pleased to say that, in Wales, people are demonstrating their support for heritage by voting with their feet. Visitor numbers to Cadw sites continue to be high, whilst memberships have jumped 14% to 13,500 people. The year 2014 was also a good year for learning, with 81,000 lifelong learning visitors to Cadw sites. Easter was particularly busy with a 30.6% increase in visitors to Welsh Government-managed heritage sites, and a 43% increase in paying visitors. This coincided with some new online initiatives.

We encouraged families to use their imagination and to travel back in time to explore their heritage through, for example, 'Castles from the Clouds' on our website, where you can fly around castles such as Beaumaris, Kidwelly and Raglan.

Meanwhile, behind the scenes, we're continuing to improve the ways in which we care for the wider historic environment in Wales, most of which is in private ownership. We are modernising our records systems and plan to make better records of our protected heritage fully accessible to the public online in the near future. The ongoing all-Wales survey of the condition and use of listed buildings means that we have a better understanding of buildings at risk, and are able to target resources at vulnerable buildings, which still have a role to play at the heart of their communities. We're also working closely with partners to develop a strategic action plan for places of worship. Our aim is to strengthen the support for conservation and to encourage positive action, including the introduction of new uses, where appropriate.

However, if the historic environment is to continue to deliver its many benefits to Wales, it must be safeguarded for the long term. This brings me to the suite of measures that I propose to introduce during the course of this year. Foremost among these is a heritage Bill, which I shall introduce to the Senedd before the summer recess. This Bill will enable us to provide more effective protection for our historic assets, to improve the sustainable management of the historic environment, and to introduce greater transparency and accountability for decisions taken on the historic environment. The Bill fulfils a programme-for-government commitment and represents the first legislation on the historic environment specifically for Wales.

However, legislation alone will not provide the solution to all of the challenges facing the Welsh historic environment. When we consulted people in 2013, they told us they also wanted more up-to-date guidance and better planning policy for the historic environment. Therefore, when I introduce the Bill, I shall also be sharing with the Assembly a suite of draft policy, advice and guidance documents that complement the legislative provisions. These documents will be subject to full public consultation this year.

Underpinning the Bill and the new guidance is the fundamental idea that caring for our heritage is not about stopping change or freezing things in time. Conservation is about managing change intelligently to ensure that we don't lose what is most important to all of us.

Rwyf hefyd yn falch o ddweud fod pobl yng Nghymru yn dangos eu cefnogaeth i dreftadaeth drwy bleidleisio â'u traed. Mae niferoedd ymwelwyr â safleoedd Cadw yn parhau i fod yn uchel, ac mae aelodaeth wedi codi 14% i 13,500 o bobl. Roedd 2014 hefyd yn flwyddyn dda o safbwynt dysgu; cafwyd 81,000 o ymwelwyr dysgu gydol oes â safleoedd Cadw. Roedd y Pasg yn arbennig o brysur —roedd 30.6% yn fwy o ymwelwyr â safleoedd treftadaeth a reolir gan Lywodraeth Cymru, a 43% yn fwy o ymwelwyr yn talu. Roedd hyn yn cyd-daro â mentrau ar-lein newydd.

Buom yn annog teuluoedd i ddefnyddio eu dychymyg a theithio'n ôl drwy amser i archwilio eu treftadaeth, er enghraifft drwy 'Cestyll o'r Cymylau' ar ein gwefan, lle gallwch hedfan o gwmpas cestyll megis Biwmares, Cydweli a Rhaglan.

Yn y cyfamser, y tu ôl i'r llenni, rydym yn parhau i wella'r ffyrdd yr ydym yn gofalu am yr amgylchedd hanesyddol ehangach yng Nghymru; mae'r rhan fwyaf o hwnnw mewn perchnogaeth breifat. Rydym yn moderneiddio ein systemau cofnodion ac yn bwriadu sicrhau bod gwella cofnodion o'n treftadaeth a ddiogelir yn gwbl hygyrch i'r cyhoedd ar-lein yn y dyfodol agos. Mae'r arolwg parhaus ledled Cymru o gyflwr adeiladau rhestredig a'r ffordd y cânt eu defnyddio'n golygu bod gennym well dealltwriaeth o adeiladau sydd dan fygythiad, ac y gallwn dargedu adnoddau at adeiladau bregus, sy'n dal i fod â rhan i'w chwarae wrth galon eu cymunedau. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â phartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer manau addoli. Ein nod yw cryfhau'r gefnogaeth i gadwraeth ac annog gweithredu cadarnhaol, gan gynnwys cyflwyno defnydd newydd, lle y bo hynny'n briodol.

Fodd bynnag, er mwyn i'r amgylchedd hanesyddol barhau i sicrhau'r manteision niferus hyn i Gymru, rhaid ei ddiogelu ar gyfer y tymor hir. Mae hyn yn dod â mi at y gyfres o fesurau yr wyf yn bwriadu eu cyflwyno eleni. Yr amlycaf o'r rhain yw Bil treftadaeth, y byddaf yn ei gyflwyno i'r Senedd cyn toriad yr haf. Bydd y Bil hwn yn ein galluogi i amddiffyn ein hasedau hanesyddol yn fwy effeithiol, i wella rheolaeth gynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol, ac i gyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran penderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r Bil yn cyflawni ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu a dyma'r ddeddfwriaeth gyntaf ar yr amgylchedd hanesyddol yn benodol i Gymru.

Fodd bynnag, ni wnaiff deddfwriaeth yn unig ateb pob un o'r heriau sy'n wynebu amgylchedd hanesyddol Cymru. Pan fuom yn ymgynghori â phobl yn 2013, dywedasant wrthym fod arnynt hefyd eisiau arweiniad mwy cyfoes a pholisi cynllunio gwell ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Felly, pan gyflwynaf y Bil, byddaf hefyd yn rhannu cyfres o ddogfennau polisi, cyngor a chanllawiau drafft â'r Cynulliad i gyd-fynd â'r darpariaethau deddfwriaethol. Bydd y dogfennau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn eleni.

Wrth wraidd y Bil a'r canllawiau newydd y mae'r syniad sylfaenol nad yw gofalu am ein treftadaeth yn golygu atal newid na rhewi pethau mewn amser. Mae cadwraeth yn golygu rheoli newid yn ddeallus er mwyn sicrhau nad ydym yn colli'r hyn sydd bwysicaf i bob un ohonom.

Building on a firm legislative foundation created by the Bill, these documents will enable everyone who plays a role in caring for our heritage—whether the Welsh Government, local planning authorities, third sector organisations, or the thousands of people who own, work or live in historic places—to look after those things that make Wales special. The aim is to ensure that our historic environment plays a vital and creative role in shaping our future.

Gan adeiladu ar sylfaen ddeddfwriaethol gadarn a grëwyd gan y Mesur, bydd y dogfennau hyn yn galluogi pawb sy'n cyfrannu at ofalu am ein treftadaeth—boed yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, sefydliadau'r trydydd sector, neu'r miloedd o bobl sy'n berchen ar leoedd hanesyddol, yn gweithio ynddynt neu'n byw ynddynt—i ofalu am y pethau hynny sy'n gwneud Cymru'n arbennig. Y nod yw sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol yn chwarae rhan hanfodol a chreadigol wrth lunio ein dyfodol.

- 14:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are we having a film? Oh, we're not. We're not having a clip in the—. I was expecting some—
A ydym am weld ffilm? O, nac ydym. Nid ydym am weld clip yn y—. Roeddwn yn disgwyl rhy—
- 14:58 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Tomorrow.
Yfory.
- 14:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Oh, tomorrow. Oh, well—
O, yfory. O, wel—
- 14:58 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We've given it away now. [Laughter.]
Rydym wedi datgelu'r gyfrinach yn awr. [Chwerthin.]
- 14:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I'm sorry. I beg your pardon. [Laughter.]
Mae'n ddrwg gennyf. Maddeuwch imi. [Chwerthin.]
- 14:58 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We were going to do a Wales-first broadcast tomorrow. It's tomorrow.
Roeddem am wneud y darllediad cyntaf yng Nghymru yfory. Yfory y bydd hynny.
- 14:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I'm sorry. Suzy Davies.
Mae'n ddrwg gennyf. Suzy Davies.
- 14:59 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch yn fawr, Lywydd. Thank you, Deputy Minister, for your statement. I think a number of us have said in this Chamber before that there is strong cross-party support for more attention being given to the future of our heritage, shall we say, and I think we are all looking forward to that first draft of the heritage Bill.
I'm pleased to hear that you will continue to share information with Members regarding the heritage Bill and the drafts of policy and guidance. That is very good practice, which I hope will be shared across portfolios. I would also like to think that it would continue, even if this Assembly were not in political balance.
Diolch yn fawr, Lywydd. Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Rwyf yn credu bod nifer ohonom wedi dweud yn y Siambr hon o'r blaen fod cefnogaeth drawsbleidiol gref i roi mwy o sylw i ddyfodol ein treftadaeth, fel petai, ac rwyf yn meddwl ein bod i gyd yn edrych ymlaen at y drafft cyntaf hwnnw o'r Bil treftadaeth.
Rwyf yn falch o glywed y byddwch yn parhau i rannu gwybodaeth ag Aelodau ynghylch y Bil treftadaeth a pholisiau a chanllawiau drafft. Mae hynny'n arfer da iawn, a gobeithiaf y caiff ei rannu ar draws portffolios. Hoffwn hefyd feddwl y byddai'n parhau, hyd yn oed pe na bai cydbwysedd gwleidyddol yn y Cynulliad hwn.

I'm also very keen to endorse the comments that you made regarding the work of volunteers in this statement, and the role of the non-state sector in the care and conservation of our heritage. I think that social capital resource that sits outside Government is not to be overlooked, and I think it helps with the confidence of those sectors if it does get endorsement from you, alongside identifying the successes of the heritage tourism project, for example. My questions are these: I think it is very good news that visitor numbers and spend are up at heritage sites. I wonder if you could tell us how easy it is for you to identify how much of that improvement is down to specific Government activity, as opposed to the activities, perhaps, of other heritage bodies, the tourism industry for example, and simple factors such as the weather. How do you arrive at your assertion that the heritage tourism project could deliver over 1,000 jobs and contribute £19 million to the economy? What I'm looking for is what sort of jobs are you talking about—are they new jobs or just supported existing jobs? Is this an additional £19 million for the economy or a redistribution from other sectors?

Thirdly, I have to say I'm not surprised that Cadw sites are doing well. They feature prominently in Government promotions, but they also feature in promotions from within industry itself, and criticisms have been expressed that Cadw is happy to enjoy the benefits of the industry promoting them, but it seems to be that Cadw is less enthusiastic about engaging with the industry to lever visitor interest in non-Cadw heritage sites. I'm hoping that that's something that you'll be able to address with your responsibilities. And then finally: important buildings at risk in private ownership. I think this is a real challenge for the heritage Bill, and also for local authorities who already find enforcement action very difficult due to stretched resources. I'm just wondering whether perhaps you can tell us how far along you are with your development of ideas—the balance between carrot and stick that you intend to introduce in order to both help and oblige private owners to take care of their properties, and do you anticipate similar carrots and sticks being introduced for buildings in private ownership that are of local rather than national importance?

Rwyf yn awyddus iawn hefyd i gymeradwyo'r sylwadau a wnaethoch ynglŷn â gwaith gwirfoddolwyr yn y datganiad hwn, a swyddogaeth y sector anwladwriaethol o ran gofalu am ein treftadaeth a'i gwarchod. Credaf na ddylid diystyru adnoddau cyfalaf cymdeithasol sydd y tu allan i'r Llywodraeth, a chredaf ei bod yn helpu hyder y sectorau hynny os caiff gymeradwyaeth gennych chi, yn ogystal â nodi llwyddiannau'r prosiect twristiaeth treftadaeth, er enghraifft. Dyma fy nghwestiynau: credaf ei bod yn newyddion da iawn fod nifer yr ymwelwyr a'u gwariant ar gynnydd mewn safleoedd treftadaeth. Tybed a wnewch chi ddweud wrthym pa mor hawdd yw hi ichi i nodi faint o'r gwelliant hwnnw sydd oherwydd gweithgarwch penodol y Llywodraeth, yn hytrach na gweithgarwch, efallai, cyrff treftadaeth eraill, y diwydiant twristiaeth er enghraifft, a ffactorau syml megis y tywydd? Ar ba sail ydych chi'n honni y gallai'r prosiect twristiaeth treftadaeth ddarparu dros 1,000 o swyddi a chyfrannu £19 miliwn i'r economi? Yr hyn yr wyf yn chwilio amdano yw pa fath o swyddi yr ydych yn sôn amdanynt—ai swyddi newydd ydynt ynteu ai dim ond swyddi a gefnogir sy'n bodoli eisoes? A yw'n £19 miliwn yn ychwanegol i'r economi ynteu'n aiddosbarthiad o sectorau eraill?

Yn drydydd, rhaid imi ddweud nad wyf yn synnu bod safleoedd Cadw'n gwneud yn dda. Mae lle amlwg iddynt yng ngweithgareddau hyrwyddo'r Llywodraeth, ond maent hefyd yn ymddangos mewn hyrwyddiadau sy'n deillio o'r diwydiant ei hun, ac mae pobl wedi beirniadu'r ffaith bod Cadw'n hapus i fwynhau manteision cael ei hyrwyddo gan y diwydiant, ond ei bod yn ymddangos bod Cadw'n llai brwdfrydig ynghylch ymgysylltu â'r diwydiant i ennyn diddordeb ymwelwyr mewn safleoedd treftadaeth heblaw rhai Cadw. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n rhywbeth y gallwch roi sylw iddo drwy eich cyfrifoldebau. Ac yna'n olaf: adeiladau pwysig mewn perchnogaeth breifat sydd dan fygythiad. Credaf fod hyn yn her go iawn i'r Bil treftadaeth, a hefyd i awdurdodau lleol sydd eisoes yn ei chael yn anodd iawn cymryd camau gorfodi oherwydd bod adnoddau'n brin. Tybed a allwch efallai ddweud wrthym ble yr ydych arni o ran datblygu syniadau—sicrhau'r cydbwysedd yr ydych yn bwriadu ei gyflwyno rhwng gwobrwyo a chosbi er mwyn cynorthwyo a gorfodi perchnogion preifat i ofalu am eu heiddo, ac a ydych yn rhagweld cyflwyno gwobrau a chosbau tebyg ar gyfer adeiladau mewn perchnogaeth breifat sydd o bwysigrwydd lleol yn hytrach na chenedlaethol?

15:02

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Can I thank Suzy Davies for her comments and also for agreeing to meet with me before Christmas to discuss the Bill, and, indeed, can I thank all opposition spokespeople for agreeing to meet with me? The discussions have been incredibly positive and very useful as well, and I've been able to inform further developments ahead of me bringing forward the Bill.

Diolch yn fawr. A gaf fi ddiolch i Suzy Davies am ei sylwadau a hefyd am gytuno i gwrdd â mi cyn y Nadolig i drafod y Bil, ac, yn wir, a gaf fi ddiolch i holl lefarwyr y gwrthbleidiau am gytuno i gwrdd â mi? Mae'r trafodaethau wedi bod yn hynod gadarnhaol ac yn ddefnyddiol iawn hefyd, ac rwyf wedi gallu llywio datblygiadau pellach cyn imi gyflwyno'r Bil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think Suzy Davies is absolutely right in what she says about the value of volunteers to the heritage sector, not just in terms of how they ensure that the heritage sector thrives, but also in terms of how it improves the welfare of the nation. There was a very interesting study recently by English Heritage, which found that not only does visiting heritage sites improve your health and wellbeing, but that volunteering at heritage sites also makes an incredible difference to your health and wellbeing. So, I would very much like to repeat the thanks and congratulations that Suzy Davies has given to those volunteers.

In terms of the visitor figures and how we are able to assess to what degree that is owed to Welsh Government activity, it is often very difficult to disaggregate increases in visitor figures due to specific Welsh Government initiatives from those more generally associated with good weather, for example. But, I think it's fair to say if you compare the attractions in England and Scotland with those in Wales, we all had the same weather, but Wales's heritage sites have performed incredibly well, and, of course, we will have an evaluation of the heritage tourism project.

Now, the figures that the Member identified were part of research carried out by Cardiff University's business school's Welsh economy research unit. Basically, it found that the economic impacts attributable to tourists visiting sites that have benefited from the HTP project could equate to up to £90 million a year, in turn supporting more than 1,000 full-time jobs. Of course, these jobs would cover a range of professions and specialisms.

In terms of Cadw and engagement, this is something where, I think, bringing those areas of responsibility that I have into economy, science and transport could prove particularly helpful, because already we've been able to—officials in Cadw have been able to—engage with economy officials to make sure that we are fully exploiting what is there in our heritage and in Welsh Government's ownership and ensure that income can be driven up through commercial activities and better engagement with the business sector.

Credaf fod Suzy Davies yn gwbl gywir yn yr hyn y mae'n ei ddweud am werth gwirfoddolwyr i'r sector treftadaeth, nid yn unig o ran y ffordd y maent yn sicrhau bod y sector treftadaeth yn ffynnu, ond hefyd o ran y ffordd y mae'n gwella lles y genedl. Cynhaliwyd astudiaeth ddiddorol iawn yn ddiweddar gan English Heritage, a ganfu fod ymweld â safleoedd treftadaeth yn gwella eich iechyd a'ch lles, ond bod gwirfoddoli mewn safleoedd treftadaeth hefyd yn gwneud gwahaniaeth anhygoel i'ch iechyd a'ch lles. Felly, byddwn yn sicr yn hoffi ailadrodd y diolch a'r llongyfarchiadau y mae Suzy Davies wedi'u hestyn i'r gwirfoddolwyr hynny.

O ran niferoedd ymwelwyr a sut y gallwn asesu i ba raddau y mae'r diolch am hynny i weithgarwch Llywodraeth Cymru, mae'n aml yn anodd iawn dadgyfuno cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn sgil mentrau penodol Llywodraeth Cymru oddi wrth y cynnydd sy'n gysylltiedig yn fwy cyffredinol â thywydd da, er enghraifft. Ond credaf ei bod yn deg dweud, os cymharwch atyniadau yn Lloegr a'r Alban â'r rhai yng Nghymru, ein bod i gyd wedi cael yr un tywydd, ond bod safleoedd treftadaeth Cymru wedi gwneud yn anhygoel o dda, ac, wrth gwrs, bydd y prosiect twristiaeth treftadaeth yn cael ei werthuso.

Yn awr, roedd y ffigurau a nododd yr Aelod yn rhan o ymchwil a gynhaliwyd gan uned ymchwil ysgol fusnes Prifysgol Caerdydd i economi Cymru. Yn y bôn, darganfu y gallai'r effeithiau economaidd y gellir eu priodoli i ymweliadau twristiaid â safleoedd sydd wedi cael budd o'r prosiect twristiaeth treftadaeth fod yn gyfwerth â hyd at £90 miliwn y flwyddyn, ac y gallai hynny yn ei dro gefnogi dros 1,000 o swyddi llawn amser. Wrth gwrs, byddai'r swyddi hyn mewn ystod o broffesiynau ac arbenigeddau.

O ran Cadw ac ymgysylltu, mae hyn yn rhywbeth ble rwyf yn meddwl y gallai dod â'r meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt i mewn i'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth fod yn arbennig o ddefnyddiol, oherwydd rydym eisoes wedi gallu—mae swyddogion yn Cadw wedi gallu—ymgysylltu â swyddogion yr economi i sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar yr hyn sydd yno yn ein treftadaeth ac ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru ac i sicrhau y gallwn gynyddu incwm drwy gyfrwng gweithgareddau masnachol ac ymgysylltu'n well â'r sector busnes.

15:05

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I welcome the statement by the Deputy Minister. I'm very pleased that the work being done at Hafod-Morfa copperworks, including a lot of work done by volunteers from Swansea University—this is sited next to Swansea City's football ground—has been recognised. I'm also pleased that Cadw are meeting with the conservation officers from all local authorities, in Llandrindod Wells, to discuss chapels and the concept of relative excellence. We are at a critical stage in the history of Welsh non-conformist chapels. Many are attended almost exclusively by people in their 70s, 80s and 90s. Many are listed but they cannot all be protected. Will the Minister support the creation of a list of key chapel buildings to be supported and protected? It is not going to be possible when I think you've got something like 4,500 listed religious buildings in Wales—. With the best will in the world and given access to almost the whole of the Welsh Government's budget, you probably couldn't protect them all.

Croesawaf ddatganiad y Dirprwy Weinidog. Rwyf yn falch iawn fod y gwaith sy'n cael ei wneud yng ngwaith copr Hafod-Morfa, gan gynnwys llawer o waith gan wirfoddolwyr o Brifysgol Abertawe—mae'r gwaith y drws nesaf i gae pêl-droed Dinas Abertawe—wedi cael ei gydnabod. Rwyf hefyd yn falch bod Cadw'n cwrdd â swyddogion cadwraeth yr holl awdurdodau lleol, yn Llandrindod, i drafod capeli a chysyniad rhagoriaeth gymharol. Rydym mewn cyfnod allweddol yn hanes capeli anghydfurfiol yng Nghymru. Mae llawer o gapeli lle mae'r gynulleidfa bron yn gyfan gwbl yn bobl yn eu 70au, 80au a 90au. Mae llawer yn rhestredig, ond ni ellir diogelu pob un ohonynt. A wnaiff y Gweinidog gefnogi creu rhestr o adeiladau capeli allweddol i'w cefnogi a'u diogelu? Ni fydd yn bosibl pan fo gennych, rwyf yn meddwl, ryw 4,500 o adeiladau crefyddol rhestredig yng Nghymru—. Gyda phob ewyllys da a chyda bron y cyfan o gyllideb Llywodraeth Cymru, mae'n debyg na allech eu diogelu i gyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Also, will you develop a religious heritage tourism strategy and market it, especially in North America? I think there's a huge opportunity to get people from North America to come here to visit places like Moriah chapel in Edwina Hart's constituency, where the 1904 religious revival started, but also places like chapels in my own constituency, and may I mention Tabernacl, which has been called many things, including, I'm pleased to say, 'the Cathedral of non-conformity', and Seilo chapel, which is the chapel of tinplate workers and the copper workers? So, there is a huge historical legacy there, and I think there is a tourism opportunity and also a means of protecting some of our most wonderful heritage.

Hefyd, a wnewch chi ddatblygu strategaeth twristiaeth treftadaeth grefyddol a'i marchnata, yn enwedig yng Ngogledd America? Credaf fod cyfle aruthrol i annog pobl o Ogledd America i ddod yma i ymweld â lleoedd fel capel Moriah yn etholaeth Edwina Hart, lle y dechreuodd diwygiad crefyddol 1904, ond lleoedd hefyd fel capeli yn fy etholaeth i, ac a gaf fi sôn am y Tabernacl, sydd wedi cael ei alw'n llawer o bethau, gan gynnwys, rwyf yn falch o ddweud, 'Cadeirlan Anghydfurfaeth', a chapel Seilo, sef capel y gweithwyr tunplat a'r gweithwyr copr? Felly, mae etifeddiaeth hanesyddol aruthrol yno, a chredaf fod cyfle o ran twristiaeth a hefyd ffordd o warchod rhywfaint o'n treftadaeth fwyaf rhyfeddol.

15:07

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Can I thank Mike Hedges for his valuable contribution and for raising a number of really important points, not least the value of higher education, indeed further education and schools, to the heritage sector, and I am pleased that we've seen quite a striking number of hours dedicated to work experience and training delivered by the heritage sector. I think that, as we move forward, there is enormous potential, particularly in collaboration with colleagues in the Department for Education and Skills, to increase further opportunities for work experience within the heritage sector.

The role that places of worship play in our society and in our communities and the protection that we afford places of worship are things that I very much take an interest in and which we debated just before Christmas. I do agree with the call for the Welsh Government to work with faith communities and other stakeholders for the protection of these important buildings and for the work that Cadw has already done and has in hand in relation to the strategic action plan for places of worship. I will, of course, give further consideration to the notion that a list of specific buildings should be composed, and I'll take that to the heritage advisory panel. But I would make the point that listing and protection should be applicable to any religious buildings of recognised value, and I think we need to acknowledge social and cultural value as well as architectural and historic significance. I do think—and it was one of the common issues raised by opposition spokespeople and by backbenchers in my party—that we need to pay attention to the role that individuals, the public, have in composing a list of assets that may not be afforded official protection but which nonetheless add to the characterisation of their communities.

Ie. A gaf fi ddiolch i Mike Hedges am ei gyfraniad gwerthfawr ac am godi nifer o bwyntiau pwysig iawn, yn enwedig gwerth addysg uwch, ac yn wir addysg bellach ac ysgolion, i'r sector treftadaeth; rwyf yn falch ein bod wedi gweld y sector treftadaeth yn neilltuo nifer trawiadol iawn o oriau i ddarparu profiad gwaith a hyfforddiant. Credaf, wrth inni symud ymlaen, fod potensial aruthrol, yn enwedig ar y cyd â chydweithwyr yn yr Adran Addysg a Sgiliau, i gynyddu ymhellach y cyfleoedd i gael profiad gwaith yn y sector treftadaeth.

Mae'r rhan y mae lleoedd addoli'n ei chwarae yn ein cymdeithas ac yn ein cymunedau, a'r warchodaeth a roddwn i fannau addoli, yn bethau y mae gennyf ddiddordeb mawr iawn ynddynt ac a drafodwyd gennym ychydig cyn y Nadolig. Rwyf yn cytuno â'r alwad ar i Lywodraeth Cymru gydweithio â chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i ddiogelu'r adeiladau pwysig hyn ac â'r gwaith y mae Cadw eisoes wedi'i wneud ac sydd ganddo ar y gweill o ran y cynllun gweithredu strategol ar gyfer manau addoli. Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi ystyriaeth bellach i'r syniad o lunio rhestr o adeiladau penodol, a soniaf am hynny wrth y panel cyngori ar dreftadaeth. Ond rwyf am wneud y pwynt y dylai rhestru a diogelu fod yn berthnasol i bob adeilad crefyddol o werth cydnabyddedig, a chredaf fod angen inni gydnabod gwerth cymdeithasol a diwylliannol yn ogystal ag arwyddocâd pensaernïol a hanesyddol. Rwyf yn meddwl—ac roedd hyn yn un o'r materion cyffredin a godwyd gan lefarwyr y gwrthbleidiau a chan aelodau meinciau cefn yn fy mhlaid i—fod angen inni roi sylw i swyddogaeth unigolion, y cyhoedd, wrth lunio rhestr o asedau na chânt eu diogelu'n swyddogol, efallai, ond sydd er hynny'n ychwanegu at gymeriad eu cymunedau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thanks for the statement today and for the meeting that you afforded us. I'd just like to ask a few questions on, perhaps, outlining the detail of what you'll be bringing forward in the heritage Bill and what particular elements will be left to policy advice and guidance, because I think that I told you in the meeting that, having had the experience of bringing forward private Members' legislation, there is a balance to be had between what we put in guidance and what we put in legislation. So, while recognising that some features will be more necessary for legislation than they would be for policy, we need to understand from Members and from the wider public where that lies and what is deemed as more important for futureproofing the heritage of our nation. So, I'd like to understand that.

The other issue that I've raised with you on numerous occasions, and with previous Ministers, is with regard to heritage that potentially is currently not protected, such as our industrial heritage. We will know from situations in my own area, in Port Talbot, where the Customs House was demolished—. In its place have been put anonymous-looking flats. Of course, we need more flats for our area, but that means a piece of our heritage has gone forever and it changes the outlook of the town and how people who visit the town view it. So, I would like to see within the Bill and within future guidance a recognition towards those key elements.

I think other Members have mentioned it, but also it's very important that we understand what local people deem as being assets to them, and not just for the councillors to decide over them. I feel sometimes that people are quite frustrated by saying that they believe a building or an area of a town is to be deemed as historic or to be protected in a certain way, but that others in the community do not agree with them. So, what can we afford in that sense? And, obviously, with regard to when the public consultation on the revision of the historic environment chapter of 'Planning Policy Wales' and the production of a new technical advice note for the historic environment, can you tell us when that would take place? That's something that we are keen to know as a party.

And again, to finish, you will know that, for me, the skills agenda is vital. If we're going to be seeing changes in the sector, if we want to retain what's there—people are retiring, people are changing roles—we need to make sure that the skills in the industry are respected and retained. When I do talk to people in the sector, they don't feel that especially clear at the moment, and so, whether it's in legislation or whether it's in guidance or policy, perhaps we need to be doing more in terms of apprenticeships for example, in this area, that can really encourage young people to see the benefits of the heritage sector as opposed to perhaps seeing it sometimes as something that isn't as serious as other sectors and that they could enter in their own professions. So, those are the issues for me. Diolch yn fawr.

Diolch am y datganiad heddiw ac am y cyfarfod a gawsom ni. Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau, efallai, ynghylch amlinellu manylion yr hyn y byddwch yn ei gyflwyno yn y Bil treftadaeth a pha elfennau penodol a gaiff eu gadael i gyngor a chanllawiau polisi, oherwydd credaf imi ddweud wrthydd yn y cyfarfod, ar ôl cael y profiad o gyflwyno deddfwriaeth Aelod preifat, fod yn rhaid wrth gydbwysedd rhwng yr hyn yr ydym yn ei roi yn y canllawiau a'r hyn yr ydym yn ei roi mewn deddfwriaeth. Felly, er ein bod yn cydnabod y bydd rhai nodweddion yn fwy angenrheidiol i ddeddfwriaeth nag y byddent i bolisi, mae angen inni gael gwybod gan yr Aelodau a chan y cyhoedd yn gyffredinol ble y mae hynny a beth sy'n cael ei ystyried fwyaf pwysig i ddiogelu treftadaeth ein cenedl at y dyfodol. Felly, hoffwn gael deall hynny.

Mae'r mater arall yr wyf wedi ei godi droeon â chi, ac â Gweinidogion blaenorol, yn ymwneud â threftadaeth nad yw efallai'n cael ei diogelu ar hyn o bryd, megis ein treftadaeth ddiwydiannol. Byddwn yn gwybod o sefyllfaoedd yn fy ardal innau, ym Mhort Talbot, lle y cafodd y Tŷ Tollau ei ddymchwel—. Mae fflatiau di-nod yr olwg wedi eu rhoi yn ei le. Wrth gwrs, mae angen mwy o fflatiau yn ein hardal, ond mae hynny'n golygu bod darn o'n treftadaeth wedi mynd am byth ac mae'n newid golwg y dref a'r ffordd y mae pobl sy'n ymweld â'r dref yn ei gweld. Felly, hoffwn weld y Bil a chanllawiau yn y dyfodol yn cydnabod yr elfennau allweddol hynny.

Credaf fod Aelodau eraill wedi sôn am hyn, ond mae'n bwysig iawn hefyd ein bod yn deall yr hyn y mae pobl leol yn eu hystyried yn asedau, yn hytrach na gadael i'r cyngorwyr benderfynu drostynt. Teimlaf weithiau fod pobl yn eithaf rhwystredig wrth ddweud eu bod yn credu y dylid ystyried adeilad neu ran o dref yn rhywbeth hanesyddol neu y dylid eu diogelu mewn ffordd arbennig, ond nad yw eraill yn y gymuned yn cytuno â hwy. Felly, beth y gallwn ei wneud yn hynny o beth? Ac wrth gwrs, o ran pryd y cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus ar adolygu pennod 'Polisi Cynllunio Cymru' ar yr amgylchedd hanesyddol a chynhyrchu nodyn cyngor technegol newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, a allwch ddweud wrthym pryd y bydd hynny'n digwydd? Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i'w wybod fel plaid.

Ac eto, i gloi, byddwch yn gwybod bod yr agenda sgiliau yn hollbwysig i mi. Os ydym am weld newidiadau yn y sector, os ydym am gadw beth sydd yno—mae pobl yn ymddeol, mae pobl yn newid swyddogaethau—mae angen inni wneud yn siŵr bod y sgiliau yn y diwydiant yn cael eu parchu a'u cadw. Pan fyddaf yn siarad â phobl yn y sector, nid ydynt yn teimlo bod hynny'n arbennig o glir ar hyn o bryd, ac felly, boed mewn deddfwriaeth neu mewn canllawiau neu bolisi, efallai fod angen inni fod yn gwneud mwy o ran prentisiaethau, er enghraifft, yn y maes hwn, a all roi anogaeth gref i bobl ifanc i weld manteision y sector treftadaeth yn hytrach nag efallai ei weld weithiau fel rhywbeth nad yw mor ddirifol â sectorau eraill ac y gallent fynd i mewn iddo yn eu proffesiynau eu hunain. Felly, dyma'r materion sydd o bwys i mi. Diolch yn fawr.

Diolch yn fawr iawn i chi. I think that the Member, Bethan Jenkins, again, raises very important points, first of all about the Bill. If we just recap the purpose of the Bill, it will effectively make important amendments to the existing legislation in order to remedy shortcomings, so they're recognised not just here but, I think it's fair to say, in England as well, and it will make improvements identified during the engagement and consultation that preceded its development. It will also incorporate stand-alone provisions. It will contribute to the better long-term management of the historic environment. Now, much of the existing historic environment guidance is almost two decades old and, I believe, is out of step with current conservation philosophy. So, it provides an opportunity to replace existing guidance. Now, I am, I should say, very grateful to the Minister for Natural Resources for his readiness to allow his officials from planning to work with my Cadw officials in preparing drafts of a revised historic environment chapter for 'Planning Policy Wales' and an entirely new technical advice note for the historic environment. Now, my Cadw officials have also been working on draft guidance documents that cover world heritage sites, historic assets of special local interest, sustainable management of listed buildings and historic environment records, and drafts of all of these complementary documents will be available for consultation when the Bill is introduced, and they will be subject to public consultation later this year or early 2016.

I think, in terms of industrial heritage, I couldn't agree more, and I'm sure that Members across the Chamber would agree with Bethan Jenkins. I'm pleased that the pan-Wales heritage interpretation plan includes 'Wales—the first industrial nation', and a plan for this theme that helps us to focus on Wales's industrial heritage, and its emphasis is on people rather than process and it identifies key elements in the story of Wales as an industrial nation as a contextual framework for site, topic and area-based interpretation. It also identified potential partners, including museums and industrial sites, local authorities and community organisations, and it also presents an opportunity to work with partners identified as well as other organisations, such as Glandŵr Cymru. I do think that we are in a position now where we are able, with further consideration being given to local characterisation, or local lists of assets, to be able to engage with the public where our industrial heritage is sited in a way that we haven't done before. I am very pleased to be able to take this work forward.

In terms of skills, I have met with the Deputy Minister for Skills and Technology to discuss this and my historic environment group has a dedicated sub-group on skills, and we hope to look more closely at traditional skills issues in the coming year.

Diolch yn fawr iawn i chi. Credaf fod yr Aelod, Bethan Jenkins, unwaith eto, yn codi pwntiau pwysig iawn, yn gyntaf oll am y Bil. O ran diben y Bil, bydd i bob pwrpas yn gwneud diwygiadau pwysig i'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn unioni diffygion, fel eu bod yn cael eu cydnabod nid yn unig yma ond, credaf ei bod yn deg dweud, yn Lloegr hefyd, a bydd yn gwneud gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaethpwyd cyn ei ddatblygu. Bydd hefyd yn ymgorffori darpariaethau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain. Bydd yn cyfrannu at reoli'r amgylchedd hanesyddol yn well yn y tymor hir. Yn awr, mae llawer o'r canllawiau presennol ar yr amgylchedd hanesyddol gennym ers bron i ddau ddegawd ac, yn fy marn i, nid ydynt yn cyd-fynd ag athroniaeth gadwraeth gyfredol. Felly, mae'n gyfle i ddisodli'r canllawiau presennol. Yn awr, yr wyf, dylwn ddweud, yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol am ei barodrwydd i ganiatáu i'w swyddogion cynllunio weithio gyda fy swyddogion yr Cadw wrth baratoi drafftiau o bennod ddiwygiedig ar yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer 'Polisi Cynllunio Cymru' a nodyn cyngor technegol cwbl newydd ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Yn awr, mae swyddogion Cadw hefyd wedi bod yn gweithio ar ddogfennau canllawiau drafft sy'n ymdrin â safleoedd treftadaeth y byd, asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, rheoli adeiladau rhestredig yn gynaliadwy a chofnodion ar yr amgylchedd hanesyddol, a bydd drafftiau o'r holl ddogfennau ategol hyn ar gael i ymgynghori arnynt pan gaiff y Bil ei gyflwyno, a byddant yn destun ymgynghori cyhoeddus yn ddiweddarach eleni neu'n gynnar yn 2016.

O ran treftadaeth ddiwydiannol, cytunaf yn llwyr, ac rwyf yn siŵr y byddai'r Aelodau ledled y Siambr yn cytuno â Bethan Jenkins. Rwyf yn falch bod cynllun dehongli treftadaeth Cymru gyfan yn cynnwys 'Cymru—y genedl ddiwydiannol gyntaf', a chynllun ar gyfer y thema hon sy'n ein helpu i ganolbwyntio ar dreftadaeth ddiwydiannol Cymru, ac mae'r pwyslais ar bobl yn hytrach nag ar y broses ac mae'n nodi elfennau allweddol yn stori Cymru fel cenedl ddiwydiannol fel fframwaith cyd-destunol ar gyfer dehongli safleoedd, pynciau ac ardaloedd. Roedd hefyd yn nodi partneriaid posibl, gan gynnwys amgueddfeydd a safleoedd diwydiannol, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol, ac mae hefyd yn cynnig cyfle i weithio gyda'r partneriaid a nodwyd yn ogystal â sefydliadau eraill, megis Glandŵr Cymru. Credaf ein bod mewn sefyllfa yn awr lle y gallwn, gan roi rhagor o ystyriaeth i gymeriad lleol, neu i restrau lleol o asedau, ymgysylltu â'r cyhoedd lle y mae ein treftadaeth ddiwydiannol wedi'i lleoli mewn ffordd nad ydym wedi'i wneud o'r blaen. Rwyf yn falch iawn o allu bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

O ran sgiliau, rwyf wedi cwrdd â'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i drafod hyn ac mae gan fy ngrŵp amgylchedd hanesyddol is-grŵp penodol ar sgiliau, ac rydym yn gobeithio edrych yn fanylach ar faterion sgiliau traddodiadol yn y flwyddyn sydd i ddod.

Thank you, Deputy Minister, for the statement. Can I also add my voice to the praise for those hundreds of volunteers who actually help to promote Wales's heritage throughout the country, and thank them for the work they do? Also, to thank you, Deputy Minister, for the inclusive approach that you're taking towards the heritage Bill, which, hopefully, will be evident when you come to publish that document in terms of our input into it.

If I could just pick up on Bethan Jenkins's point about skills, I understand, of course, that conservation work is a particular specialist field. A friend of mine was involved in renovating Ewenny Priory, and I understand some of the issues involved there. So, I think, there is a need to actually try to develop a particular line of work in promoting and training up people to be able to do that conservation work. I think if we are to invest in our heritage and in the buildings that do need to be preserved and promoted to the public, then we certainly need to do that as part of that agenda.

If I could just pick up a couple of points from your statement. I note, in talking about the all-Wales survey of the condition and use of listed buildings and a better understanding of buildings at risk, and targeting resources at those, I would be interested in what resources actually are available in terms of that. You'll be aware, of course, of the Palace Theatre in Swansea, for which the City and County of Swansea Council have provided a grant that will do no more than really just stabilise the building. I think, on the actual money that needs to be spent on that building, you're talking £6 million or £7 million, I think, to bring that building back into use. Yet, it is an absolutely invaluable part of Swansea's heritage and one that well deserves to be restored and brought back into use, if a use can be found for it. So, what sort of resources are going to be available to local authorities and to the owners of these buildings to try to bring back the most valuable buildings, such as the Palace Theatre, in Wales?

Secondly, in your statement, you talk about a joined up national heritage strategy bringing together organisations like the Canal and River Trust, Glandŵr Cymru, Amgueddfa Cymru, National Museum Wales et cetera. And, also, you talk further on about modernising our record systems and making better use of records of our protected heritage; making them fully accessible to the public online. I very much endorse that sentiment, but, of course, if you go onto the Cadw website, you will see that the sites that they are promoting are exclusively those belonging to Cadw. They don't promote other sites belonging to the National Trust or to local authorities or to other organisations that are equally valuable and in need of promotion, despite the fact that Cadw is a Welsh Government agency. Can I ask you whether you have any plans to do that, or will there be a separate website, which will promote all the sites in Wales, as opposed to those exclusively the responsibility of each of the separate bodies?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad. A gaf finnu hefyd roi clod i'r cannoedd o wirfoddolwyr sy'n helpu i hyrwyddo treftadaeth Cymru ar hyd a lled y wlad, a diolch iddynt am y gwaith y maent yn ei wneud? Hefyd, diolch i chi, Ddirprwy Weinidog, am eich ymagwedd gynhwysol tuag at y Bil treftadaeth, a fydd, rwyf yn gobeithio, i'w gweld yn amlwg pan gyhoeddwyd y ddogfen honno o ran ein cyfraniad iddi.

Os caf gyfeirio at bwynt Bethan Jenkins am sgiliau, rwyf yn deall, wrth gwrs, fod gwaith cadwraeth yn faes arbenigol penodol iawn. Roedd ffrind imi'n rhan o waith adnewyddu Priordy Ewenni, ac rwyf yn deall rhai o'r materion a oedd dan sylw yno. Felly, credaf fod gwir angen ceisio datblygu gwaith penodol i hyrwyddo a hyfforddi pobl i allu gwneud y gwaith cadwraeth hwnnw. Os ydym am fuddsoddi yn ein treftadaeth ac yn yr adeiladau y mae angen eu cadw a'u hyrwyddo i'r cyhoedd, credaf yn sicr fod angen inni wneud hynny fel rhan o'r agenda honno.

Os caf gyfeirio at un neu ddau o bwyntiau yn eich datganiad. Nodaf, wrth sôn am arolwg Cymru gyfan o gyflwr adeiladau rhestredig a'r ffordd y cânt eu defnyddio, a gwell dealltwriaeth o adeiladau sydd dan fygythiad, a thargedu adnoddau at y rheini, y byddai'n dda gennyf gael gwybod pa adnoddau sydd ar gael mewn gwirionedd ar gyfer hynny. Byddwch yn gwybod, wrth gwrs, am Theatr y Palas yn Abertawe, y mae Dinas a Sir Abertawe wedi darparu grant ar ei chyfer na fydd mewn gwirionedd yn gwneud dim mwy na sefydlogi'r adeilad. Credaf, o ran yr arian y mae angen ei wario ar yr adeilad hwnnw, eich bod yn sôn am £6 miliwn neu £7 miliwn, rwyf yn meddwl, er mwyn gallu defnyddio'r adeilad hwnnw eto. Ac eto, mae'n rhan gwbl amhrisiadwy o dreftadaeth Abertawe ac yn adeilad sy'n llawn haeddu cael ei adfer a'i ddefnyddio unwaith eto, os gellir dod o hyd i ffordd o'i ddefnyddio. Felly, pa fath o adnoddau a fydd ar gael i awdurdodau lleol ac i berchnogion yr adeiladau hyn i geisio adfer yr adeiladau mwyaf gwerthfawr, megis Theatr y Palas, yng Nghymru?

Yn ail, yn eich datganiad, rydych yn sôn am strategaeth dreftadaeth genedlaethol gydgyssylltiedig a fydd yn dwyn ynghyd sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Glandŵr Cymru, Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac ati. A hefyd, rydych yn sôn yn nys ymlaen am foderneiddio ein systemau cofnodi a gwneud gwell defnydd o gofnodion ein treftadaeth a warchodir, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd ar-lein. Cymeradwyaf y bwriad yn fawr, ond wrth gwrs, os ewch i wefan Cadw, fe welwch fod mai dim ond safleoedd Cadw y maent yn eu hyrwyddo. Nid ydynt yn hyrwyddo safleoedd eraill sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, nac i awdurdodau lleol neu i sefydliadau eraill sydd yr un mor werthfawr ac y mae angen eu hyrwyddo, er bod Cadw'n un o asiantaethau Llywodraeth Cymru. A gaf fi ofyn i chi a oes gennyhych unrhyw gynlluniau i wneud hynny, ynteu a fydd gwefan ar wahân, a fydd yn hyrwyddo'r holl safleoedd yng Nghymru, yn hytrach na dim ond y rhai y mae pob un o'r cyrff hyn ar wahân yn gyfrifol amdanynt?

Kenneth Skates [Bywgraffiad Biography](#)

Can I thank Peter Black, not just for his contribution today, but again, for the contribution he's made in meetings that I've had with him, particularly around the effects and the relationship between the heritage Bill and local authorities? His insight and input is most welcome.

A gaf fi ddiolch i Peter Black, nid yn unig am ei gyfraniad heddiw, ond unwaith eto, am y cyfraniad y mae wedi'i wneud mewn cyfarfodydd yr wyf wedi'u cael ag ef, yn enwedig ynglŷn ag effeithiau'r Bil treftadaeth a'r berthynas rhyngddo ac awdurdodau lleol? Mae ei ddealltwriaeth a'i gyfraniad i'w croesawu'n fawr.

In terms of skills, I think, what I would like to say is that we've been engaging very much so with the CITB, the Construction Industry Training Board, which is keen to make sure that, as much as possible, heritage skills and conservation skills can be mainstreamed. We're also looking at the potential of three heritage sites that can be utilised for the purpose of conservation and heritage skills training. So, this is very much the beginning of what I think will be a resurrection of heritage skills.

O ran sgiliau, yr hyn yr hoffwn ei ddweud yw ein bod wedi bod yn ymgysylltu i raddau helaeth iawn â'r CITB, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, sy'n awyddus i sicrhau, cyhyd ag y bo modd, y gellir prif-frydio sgiliau treftadaeth a sgiliau cadwraeth. Rydym hefyd yn edrych ar botensial tri safle treftadaeth y gellir eu defnyddio at ddibenion hyfforddiant sgiliau treftadaeth a chadwraeth. Felly, mae hyn yn bendant yn ddechrau ar yr hyn yr wyf yn meddwl fydd yn atgyfodi sgiliau treftadaeth.

In terms of the Palace Theatre, I think it's a matter for the authority to determine how they wish to proceed with the emergency repairs to what is a grade II listed theatre. My officials will engage with them in this regard. In terms of ongoing funding for the restoration of at risk or dilapidated buildings, there are a number of funding opportunities. For example, today saw the launch of the Big Lottery CAT 2, community asset transfer, scheme that will provide £9 million to asset transfer community groups, and it will be relevant in many areas to groups that wish to take over services that are located within historic buildings. The museum and libraries division of Welsh Government offers, annually, £1 million for the purpose of transforming libraries, and part of the criteria for 2015-16 will be the co-location of services. Again, I think there are some excellent examples of co-location of library services within chapels. Indeed, I think it's in, perhaps, Bridgend that there is a particular church that is proving to be very successful in attracting new people in by virtue of having a library on site. Cadw also offer funding, where appropriate and where necessary, for work to be carried out on listed buildings.

O ran Theatr y Palas, credaf mai mater i'r awdurdod yw penderfynu sut y mae'n dymuno bwrw ymlaen â'r gwaith atgyweirio brys i'r theatr restredig gradd II hon. Bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â hwy yn hyn o beth. O ran cyllid parhaus i adfer adeiladau sydd dan fygythiad neu wedi dadfeilio, mae nifer o gyfleoedd cyllido. Er enghraifft, heddiw lanswyd cynllun y Loteri Fawr CAT 2, trosglwyddo asedau cymunedol, a fydd yn darparu £9 miliwn i grwpiau cymunedol trosglwyddo asedau, a bydd yn berthnasol mewn llawer o ardaloedd i grwpiau sy'n dymuno bod yng ngofal gwasanaethau sydd wedi eu lleoli mewn adeiladau hanesyddol. Mae is-adran amgueddfeydd a llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru'n cynnig £1 miliwn y flwyddyn at ddiben trawsnewid llyfrgelloedd, a bydd cydleoeli gwasanaethau'n rhan o'r meini prawf ar gyfer 2015-16. Unwaith eto, rwyf yn meddwl bod rhai enghreifftiau ardderchog o gydleoeli gwasanaethau llyfrgell mewn capeli. Yn wir, rwyf yn meddwl bod ym Mhen-y-bont ar Ogwr, efallai, un eglwys sy'n llwyddo i ddenu llawer o bobl newydd i mewn oherwydd bod llyfrgell ar y safle. Mae Cadw hefyd yn cynnig arian, lle y bo'n briodol a lle y bo ei angen, i wneud gwaith ar adeiladau rhestredig.

But, I think the most valuable funding stream, as we move towards the end of this decade, will be through crowdfunding. This is something I am particularly keen to see Wales embrace. At the start of this decade, crowdfunding was worth approximately £1 billion to investors around the globe. By the end of this decade, crowdfunding will be worth approximately £15 billion, purely to British-based companies and groups. We need to be embracing digital technologies if we are to capitalise on the potential of crowdfunding.

Ond credaf mai'r ffrwd ariannu fwyaf gwerthfawr, wrth inni agosáu at ddiwedd y degawd hwn, fydd ariannu torfol. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn arbennig o awyddus i weld Cymru'n ei gofleidio. Ar ddechrau'r degawd hwn, roedd ariannu torfol yn werth tua £1 biliwn i fuddsoddwyr o gwmpas y byd. Erbyn diwedd y degawd hwn, bydd ariannu torfol yn werth tua £15 biliwn, a hynny i gyd i gwmnïau a grwpiau sydd wedi'u lleoli ym Mhrydain. Mae angen inni groesawu'r technolegau digidol os ydym am fanteisio ar botensial ariannu torfol.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I have a further six speakers, so—. We have had the main speaker from each party. If you can please be as concise as possible with questions, we'll try to get through all the remaining names.

Mae gennyf chwe siaradwr arall, felly—. Rydym wedi clywed gan brif siaradwr pob plaid. Os gallwch os gwelwch yn dda fod mor gryno â phosibl gyda chwestiynau, ceisiwn fynd drwy'r holl enwau sy'n weddill.

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for your statement. Just three very brief questions: can I ask that you will be able to ensure that any work on our religious heritage does not just focus on places of worship? We've got many other sacred sites, such as our network of holy wells across Wales, one of which, of course, in my constituency, is going to be in receipt of significant funding in the near future—St Dyfnog's well, in Llanrhaeadr. So, I do think it's important that they are included in any strategy to market those as tourism opportunities.

Can I also, Deputy Minister, just ask what is being done to take advantage of the unique opportunities that our hill-forts across Wales present in terms of their viability as heritage assets that need to be marketed much more widely? You'll be aware of the hill-fort network in north-east Wales, in the Clwydian range area of outstanding natural beauty, which is important for our locality, for example.

And, thirdly, you'll also be aware that our Victorian heritage, much of it, across Wales has been at risk in recent years. In particular, there's an application, which is about to be made, for consent to demolish the Victoria pier in Colwyn Bay, which is, no doubt, going to cross your desk at some time. Can you explain the process by which you actually might make a decision on that and the timescales, perhaps, that might be involved, in order to satisfy my constituents that you will be leaving no stone unturned in looking for alternatives to demolition?

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Dim ond tri chwestiwn byr iawn: a gaf fi ofyn a allwch sicrhau nad yw gwaith ar ein treftadaeth grefyddol yn canolbwyntio ar fannau addoli'n unig? Mae gennym lawer o safleoedd cysegredig eraill, megis ein rhwydwaith o ffynhonnau sanctaidd ledled Cymru—bydd un ohonynt, wrth gwrs, yn fy etholaeth i, yn cael cyllid sylweddol yn y dyfodol agos—ffynnon St Dyfnog, yn Llanrhaeadr. Felly, credaf ei bod yn bwysig eu cynnwys mewn unrhyw strategaeth i farchnata'r rheini fel cyfleoedd twristiaeth.

A gaf fi hefyd, Ddirprwy Weinidog, ofyn beth sy'n cael ei wneud i fanteisio ar y cyfleoedd unigryw y mae ein bryngaerau ledled Cymru'n eu cynnig o ran eu dichonoldeb fel asedau treftadaeth y mae angen eu marchnata'n ehangach o lawer? Gwyddoch am rwydwaith bryngaerau'r gogledd-ddwyrain, yn ardal o harddwch naturiol eithriadol Bryniau Clwyd, sy'n bwysig i'n hardal ni, er enghraifft.

Ac, yn drydydd, byddwch hefyd yn gwybod bod ein treftadaeth Fictoriaidd, llawer ohoni, ledled Cymru wedi bod dan fygythiad yn y blynyddoedd diwethaf. Yn benodol, mae cais, sydd ar fin cael ei wneud, am ganiatâd i ddymchwel pier Fictoria ym Mae Colwyn, a fydd, yn ddiau, yn cyrraedd eich desg ar ryw adeg. A allwch egluro pa broses y byddwch yn ei defnyddio i wneud penderfyniad am hynny a'r amserlenni, efallai, a allai fod ynghlwm â hynny, er mwyn sicrhau fy etholwyr y byddwch yn gwneud eich gorau glas i chwilio am ddewisiadau eraill yn lle ei ddymchwel?

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Can I thank Darren Millar for his questions? First of all, in terms of places of worship, I wholly intend to make sure that sites that are associated with worship are not excluded from promotion and the value that we place—particularly with regard to trails, which can be incredibly valuable in drawing in tourists.

I was most impressed by the heather and hill-forts project, as I think it's called, in the Clwydian range and Dee valley area of outstanding natural beauty. I do think hill-forts are enormously valuable in drawing in tourists, and I think that, in the part of the world that we come from, the legend of King Arthur is something that offers a pretty magical draw to visitors. So, I'm very keen to make sure that we get the link between heritage and tourism absolutely right in that regard.

In terms of the Victoria pier in Colwyn Bay, now, I understand that Conwy County Borough Council is working towards a submission of an application for planning permission and listed building consent. I understand that the Bay of Colwyn Town Council and the Colwyn Victoria Pier Trust are due to present their proposals to the full county council later this month—I believe on 29 January. So, it wouldn't be prudent, therefore, for me to comment any further at this time, for the reasons that you've given.

Gallaf. A gaf fi ddiolch i Darren Millar am ei gwestiynau? Yn gyntaf oll, o ran mannau addoli, rwyf yn llwyr fwriadu gwneud yn siŵr nad yw safleoedd sy'n gysylltiedig ag addoli wedi'u heithrio o'r gwaith hyrwyddo a'r gwerth a roddwn—yn enwedig o ran y llwybrau, sy'n gallu bod yn hynod werthfawr wrth ddenu twristiaid.

Gwnaeth y prosiect grug a bryngaerau, dyna yw ei enw rwyf yn credu, yn ardal o harddwch naturiol eithriadol bryniau Clwyd a dyffryn Dyfrdwy, argraff fawr arnaf. Credaf fod bryngaerau'n hynod werthfawr er mwyn denu twristiaid, a chredaf fod chwedl y Brenin Arthur, yn y rhan o'r byd yr ydym yn dod ohoni, yn rhywbeth sy'n cynnig atyniad hudol iawn i ymwelwyr. Felly, rwyf yn awyddus iawn i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r cysylltiad gorau posibl rhwng treftadaeth a thwristiaeth yn hynny o beth.

O ran pier Fictoria ym Mae Colwyn, rwyf ar ddeall bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n gweithio tuag at gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig. Rwyf ar ddeall bod disgwyl i Gyngor Tref Bae Colwyn ac Ymddiriedolaeth Pier Fictoria Colwyn gyflwyno eu cynigion i'r cyngor sir llawn yn nes ymlaen y mis hwn—rwyf yn credu ar 29 Ionawr. Felly, ni fyddai'n ddoeth imi wneud sylw pellach ar hyn o bryd, am y rhesymau yr ydych wedi'u rhoi.

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I'll be succinct on two particular issues. One is the issue of community trusts, which you've raised, and, of course, you will be visiting four particular trusts in my constituency: the Taff's Well spring, the Nantgarw pottery, the Hetty pithead restoration, but, in particular, Llantrisant guildhall where, I think, a further grant from Welsh Government of £33,000 on a tourism basis is going to trigger spending in the region of £1 million to completely restore and develop that on a tourism basis. The importance of those trusts— All of those four that you will see are totally dependent for their existence on trusts, and there is very little consistent support that is provided, and that's something I think needs to be addressed. We either support it or we lose it.

Ddirprwy Weinidog, byddaf yn gryno ar ddau fater penodol. Un yw mater ymddiriedolaethau cymunedol, yr ydych chi wedi ei godi, ac, wrth gwrs, byddwch yn ymweld â phedair ymddiriedolaeth benodol yn fy etholaeth i: nant Ffynnon Taf, crochendy Nantgarw, adfer pen pwll Hetty, ond, yn arbennig, neuadd tref Llantrisant lle, rwyf yn meddwl, y bydd grant pellach gan Lywodraeth Cymru o £33,000 ar sail twristiaeth yn sbarduno gwariant o oddeutu £1 miliwn i'w hadfer yn llwyr a'i datblygu ar sail twristiaeth. Mae pwysigrwydd yr ymddiriedolaethau hynny —. Mae pob un o'r pedair hynny y byddwch yn eu gweld yn gwbl ddibynol ar ymddiriedolaethau er mwyn bodoli, ac ychydig iawn o gefnogaeth gyson a roddir, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn meddwl bod angen rhoi sylw iddo. Y dewis yw eu cefnogi neu eu colli.

The other thing I'd like to ask you about is our sporting heritage in particular. There are sporting historical assets all over Wales—some with professional clubs, some with amateur clubs, some in people's homes, attics and so on—and what can we actually do to ensure we have an idea of what there is, how it can be appraised and the whole issue of access to this and avoiding the loss of these assets for future generations?

Y peth arall yr hoffwn eich holi amdano yw ein treftadaeth chwaraeon yn arbennig. Mae asedau chwaraeon hanesyddol ar hyd a lled Cymru—rhai gan glybiau proffesiynol, rhai gan glybiau amatur, rhai yng nghartrefi pobl, mewn atigau ac yn y blaen—a beth y gallwn ei wneud mewn gwirionedd i sicrhau bod gennym syniad o'r hyn sydd yno, sut y gellir ei werthuso a'r holl fater o allu defnyddio'r asedau hyn a pheidio â'u colli ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Mick Antoniw for his contribution and say how much I'm looking forward to visiting his fabulous four visitor attractions, as part of my tour of his constituency, which is coming forward very soon?

A gaf fi ddiolch i Mick Antoniw am ei gyfraniad a dweud cymaint yr wyf yn edrych ymlaen at ymweld â'i bedwar atyniad gwych i ymwelwyr, fel rhan o'm taith o amgylch ei etholaeth, a fydd yn digwydd yn fuan iawn?

With regard to trusts, the key question about all trusts is just how sustainable they can be. As we move forward and try to ensure that as many trusts are as sustainable as possible, I will be publishing a comprehensive toolkit for community asset transfer, so that communities get the best possible advice, best practice and are steered towards funding streams so that they can be truly sustainable.

O ran ymddiriedolaethau, y cwestiwn allweddol am bob ymddiriedolaeth yw pa mor gynaliadwy y gallant fod mewn gwirionedd. Wrth inni symud ymlaen a cheisio sicrhau bod cynifer o ymddiriedolaethau mor gynaliadwy â phosibl, byddaf yn cyhoeddi pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, fel bod cymunedau'n cael y cyngor gorau posibl, yr arfer gorau ac yn cael eu llywio tuag at ffrydiau ariannu er mwyn iddynt allu bod yn wirioneddol gynaliadwy.

Turning to sporting heritage, this is one of the reasons why the People's Collection was created and why it is so important to capture articles and artefacts relating to our sporting heritage, which, in many instances, risk being lost as sports clubs close and as sports institutions close their doors as well. So, it's more important than ever before that we utilise digital archives to make sure that we identify where the actual exhibits are and where they may be in the coming years.

A throi at dreftadaeth chwaraeon, mae hyn yn un o'r rhesymau pam y cafodd Casgliad y Bobl ei greu a pham ei bod mor bwysig casglu gwrthrychau ac arteffactau sy'n ymwneud â'n treftadaeth chwaraeon, sydd, yn aml iawn, mewn perygl o gael ei cholli wrth i glybiau chwaraeon gau ac wrth i sefydliadau chwaraeon gau eu drysau hefyd. Felly, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen defnyddio archifau digidol i wneud yn siŵr ein bod yn nodi ble y mae'r eitemau hyn a ble y gallant fod yn y blynyddoedd i ddod.

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth ymweld â thref Harlech yn ddiweddar, fe ddeuthum mor ymwybodol, unwaith eto, o bwysigrwydd y lleoliad godidog yma, a'r potensial o'r £6 miliwn o fuddsoddiad. Ond a fyddai'r Ddirprwy Weinidog yn cytuno ei bod yn hanfodol bod cymunedau lleol, asiantaethau lleol, busnesion lleol—yn wir yr holl ardal o gwmpas prosiect fel hyn—yn gallu codi lan i gefnogi ac i sicrhau bod y niferoedd o ymwelwyr a ddaw o'r newydd i'r ardal, yn dilyn datblygiad fel hyn, yn gallu manteisio i greu twristiaeth gynaliadwy drwy'r flwyddyn mewn lleoliad mor nodedig?

In visiting the town of Harlech recently, I became very aware, once again, of the importance of that wonderful location, and the potential of that £6 million investment. But would the Deputy Minister agree that it is crucial that local communities, local agencies, local businesses—indeed, the whole area around a project like this—can rise up in support and ensure that the visitor numbers that will come anew to an area following such a decision can be taken advantage of to create sustainable tourism throughout the year in such a notable location?

15:27

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Dafydd Elis-Thomas for his very important point and also say that, when I return to Harlech castle, I'd very much welcome him joining me for the visit? I think this represents probably the biggest infrastructure development in that part of Wales since Harlech castle was first built. It's quite a phenomenal and fantastic development—one that the Welsh Government is very, very pleased to be able to support with £6 million of investment.

It's absolutely right that we do need, for any attraction such as this, to be successful in drawing in tourists. We do need the buy-in of local businesses and of local people and, crucially, I think personally, the local schools as well, because it's the capturing of the imagination and the commitment of future generations that will ensure that there is a long-term sustainable future for our heritage. In terms of Harlech castle, I think we need to be able to make sure that—and here's where the link between heritage and tourism is so powerful, again—that castle becomes the e-ticket attraction for visitors. Not just visitors from outside of Wales, but also visitors from within Wales to that part of our great country.

A gaf fi ddiolch i Dafydd Elis-Thomas am ei bwynt pwysig iawn a dweud hefyd yr hoffwn yn fawr iawn, pan fyddaf yn dychwelyd i gastell Harlech, iddo ymuno â mi ar yr ymweliad? Mae'n debyg mai dyma'r datblygiad seilwaith mwyaf yn y rhan honno o Gymru ers i gastell Harlech gael ei adeiladu gyntaf. Mae'n ddatblygiad syfrdanol a rhyfeddol—un y mae Llywodraeth Cymru'n falch iawn, iawn o allu ei gefnogi drwy fuddsoddi £6 miliwn.

Mae'n hollol iawn fod angen inni, ar gyfer unrhyw atyniad fel hwn, lwyddo i ddenu twristiaid. Mae arnom angen cefnogaeth busnesau lleol a phobl leol ac, yn allweddol, yn fy marn i, yr ysgolion lleol hefyd, oherwydd cydio yn nychymyg cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau eu hymrwymiad fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor i'n treftadaeth. O ran castell Harlech, rywf yn credu bod angen inni allu sicrhau—a dyma ble y mae'r cysylltiad rhwng treftadaeth a thwristiaeth mor bwerus, unwaith eto—fod y castell yn dod yn atyniad e-docyn i ymwelwyr. Nid dim ond ymwelwyr o'r tu allan i Gymru, ond hefyd ymwelwyr oddi mewn i Gymru i'r rhan honno o'n gwlad wych.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:29

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych wedi ateb rhai o'r cwestiynau yr oeddwn yn mynd i'w gofyn, Ddirprwy Weinidog: pa mor bwysig yw pobl ac asiantaethau lleol, y ffaith bod Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gaerfyrddin wedi sicrhau bod Plas Llanely nawr yn cael ei restru fel gradd I, ac wedyn, wrth gwrs, yn y flwyddyn hon, y ffaith y bydd pobl Cydweli yn edrych ar ddathlu 900 mlynedd yng Nghydsweli. Ond, mae un cwestiwn ychwanegol rwyf eisiau ei godi, yn dilyn beth roedd Bethan Jenkins yn ei ddweud yn gynharach. Rwy'n siŵr bod Huw Lewis yn cofio hyn: ar un amser, pan oeddech yn symud, neu'n teithio, o Bentre-bach ym Merthyr i Ddowlais, i lawr ar y llaw chwith, roedd yna stad o dai, ac roeddwn yn edrych arno'n aml, achos roedd y stad o dai hyn yn driongl 'equilateral'. Cefais fy synnu oherwydd roedd gyferbyn â ffatri Hoover, a phenderfynodd Sinclair C5 ei fod eisiau adeiladu ffatri newydd man 'ny. A beth ddigwyddodd? Mae'r ystâd o dai yn diflannu. Nawr, a oes sicrwydd i ni yn y dyfodol fod pethau fel yna yn mynd i gael eu cadw, achos nid un tŷ oedd e, ond ystâd o dai? Wel, nid wyf yn credu bod unrhyw le fel yna yng Nghymru, neu efallai yn yr nyssoedd hyn.

You have answered some of the questions that I was going to ask, Deputy Minister: how important local people and local agencies are, the fact that the Carmarthenshire Heritage Regeneration Trust has ensured that Plas Llanely is now grade I listed, and then, of course, that the people of Kidwelly will this year be celebrating 900 years of existence there. But there is one additional question that I want to raise, following on from what Bethan Jenkins was saying earlier. I am sure that Huw Lewis will recall this: at one time, when you moved or travelled from Pentre-bach in Merthyr to Dowlais, there was a housing estate down on your left, which I would often look at, because the estate was an equilateral triangle. I was shocked because it was opposite the Hoover factory and Sinclair C5 decided that they wanted to build a new works there. What happened? The housing estate disappeared. Now, can you give us an assurance that, in future, those kinds of things will also be protected, because it wasn't just a single house, but a housing estate? There was nothing of its kind anywhere else in Wales, and maybe not even in Britain.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:30

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn. Can I first of all pay tribute to the Carmarthen Heritage Trust, which do a fantastic amount of work to promote the local heritage, and to say that I'd very much like to be able to travel to Kidwelly with the local Member to celebrate the nine hundredth anniversary if that's possible at all? It's been a while since I left school, so I need to revisit what an equilateral triangle housing estate looks like. However, I should say that a whole part of our heritage thinking now today concerns characterisation of an area, not just singular assets. That's why it's so important that the heritage Bill ensures that characterisation is at the very heart of what it tries to deliver.

Diolch yn fawr iawn. A gaf fi yn gyntaf oll dalu teyrnged i Ymddiriedolaeth Treftadaeth Caerfyrddin, sy'n gwneud gwaith gwych i hyrwyddo'r dreftadaeth leol, a dweud y byddai'n dda iawn gennyf gael teithio i Gydsweli gyda'r Aelod Lleol i ddathlu'r naw can mlyneddiant os yw hynny'n bosibl? Mae tipyn o amser ers imi adael yr ysgol, felly mae angen imi edrych eto ar sut y mae stad o dai ar ffurf triongl hafalochrog yn edrych. Fodd bynnag, dylwn ddweud bod rhan fawr o'r ffordd y meddylw'n am dreftadaeth heddiw'n ymwneud â nodweddu ardal, nid dim ond asedau unigol. Dyna pam y mae mor bwysig bod y Bil treftadaeth yn sicrhau bod nodweddu wrth wraidd yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:31 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The past informs the future, and the further back we look, the further forward we can see. Much of your statement related to post-Norman Welsh history. How will you ensure that it also reflects the pre-Norman Welsh history, where so much of Welsh heritage myths, legends and culture refer back to the common past of the ancient Britons who once ruled Britain, cruelly named— not necessarily cruelly, but named—'Waelisc' or 'Welsh' by the invader, but referring to each other as fellow countrymen and women, as 'Cymric' or 'Cymreig'? I note your comment about Arthur, and you may be aware that the Flintshire Tourism Association has put in a bid to capitalise upon the origins in the dark ages of those wonderful Arthurian legends. So, how will you ensure parity between the pre-Norman and the post-Norman history that has enriched the country of Wales?

Mae'r gorffennol yn llywio'r dyfodol, a phellaf yn y byd yn ôl yr edrychwn, y pellaf ymlaen y gallwn weld. Roedd llawer o'ch datganiad yn ymwneud â hanes ôl-Normanaidd Cymru. Sut ydych chi'n bwriadu sicrhau bod hanes cyn-Normanaidd Cymru hefyd yn cael ei adlewyrchu, gan fod cynifer o straeon, chwedlau a diwylliant treftadaeth Cymru'n cyfeirio'n ôl at orffennol cyffredin yr hen Frythoniaid a oedd unwaith yn teyrnasu ym Mhrydain, a enwyd yn greulon—nid o reidrwydd yn greulon, ond a enwyd—'Waelisc' neu 'Welsh' gan y goresgynnydd, ond a oedd yn cyfeirio at ei gilydd fel cydwladwyr, fel 'Cymric' neu 'Cymreig'? Nodaf eich sylwadau am Arthur, ac efallai eich bod yn gwybod bod Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint wedi cyflwyno cais i elwa ar wreiddiau'r chwedlau Arthuraidd gwych hynny yn yr oesoedd tywyll. Felly, sut y byddwch yn sicrhau cydraddoldeb rhwng yr hanes cyn-Normanaidd ac ôl-Normanaidd sydd wedi cyfoethogi Cymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:32 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank Mark Isherwood for his contribution and say from the outset that the Bill will not discriminate against age? The Bill is aimed at making sure that heritage of any age is protected and preserved. I would pay tribute to those people in north-east Wales, in particular, I think, in Mold as well, who have done so much to promote the legend of King Arthur and the history and heritage that the Member outlined in his contribution.

A gaf fi ddiolch i Mark Isherwood am ei gyfraniad a dweud o'r dechrau na fydd y Bil yn gwahaniaethu ar sail oedran? Bwriad y Bil yw gwneud yn siŵr bod treftadaeth o unrhyw oedran yn cael ei diogelu a'i chadw. Hoffwn dalu teyrnged i'r bobl hynny yn y gogledd-ddwyrain, yn arbennig, rwyf yn meddwl, yn yr Wyddgrug hefyd, sydd wedi gwneud cymaint i hyrwyddo chwedl y Brenin Arthur a'r hanes a'r dreftadaeth a amlinellodd yr Aelod yn ei gyfraniad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:32 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, you've already made clear the importance of industrial heritage in Wales. On 14 October 2013, I was present when the National Mining Memorial was opened in Senghenydd on the site of the former Universal colliery, which, 100 years ago, saw the worst tragedy in UK mining with 440 men and boys killed. I would certainly urge you, if you've not done so already, to visit that memorial, but I am lobbied, quite strongly and rightly, by the Aber Valley Heritage Group that created it through their work, to see if more people could visit it by the erection of appropriate brown signs. I appreciate that you don't want to see main roads overloaded with brown signs, but I'm sure you would agree, if you're able to see the memorial, that it's something that ought to be advertised more generally. In particular, they're looking at a sign on the A470. However, the costs associated with it would be beyond their means as a voluntary organisation, with no income other than the occasional donations. Will you agree, Minister, to talk with your colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, to see if there are ways in which groups such as the Aber Valley Heritage Group could be assisted with the erection of brown signs?

Ddirprwy Weinidog, rydych eisoes wedi egluro pwysigrwydd treftadaeth ddiwydiannol yng Nghymru. Ar 14 Hydref 2013, roeddwn yn bresennol pan agorwyd Cofeb Genedlaethol y Glowyr yn Senghenydd ar safle hen lofa Universal, lle y gwelwyd y drychineb waethaf yn hanes mwyngloddio yn y DU 100 mlynedd yn ôl pan laddwyd 440 o ddynion a bechgyn. Byddwn yn sicr yn eich annog, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, i ymweld â'r gofeb, ond rwyf yn cael fy lobio, yn eithaf cryf ac yn briodol, gan Grŵp Treftadaeth Cwm Aber a'i creodd drwy ei gwaith, i weld a allai mwy o bobl ymweld â hi pe câi arwyddion brown priodol eu codi. Rwyf yn sylweddoli nad ydych am weld gormodedd o arwyddion brown ar y priffyrdd, ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno, pe gallech weld y gofeb, ei bod yn rhywbeth y dylid ei hysbysebu'n fwy cyffredinol. Yn benodol, maent yn gobeithio cael arwydd ar yr A470. Fodd bynnag, byddai'r costau sy'n gysylltiedig â hynny y tu hwnt i'w modd fel mudiad gwirfoddol, heb ddim incwm ar wahân i roddion achlysurol. A wnewch chi gytuno, Weinidog, i siarad â'ch cydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i weld a oes ffyrdd y gellid cynorthwyo grwpiau megis Grŵp Treftadaeth Cwm Aber i godi arwyddion brown?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:34 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. Can I thank the Member, Jeff Cuthbert, for his contribution and suggest that I visit the memorial with him in the near future, to discuss with the group how I might be able to promote the site, whether it requires a brown sign or not, and any other way that I might be able to promote access to the site and its valuable contribution to our heritage?

Gwnaf. A gaf fi ddiolch i'r Aelod, Jeff Cuthbert, am ei gyfraniad ac am awgrymu fy mod yn ymweld â'r gofeb gydag ef yn y dyfodol agos, er mwyn trafod â'r grŵp sut y gallwn hyrwyddo'r safle, a oes angen arwydd brown ai peidio, ac unrhyw ffordd arall y gallwn efallai hyrwyddo mynediad i'r safle a'i gyfraniad gwerthfawr i'n treftadaeth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 4, which is the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2015, and I call on the Minister, Leighton Andrews.

Cynnig NDM5668 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Rhagfyr 2014.

Cynigiwyd y cynnig.

The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2015

Symudwn yn awr at eitem 4, sef Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015, a galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

Motion NDM5668 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5

Approves that the draft The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 11 December 2014.

Motion moved.

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Llywydd, I'm very grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for making the time to scrutinise these regulations, enabling this debate to take place today.

The Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2015 ensure the figures used to calculate an applicant's entitlement to a reduction are increased, to take account of rises in the cost of living. To minimise the administrative burden for local authorities, and limit confusion for applicants, this uprating has been calculated in line with housing benefit uprating.

Whilst the exact impact is dependent on an applicant's particular circumstances, almost all applicants who are means tested to determine their eligibility for a reduction, would be worse off if the uprating amendments are not made. For some applicants, this could mean having to pay some council tax for the first time.

In making these regulations, I have also taken the opportunity to include minor technical changes, and additional amendments, to reflect consequential changes to related social security benefits. This ensures council tax reduction schemes reflect changes made to other social security benefits, such as the introduction of shared parental leave.

Lywydd, rwy'n ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am roi'r amser i graffu ar y rheoliadau hyn, gan ein galluogi i gynnal y ddatl hon heddiw.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 yn sicrhau bod y ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeisydd i ostyngiad yn cael eu cynyddu, er mwyn ystyried y cynnydd mewn costau byw. Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol i awdurdodau lleol, a lleihau dryswch i ymgeiswyr, mae'r uwchraddiad hwn wedi ei gyfrifo yn unol ag uwchraddiad budd-dal tai.

Er bod yr union effaith yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr ymgeisydd, byddai bron pob ymgeisydd sy'n cael prawf modd i benderfynu a yw'n gymwys i gael gostyngiad, mewn sefyllfa waeth pe na byddai'r diwygiadau uwchraddio'n cael eu gwneud. I rai ymgeiswyr, gallai hyn olygu gorfod talu rhywfaint o dreth gyngor am y tro cyntaf.

Wrth wneud y rheoliadau hyn, rwyf hefyd wedi achub ar y cyfle i gynnwys mân newidiadau technegol, a diwygiadau ychwanegol, er mwyn adlewyrchu newidiadau canlyniadol i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol cysylltiedig. Mae hyn yn sicrhau bod cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn adlewyrchu newidiadau a wneir i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol eraill, fel cyflwyno absenoldeb rhieni ar y cyd.

I would like to draw Members' attention to an amendment that mirrors recent changes made to housing benefit regulations. This removes access to a council tax reduction for job seekers who are nationals of the European economic area, who are only eligible because they are in receipt of income-based jobseekers' allowance. The amendment will not apply to a person who is entitled to housing benefit and income-based jobseekers' allowance on 31 March 2014 until that person ceases to be entitled to jobseekers' allowance, or makes a new claim for a council tax reduction, whichever is earlier. The number of applicants likely to be affected by this change is expected to be very small.

I ask you to approve these regulations today.

Hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at ddiwygiad sy'n adlewyrchu newidiadau diweddar a wnaed i rheoliadau budd-dal tai. Mae hyn yn cael gwared ar yr hawl i ostyngiad treth gyngor, i geiswyr gwaith sy'n wladolion ardal economaidd Ewrop nad ydynt ond yn gymwys am eu bod yn cael lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm. Ni fydd y diwygiad yn berthnasol i unrhyw un sydd â hawl i fudd-dal tai a lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm ar 31 Mawrth, 2014 hyd nes y bydd ei hawl i lwfans ceisio gwaith yn dod i ben, neu hyd nes y bydd yn gwneud cais newydd am ostyngiad yn y dreth gyngor, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Disgwylir mai ar nifer fechan iawn o ymgeiswyr y mae'r newid yn debygol o effeithio.

Rwyf yn gofyn ichi gymeradwyo'r rheoliadau hyn heddiw.

15:36

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the introduction of these regulations, and I wholeheartedly agree that these regulations need to be in place, in order to support and help those in need. But, one must not forget, either, that there are those who are not entitled to any reduction scheme, who are, actually, quite badly hit by the amount of council tax now payable in Wales. Thanks to the Welsh Labour Government, they have seen a 150% rise since 1997. But, you will be aware, Minister, too—and I would expect you to acknowledge this—that, as a result of you not passing over the UK funding Barnett consequential to allow a freeze for our council tax payers in Wales, that freeze would have seen our residents now £149 a year better off.

Consequently now, as a result of your settlement also, announcements are already now coming in of between 3% and 5% for council tax increases, and we know that these do not actually include the police and community council precepts. We welcome these, but, as I said to you before, Welsh Conservatives would like to place on record once more that we do believe that, as a Welsh Government, you should actually be looking to support all those who pay council tax in Wales. Thank you.

Rwyf yn croesawu'r ffaith bod y rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno, ac rwy'n cytuno'n llwyr bod angen sefydlu'r rheoliadau hyn, er mwyn cefnogi a helpu'r rhai sydd mewn angen. Ond, rhaid peidio ag anghofio chwaith, bod swm y dreth gyngor sy'n daladwy erbyn hyn yng Nghymru yn effeithio'n ddrwg ar rai pobl nad oes ganddynt hawl i unrhyw gynllun gostyngiadau. Diolch i Lywodraeth Lafur Cymru, mae cynnydd o 150% wedi bod ers 1997. Ond, byddwch hefyd yn ymwybodol, Weinidog—a byddwn yn disgwyl ichi gydnabod hyn—o ganlyniad i'ch dewis i beidio â throsglwyddo cyllid canlyniadol Barnett y DU er mwyn caniatáu ar gyfer rhewi'r dreth gyngor i bobl Cymru, byddai'r rhewi hwnnw wedi golygu bod ein trigolion £149 y flwyddyn yn well eu byd.

O ganlyniad, oherwydd eich setliad hefyd, mae cyhoeddiadau'n dod i law ynglŷn â chynnydd yn y dreth gyngor o rhwng 3% a 5%, ac rydym yn gwybod nad yw hyn yn cynnwys praeceptau'r heddlu a'r cynghorau cymuned. Rydym yn croesawu hyn, ond, fel y dywedais i wrthyh chi o'r blaen, byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn hoffi cofnodi unwaith eto ein bod yn credu y dylech chi, fel Llywodraeth Cymru, fod yn ceisio cefnogi pawb sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru mewn gwirionedd. Diolch yn fawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no other speakers. Minister, do you wish to reply?

Nid oes gennyf siaradwyr eraill. Weinidog, a ydych chi'n dymuno ymateb?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:38

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Llywydd, I think the Conservative spokesperson is well aware that council tax rates, on average, are lower in Wales than they are in England, and yet councils have been better protected in Wales than they have been in England. These uprating regulations will mitigate the impact of the cost of living increases for applicants entitled to a council tax reduction. Can I remind Members that such uprating regulations are likely to be required annually?

Llywydd, rwy'n meddwl bod llefarydd y Ceidwadwyr yn ymwybodol iawn bod cyfraddau'r dreth gyngor, ar gyfartaledd, yn is yng Nghymru nag yn Lloegr, ac eto mae cynghorau wedi cael eu hamddiffyn yn well yng Nghymru nag yn Lloegr. Bydd y rheoliadau uwchraddio hyn yn lliniaru effaith y cynnydd yng nghostau byw ar gyfer ymgeiswyr sydd â hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor. A gaf i atgoffa'r Aelodau ei bod yn debygol y bydd angen rheoliadau uwchraddio o'r fath bob blwyddyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The motion is to agree the motion. Does any Member object? No objections, therefore the motion is agreed, in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad, felly, derbyniwyd y cynnig, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

15:38

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015

The Government of Wales Act 2006 (Amendment) Order 2015

Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 5, which is the Government of Wales Act 2006 (Amendment) Order 2015, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015, a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gyflwyno'r cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5667 Carl Sargeant

Motion NDM5667 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 25.15:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 25.15:

Yn cymeradwyo y fersiwn drafft o Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015.

Approves the draft The Government of Wales Act 2006 (Amendment) Order 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

15:39

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Formally.

Yn ffurfiol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:39

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Formally moved. Llyr Gruffydd.

Cynigiwyd yn ffurfiol. Llyr Gruffydd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:39

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf ddim ond am godi—neu ategu—rai o'r pwyntiau, rwy'n meddwl, y mae Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am eu gwneud. Rwy'n—

I just wanted to raise—or highlight—some of the points that the Chair of the Environment and Sustainability Committee was going to make. I—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:39

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I meant to call the Chair of the environment committee first. Alun Ffred Jones.

Roeddwn i'n bwriadu galw ar Gadeirydd y pwyllgor amgylchedd yn gyntaf. Alun Ffred Jones.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:39

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. Diolch am y cyfle i siarad. Fe gyfeiriwyd y Gorchymyn at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried, ac mi hoffwn i ddweud ychydig o eiriau ar gasgliadau'r pwyllgor.

Thank you, Presiding Officer. Thank you for the opportunity to speak. The Order was referred to the Environment and Sustainability Committee for its consideration, and I would like to say a few words on the committee's conclusions.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Er ein bod ni'n cefnogi'r egwyddor o roi pwerau i'r Cynulliad i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â datblygu cynaliadwy, mi rydym yn bryderus ynghylch y broses a ddilynwyd gan Lywodraeth Cymru i gael y cydsyniad angenrheidiol y tro hwn. Rydym yn deall mai bwriad y Llywodraeth, os caiff y Gorchymyn ei gymeradwyo—rwy'n siŵr y caiff o—yw i gyflwyno gwlliant i Ddeddf Lywodraeth Cymru 2006 trwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Roeddem ni wedi ein siomi bod y Gweinidog wedi gosod y Gorchymyn mor hwyr yn ystod y broses o graffu ar y Bil, heb unrhyw rybudd. Nid oeddem, felly, yn gallu ystyried y Gorchymyn ar y cyd â'r Bil.

While we support the principle of giving the Assembly powers to amend the Government of Wales Act 2006 in relation to sustainable development, we are concerned about the process followed by the Welsh Government to obtain the necessary consent at this time. We understand that the intention of the Government, if the Order is approved—and I'm sure it will be approved—is to introduce an amendment to the Government of Wales Act 2006 through the Wellbeing of Future Generations (Wales) Bill. We were disappointed that the Minister laid the Order so late in the process of scrutinising the Bill, without any prior warning. We were therefore unable to consider the Order in conjunction with the Bill.

Rydym yn credu ei bod yn hanfodol craffu'n ddigonol wrth ddiwygio darn mor arwyddocaol o ddeddfwriaeth, ac y dylai'r broses gynnwys amser i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fe gawsom ni dystiolaeth gan y Gweinidog, ond, oherwydd cyfyngiadau amser a phwysau deddfwriaethol eraill, nid oeddem wedi gallu rhoi cymaint o amser i ystyried y Gorchymyn ag y byddem ni wedi dymuno. Rydym ni'n siomedig nad oedd gennym ddigon o amser i gynnal ymgynghoriad cyflawn nac i gymryd tystiolaeth gan rhanddeiliaid. Nid ydym yn credu bod hyn yn foddhaol.

Er ein bod ni'n cefnogi'r egwyddor o roi'r pŵer hwn i'r Cynulliad, nid ydym o'r farn bod y dull a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth yn arfer da. Mi fyddem yn pryderu'n fawr pe byddai hyn yn gosod cynsail ar gyfer cyflwyno unrhyw welliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru yn y dyfodol fel hyn. Ein hargymhelliad yw y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir yn y gwelliant y mae'n bwriadu ei gyflwyno i'r Bil, mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y dylai unrhyw newidiadau pellach i adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru gael eu gwneud, er mwyn sicrhau y caiff digon o waith craffu ei gynnwys yn y broses. Diolch yn fawr.

We believe that it is essential to adequately scrutinise when amending such a significant piece of legislation, and that the process should include time to engage with stakeholders. We took evidence from the Minister, but due to time constraints and other legislative pressures, we were not able to devote as much time to considering the Order as we would have wished. We were disappointed that we did not have enough time to hold a full consultation or to take evidence from stakeholders. We do not believe that this is satisfactory.

While we support the principle of giving this power to the Assembly, we do not believe that the approach adopted by the Government is good practice. We would be very concerned if this sets a precedent for introducing any amendments to the Government of Wales Act in this fashion in the future. Our recommendation is that the Welsh Government should make it clear, in the amendment that it intends to table to the Bill, that it is only through primary legislation that any further changes to section 79 of the Government of Wales Act should be made, in order to ensure that sufficient scrutiny is included in the process.

15:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Llyr Gruffydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llyr Gruffydd.

15:42 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. A gaf i nawr ategu sylwadau Cadeirydd y pwyllgor? Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod y neges yma yn cael ei chlywed yn glir oherwydd nid ydym yn sôn am unrhyw ddeddfwriaeth fan hyn; rydym ni'n sôn am ddeddfwriaeth arwyddocaol iawn, wrth gwrs, o safbwynt bodolaeth y lle yma, ac mae yn annerbyniol, yn fy marn i, nad oes mwy o gyfle wedi bod i graffu ar y bwriad yma, ochr yn ochr a'r ystyriaethau y mae'r pwyllgor wedi bod yn rhoi yng nghyfnod cyntaf craffu Bil cenedlaethau'r dyfodol. Oherwydd, wrth gwrs, rydym yn sôn fan hyn hefyd nid yn unig am broses, ond am beth fydd cryfder y ddyletswydd a fydd ar Lywodraeth Cymru pan mae'n dod i ddatblygu cynaliadwy. Wrth gwrs, mae yna sawl barn ynglŷn â pha mor gryf bydd y ddyletswydd honno yn sgil Bil llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r pwyllgor ei hun, wrth gwrs, wedi bod yn feirniadol iawn yn yr adroddiad ar ddiwedd Cyfnod 1 o'r Bil hwnnw. Tan i ni weld yn glir beth fydd y newidiadau y bydd yn cael eu derbyn gan y Llywodraeth, mae'n anodd gwybod pa sicrwydd sydd yna y bydd y ddyletswydd honno yn cael ei chryfhau ac nid yn cael ei gwanhau.

Thank you, Presiding Officer. May I now endorse the comments made by committee Chair? I do think that it's important that this message is conveyed very clearly, because we're not talking about any piece of legislation here; we are talking about very important legislation in terms of the existence of this place, and it is unacceptable, in my view, that there wasn't greater opportunity to scrutinise this intention alongside the considerations that the committee has been giving in the Stage 1 scrutiny of the wellbeing of future generations Bill. We are talking here not only of the process, but also the actual force behind the duty placed upon the Welsh Government in relation to sustainable development. There are a number of views on how strong that duty will be in light of the wellbeing of future generations Bill. The committee itself, of course, has been highly critical report in its report at the end of Stage 1. Until we see clearly what changes are going to be taken on board by the Government, it's difficult to know what assurances we can have that that duty will be strengthened rather than diluted.

O safbwynt y broses, nid oes problem gyda'r egwyddor bod y lle hwn, wrth gwrs, yn gyfrifol neu'n cael yr hawl i newid a gwella Deddf Lywodraeth Cymru, ond mae e, fel dywedodd Cadeirydd y pwyllgor, yn gosod cynsail anffodus iawn, rwy'n meddwl, ar gyfer gwneud newidiadau o'r fath yn y dyfodol. Fe fyddem ni hefyd yn chwilio am ddatganiad clir gan y Gweinidog a'r Llywodraeth na fyddai gwelliannau pellach fel hyn yn cael eu gwneud oni bai eu bod nhw'n cael eu gwneud trwy ddeddfwriaeth gynradd, er mwyn sicrhau bod yna graffu digonol yn y dyfodol.

In terms of process, we have no problem with the principle that this place should be responsible for amending, or have the right to amend, the Government of Wales Act, but as the Chair of the committee said, it does set a very unfortunate precedent, I think, for any future amendments of that kind. We would also be looking for a clear statement from the Minister and from Government that further amendments such as this would not be made unless they were made through primary legislation, in order to ensure adequate scrutiny in future.

15:43	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister? Weinidog?	
15:43	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources</i>	
	Thank you, Presiding Officer. To be clear, this Order gives the Assembly the power, not Welsh Ministers the power, to amend the sustainable development duty on the Welsh Ministers at section 79 of GOWA 2006. It does not make the amendment to duty itself. That will be subject to separate scrutiny that I know Members will be indeed interested in, in the process when we table that proposed amendment.	Diolch i chi, Lywydd. I fod yn glir, mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi pŵer i'r Cynulliad, nid y pŵer i Weinidogion Cymru, ddiwygio'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ar Weinidogion Cymru yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid yw'n gwneud diwygiad i'r ddyletswydd ei hun. Bydd hynny'n destun craffu ar wahân pan fyddwn yn cyflwyno'r diwygiad arfaethedig hwnnw, ac rwy'n siŵr y bydd gan yr Aelodau'n diddordeb yn hynny.
	The new duties in the Bill strengthen the existing duty in section 79 of GOWA, and this Order means that weaknesses in the existing duty can be addressed. This was passed in both the House of Lords and the House of Commons, and was subject to no objections at that point. I formally move today.	Mae'r dyletswyddau newydd yn y Bil yn cryfhau'r ddyletswydd bresennol yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, ac mae'r Gorchymyn hwn yn golygu y gellir rhoi sylw i'r gwendidau yn y ddyletswydd bresennol. Cafodd hyn ei basio yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin, ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau ar yr adeg honno. Rwyf yn cynnig yn ffurfiol heddiw.
15:44	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objection, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.	Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad, felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.
	<i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	
	Before we move to Stage 3 of the Higher Education (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we are due to reconvene. I would encourage Members to return to the Chamber promptly. Thank you.	Cyn inni symud i Gyfnod 3 o'r Bil Addysg Uwch (Cymru), byddaf yn gohario'r trafodion am 10 munud. Bydd y gloch yn cael ei chanu bum munud cyn inni ail-yngynnull. Byddwn yn annog yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Diolch yn fawr.
	<i>Gohiriwyd y Cyfarfod Llawn am 15:45.</i>	<i>Plenary was adjourned at 15:45.</i>
	<i>Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:55, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.</i>	<i>The Assembly reconvened at 15:55, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.</i>
15:55	Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)	Y Senedd.tv Fideo Video
	Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Higher Education (Wales) Bill
	We now move to Stage 3 of the Higher Education (Wales) Bill.	Rydym bellach yn symud at Gyfnod 3 o'r Bil Addysg Uwch (Cymru).
	Grŵp 1: Cynlluniau Ffioedd a Mynediad—Hyd a Chynnwys (Gwelliannau 26, 1, 2, 34, 3, 4, 5, 27, 21 a 22)	Group 1: Fee and Access Plans—Duration and Content (Amendments 26, 1, 2, 34, 3, 4, 5, 27, 21 and 22)

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first group of amendments relates to fee and access plans. The lead amendment in this group is amendment 26. I call on Bethan Jenkins to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 26. Rwy'n galw ar Bethan Jenkins i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 26 (Bethan Jenkins).

Amendment 26 (Bethan Jenkins) moved.

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Sections 4 to 6, as has been said, fall under the heading of contents of fee and access plans. My tabled amendment would add a new section to Part 2 under the contents of fee and access plan heading, with a further section heading of 'promotion of financial literacy', and a requirement that a fee and access plan must include measures that an institution proposes to take to promote the financial literacy of its students. The explanatory memorandum says that the Bill does not seek to amend the content of fee plans, but specific elements are being strengthened by the Government. This is my attempt to strengthen it, given that, in the here and now, we know that students are leaving school without the necessary core life skills in relation to financial education.

Diolch. Mae adrannau 4 i 6, fel y dywedwyd, yn dod o dan bennawd cynnwys y cynlluniau ffioedd a mynediad. Byddai'r gwelliant rwyf i'n ei gyflwyno yn ychwanegu adran newydd at Ran 2 o dan y pennawd cynnwys y cynlluniau ffioedd a mynediad, gyda 'hyrwyddo llythrennedd ariannol' yn bennawd adran arall, a gofyniad bod yn rhaid i gynllun ffioedd a mynediad gynnwys mesurau y mae sefydliad yn cynnig eu rhoi ar waith i hyrwyddo llythrennedd ariannol ei fyfyrwyr. Mae'r memorandwm esboniadol yn dweud nad yw'r Bil yn ceisio newid cynnwys y cynlluniau ffioedd, ond bod y Llywodraeth yn cryfhau elfennau penodol. Hon yw fy ymgais i'w gryfhau o gofio, fel y mae pethau ar hyn o bryd, ein bod yn gwybod bod myfyrwyr yn gadael yr ysgol heb y sgiliau bywyd craidd angenrheidiol o ran addysg ariannol.

Of course, we saw, last week, in a new report from Estyn, that the delivery of the literacy and numeracy framework has had but a modest impact as yet. Therefore, I see this amendment as preparing the way to futureproof fee and access plans to ensure that there is a natural continuation between the progress that we all hope that we will see for the LNF in future and what students can receive in a higher education setting once they have left the school environment. It sets a clear marker down as to the necessity of young people requiring such support.

Wrth gwrs, gwelwyd yr wythnos diwethaf, mewn adroddiad newydd gan Estyn, mai dim ond effaith gymedrol y mae'r gwaith o gyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd wedi ei chael hyd yn hyn. Felly, rwy'n gweld bod y gwelliant hwn yn paratoi'r ffordd i ddiogelu cynlluniau ffioedd a mynediad at y dyfodol, er mwyn sicrhau parhad naturiol rhwng y cynnydd yr ydym i gyd yn gobeithio ei weld gyda'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn y dyfodol a'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr mewn lleoliadau addysg uwch ar ôl gadael yr ysgol. Mae'n gosod arwydd clir o'r ffaith bod ar bobl ifanc angen cefnogaeth o'r fath.

Of course, the Minister said during the committee amendment stage that universities were doing enough as it stands. I would say, however, that it varies, and I have spoken to the National Union of Students in Wales, who support the sentiments of this amendment. With historic and current budget cuts to many student unions impacting on the work they can do via their welfare advice officers, I sincerely believe that this needs to be included in the fee and access plans of the future, so that it is not seen as an area that can be cut in future, and this amendment would, potentially, allow for new creative ways of delivery, such as getting more credit unions into student union settings or one-stop shops, as has been advocated by those in the student movement.

Wrth gwrs, dywedodd y Gweinidog yn ystod cyfnod gwelliannau'r pwyllgor fod prifysgolion yn gwneud digon fel y mae hi. Byddwn i'n dweud, fodd bynnag, bod hynny'n amrywio, ac rwyf wedi siarad ag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru, sy'n cefnogi egwyddor y gwelliant hwn. Gan fod toriadau hanesyddol a chyfredol i gyllidebau llawer o undebau myfyrwyr yn effeithio ar y gwaith y gallant ei wneud drwy eu swyddogion cyngor lles, rwyf yn mawr gredu bod angen cynnwys hyn yng nghynlluniau ffioedd a mynediad y dyfodol, fel nad yw'n cael ei weld fel maes y gellir ei dorri yn y dyfodol. Byddai'r gwelliant hwn, o bosibl, yn caniatáu ar gyfer ffyrdd creadigol newydd o gyflwyno'r cynlluniau, fel cael mwy o undebau credyd i ddod i leoliadau undebau myfyrwyr neu siopau un stop, fel y mae rhai ym mudiad y myfyrwyr wedi'i argymhell.

In advocating that Members support this amendment, it is vital that I reference the fact that responses to my private Member's Bill previously on the proposals for the Bill strongly showed support for more financial literacy provision for students. The issue was how it would be delivered. I believe that this shows a clear way forward. I speak to young people all the time, and they never tell me that more support, or an endorsement of financial education and inclusion, would be unwelcome.

Wrth argymhell bod yr Aelodau'n cefnogi'r gwelliant hwn, mae'n hanfodol fy mod yn cyfeirio at y ffaith bod ymatebion i fy Mil Aelod preifat blaenorol ar y cynigion ar gyfer y Bil yn dangos cefnogaeth gref i fwy o ddarpariaeth llythrennedd ariannol i fyfyrwyr. Y cwestiwn oedd sut i'w chyflwyno. Rwy'n credu fod hwn yn dangos ffordd glir ymlaen. Rwy'n siarad â phobl ifanc drwy'r amser, a fydden nhw byth yn dweud na fydden nhw'n croesawu mwy o gymorth neu gefnogaeth ar gyfer addysg a chynhwysiant ariannol.

At the last stage of debate on the Bill, I believe that the Conservatives were unsure why it was acceptable to legislate for higher education institutions to act in the area of financial inclusion in this particular way, but not by placing duties on them that would jeopardise Office for National Statistics classification. The difference is that, by making it a condition of their fee and access plans, the Assembly would not be forcing them or requiring them to promote financial literacy; it would be saying to them, 'If you want to have your fee and access plans accepted by the Higher Education Funding Council for Wales, you'll need to do it as a condition of that'. Therefore, I think it's more of a carrot than a stick approach for institutions in Wales; I hope that makes my position clear at this stage.

I believe the amendment is forward thinking, and that other countries—and the Organisation for Economic Co-operation and Development, incidentally—would look upon Wales favourably for including within the fee and access plans measures that institutions take to promote financial literacy. At the end of the day, students have to balance paying rent, balancing their student loans effectively, with the cost, of course, of study and their lavish lifestyles. This amendment may serve as a way for us to discuss these issues with students on arrival, and stop them from, potentially, getting into situations where they have to resort to accessing emergency grants or loans, or pay-day loans, in that instance.

I would urge you to support this particular amendment, but I do agree with the general way in which the Government is taking the fee and access plans, because, if we can have more stipulation within the plans, we can ensure that they are more accountable, ultimately.

Yn ystod cyfnod olaf y ddadl ar y Bil, credaf fod y Ceidwadwyr yn ansicr ynglŷn â pham ei bod yn dderbynol deddfu bod sefydliadau addysg uwch yn gweithredu yn y maes cynhwysiant ariannol yn y ffordd arbennig hon, ond peidio â rhoi dyletswyddau arnynt a fyddai'n peryglu dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Y gwahaniaeth yw na fyddai'r Cynulliad yn eu gorfodi nac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hyrwyddo llythrennedd ariannol, drwy ei wneud yn un o amodau eu cynlluniau ffioedd a mynediad; byddai'n dweud wrthynt, "Os ydych chi eisiau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru dderbyn eich cynlluniau ffioedd a mynediad, bydd angen i chi ei wneud fel amod o hynny". Felly, rwy'n credu ei fod yn fwy o anogaeth nag o gosb i sefydliadau Cymru; Rwy'n gobeithio bod hynny'n gwneud fy safbwynt yn glir ar yr adeg hon.

Rwy'n credu bod y gwelliant yn un blaengar, ac y byddai gwledydd eraill—a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, gyda llaw—yn edrych yn ffaithiol ar Gymru am gynnwys mesurau sefydliadau i hyrwyddo llythrennedd ariannol yn y cynlluniau ffioedd a mynediad. Yn y pen draw, rhaid i fyfyrwyr gael cydbwysedd effeithiol rhwng talu rhent, a rhwng eu benthyciadau myfyrwyr, a chost astudio, wrth gwrs, a'u ffyrdd moethus o fyw. Gall y gwelliant hwn fod yn ffordd inni drafod y materion hyn gyda myfyrwyr wrth iddyn nhw gyrraedd a'u hatal, o bosibl, rhag mynd i sefyllfaoedd lle mae'n rhaid iddynt droi at grantiau neu fenthyciadau argyfwng, neu fenthyciadau diwrnod cyflog, yn yr achos hwnnw.

Byddwn yn eich annog i gefnogi'r gwelliant penodol hwn, ond rwy'n cytuno â'r ffordd gyffredinol y mae'r Llywodraeth yn ymdrin â'r cynlluniau ffioedd a mynediad, oherwydd, os gallwn gael mwy o amodau o fewn y cynlluniau, gallwn sicrhau eu bod yn fwy atebol, yn y pen draw.

15:59

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm delighted to be able to speak, and I just want to put some general views on the record. I'd like to thank the Minister for the approach he's taken during this Bill and the way that the Bill has gone through—and, especially, that he's considered the Stage 1 report of the committee and has held relevant meetings with me as the committee Chair, and I know that he's spoken to opposition spokespeople in a way of consensus, which I think is a good way for us to proceed with legislation.

Can I also say as well that, looking at the amendments that the Government have put forward, they have taken in the views of the scrutiny session at Stage 2, of the committee, and so therefore I'm very pleased to be supporting Government amendments today to this Bill and I do think that the decisions that were taken at Stage 2 in the committee have been addressed by the Minister. I am therefore grateful for the opportunity just to put those few points on the record.

Rwy'n falch iawn o allu siarad, ac rwyf am nodi rhai sylwadau cyffredinol. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae wedi mynd o gwmpas y Bil hwn a'r ffordd y mae'r Bil wedi mynd rhagddo—ac, yn arbennig, y ffaith ei fod wedi ystyried adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor ac wedi cynnal cyfarfodydd perthnasol gyda mi fel Cadeirydd y pwyllgor, a gwn ei fod wedi siarad â llefarywyr y gwrthbleidiau fel ffordd o gael consensws, sy'n ffordd dda rwy'n meddwl inni i frw ymlaen â deddfwriaeth.

A gaf i hefyd ddweud, o edrych ar y gwelliannau y mae'r Llywodraeth wedi'u cyflwyno, eu bod wedi rhoi ystyriaeth i farn y sesiwn graffu yng Nghyfnod 2 y pwyllgor. Felly rwy'n falch iawn o gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth i'r Bil hwn heddiw ac rwyf yn meddwl bod y penderfyniadau a wnaed yng Nghyfnod 2 yn y pwyllgor wedi cael sylw gan y Gweinidog. Rwyf felly'n ddiolchgar am y cyfle i nodi'r ychydig bwyntiau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A gaf i ychwanegu at hynny a diolch i'r Gweinidog am y ffaith ei fod wedi cynnwys llefawr y pleidiau yn y trafodaethau? Rwy'n meddwl bod y Llywodraeth hefyd wedi derbyn nifer o'r sylwadau cafodd eu gwneud yn ystod craffu gan y pwyllgor. Rwy'n cytuno â Bethan Jenkins: roeddem ni fel pwyllgor yn teimlo—nifer ohonom ar y pwyllgor—y dylid cynnwys hyn o fewn y cynlluniau gan y prifysgolion. Rwy'n meddwl, fel yr oedd Bethan yn dweud, mai'r cwbl yr ydym yn ei wneud yw gofyn i'r sefydliadau ystyried cynnwys maes lles ariannol myfyrwyr o fewn eu cynlluniau.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth. Rwy'n teimlo eu bod nhw yn derbyn y peth a ddywedom ni fel pwyllgor. Hwyrach y dylid cyfyngu'r cynlluniau am ddwy flynedd, a hefyd, wrth gwrs, mae gwelliant 2 yn rhoi'r grym i Weinidogion newid trwy reoliadau rhai o'r newidiadau yna.

O ran fy ngwelliant i, gwelliant 34, y cwbl yr ydym yn ceisio ei wneud yw tanlinellu natur y berthynas y dylid bod rhwng Llywodraeth Cymru a'r cyngor cyllido—mai natur perthynas lled braich y dylid ei gael. Rydym yn gweld bod angen cynnwys y geiriau hynny er mwyn tanlinellu hynny. Ond, rydym yn ddigon parod i gefnogi'r Llywodraeth o ran eu gwelliannau nhw.

May I add to that and thank the Minister for including the party spokespeople in these negotiations? I think the Government has also taken on board many of the comments made during committee scrutiny. I agree with Bethan Jenkins that we as a committee did feel—or many of us on the committee, at least—that reference to this should be included within the universities' plans. I think, as Bethan said, all we are doing is to ask the institutions to consider the inclusion of the financial welfare of students within their fee and access plans.

I also support the Government's amendments. I do think that they've taken on board our comments as a committee. Perhaps the plans should be restricted to two years, and, of course, amendment 2 does give the power to Welsh Ministers to change, through regulation, some of those elements.

In terms of my own amendment, amendment 34, all we're seeking to do is to highlight the nature of the relationship that should exist between the Welsh Government and the funding council—that it should be an arm's-length relationship, and we believe that those words need to be included in order to highlight that point. But we're happy to support the Government in terms of its amendments.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf ond am ategu'r hyn a ddywedwyd wrth gefnogi gwelliannau Bethan Jenkins ac i ddatgan, wrth gwrs, jest un peth ychwanegol, sef pwrpas y cynlluniau ffioedd a mynediad hyn, yng ngeiriau'r Llywodraeth ei hunan, yw annog mwy o bobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig i fynd i'r brifysgol. Os yw hynny'n nod, ac rwy'n cytuno â'r nod yna, mae'n ddyletswydd, felly, arnom i wneud pob dim y gallwn i hyrwyddo a mawrygu'r cyfleoedd y cânt yn y brifysgol. Mae gwelliant Bethan Jenkins, sy'n ynglŷn â hyfforddiant ac addysg briodol i'r bobl hynny iddynt gael gwybod am lythrennedd ariannol, rwy'n credu, felly yn briodol iawn i'r cynlluniau ffioedd a mynediad hyn. Nid yw'n newid natur y cynlluniau mewn unrhyw ffordd; mae dim ond rhoi rhywbeth penodol ar wyneb y Bil i roi'r sicrwydd ychwanegol hynny.

Os caf i gyfeirio at y gwelliannau eraill sydd yn y grŵp drwy gefnogi'r gwelliant yn enw Aled Roberts, rydym wedi cael y drafodaeth sawl gwaith, a dweud y gwir, ynglŷn â'r ffaith nad yw'r cyngor cyllido addysg uwch wir yn un hyd-braich—'hyd benelin', rwy'n meddwl, yw'r ffordd y mae wedi cael ei ddisgrifio yn y gorffennol—ac felly mae'n briodol ein bod ni o leiaf yn dal i fynegi ein teimladau ar y mater hwn. Hefyd, croesawaf gwelliannau'r Llywodraeth sydd yn y grŵp hwn sy'n cyfyngu ar hyd y cynlluniau hyn i ddwy flynedd ar hyn o bryd, ac mae modd newid hynny drwy ddull rheoliadau cadarnhaol yn y lle yma, os oes angen, a hefyd y gwelliant sydd gan y Llywodraeth yn y grŵp hwn sy'n golygu nad oes modd gorfodi unrhyw sefydliad i wario mwy mewn blwyddyn nad yw'n ei dderbyn yn ystod y flwyddyn honno mewn arian cyhoeddus, sef, yn benodol, wrth gwrs, y ffioedd dysgu.

I just wish to endorse the comments made in supporting Bethan Jenkins's amendment and, of course, just say one additional thing, which is that the point of these fee and access plans, in the words of the Government itself, is to promote more young people from deprived backgrounds going to university. If that is the aim, and I agree with that aim, then we are duty bound to do everything within our powers to promote the opportunities that they will get at university. Bethan Jenkins's amendment, which is about the appropriate training and education for those people so that they are familiar with financial literacy, I believe, is entirely appropriate for the fee and access plans. It doesn't change the nature of the plans in any way; it just puts something specific on the face of the Bill to give an additional assurance on that.

If I could just allude to the other amendments in the group, I support the amendment in the name of Aled Roberts. We've had this discussion a number of times, to be honest, regarding the fact that HEFCW is not truly arm's-length—it's been described as 'elbow's-length' in the past—and it's therefore appropriate that we continue to express our views on that issue. Also, I welcome the Government amendments contained in this group that restrict the length of these plans to two years at present, and it's possible to change that through the affirmative procedure in this place if needs be, and also the amendment the Government has in this group that means that it is not possible to force any institution to spend more within a year than they receive during that year through the public purse, specifically, of course, the tuition fees.

Felly, mae'r gwelliannau i gyd, rwy'n meddwl, wir yn ychwanegu at y Bil ac yn gwella'r Bil, a byddwn am iddynt gael eu derbyn gan y Cynulliad, gan gynnwys rhai Bethan Jenkins ac Aled Roberts.

So, all the amendments, I believe, truly improve the Bill and we would wish them to be accepted by the Assembly, including Bethan Jenkins's and Aled Roberts's amendments.

16:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

16:04 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

Thank you, Deputy Presiding Officer. If I could begin by addressing amendments 26 and 27, tabled by Bethan Jenkins, amendment 26 amends section 2 of the Bill and amendment 27 inserts a new section into the Bill. As I explained during Stage 2 proceedings, I am confident that these amendments are not necessary, as institutions offering higher education already provide a broad range of information and guidance relating to financial management to their students and prospective students. Advice and guidance to promote financial literacy skills are an integral component of the pastoral and welfare services that institutions offer their students, often in partnership with the institution or student unions. This includes online information and support, workshops, and one-to-one advice.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Carwn ddechrau drwy ymdrin â gwelliannau 26 a 27, a gyflwynwyd gan Bethan Jenkins; mae gwelliant 26 yn diwygio adran 2 o'r Bil ac mae gwelliant 27 yn mewnosod adran newydd i'r Bil. Fel yr eglurais yn ystod trafodion Cyfnod 2, rwyf yn ffyddiog nad yw'r gwelliannau hyn yn angenrheidiol, gan fod sefydliadau sy'n cynnig addysg uwch eisoes yn darparu ystod eang o wybodaeth a chanllawiau ynglŷn â rheolaeth ariannol i'w myfyrwyr a'u darpar fyfyrwyr. Mae cyngor ac arweiniad i hyrwyddo sgiliau llythrennedd ariannol yn elfen annatod o'r gwasanaethau bugeiliol a lles y mae sefydliadau'n eu cynnig i'w myfyrwyr, yn aml mewn partneriaeth â'r sefydliad neu undebau'r myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar-lein a chymorth, gweithdai, a chyngor un-i-un.

In respect of the HE sector, revised guidance issued by HEFCW concerning the funding of student unions places an expectation on student unions to promote the interests and welfare of students in partnership with the institution. Additionally, ColegauCymru is engaging in a number of high-profile activities to ensure that learners have access to advice on financial management. ColegauCymru is the Wales manager for two UK-funded financial literacy projects aimed at young people. FE corporations are already participating in those programmes. Therefore, it is my opinion that institutions are already providing sufficient support and advice services to their students, and the Government does not support amendments 26 and 27.

O ran y sector addysg uwch, mae canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan CCAUC ynglŷn ag ariannu undebau'r myfyrwyr yn gosod disgwyliad ar undebau'r myfyrwyr i hybu buddiannau a lles myfyrwyr mewn partneriaeth â'r sefydliad. Yn ogystal, mae ColegauCymru yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau proffil uchel i sicrhau bod cyngor ynglŷn â rheolaeth ariannol ar gael i ddysgwyr. ColegauCymru yw rheolwr Cymru ar gyfer dau brosiect llythrennedd ariannol i bobl ifanc a ariennir gan y DU. Mae corfforaethau addysg bellach eisoes yn cymryd rhan yn y rhaglenni hynny. Felly, yn fy marn i mae'r sefydliadau eisoes yn darparu gwasanaethau cymorth a chyngor digonol i'w myfyrwyr, ac nid yw'r Llywodraeth yn cefnogi gwelliannau 26 a 27.

Turning to amendment 34, tabled by Aled Roberts, amendment 34 amends section 6(1) but, in my view, unfortunately, it adds anything and results in provision becoming incoherent.

A throi at welliant 34, a gyflwynwyd gan Aled Roberts, mae gwelliant 34 yn diwygio adran 6(1) ond, yn fy marn i, yn anffodus, nid yw'n ychwanegu dim ac mae'n arwain at ddarpariaeth ddigyswllt.

Turning now to Government amendments 1 and 2, which amend section 4 of the Bill, in line with the commitment I made to the Children, Young People and Education Committee during Stage 2 proceedings, I have tabled these amendments to specify the maximum duration of an approved plan on the face of the Bill, and to provide for that period to be amended by way of regulations.

A throi yn awr at welliannau 1 a 2 y Llywodraeth, sy'n diwygio adran 4 o'r Bil, yn unol â'r ymrwymiad a wneuthum i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod trafodion Cyfnod 2, rwyf wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn er mwyn nodi uchafswm hyd cynllun a gymeradwywyd ar wyneb y Bil, ac i ddarparu i'r cyfnod hwnnw gael ei ddiwygio drwy gyfrwng rheoliadau.

Section 4(2) of the Bill currently provides for the Welsh Ministers to prescribe in regulations the maximum period in respect of which a fee and access plan is to have effect. Amendment 1 restricts the maximum period in respect of which a fee and access plan is to have an effect to two years. This amendment will provide institutions with certainty about the duration of their plans during the initial period of operation of the new regulatory system.

Mae adran 4(2) o'r Bil ar hyn o bryd yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau y cyfnod hwyaf y gall cynllun ffioedd a mynediad fod mewn grym. Mae gwelliant 1 yn nodi mai'r cyfnod hwyaf y caiff cynllun ffioedd a mynediad fod mewn grym yw dwy flynedd. Bydd y gwelliant hwn yn rhoi sicrwydd i sefydliadau ynghylch hyd eu cynlluniau yn ystod cyfnod gweithredu cychwynnol y system reoleiddio newydd.

Amendment 2 makes provision for regulations to amend the maximum period in respect of which an approved plan is to have an effect. It requires the Welsh Ministers to consult the governing body of each regulated institution, HEFCW, and any other person they think appropriate, before making such regulations.

Amendment 21, to section 54, provides that the regulations to be made under section 4 will be made subject to the affirmative procedure.

Taken together, amendments 1, 2 and 21, I believe, address the Children, Young People and Education Committee's concerns about providing clarity on duration of fee and access plans. I therefore urge Members to support these amendments.

Mae gwelliant 2 yn darparu ar gyfer rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod hwyaf y bydd cynllun a gymeradwywyd mewn grym. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir, CCAUC, ac unrhyw berson arall y maent yn credu sy'n briodol, cyn gwneud rheoliadau o'r fath.

Mae gwelliant 21, i adran 54, yn darparu bod y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 4 yn cael eu gwneud yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol.

Gyda'i gilydd, mae gwelliannau 1, 2 a 21, yn fy marn i, yn ymdrin â phryderon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch darparu eglurder ynghylch hyd cynlluniau ffioedd a mynediad. Felly, anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to reply.

Galwaf ar Bethan Jenkins i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:08 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad Biography](#)

Diolch. As has been mentioned, Plaid Cymru, via the spokesperson, has said that we will be supporting the Government amendments and the amendment by Aled Roberts. So, I will just focus briefly again at this stage on my attempt to change the fee and access plans in relation to financial literacy.

Diolch. Fel y soniwyd, mae Plaid Cymru, drwy'r llefarydd, wedi dweud y byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth a'r gwelliant gan Aled Roberts. Felly, rwyf am ganolbwyntio'n fyr unwaith eto ar fy ymgais i newid y cynlluniau ffioedd a mynediad mewn perthynas â llythrennedd ariannol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Again, we hear the argument from the Minister that it isn't necessary, but we heard also, throughout my private Member's legislation, that legislation wasn't necessary, and then, a few months later, we hear that the literacy and numeracy framework is still not adequate. So, I believe that we do need this in legislation because it doesn't tell the universities the content of delivery; it enshrines intent. Yes, it is very noble of ColegauCymru and others to put projects in place, but these could end at any time and they could be amended with varying funding applications. So, I believe that having this within the content of the plans, as Simon Thomas emphasised, would show that young people from whatever background, especially from deprived backgrounds, would have that as an initial recognition of support, despite the structures that are in place. I, for one, coming from a background of being president of a students union know that, at the time when I was leaving, they were cutting down the number of sabbatical officers. So, our capacity to be able to deal with welfare issues was not very strong, and I doubt whether it's still as strong as it could be, considering the fact that students are facing hardship all the time. So, this, of course, will make sure that the fee and access plans are as strong as they possibly could be—and how could any Government go against that? As I've said, when we visited the OECD, they said that Wales was at the front of the agenda with regard to financial education and literacy. Let us show that we are at the front of the agenda, Minister, by putting what we preach into practice, and I think you will see that young people across Wales will appreciate you more so for doing it.

Unwaith eto, clywn y ddadl gan y Gweinidog nad yw'n angenrheidiol, ond clywsom hefyd, drwy gydol fy neddfwriaeth Aelod preifat, nad oedd deddfwriaeth yn angenrheidiol, ac yna, ychydig fisoedd yn ddiweddarach, clywn fod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn dal i fod yn annigonol. Felly, credaf fod angen hyn mewn deddfwriaeth oherwydd nid yw'n dweud wrth y prifysgolion beth yw cynnwys y ddarpariaeth; mae'n ymgorffori bwriad. Ydy, mae ColegauCymru ac eraill yn haelfrydig iawn yn rhoi prosiectau ar waith, ond gallai'r rhain ddod i ben unrhyw bryd a gallent gael eu diwygio gyda cheisiadau cyllid amrywiol. Felly, credaf y byddai nodi hyn yng nghynnwys y cynlluniau, fel y pwysleisiodd Simon Thomas, yn dangos y byddai hyn ar gael i bobl ifanc o bob cefndir, ac yn enwedig o gefndiroedd difreintiedig, fel cydnabyddiaeth gychwynnol o gymorth, er gwaethaf y strwythurau sydd ar waith. Roeddwn yn arfer bod yn llywydd undeb myfyrwyr, a gwn, pan oeddwn i'n gadael, eu bod yn cwtogi nifer y swyddogion sabothol. Felly, nid oedd ein gallu i ymdrin â materion lles yn gryf iawn, ac rwyf yn amau a yw'n dal i fod mor gryf ag y gallai fod, o ystyried y ffaith bod myfyrwyr yn wynebu caledi drwy'r amser. Felly, mae hyn, wrth gwrs, yn gwneud yn siŵr bod y cynlluniau ffioedd a mynediad mor gryf ag y gallant fod—a sut y gallai unrhyw Lywodraeth fynd yn erbyn hynny? Fel yr wyf wedi dweud, pan fuom yn ymweld â'r OECD, dywedodd fod Cymru ar flaen yr agenda o ran addysg a llythrennedd ariannol. Gadewch inni ddangos ein bod ar flaen yr agenda, Weinidog, drwy roi'r hyn yr ydym yn ei bregethu ar waith, a chredaf y byddwch yn gweld y bydd pobl ifanc ledled Cymru'n eich gwerthfawrogi'n fwy am wneud hynny.

16:10	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 26 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote.</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 26 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symudwn ymlaen at bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:11	Janice Gregory Bywgraffiad Biography	<p>Deputy Presiding Officer, I'm sorry. My vote didn't register. I'm pressing the button—nothing's happening.</p>	<p>Ddirprwy Lywydd, mae'n ddrwg gen i. Nid yw fy mhleidlais wedi'i chofrestru. Rwyf yn pwysu'r botwm—nid oes dim byd yn digwydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:11	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Can you press your button now?</p>	<p>A allwch chi bwyso eich botwm yn awr?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:11	Janice Gregory Bywgraffiad Biography	<p>The screen came up.</p>	<p>Daeth y sgrin i fyny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:11	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Right. I'll call it again. We are voting on amendment 26. Open the vote. Close the vote. There voted in favour of 27, there voted against 27, and, in accordance with the relevant Standing Order, I vote against the amendment, which subsequently falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 26: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 26.</p>	<p>lawn. Fe'i galwaf eto. Rydym yn pleidleisio ar welliant 26. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac, yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwyf finnau'n pleidleisio yn erbyn y gwelliant, sydd wedyn yn methu.</p> <p><i>Amendment 26 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 26.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:12	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Minister, amendment 1.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 1 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 1.</p> <p><i>Amendment 1 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:12	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	<p>I move.</p>	<p>Cynigïaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:12	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? Then, amendment 1 is agreed to in accordance with Standing Order 12.36.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 1 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</p> <p><i>Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:12	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Minister, amendment 2.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 2 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 2.</p> <p><i>Amendment 2 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

16:12	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Cynigïaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:12	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>If amendment 2 is not agreed to, amendments 21 and 23 fall. The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? Then, amendment 2 is agreed.</p>	<p>Os na dderbynnir gwelliant 2, mae gwelliannau 21 a 23 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p><i>Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	
16:12	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Aled Roberts, amendment 34.</p>	<p>Aled Roberts, gwelliant 34.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Cynigiwyd gwelliant 34 (Aled Roberts).</i></p>	<p><i>Amendment 2 (Aled Roberts) moved.</i></p>	
16:12	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p>	<p>Cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:12	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 34 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26, there voted against 27. Therefore, amendment 34 is not agreed.</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 34 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symudwn ymlaen at bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 34 wedi'i dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Gwrthodwyd gwelliant 34: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p>	<p><i>Amendment 5 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.</i></p>	
	<p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 34.</p>	<p>Result of the vote on amendment 34.</p>	
	<p>Grŵp 2: Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg (Gwelliannau 28, 29, 30 a 33)</p>	<p>Group 2: Welsh-medium Provision (Amendments 28, 29, 30 and 33)</p>	
16:13	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The next group of amendments relates to Welsh-medium provision. The lead amendment in this group is amendment 28. I call on Simon Thomas to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.</p>	<p>Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 28. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp, ac i siarad amdanynt.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Cynigiwyd gwelliant 28 (Simon Thomas).</i></p>	<p><i>Amendment 28 (Simon Thomas) moved.</i></p>	
16:13	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cynnig gwelliant 28.</p>	<p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 28.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Cyn imi drafod y gwelliannau hyn, hoffwn i atgoffa y Cynulliad a'r rheini yn arbennig sydd ddim wedi bod ynghlwm wrth y pwyllgor a oedd yn trafod ac yn ystyried y Bil yma beth yw fframwaith y Bil a'r ffordd mae'r Bil yn gweithio, achos mae'n esbonio pam fy mod i wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn.</p>	<p>Before discussing these amendments, I would like to remind the Assembly and particularly those weren't involved in the committee that considered this Bill what the framework of the Bill is and how the Bill will work, because it does explain why I have tabled these amendments.</p>	

Ar hyn o bryd, y drefn bresennol yw bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn derbyn arian cyhoeddus gan y Llywodraeth ac yn dosbarthu'r arian yna i brifysgolion. Ers rhyw 20 mlynedd o leiaf, mae hwnnw wedi bod yn ffordd i'r Llywodraeth gael y canlyniad yr oedd yn chwilio amdano y tu fewn i'r sector yma: yn syml iawn, os ydych chi'n ariannu'r sector, yn cyllido'r sector, byddwch chi wedyn yn gallu tynnu y 'levers' er mwyn gwneud yn sicr bod pethau yn digwydd. A dyna sut mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei gyllido a'i gefnogi hyd yma. Mae arian wedi cael ei drosglwyddo gan y Llywodraeth i'r cyngor cyllido addysg uwch, gyda'r amcan pwrpasol a phenodol o ariannu y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Nawr, mae'r Bil yma yn gweddwid sut mae'r Llywodraeth yn mynd i reoli'r sector, oherwydd bod yr arian sy'n mynd yn uniongyrchol o'r Llywodraeth i'r prifysgolion yn lleihau, a'r arian sy'n mynd yn anuniongyrchol yn cynyddu. Yr arian sy'n mynd yn anuniongyrchol, wrth gwrs, yw'r arian sy'n cael ei gario gan bob myfyrwr wrth iddyn nhw dalu ffioedd dysgu. Erbyn hyn, dyna'r ffordd y mae prifysgolion yn cael eu cyllido, gan fwyaf: drwy ddenu myfyrwyr sydd â phris bob un ar eu pen, a thrwy ddefnyddio'r arian yna wedyn i gefnogi dysgu o bob math yn y brifysgol.

Nawr, yn y cyd-destun yna, mae yna gwestiwn, onid oes e, ynglŷn â dyfodol tymor hir y coleg Cymraeg, sy'n dibynnu'n llwyr ar arian sy'n cael ei ddosbarthu gan y Llywodraeth, gan fod y dull ariannu yn newid? Mae hefyd gwestiwn ynglŷn â sut y mae'r prifysgolion ei hunain yn mynd i ymateb i'r her o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg—fel dyletswydd foesol, os leiciwch chi, arny'n nhw, fel rhywbeth y dylen nhw ei wneud yng Nghymru, ac fel rhywbeth sy'n gallu cael ei brif-ffrydio y tu fewn i waith y coleg. Er mwyn sicrhau bod y drefn ar gyfer y coleg Cymraeg yn adlewyrchu'r drefn y mae'r Bil hwn yn ei wneud ar gyfer cyllido yn gyffredinol, rwyf wedi cynnig y gwelliannau hyn.

Nawr, gwrthodwyd y gwelliannau gan y Llywodraeth yn y pwyllgor, ac er bod yna gefnogaeth gan y ddwy blaid arall yn y pwyllgor, roedd yna gwestiynau ynglŷn â rhai o'r materion hefyd, felly rwy'n gobeithio bod y gwelliannau fel ag y maen nhw nawr wedi ateb rhai o'r cwestiynau hynny.

Yn fras iawn, y peth y mae gwelliant 28 yn ei wneud yw sicrhau bod y cynlluniau ffioedd a mynediad sy'n cael eu cynnig gan y prifysgolion fel eu ffordd nhw o hawlio arian cyhoeddus drwy ffioedd dysgu yn cynnwys y mesurau y maen nhw'n mynd i'w cymryd er mwyn darparu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r gwelliannau pellach, 29 a hefyd 33, yn sicrhau bod y ddarpariaeth yna a'r gofyniad yna ddim yn cyfyngu ar rym y Llywodraeth neu hawliau'r Llywodraeth, na chwaith yn ymyrryd yn benodol ar ryddid prifysgolion i ddysgu yr hyn y maen nhw am ei wneud. Roedd hwnnw'n gwestiwn a oedd wedi cael ei godi yn y pwyllgor pan drafodwyd cynigion fel hyn y tro cyntaf. Mae'n bwysig, wrth gwrs, wneud gwahaniaeth rhwng cyfrwng cwrs a chynnwys cwrs. Nid yw'r gwelliannau yma ddim yn ymyrryd o gwbl â chynnwys dysgu neu unrhyw beth y mae'r prifysgolion yn gallu ei wneud; mae ond yn ymwneud â chyfrwng y dysgu, sef yr iaith Gymraeg.

At present, the current regime is that the Higher Education Funding Council for Wales receives public funds from Government and distributes that fundings then to universities. For some 20 years at least, that has been a means for Government to get the outcomes it was seeking within this sector: quite simply, if you fund the sector, you then have the levers at your disposal in order to ensure that things happen as you would wish. And that is how the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has been funded and supported to date. Funding has been transferred from Government to higher education funding council, with the specific objective of funding the Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Now, this Bill transforms how Government is to manage the sector, because the funding provided directly by Government to universities is reducing and the money that goes indirectly is increasing. The indirect funding, of course, is the funding carried by each and every student as they pay their tuition fees. By now, that's the way in which universities are funded for the most part: by attracting students, each of whom has a price on his or her head, and by using that funding then to support teaching of all sorts in universities.

Now, in that context, there is a question, is there not, about the long-term future of the 'coleg Cymraeg', which is entirely reliant on funding distributed directly by Government, because the funding formula is to change? There is also a question as to how the universities themselves are going to respond to the challenge of teaching through the medium of Welsh—as a moral duty on them, if you like, as something that they should be doing in Wales, and as something that is mainstreamed within the work of the 'coleg'. It is in order to ensure that the system for the 'coleg Cymraeg' reflects the system that this Bill introduces for funding more generally that I have moved these amendments.

Now, the amendments were rejected by Government in committee and, although there was support from the two other parties in committee, there were also questions on some of these issues, and so I hope that the amendments as they're currently worded have addressed some of those concerns.

Broadly speaking, what amendment 28 does is ensure that the fee and access plans being proposed by universities as their way of claiming public funding through tuition fees include the steps that they are to take in order to provide Welsh-medium education. The further amendments, 29 and also 33, ensure that that provision and that requirement do not restrict or limit the Government's rights or powers, and do not interfere specifically with universities' freedom to teach what they would wish to teach. That was a question that was raised at committee when similar amendments to these were first discussed. Now, it's important to draw a distinction between the medium of instruction and the content of courses. These amendments do not interfere at all with the content of courses or with anything that the universities can do; they relate only to the medium of instruction, namely the Welsh language.

Os derbynnir y gwelliannau hyn, byddan nhw'n sicrhau bod yna ddyfodol tymor hir i'r coleg Cymraeg, a bod yna ddull o sicrhau drwy'r dull reoleiddio sydd gan y Llywodraeth mewn golwg, sef y cynlluniau ffioedd a mynediad yma, fod dull a lle i'r coleg Cymraeg y tu fewn i'r cynlluniau hynny. Yn fy marn i, mae hynny'n cryfhau y ffordd y bydd y Llywodraeth yn y dyfodol yn gallu sicrhau bod gwaith y coleg Cymraeg yn parhau.

Rŷm ni, wrth gwrs, yn obeithiol, ac yn rhagweld y bydd y coleg Cymraeg yn cael ei brif-ffrydio lawer mwy gan brifysgolion, ac na fydd angen, yn y tymor hir, gymaint o gefnogaeth benodol ar y coleg. Ond mae'n bwysig tanlinellu fan hyn bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei werthuso am y tro cyntaf a bod yna lwyddiant wedi bod. Mae lle i wella, wrth gwrs, ond yn arbennig, mae llywyddiant wedi bod yn casglu arfer da ar draws y prifysgolion at ei gilydd. Un o rinweddau'r coleg Cymraeg yw ei fod yn batrwm ar gyfer cydweithredu i brifysgolion Cymru, nid yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n batrwm sy'n gallu cael ei efelychu ar gyfer cyrsiau a phynciau eraill hefyd. Mae'n gwneud i brifysgolion Cymru weithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac fel hynny, mae'n batrwm ac yn dempled ar gyfer nifer o ffyrdd eraill y gall prifysgolion weithio gyda'i gilydd hefyd.

Rwyf am i hynny barhau. Rwyf am iddo gael ei reoli a'i reoleiddio gan y Llywodraeth, a chan fod y Llywodraeth ei hunan yn dewis sefydlu'r dull rheoleiddio yma drwy gynlluniau ffioedd a dysgu, mae'n briodol, rwy'n meddwl, fel gyda'r egwyddor oedd gan Bethan Jenkins yn ei gwelliannau hi hefyd, ein bod ni'n gofyn i'r coleg Cymraeg ffitio i mewn i'r cynlluniau ffioedd a dysgu newydd yma. Rwy'n mawr obeithio bod y gwelliannau, fel y maen nhw gerbron y Cynulliad llawn heddiw, yn ateb rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd gan y gwrthbleidiau, ac yn ennyn cefnogaeth ganddyn nhw. Rwy'n gobeithio bod gan y Llywodraeth rywbeth positif i'w ddweud ynglŷn â'r coleg Cymraeg a'r ffordd y maen nhw'n gallu parhau o dan y Bil newydd hwn hefyd.

If these amendments are approved, they would ensure that there is a long-term future for the 'coleg Cymraeg', and that there is a means of ensuring through the regulatory approach envisaged by the Government, namely the fee and access plans, that there is room for the 'coleg Cymraeg' within those plans. In my view, that strengthens the way in which future Governments can ensure that the work of the 'coleg Cymraeg' does continue.

We, of course, are hopeful and do anticipate that the 'coleg Cymraeg' will be mainstreamed far more by universities, and that, in the long term, we won't need so much specific support for the 'coleg'. But it is important to highlight here that the Coleg Cymraeg Cenedlaethol has been evaluated for the first time and that there has been success. There is room for improvement, of course, but there has been particular success in gathering together best practice across universities and rolling it out. One of the merits of the 'coleg Cymraeg' is that it provides a model for collaboration across universities in Wales, and not only through the medium of Welsh. It's a model that can be emulated for other courses and subjects, too. It requires Welsh universities to work together in order to promote Welsh-medium education and, as such, it is an exemplar and a template for the many other ways in which universities could collaborate.

I want that to continue. I want it to be managed and regulated by Government and, given that the Government itself chooses to establish this regulatory approach through the fee and access plans, I think it is appropriate, similar to the principle outlined by Bethan Jenkins when speaking to her amendments, that we ask the 'coleg Cymraeg' to fit in to these new fee and access plans. I very much hope that the amendments, as tabled before the Assembly in Plenary today, actually answer some of the questions posed by the opposition parties, and will garner their support. I hope that the Government will have something positive to say about the 'coleg Cymraeg' and about the way in which they can continue under this new Bill, also.

16:19

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon, we'll be supporting amendments 28 and 30 in this group, but I just want to hear a little bit more from you about the rationale for amendments 29 and 33. This Bill is born in an environment where the higher education institutions are free to do pretty much what they like, within the bounds of existing law, and it seeks now, for benign reasons perhaps, to limit that freedom further, those limits being set out in section 6. I hope that section will be amended today to include amendment 28, which seeks to bring an element of mainstreaming of Welsh-medium courses into higher education, with a view to longer-term sustainability. Amendment 28, therefore, will join a suite of requirements in a fee and access plan, which would limit an institution's freedom to ignore certain policy aims.

Simon, byddwn yn cefnogi gwelliannau 28 a 30 yn y grŵp hwn, ond rwyf am glywed ychydig mwy gennych am sail resymegol gwelliannau 29 a 33. Mae'r Bil hwn yn dod i fodolaeth mewn amgylchedd lle y mae'r sefydliadau addysgu uwch yn rhydd i wneud fel y mynnant i bob pwrpas, o fewn terfynau'r gyfraith fel ag y mae, ac mae'n ceisio yn awr, am resymau hynaws efallai, cyfyngu'r rhyddid hwnnw ymhellach, y terfynau hynny sy'n cael eu hamlinellu yn adran 6. Rwyf yn gobeithio y caiff yr adran ei diwygio heddiw i gynnwys gwelliant 28, sy'n ceisio dod ag elfen o brif ffrydio cyrsiau cyfrwng Cymraeg i addysg uwch, gyda golwg ar gynaliadwyedd yn y tymor hwy. Bydd gwelliant 28, felly, yn cyfuno cyfres o ofynion mewn cynllun ffioedd a mynediad, a fyddai'n cyfyngu ar ryddid sefydliad i anwybyddu nodau polisi penodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, to balance that, section 47, which, as it happens, is the subject of other amendments, seeks to reinforce the point that the limitations on freedom being introduced by this Bill should not cross a line. They should not exceed restrictions—basically, the obligation to have a fee and access plan meeting certain requirements—necessary to fulfil that benign purpose of the Bill. If the purpose of section 47 is to stop all section 6 requirements crossing that line of necessary restriction, I don't really see why amendment 33 seeks to single out just one of those section 6 requirements for special treatment. A similar special treatment is sought in amendment 29.

There are a range of issues that limit access to higher education, and I'm not sure that language preference—or perhaps, a language right, in due course, after all—merits a distinction of enhanced support from other rights, which also affect access. Now, it's foreseeable—to me, anyway—that a higher education institution could try it on at some point, regrettably turning around and saying that it cannot make some random course open to someone with, say, a visual impairment, because it feels pressure to devote resources to offering it through the medium of Welsh, for example. I would hate to see any opportunity arising from this Bill for the Welsh language to be used inappropriately as an excuse or justification by a higher education institution to try and avoid its equally important obligations under a fee and access plan.

Now, at the moment, it strikes me that section 47, subject to unrelated amendments later on, offers adequate protection to your aims, and I'm quite keen to hear from you whether you can justify that sort of special treatment for the amendments that we do support. Thank you.

Yn awr, ar y llaw arall, mae adran 47, sydd, fel y mae'n digwydd, yn destun gwelliannau eraill, yn ceisio atgyfnerthu'r pwynt na ddylai'r cyfyngiadau ar ryddid sy'n cael eu cyflwyno gan y Bil hwn groesi llinell. Ni ddylent fod yn fwy na chyfyngiadau—yn y bôn, y rhwymedigaeth i fod â chynllun ffioedd a mynediad sy'n bodloni gofynion penodol—sy'n angenrheidiol i gyflawni diben hynaws y Bil. Os diben adran 47 yw atal pob un o ofynion adran 6 rhag croesi'r llinell honno o gyfyngu angenrheidiol, ni allaf weld pam y mae gwelliant 33 yn ceisio neilltuo dim ond un o ofynion adran 6 ar gyfer triniaeth arbennig. Ceisir triniaeth arbennig debyg yng ngwelliant 29.

Mae amrywiaeth o faterion sy'n cyfyngu ar fynediad i addysg uwch, ac nid wyf yn siŵr bod dewis iaith—neu efallai, hawl iaith, maes o law, wedi'r cyfan—yn teilyngu cefnogaeth well na hawliau eraill, sydd hefyd yn effeithio ar fynediad. Yn awr, gallaf fi, beth bynnag, ragweld y gallai sefydliad addysg uwch herio hyn ar ryw adeg, a dweud, yn anffodus, na all gynnig rhyw gwrs ar hap i rywun sydd â, dyweder, nam ar y golwg, gan ei fod yn teimlo pwysau i neilltuo adnoddau i'w gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft. Ni fyddwn am weld cyfle'n deillio o'r Bil hwn i'r Gymraeg gael ei defnyddio'n amhriodol yn esgus neu'n gyfiawnhad gan sefydliad addysg uwch er mwyn ceisio osgoi rhwymedigaethau sydd yr un mor bwysig o dan gynllun ffioedd a mynediad.

Yn awr, ar hyn o bryd, mae'n fy nharo i fod adran 47, yn amodol ar welliannau anghysylltiedig yn nes ymlaen, yn cynnig amddiffyniad digonol i'ch nodau, ac rwyf yn eithaf awyddus i glywed gennych a allwch gyfiawnhau'r math o driniaeth arbennig i'r gwelliannau yr ydym yn eu cefnogi. Diolch yn fawr.

16:22

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mi fyddwn ni'n cefnogi gwelliannau Simon Thomas. Rwy'n meddwl ei fod o wedi ateb nifer o gwestiynau a gafodd eu codi yn ystod trafodaeth y pwyllgor. Rwyf hefyd yn meddwl bod angen i'r Llywodraeth—rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cydnabod y gwaith da sydd wedi cael ei wneud gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond mae'r amser yn fuan. Rwy'n gwybod, o fy mhrofiad fy hun y flwyddyn yma, fod y ddarpariaeth rhwng gwahanol golegau yng Nghymru yn wahanol iawn. Mae yna rai cyrsiau sy'n ddigon aeddfed eu darpariaeth yn yr iaith Gymraeg; mae yna eraill lle rydym ond yn ystod y flwyddyn gyntaf lle mae'r ddarpariaeth yna. Felly, nid wy'n meddwl ei fod yn ddigonol ar hyn o bryd.

Rwy'n cytuno â Simon Thomas a Suzy Davies: rydym i gyd eisiau symud i sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn cael ei phrif-frydio yn y penderfyniadau yma gan y prifysgolion, ond nid wy'n credu ein bod ni wedi cyrraedd y sefyllfa yna eto. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod hi'n beryg os ydym ni'n credu bod rhoi dyletswydd foesol ar sefydliad yn ddigonol o ran Cynulliad sy'n deddfu.

We will be supporting Simon Thomas's amendments. I think he's answered a number of the questions that were raised during the committee's deliberations. I also think that there's a need for the Government—I'm sure that we would all acknowledge the good work that's been done by the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, but it's still early days. I know, from my own experience this year, that the provision between the various colleges in Wales is very different. There are some courses that are sufficiently mature in their Welsh-medium provision, while there are others that are still in their first year of that provision. So, I don't think it's adequate at this time.

I agree with Simon Thomas and Suzy Davies: we all want to move to a position where the Welsh language is mainstreamed in the decisions made by the universities, but I don't believe that we have arrived at that position yet. I also think that it is risky if we just believe that placing a moral obligation on a university is adequate, as an Assembly as a legislature.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n teimlo, Suzy Davies, o ran yr esiampl a roddoch chi ynglŷn â sicrhau bod buddiannau pobl yn cael eu diogelu o ran anabledd, fod yna ddigon i ddiogelu hynny. Rwy'n teimlo, i ryw raddau, y buasai'r esiampl a ddaru chi ei rhoi, os ydyn nhw'n ceisio gwahardd mynediad ar y sail hynny, yn erbyn cyfraith gwlad ar hyn o bryd, beth bynnag. Rwy'n teimlo, fel rwy'n ei ddweud, ein bod i gyd eisiau symud at sefyllfa lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried neu'n cael ei thrin yn wahanol i fater arall. Ond, cofiwch, nid oes yna ond nifer fach o flynyddoedd lle mae'r ddarpariaeth y tu allan i nifer cyfyng o bynciau wedi cael ei gwneud trwy'r iaith Gymraeg.

Rydym yn wynebu sefyllfa lle mae yna nifer cynyddol o'n plant ni yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a dylem wneud pob peth yn ein gallu i sicrhau eu bod nhw'n gallu canlyn y llwybr yna trwy'r prifysgolion, trwy'r un iaith.

I feel, Suzy Davies, in terms of the example that you gave as regards ensuring that people's interests are safeguarded in terms of disability, I think that there is enough to protect that. I feel, to a certain extent, that the example that you gave, of their seeking to prohibit access on those grounds, would be against the law of the land at the moment, anyway. I feel, as I said, that we all want to move to a position where the Welsh language is considered or treated no differently to any other issue. But, remember, there are very few years when there has been provision through the medium of Welsh outside a limited number of subjects.

We are facing a situation where an increasing number of our children receive their education through the medium of Welsh, and we should do everything in our power to ensure that they can follow that pathway through universities, through the same language.

16:24

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

Dim ond i siarad yn fyr i gefnogi gwelliant Simon Thomas, ac i ategu'r hyn y mae Aled Roberts hefyd wedi'i ddweud. Yn fy nhyb i, fel rhywun oedd yn ymgyrchu dros goleg ffederal ar y pryd, mae'n bwysig inni sylweddoli bod yn rhaid inni brif ffrydio addysg Gymraeg trwy'r systemau y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gweithredu mewn mannau eraill. Dyna'r holl gysyniad wrth roi fy ngwelliant i gerbron—i sicrhau ei fod e ar yr agenda ac nad ydyw'n rhywbeth lle byddai colegau'n gallu dewis a dethol beth i'w wneud a phryd, oherwydd, er ei fod e'n gweithio'n llwyddiannus nawr, mae yna'n dal i fod ddatblygiadau i'w gwneud.

I ateb Suzy Davies, wel, mae'r iaith Gymraeg nawr yn iaith swyddogol ac mae nifer fawr o bobl ifanc wedi mynd trwy addysg Gymraeg yn yr ysgol ac wedyn yn gorfod derbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg. I mi, roedd hynny'n anodd iawn, ar ôl astudio popeth drwy gyfrwng y Gymraeg, heblaw am Saesneg yn amlwg. Felly, mae'n rhaid inni sicrhau bod y systemau y mae'r Llywodraeth yn eu rhoi mewn lle trwy'r cynlluniau penodol yma yn rhoi'r parch hwnnw i'r iaith ac i'r bobl ifanc hynny sydd am barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid wyf yn gweld, oni bai ein bod ni'n cefnogi'r gwelliant yma, sut ydym ni'n rhoi'r parch hwnnw a'r statws hwnnw i'r iaith Gymraeg yn hynny o beth. Felly, byddwn i'n annog pobl i gefnogi'r gwelliant yma.

Only to contribute briefly to support Simon Thomas's amendment, and to endorse the comments made by Aled Roberts. In my view, as one who campaigned for the 'coleg ffederal' at that time, it's important that we bear in mind that we must mainstream Welsh-medium education through the systems that the Government intends to operate in other places. That's what lies behind the whole concept of tabling my own amendment—to ensure that it was on the agenda and wasn't something that colleges could pick and choose as to what they do and when, because, although it's working effectively now, there are still developments that need to take place.

To respond to Suzy Davies, well, the Welsh language is an official language and many young people have gone through Welsh-medium education in our schools and then had to change their medium of instruction to English. For me, that was very difficult, having studied everything through the medium of Welsh, except for English of course. So, we must ensure that the systems that the Government puts in place through these particular plans give due respect to the Welsh language and those young people who want to continue their education through the medium of Welsh. I don't see, if we don't support this amendment, how we are actually affording that respect and status to the Welsh language. So, I would encourage everyone to support this amendment.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:26

Huw Lewis [Bywgraffiad Biography](#)

I do recognise, of course, that HE institutions in Wales have a key part to play in achieving the goal of creating a confident bilingual Wales. However, I feel strongly that the amendments that have been brought forward by Simon Thomas relating to Welsh-medium provision are not the appropriate mechanism to achieve this goal and, in fact, would undermine the very important principles of academic freedom and institutional autonomy.

Rwyf yn cydnabod, wrth gwrs, fod gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ran allweddol i'w chwarae er mwyn cyflawni'r nod o greu Cymru ddwyieithog hyderus. Fodd bynnag, teimlaf yn gryf nad y gwelliannau sydd wedi eu cyflwyno gan Simon Thomas ynglŷn â darpariaeth cyfrwng Gymraeg yw'r mecanwaith priodol i gyflawni'r nod hwn ac, mewn gwirionedd, y byddent yn tanseilio egwyddorion pwysig iawn rhyddid academiaidd ac annibyniaeth sefydliadol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Amendment 28 to section 6 places a requirement on the face of the Bill for fee and access plans to include provisions relating to the promotion of higher education through the medium of Welsh. This would be a significant departure from the current position contained in the Higher Education Act 2004 and would, I believe, conflict with the measures within the Bill to protect institutional autonomy and academic freedom.

One of the key areas of concern for both the HE sector and, after all, the Children, Young People and Education Committee during the scrutiny of the Bill has been the impact of provisions within the Bill on institutional autonomy and academic freedom. I have taken on board their comments and suggestions, and I brought forward amendments at Stage 2 to address those concerns.

Amendment 29 to section 6 of the Bill disapples the restrictions in section 6(5) in respect of the Welsh Ministers' regulation-making power to prescribe provisions for inclusion in fee and access plans to provision relating to the promotion of higher education through the medium of Welsh. Now, this is undesirable because section 6(5) of the Bill builds protections relating to academic freedom and institutional autonomy into the new regulatory framework. When prescribing matters that must be included in fee and access plans, the Welsh Ministers may not require a plan to include provision that refers to particular courses—and this is critical—or to the manner in which they are taught, supervised or assessed, or provision relating to the criteria for the admission of students. Those matters remain the responsibility of institutions. The protections provided to institutions by section 6(5) were welcomed by the sector, and I would anticipate that any erosion of this protection would be perceived by the sector as a significant backward step. Therefore, I cannot support amendment 29.

Amendment 30 to section 7 seeks to ensure that HEFCW may not approve a plan unless it is satisfied that it complies with the proposed new requirement in section 6 to include provisions relating to promotion of higher education through the medium of Welsh. I do not support this amendment because I believe it would conflict with those principles of institutional autonomy and academic freedom.

Amendment 33 to section 47 appears to create an exemption for the new subsection proposed by amendment 28 from the academic freedoms protections provided in section 47 in respect of the contents of particular courses and the manner in which they are taught. If amendment 33 is accepted, this could set a precedent for the Welsh Government to involve itself in how institutions manage other types of courses in the future. This is not the intention of the Welsh Government and I would envisage this development would be strongly resisted by the HE sector.

Mae gwelliant 28 i adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol ar wyneb y Bil i gynlluniau ffioedd a mynediad gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hyrwyddo addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai hyn yn wriad sylweddol oddi wrth y sefyllfa bresennol yn Neddf Addysg Uwch 2004 a byddai, yn fy marn i, yn gwrthdaro â'r mesurau yn y Bil i amddiffyn annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd.

Un o'r meysydd allweddol a oedd yn bryder i'r sector addysg uwch ac, wedi'r cyfan, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrth iddo graffu ar y Bil oedd effaith y darpariaethau yn y Bil ar annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd. Rwyf wedi ystyried eu sylwadau a'u hawgrymiadau, ac rwyf wedi cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Mae gwelliant 29 i adran 6 y Bil yn datgymhwyso'r cyfyngiadau yn adran 6(5) ynglŷn â phŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi darpariaethau i gynnwys mewn cynlluniau ffioedd a mynediad ddarpariaeth sy'n ymwneud â hyrwyddo addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn awr, nid yw hyn yn dda o beth oherwydd bod adran 6(5) o'r Bil yn ymgorffori amddiffyniadau sy'n ymwneud â rhyddid academaidd ac annibyniaeth sefydliadol yn y fframwaith rheoleiddio newydd. Wrth ragnodi materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynlluniau ffioedd a mynediad, ni chaiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gynllun gynnwys darpariaeth sy'n cyfeirio at gyrsiau penodol—ac mae hyn yn allweddol—na'r ffordd y maent yn cael eu dysgu, eu goruchwyllo neu eu hasesu, na darpariaeth sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr. Y sefydliadau fydd yn gyfrifol am y materion hynny o hyd. Croesawodd y sector yr amddiffyniadau a ddarperir i sefydliadau drwy adran 6(5), a byddwn yn rhagweld y byddai unrhyw erydu ar yr amddiffyniad hwn yn cael ei ystyried gan y sector yn gam sylweddol yn ôl. Felly, ni allaf gefnogi gwelliant 29.

Mae gwelliant 30 i adran 7 yn ceisio sicrhau na chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun oni fydd yn fodlon ei fod yn cydymffurfio â'r gofyniad newydd arfaethedig yn adran 6 i gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hyrwyddo addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Nid wyf yn cefnogi'r gwelliant hwn oherwydd credaf y byddai'n gwrthdaro ag egwyddorion annibyniaeth sefydliadol a rhyddid academaidd.

Mae'n ymddangos bod gwelliant 33 i adran 47 yn creu esemptiad ar gyfer yr isadran newydd a gynigir gan welliant 28 o'r amddiffyniadau rhyddid academaidd a ddarperir yn adran 47 mewn cysylltiad â chynnwys cyrsiau penodol a'r modd y maent yn cael eu dysgu. Os caiff gwelliant 33 ei dderbyn, gallai hyn osod cynsail ar gyfer Llywodraeth Cymru i ymwneud â'r modd y bydd sefydliadau yn rheoli mathau eraill o gyrsiau yn y dyfodol. Nid dyma yw bwriad Llywodraeth Cymru a byddwn yn rhagweld y byddai'r datblygiad hwn yn cael ei wrthwynebu'n gryf gan y sector AU.

The establishment of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol in 2011 has been an important step in the continued development of Welsh-medium higher education. Key milestones include the development of an academic plan for Welsh-medium HE provision, the establishment of academic staffing and academic staff development schemes, the development of a Welsh language skills certificate and the establishment of undergraduate and postgraduate scholarship schemes. Through the 'coleg', the Welsh Government will continue to support the development of Welsh-medium higher education.

Whilst the 'coleg' has achieved a great deal already, there is always more that can be done. To this end, my officials, HEFCW and the 'coleg' will be looking closely at the recommendations of a recent evaluation of the outcomes of the 'coleg's' activities.

In conclusion, Deputy Presiding Officer, therefore, I urge Members not to support these amendments, given their incompatibility with the principles of institutional autonomy and academic freedom.

Mae sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011 wedi bod yn gam pwysig yn natblygiad parhaus addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae cerrig milltir allweddol yn cynnwys datblygu cynllun academaidd ar gyfer darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg, sefydlu cynlluniau staffio academaidd a datblygiad staff academaidd, datblygu tystysgrif sgiliau iaith Gymraeg a sefydlu cynlluniau ysgoloriaethau israddedig ac ôl-raddedig. Drwy'r 'coleg', bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Er bod y 'coleg' wedi cyflawni llawer yn barod, mae mwy bob amser y gellir ei wneud. I'r perwyl hwn, mae fy swyddogion, CCAUC a'r 'coleg' yn edrych yn ofalus ar argymhellion gwerthusiad diweddar o ganlyniadau gweithgareddau'r 'coleg'.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, felly, anogaf yr Aelodau i beidio â chefnogi'r gwelliannau hyn, o ystyried eu anghydnawsedd ag egwyddorion ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd.

16:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Simon Thomas to reply.

Rwy'n galw ar Simon Thomas i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:31 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Can I begin with Suzy Davies's remarks? I want to be as gentle as I can, because I want her support for these amendments. She's already given partial support, but I have to say to Suzy Davies that you spoke in opposition to your own points in committee when you spoke in Plenary today, because, in committee, you opposed similar amendments put forward by me, saying that I hadn't brought forward sufficient amendments dealing with academic freedom. Today, I brought forward those amendments and you say you're opposed to them, but you're now in favour of the ones that you were opposed to in committee. So, it's a little strange, but—[Interruption.] Of course, if you'd like to elucidate—.

A gaf fi ddechrau gyda sylwadau Suzy Davies? Rwyf am fod mor hynaws ag y gallaf, oherwydd rwyf yn dymuno cael ei chefnogaeth i'r gwelliannau hyn. Mae hi eisoes wedi rhoi cefnogaeth rannol, ond mae'n rhaid i mi ddweud wrth Suzy Davies eich bod yn siarad mewn gwrthwynebiad i'ch pwyntiau eich hun yn y pwyllgor pan siaradasoch yn y Cyfarfod Llawn heddiw, oherwydd, yn y pwyllgor, roeddech yn gwrthwynebu gwelliannau tebyg a gyflwynwyd gennyf i, gan ddweud nad oeddwn wedi cyflwyno digon o welliannau yn ymwneud â rhyddid academaidd. Heddiw, cyflwynais y gwelliannau hynny ac rydych yn dweud eich bod yn eu gwrthwynebu, ond yn awr rydych o blaid y rhai yr oeddech yn eu gwrthwynebu yn y pwyllgor. Felly, mae braidd yn rhyfedd, ond—[Torri ar draws.] Wrth gwrs, os hoffech chi egluro—.

16:32 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, thank you very much for taking the intervention. Of course, the point I was making is that you haven't made a distinction between protections you are seeking in terms of the Welsh language as compared to the rights—and I mean rights—of other individuals who might be seeking to attend a higher education institution.

Ie, diolch yn fawr iawn am dderbyn yr ymyriad. Wrth gwrs, y pwynt yr oeddwn yn ei wneud yw nad ydych wedi gwneud gwahaniaeth rhwng amddiffyniadau yr ydych yn eu ceisio o ran yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r hawliau—ac rwy'n golygu hawliau—unigolion eraill a allai fod yn ceisio mynychu sefydliad addysg uwch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I thank Suzy Davies for that, but I honestly think that's a red herring, and I think also that Aled Roberts dealt with that point in his remarks. We are dealing here with the medium of instruction and that's why the Minister's confusion around the manner of instruction is also—. I don't know whether it's deliberately confusing or not, but it's certainly misleading, because it's not the case. We are talking about the medium of instruction, which is the medium of Welsh. It's not how you teach, what you teach or who you employ or the way you employ those people. It's a skill, of course, to teach through the medium of Welsh, but it's a skill that can be learned and improved, and that is one of the things that the 'coleg Cymraeg' does in support of the HE sector in Wales.

So, I hope, in bringing forward these four amendments, I have actually tried to address the points that Suzy Davies and the Conservatives, or the concerns they had in committee, by actually putting on the face of the Bill, in these amendments, in 30 and 33, specific references to academic freedom and the autonomy that were of concern at that stage. I don't think that that does trespass, then, on other people's rights, which are enshrined in other legislation and which are not impinged upon at all by this Bill, in fact, or by my amendments.

So, I hope I can persuade the Conservatives to support the four amendments together, because they are package that allows the continuation of support for the Welsh-language federal college, by means of the fee and access plans, and then ensures that nothing that is done in that line actually impinges on academic freedom and actually takes that out.

Diolchaf i Suzy Davies am hynna, ond rwyf yn onest yn meddwl bod hynny'n gamarweiniol, ac rwy'n meddwl hefyd bod Aled Roberts wedi ymdrin â'r pwynt hwnnw yn ei sylwadau ef. Rydym yn ymwneud yma gyda chyfrwng yr addysgu a dyna pam y mae dryswch y Gweinidog o amgylch y dull o addysgu hefyd yn—. Nid wyf yn gwybod a yw'n fwriadol ddryslyd ai peidio, ond mae'n sicr yn gamarweiniol, gan nad yw'n wir. Rydym yn sôn am gyfrwng yr addysgu, sef cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n ymwneud â sut yr ydych yn addysgu, yr hyn yr ydych ei addysgu na phwy yr ydych yn eu cyflogi na'r ffordd yr ydych yn cyflogi'r bobl hynny. Mae'n sgil, wrth gwrs, i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'n sgil y gellir ei dysgu a'i gwella, a dyna un o'r pethau y mae'r 'Coleg Cymraeg' yn ei wneud i gefnogi'r sector AU yng Nghymru.

Felly, rwy'n gobeithio, wrth gyflwyno'r pedwar gwelliant, fy mod wedi ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau oedd gan Suzy Davies a'r Ceidwadwyr mewn gwirionedd, neu'r pryderon a oedd ganddynt yn y pwyllgor, drwy mewn gwirionedd roi ar wyneb y Bil, yn y gwelliannau hyn, yn 30 a 33, gyfeiriadau penodol at ryddid academaidd a'r ymreolaeth a oedd yn peri pryder ar y cam hwnnw. Nid wyf yn credu bod hynny yn tresmasu, felly, ar hawliau pobl eraill, sydd wedi eu hymgorffori mewn deddfwriaeth arall ac nad oes ardaro arnynt o gwbl gan y Bil hwn, mewn gwirionedd, na gan fy gwelliannau.

Felly, rwy'n gobeithio y gallaf berswadio'r Ceidwadwyr i gefnogi'r pedwar gwelliant gyda'i gilydd, oherwydd eu bod yn becyn sy'n caniatáu parhad y cymorth ar gyfer y coleg ffederal Cymraeg, drwy gyfrwng y cynlluniau ffioedd a mynediad, ac wedyn yn sicrhau nad oes unrhyw beth sy'n cael ei wneud i'r perwyl hwnnw mewn gwirionedd yn amharu ar ryddid academaidd ac mewn gwirionedd mae'n tynnu hynny allan.

Now, the Minister, in his reply, talked a lot about autonomy and was a bit like an automaton in talking about autonomy as well. I found it very confusing, because, let's be honest about this Bill—this Bill allows Ministers to tell, in effect, universities who to recruit and where to recruit them from. It does impinge on their autonomy. We do that, and I accept that that's a reasonable thing to do, because it's public money, at the end of the day, that's funding this, and it's public money that's being given in the terms of loans and student loans, and some direct grants, to students in order for them to buy places in universities. And then Government says, 'If we're going to give universities this public money in this roundabout fashion, we want to make sure that you recruit enough students from, say, Blaenau Gwent, or enough students from Wrexham, or enough students from the Vale of Glamorgan, and enough students from this profile or from that profile.' So, it impinges on the autonomy of institutions. It does it with a greater purpose in mind. So, I don't oppose that. But, the point I'm making is that insisting that Welsh-medium instruction is part of that greater purpose is no more an affront to institutional autonomy than what the Minister is proposing in the Bill itself. It adds something to it, yes—a particular aspect. But, in principle, it's exactly the same thing. I note that, in these new amendments, the Minister has moved away from his previous kind of opposition to the principle there, but has simply been able to talk about this impinging on academic freedom and autonomy.

In the next set of amendments, we'll deal again with some of these issues, and I will be supporting amendments that strengthen autonomy of institutions in that regard. But I reiterate again: nothing here tells the university what to teach or how to teach or who to teach. What it does say is: you must make provision in your fee and access plans to demonstrate how you will be encouraging those who wish to learn through the medium of Welsh to be able to do that. I think that's a fair and reasonable thing for any Government to do that's spending public money on supporting universities. The Government thinks it's a fair and reasonable thing to be demanding that kind of response on who universities recruit, where they recruit them from, and indeed what subjects, to a certain extent, they might be recruited to. Adding the medium of instruction to that is in no way an affront to institutional autonomy, so I think the Minister in his response has immensely over-egged his pudding, and I urge the Assembly to in fact support these amendments.

Nawr, siaradodd y Gweinidog, yn ei ymateb, lawer am annibyniaeth ac roedd yn debyg braidd i automaton yn siarad am ymreolaeth hefyd. Roeddwn yn ei chael yn ddryslyd iawn, oherwydd, gadewch i ni fod yn onest am y Bil hwn—mae'r Bil hwn yn caniatáu i Weinidogion ddweud, i bob pwrpas, wrth brifysgolion pwy i'w recriwtio ac o ble i'w recriwtio. Mae'n effeithio ar eu hymreolaeth. Rydym yn gwneud hynny, ac rwy'n derbyn bod hynny'n beth rhesymol i'w wneud, oherwydd mai arian cyhoeddus, yn y pen draw, sy'n ariannu hwn, ac arian cyhoeddus sy'n cael ei roi yn nhelerau benthyciadau a benthyciadau myfyrwyr, a rhai grantiau uniongyrchol, i fyfyrwyr er mwyn iddynt brynu lleoedd mewn prifysgolion. Ac yna mae'r Llywodraeth yn dweud, 'Os ydym ni'n mynd i roi'r arian cyhoeddus hwn i brifysgolion mewn ffordd mor anuniongyrchol, rydym am wneud yn siŵr eich bod yn recriwtio digon o fyfyrwyr o, dyweder, Blaenau Gwent, neu digon o fyfyrwyr o Wrecsam, neu digon o fyfyrwyr o Fro Morgannwg, a digon o fyfyrwyr o'r proffil hwn neu o'r proffil acw.' Felly, mae'n amharu ar ymreolaeth sefydliadau. Mae'n gwneud hynny gyda phwrpas pwysicach mewn golwg. Felly, nid wyf yn gwrthwynebu hynny. Ond, y pwynt yr wyf yn ei wneud yw nad yw mynnu bod addysgu cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r diben ehangach hwnnw ddim mwy o amarch ar ymreolaeth sefydliadol na'r hyn y mae'r Gweinidog yn ei gynnis yn y Bil ei hun. Mae'n ychwanegu rhywbeth ato, ydyw—agwedd benodol. Ond, mewn egwyddor, mae'n union yr un peth. Sylwaf fod y Gweinidog yn y gwelliannau newydd hyn, wedi symud i ffordd o'i fath blaenorol o wrthwynebiad i'r egwyddor yna, ond yn syml mae wedi gallu siarad am hyn yn amharu ar ryddid ac ymreolaeth academiaidd.

Yn y gyfres nesaf o welliannau, byddwn yn ymdrin eto â rhai o'r materion hyn, a byddaf yn cefnogi gwelliannau sy'n cryfhau ymreolaeth sefydliadau yn hynny o beth. Ond rwy'n ailadrodd eto: nid oes unrhyw beth yma yn dweud wrth y brifysgol beth i'w addysgu na sut i addysgu na phwy i'w addysgu. Yr hyn y mae yn ei ddweud yw: mae'n rhaid i chi wneud darpariaeth yn eich cynlluniau ffioedd ei mynediad i ddangos sut y byddwch yn annog y rhai sydd eisieu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i allu gwneud hynny. Credaf fod hynny'n rhywbeth teg a rhesymol i unrhyw Lywodraeth ei wneud sy'n gwario arian cyhoeddus ar gefnogi prifysgolion. Mae'r Llywodraeth yn credu ei fod yn rhywbeth teg a rhesymol i fod yn mynnu'r math hwnnw o ymateb ar bwy y mae prifysgolion yn eu recriwtio, o ble y maent yn eu recriwtio, ac yn wir pa bynciau, i ryw raddau, efallai y byddant yn cael eu recriwtio iddynt. Nid yw ychwanegu cyfrwng yr hyfforddiant at hynny mewn unrhyw ffordd yn sarhad ar ymreolaeth sefydliadol, felly rwy'n meddwl bod y Gweinidog yn ei ymateb wedi ychwanegu gormod o wyau at ei bwddin, ac rwy'n annog y Cynulliad mewn gwirionedd i gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If amendment 28 is not agreed, amendments 29, 30 and 33 fall. The question is that amendment 28 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote.

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27. There voted against 27, and I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Os nad yw gwelliant 28 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 29, 30 a 33 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 28 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn, ac rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwrthodwyd gwelliant 28: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment 28 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 28.](#)

[Result of the vote on amendment 28.](#)

Methodd gwelliannau 29, 30 a 33.

Amendments 29, 30 and 33 fell.

Grŵp 3: Annibyniaeth Sefydliadol (Gwelliannau 35, 40, 44 a 41)

Group 3: Institutional Autonomy (Amendments 35, 40, 44 and 41)

16:37

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The next group of amendments relates to institutional autonomy. The lead amendment in this group is amendment 35. I call on Aled Roberts to move and speak to the lead amendment and the others amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag ymreolaeth sefydliadol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 35. Galwaf ar Aled Roberts i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 35 (Aled Roberts).

Amendment 35 (Aled Roberts) moved.

16:37

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I'll speak to amendments 35, 40 and 41, which were introduced in my name, because it has already been alluded to that those amendments actually seek to develop the theme given by the Minister with regard to autonomy and academic freedom, which I certainly believe need to be strengthened. They also actually develop themes that are contained within the 1992 Further and Higher Education Act in specific sections.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Siaradaf am welliannau 35, 40 a 41, a gyflwynwyd yn fy enw i, gan y cyfeiriwyd ato eisoes bod y gwelliannau hynny mewn gwirionedd yn ceisio datblygu'r thema a roddwyd gan y Gweinidog o ran ymreolaeth a rhyddid academiaidd, yr wyf yn sicr yn credu y mae angen eu cryfhau. Maent hefyd mewn gwirionedd yn datblygu themâu sydd wedi'u cynnwys o fewn Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 mewn adrannau penodol.

Amendment 35 in particular seeks to incorporate the principles contained in section 68(2) of the Further and Higher Education Act that requirements should not be imposed in respect of particular institutions. There was a great amount of debate at committee with regard to whether or not the provisions currently contained within the Act actually give that guarantee.

Mae gwelliant 35 yn benodol yn ceisio ymgorffori'r egwyddorion a geir yn adran 68 (2) Deddf Addysg Bellach ac Uwch na ddylai gofynion gael eu gosod mewn cysylltiad â sefydliadau penodol. Roedd llawer iawn o drafodaeth yn y pwyllgor o ran pa un a yw'r darpariaethau a gynhwysir ar hyn o bryd o fewn y Ddeddf mewn gwirionedd yn gwarantu hynny.

As far as amendment 40 is concerned, that actually gives greater protection in my submission to academic freedom in keeping with the principles that are already contained in section 68(3) of the Further and Higher Education Act. So, what they do is to seek to replicate the assurances contained within the 1992 Act in this particular legislation.

Cyn belled ag y mae gwelliant 40 yn y cwestiwn, mae hwnnw mewn gwirionedd yn rhoi mwy o amddiffyniad yn fy nghyflwyniad i ryddid academiaidd yn unol â'r egwyddorion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn adran 68(3) Deddf Addysg Bellach ac Uwch. Felly, yr hyn y maent yn ei wneud yw ceisio ailadrodd y sicrwydd a geir yn Deddf 1992 yn y ddeddfwriaeth benodol hon.

Finally, amendment 41 incorporates the duty under section 66(3)(b) of the 1992 Act that the Minister must have regard to any distinctive characteristics of institutions. These again were debated at committee stage. The Government wasn't minded to support at that time, although there was a clear feeling among the opposition parties that there was a need to enshrine, really, the whole principle of autonomy of institutions and academic freedom. There were assurances given by the Minister, but I have to say that I do not feel that those assurances went far enough. All this seeks to do is to actually ensure that the current provisions contained within the 1992 Act are replicated in this current legislation.

Yn olaf, mae gwelliant 41 yn ymgorffori'r ddyletswydd o dan adran 66(3)(b) Deddf 1992 fod yn rhaid i'r Gweinidog roi sylw i unrhyw nodweddion arbennig sydd gan sefydliadau. Cafodd y rhain eu trafod unwaith eto yn ystod y cam pwyllgor. Nid oedd y Llywodraeth yn bwriadu cefnogi ar y pryd, er bod teimlad clir ymysg y gwrthbleidiau fod angen ymgorffori, mewn gwirionedd, yr egwyddor gyfan o ymreolaeth sefydliadau a rhyddid academaidd. Rhoddwyd sicrwydd gan y Gweinidog, ond mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf yn teimlo bod y sicrwydd hwnnw yn mynd yn ddigon pell. Y cwbl mae hyn yn ceisio ei wneud yw sicrhau mewn gwirionedd fod y darpariaethau cyfredol a gynhwysir yn Neddf 1992 yn cael eu hailadrodd yn y ddeddfwriaeth bresennol hon.

16:39

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Dirprwy Lywydd. Section 47, as I said earlier in response to the previous group that was being discussed here, is a reassertion of some of the freedoms enjoyed by this independent and mature sector, and, in acting to restrict those freedoms, HEFCW must do more than simply take into account those freedoms. I don't think it is enough to say that it must act reasonably; in exercising its powers and duties under this Bill, HEFCW must not cross the line between what is necessary and what is not necessary to fulfil the purpose of this Bill.

Now, amendments 40 and 44, which is my amendment, Minister, give you alternative ways forward on this. My amendment seeks to introduce a duty of omission, namely that HEFCW must avoid doing anything that eats into those section 47 freedoms. Amendment 40, as I interpret it, seeks to introduce a duty of commission, obliging HEFCW to take action to protect those freedoms. So, essentially, the difference between myself and Aled Roberts is one of emphasis, between a reactive and proactive approach. I have taken a more cautious view, as I don't really know whether it was ever intended for HEFCW to have the role of battle-ready champion in the cause of HEI independence. But where Aled Roberts and I certainly do agree is that a mere regard for these freedoms on the part of HEFCW is not acceptable protection for them. I urge you, therefore, Minister, to accept either one of these amendments.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae adran 47, fel y dywedais yn gynharach mewn ymateb i'r grŵp blaenorol a oedd yn cael ei drafod yma, yn ailddatgan rhywfaint o'r rhyddid a fwynheir gan y sector annibynnol ac aeddfed hwn, ac, wrth weithredu i gyfyngu'r rhyddid hwnnw, mae'n rhaid i CCAUC wneud mwy na dim ond ystyried y rhyddid hwnnw. Nid wyf yn credu ei bod yn ddigon i ddweud bod yn rhaid iddo weithredu'n rhesymol; wrth arfer ei bwerau a'i ddyletswyddau o dan y Bil hwn, mae'n rhaid i CCAUC beidio â chroesi'r llinell rhwng yr hyn sydd ei angen a'r hyn nad yw'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni diben y Bil hwn.

Nawr, mae gwelliannau 40 a 44, sef fy ngwelliant i, Weinidog, yn rhoi ffyrdd eraill ymlaen ar hyn i chi. Mae fy ngwelliant yn ceisio cyflwyno dyletswydd o hepgoriad, sef bod yn rhaid i CCAUC osgoi gwneud unrhyw beth sy'n tarfu ar y rhyddid adran 47 hwnnw. Mae gwelliant 40, fel yr wyf yn ei ddehongli, yn ceisio cyflwyno dyletswydd o gomisiwn, gan orfodi CCAUC i gymryd camau i amddiffyn y rhyddid hwnnw. Felly, yn y bôn, y gwahaniaeth rhyngof i ac Aled Roberts yw un o bwyslais, rhwng ymagwedd adweithiol a rhagweithiol. Rwyf fi wedi cymryd safbwynt mwy gofalus, gan nad wyf wir yn gwybod pa un a oedd yn fwrriad erioed i CCAUC gael swyddogaeth hyrwyddwr parod am y frwydr dros annibyniaeth SAU. Ond lle mae Aled Roberts a finnau yn sicr yn cytuno yw nad yw ystyriaeth yn unig o'r rhyddid hwn ar ran CCAUC yn amddiffyniad derbyniol iddynt. Rwy'n eich annog, felly, Weinidog, i dderbyn y naill neu'r llall o'r gwelliannau hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:41

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn syml iawn, jest i gefnogi'r gwelliannau sydd gerbron y Cynulliad, byddwn i'n gallu cefnogi pob un ohonyn nhw, ond rwy'n meddwl bod gwelliant 35, efallai, yn rhagori ar y rhai eraill, achos, yn syml iawn, mae'n ailddatgan yr hyn sydd eisoes mewn deddfwriaeth. Os rwy'n cofio'n iawn, pan wnaethom drafod hyn yn y pwyllgor, roedd y Gweinidog o'r farn bod hyn yn parhau—bod hyn eisoes wedi'i ddatgan mewn deddfwriaeth Cymru a Lloegr, bod dim disodli hynny ac, felly, yn ei dyb ef, er ei fod wedi dweud pethau cadarnhaol yn y pwyllgor, nid oedd angen gwelliant o'r math yma. Rwy'n edrych ymlaen at glywed beth sydd gan y Gweinidog i'w ddweud heddiw, achos rwy'n credu bod gan Aled a Suzy y gwelliannau yma mewn golwg oherwydd rhai o'r pryderon sydd gan y sector a phrifysgolion eu hunain.

Very simply, just to support the amendments that are before the Assembly, we can support all of them, but I think that amendment 35 is, perhaps, more effective than the others, because, quite simply, it reiterates what is already in legislation. If I remember correctly, when we discussed this in committee, the Minister felt that this remains the case—that this has already been stated in legislation for England and Wales, that nothing replaces that and, therefore, in his opinion, although he has said positive things in committee, there was no need for an amendment of this type. I look forward to hearing what the Minister has to say today, because I believe that Aled and Suzy have tabled these amendments because of some of the concerns of the sector and the universities themselves.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae'n rhaid gweld y Bil fel cyfanwaith, wrth gwrs, ac, fel y dywedais yn y sylwadau gynnu fach, mae'r Bil yn ymwneud â sut mae prifysgol yn bihafio. Mae yna resymau da am hynny; maent yn dal arian cyhoeddus at y pwrpas hwnnw, felly, mae'n briodol ein bod yn ailddatgan, weithiau, mewn deddfwriaeth Gymreig, yr hyn sy'n egwyddor yr ydym wedi'i etifeddu, os liciwch chi, o ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr o'r blaen. Gan fod hynny'n fwrriad gan y Llywodraeth, yn ôl geiriau'r Gweinidog ei hun—hynny yw, bod dim bwriad newid hynny—byddai'n briodol gweld yr ailddatganiad. Os nad yw 35 yn siwtio, wel, mae'n dda gen i gefnogi'r gwelliannau gan Suzy Davies, oherwydd maent, o leiaf, yn gwneud y tro. Ond rwy'n meddwl bod gwelliant 35 yn bendant yn un i'w gefnogi.

We must see the Bill as a whole, of course, and, as I said in earlier comments, the Bill does relate to how universities conduct themselves. There are good reasons for that; they use public funds to that end, therefore, it is appropriate that we reaffirm, sometimes, in Welsh legislation, the principle that we have inherited, if you like, from England and Wales legislation in the past. As this is the Government's intention, according to the Minister himself—that is, that there is no intention to change that—it would be appropriate to see that restated. If 35 does not suit, well I would be happy to support Suzy Davies's amendments, because they do, at least, move in the right direction. But I think that amendment 35 is definitely the one to support.

16:43

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The amendments in this group, as has been said, are concerned with institutional autonomy. As I've stated throughout the passage of this Bill, the Welsh Government respects the autonomy of our institutions, including their academic freedom. We recognise their right to determine their own missions, design and deliver programmes of education, admit and examine students, develop and undertake programmes of research, engage in commercial activity, deploy income and other resources and determine governance, organisational structures and arrangements for the employment of staff.

I've also responded to concerns raised by both stakeholders and the Children, Young People and Education Committee during Stage 1 proceedings by bringing forward amendments at Stage 2 that require HEFCW to take into account the importance of protecting academic freedom when exercising their new functions under the Bill.

Taking amendment 35 first, tabled by Aled Roberts, which amends section 6(5), this amendment seeks to extend the limitations on the Welsh Ministers' powers to prescribe provision for inclusion in a fee and access plan. It focuses on preventing the Welsh Ministers from prescribing provision relating to a particular institution. Currently, section 54(2) of the Bill provides that the Welsh Ministers' regulation-making power in section 6(1) includes a power to make different provision for different purposes. Now, there's currently no intention of requiring certain types of institution to include certain provision in their plans, or for different types of institutions to include different provision in their plans. However, as the HE sector is evolving rapidly, it may be appropriate in the future for Welsh Ministers to take a different approach, depending on the specific nature of the provider.

I would like to remind Members that section 6 includes provision to safeguard the autonomy of institutions by preventing the Welsh Ministers from prescribing provisions for inclusion in a fee and access plan that refer to particular courses or the manner in which they are taught, supervised or assessed, or provision relating to the criteria for the admission of students. The wording proposed by amendment 35 could cast doubt on whether other provisions in the Bill could be exercised in respect of particular institutions.

Roedd y gwelliannau yn y grŵp hwn, fel y dywedwyd, yn ymwneud ag ymreolaeth sefydliadol. Fel yr wyf i wedi datgan drwy gydol hynt y Bil hwn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau ymreolaeth ein sefydliadau, gan gynnwys eu rhyddid academiaidd. Rydym yn cydnabod eu hawl i benderfynu ar eu cenhadaeth eu hunain, dylunio a chyflwyno rhaglenni addysg, derbyn ac archwilio myfyrwyr, datblygu a chynnal rhaglenni ymchwil, cymryd rhan mewn gweithgarwch masnachol, defnyddio incwm ac adnoddau eraill a phenderfynu ar lywodraethu, strwythurau a threfniadau sefydliadol ar gyfer cyflogi staff.

Rwyf hefyd wedi ymateb i bryderon a godwyd gan y ddau randdeiliad a'r Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod trafodion Cyfnod 1 drwy gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd wrth arfer eu swyddogaethau newydd o dan y Bil.

Gan gymryd gwelliant 35 yn gyntaf, a gyflwynwyd gan Aled Roberts, sy'n diwygio adran 6(5), mae'r gwelliant hwn yn ceisio ymestyn y cyfyngiadau ar bwerau Gweinidogion Cymru i ragnodi darpariaeth ar gyfer eu cynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad. Mae'n canolbwyntio ar atal Gweinidogion Cymru rhag rhagnodi darpariaeth sy'n ymwneud â sefydliad penodol. Ar hyn o bryd, mae adran 54 (2) o'r Bil yn darparu bod pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn adran 6(1) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Nawr, ar hyn o bryd does dim bwriad i fynnu bod rhai mathau o sefydliadau yn cynnwys darpariaeth benodol yn eu cynlluniau, nac i wahanol fathau o sefydliadau gynnwys darpariaeth wahanol yn eu cynlluniau. Fodd bynnag, gan fod y sector AU yn datblygu'n gyflym, gallai fod yn briodol yn y dyfodol i Weinidogion Cymru gymryd ymagedd wahanol, yn dibynnu ar natur benodol y darparwr.

Hoffwn atgoffa'r Aelodau bod adran 6 yn cynnwys darpariaeth i ddiogelu ymreolaeth sefydliadau trwy atal Gweinidogion Cymru rhag rhagnodi darpariaethau i'w cynnwys mewn cynllun ffioedd a mynediad sy'n cyfeirio at gyrsgiau penodol neu'r modd y maent yn cael eu dysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu, neu ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr. Gallai'r geiriau a gynigir gan welliant 35 fwrw amheuaeth ynghylch pa un a allai darpariaethau eraill yn y Bil gael eu harfer ar gyfer sefydliadau penodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Moving now to amendments 40 and 41, tabled by Aled Roberts, and amendment 44, tabled by Suzy Davies, I am aware of stakeholders' concerns about differences between the provisions in this Bill and those of the Further and Higher Education Act 1992. However, I believe those concerns to be unwarranted. Several of the restrictions set out in the 1992 Act are concerned with limitations on the conditions that the Welsh Ministers may attach to funding allocated to HEFCW and the terms and conditions that HEFCW may themselves attach to funding allocated to institutions. The Bill is not concerned with HEFCW's funding arrangements and, consequently, restrictions related to terms and conditions of funding are not relevant to HEFCW's new functions under the Bill. In simple terms, some of the restrictions in the 1992 Act will not read across to the regulatory system set out in this Bill.

Detailed consideration has been given to amendments 40, 41 and 44, all of which apply to section 47. In my opinion, all of these amendments are either unnecessary or could lead to problems for HEFCW when discharging their functions under the Bill. I will discuss each amendment in turn. Amendment 41 would place HEFCW under a duty in exercising any of their functions under the Bill to take into account any distinctive characteristics of any institution within the HE sector. This amendment is unnecessary for the simple reason that the new regulatory system will apply to all institutions with an approved fee and access plan in force, irrespective of any distinctive characteristics of such institutions.

Section 66 of the Further and Higher Education Act 1992 requires HEFCW, when providing financial support to institutions, to have regard, so far as they think appropriate, to the desirability of maintaining their distinctive characteristics. That section of the 1992 Act will remain in force in relation to any funding that HEFCW may allocate to institutions. However, such a provision has no part to play in the higher education regulatory system as set out in the Bill. It does not fit with HEFCW's functions under the Bill that are not concerned with the funding of institutions.

Amendments 40 and 44 would remove and replace HEFCW's current duty under section 47 to take into account the importance of protecting academic freedom when exercising any of their functions under the Bill. Under amendment 40, HEFCW would be obliged to, and I quote, 'protect academic freedom', whereas under amendment 44, HEFCW would be obliged not to do anything that would limit academic freedom.

Under the current statutory framework, HEFCW already regulates fee limits, fee-plan activities, quality of education and the organisation and management of institutions' financial affairs. The Bill does not impose a general duty on HEFCW to either protect academic freedom or not to do anything that would limit academic freedom, because current legislation does not place HEFCW under such an express duty or restriction. It is worth noting that the provisions currently in force under the Higher Education Act 2004, which place HEFCW under a duty to have regard to the desirability of protecting academic freedom, will be replaced with the more robust duty set out in section 47. As such, this Bill already provides enhanced protection to institutions in this area.

Gan symud nawr at welliannau 40 a 41, a gyflwynwyd gan Aled Roberts, a gwelliant 44, a gyflwynwyd gan Suzy Davies, rwy'n ymwybodol o bryderon rhanddeiliaid am y gwahaniaethau rhwng y darpariaethau yn y Bil hwn a rhai Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Fodd bynnag, credaf nad oes cyfiawnhad dros y pryderon hynny. Mae nifer y cyfyngiadau a nodir yn Neddf 1992 yn ymwneud â chyfyngiadau ar yr amodau y caiff Gweinidogion Cymru eu hatodi at gyllid a ddyrennir i CCAUC a'r telerau a'r amodau y caiff CCAUC eu hunain eu hatodi at gyllid a ddyrennir i sefydliadau. Nid yw'r Bil yn ymwneud â threfniadau cyllido CCAUC ac, o ganlyniad, nid yw cyfyngiadau sy'n ymwneud â thelerau ac amodau ariannu yn berthnasol i swyddogaethau newydd CCAUC o dan y Bil. Yn syml, ni fydd rhai o'r cyfyngiadau yn Neddf 1992 yn darllen ar draws i'r system reoleiddio a nodir yn y Bil hwn.

Mae ystyriaeth fanwl wedi ei rhoi i welliannau 40, 41 a 44, pob un ohonynt yn berthnasol i adran 47. Yn fy marn i, mae'r holl welliannau hyn naill ai'n ddiangen neu gallent arwain at broblemau i CCAUC wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil. Byddaf yn trafod pob gwelliant yn ei dro. Byddai gwelliant 41 yn gosod CCAUC o dan ddyletswydd wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau dan y Bil i ystyried unrhyw nodweddion arbennig unrhyw sefydliad o fewn y sector AU. Mae'r gwelliant hwn yn ddiangen am y rheswm syml y bydd y system reoleiddio newydd yn berthnasol i bob sefydliad â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym, heb ystyried unrhyw nodweddion arbennig sefydliadau o'r fath.

Mae adran 66 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn mynnu bod CCAUC, wrth ddarparu cymorth ariannol i sefydliadau, yn ystyried, i'r graddau y mae'n credu sy'n briodol, dymunoldeb cadw eu nodweddion unigryw. Bydd yr adran honno o Ddeddf 1992 yn parhau mewn grym ar gyfer unrhyw gyllid y caiff CCAUC ddyrannu i sefydliadau. Fodd bynnag, nid oes gan ddarpariaeth o'r fath unrhyw ran i'w chwarae yn y system reoleiddio addysg uwch fel y nodir yn y Bil. Nid yw'n cyd-fynd â swyddogaethau CCAUC o dan y Bil nad ydynt yn ymwneud â chyllido sefydliadau.

Byddai Gwelliannau 40 a 44 yn dileu ac yn ailosod dyletswydd bresennol CCAUC o dan adran 47 i ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academiaidd wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau o dan y Bil. O dan welliant 40, byddai'n rhaid i CCAUC, a dyfynnaf, 'ddiogelu rhyddid academiaidd', ond o dan welliant 44, byddai'n rhaid i CCAUC beidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n cyfyngu ar ryddid academiaidd.

O dan y fframwaith statudol cyfredol, mae CCAUC eisoes yn rheoleiddio terfynau ffioedd, gweithgareddau cynllunio ffi, ansawdd yr addysg a'r sefydliad a rheoli materion ariannol y sefydliadau. Nid yw'r Bil yn gosod dyletswydd gyffredinol ar CCAUC i naill ai amddiffyn rhyddid academiaidd neu beidio â gwneud unrhyw beth a fyddai'n cyfyngu ar ryddid academiaidd, gan nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi CCAUC o dan ddyletswydd neu gyfyngiad penodol o'r fath. Mae'n werth nodi y bydd y darpariaethau ar hyn o bryd mewn grym o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, sy'n gosod dyletswydd ar CCAUC i roi sylw i ddymunoldeb diogelu rhyddid academiaidd, yn cael eu disodli gan y ddyletswydd fwy cadarn a nodir yn adran 47. Fel y cyfryw, mae'r Bil hwn eisoes yn darparu gwell diogelwch i sefydliadau yn y maes hwn.

However, I believe that this Bill must also ensure that the interests of students and the reputation of Welsh HE are properly protected. In exercising their new functions, HEFCW will be required to balance the importance of protecting academic freedom with ensuring that students' interests, the wider public interest and the reputation of the Welsh HE sector are protected. Striking the correct balance between each of these interests will be vital in maintaining a thriving HE sector in Wales. I believe that amendment numbers 40 and 44 could potentially hinder HEFCW's ability to strike the right balance in this area. To sum up, amendment 35 to section 6 does not provide any additional protections to institutions and I believe it's unnecessary. Amendments 40, 41 and 44 to section 47 are, in my opinion, neither necessary nor workable, and I urge Members to resist them.

Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid i'r Bil hwn hefyd sicrhau bod buddiannau'r myfyrwyr ac enw da AU yng Nghymru yn cael eu diogelu'n briodol. Wrth arfer eu swyddogaethau newydd, bydd gofyn i CCAUC sicrhau cydbwysedd rhwng pwysigrwydd diogelu rhyddid academaidd a sicrhau bod buddiannau myfyrwyr, budd ehangach y cyhoedd ac enw da'r sector AU yng Nghymru yn cael eu diogelu. Bydd cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng pob un o'r buddiannau hyn yn hanfodol o ran cynnal sector addysg uwch ffyniannus yng Nghymru. Credaf y gallai gwelliannau rhif 40 a 44 o bosibl lesteirio gallu CCAUC i sicrhau'r cydbwysedd cywir yn y maes hwn. I grynhoi, nid yw gwelliant 35 i adran 6 yn darparu unrhyw ddiogelwch ychwanegol i sefydliadau ac rwy'n credu ei fod yn ddiangen. Nid yw gwelliannau 40, 41 a 44 i adran 47, yn farn i, yn angenrheidiol nac yn ymarferol, ac rwy'n annog yr Aelodau i'w gwrthod.

16:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Aled Roberts to reply.

Aled Roberts i ymateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:50 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch. Mae'n amlwg erbyn hyn bod yna wahaniaeth barn rhwng y gwrthbleidiau ac, i ddweud y gwir, rhwng y sector a'r Llywodraeth ynglŷn â natur y berthynas rhwng y Llywodraeth a HEFCW, i ryw raddau, a hefyd nad oes digon o ddiogelu annibyniaeth y sector a rhyddid academaidd, yn y pen draw. Mi roedd yna drafodaeth hir ar hyn yn ystod y craffu gan y pwyllgor ac roeddwn i'n gobeithio y byddai'r Llywodraeth wedi cydnabod rhai o'r pryderon ymysg y sector a hefyd ymysg y gwrthbleidiau. Rwy'n cytuno efo Suzy Davies i ryw raddau; hwyrach y byddai'n ceisio bod dipyn bach mwy radical na hi—ddim am y tro cyntaf—a mater o raddfa ydy o. Ond, yn y pen draw, nid yw'r Gweinidog yn barod i dderbyn y natur radicalaidd na'r natur mwy cymedrol sy'n cael ei roi gerbron y Cynulliad heddiw. Rwy'n gobeithio na fyddwn ni yma ymhen ychydig flynyddoedd yn dweud, 'Wel, nid yw natur y berthynas yn ddigon i ddiogelu annibyniaeth a rhyddid academaidd'. Ond amser a ddengys, o achos, mae'n amlwg erbyn hyn nad yw'r Llywodraeth wedi cymryd unrhyw sylw o gwbl o'r pryderon hynny a byddan nhw'n pleidleisio i adlewyrchu'r safiad yna.

Thank you. It is now evident that there is a difference of opinion between the opposition parties and, to be honest, between the sector and the Government regarding the nature of the relationship between the Government and HEFCW, to some extent, and also that there isn't, ultimately, sufficient safeguarding of the sector's autonomy and academic freedom. There was a lengthy discussion on this during committee scrutiny and I had hoped that the Government would have acknowledged some of the concerns from among the sector and opposition parties. I agree with Suzy Davies to some extent; I may try to be a little more radical than her—not for the first time—and it is a matter of scale. But, ultimately, the Minister isn't willing to accept the radical nature or the more moderate nature being put before the Assembly today. I hope that we won't return in a few years and say, 'Well, the nature of the relationship isn't sufficient to safeguard autonomy and academic freedom'. But time will tell, because it is now clear that the Government hasn't paid any attention whatsoever to those concerns and they will vote to reflect that stance.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

16:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 35 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. The vote in favour 27, the vote against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 35 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gwrthodwyd gwelliant 35: O blaid 27, yn erbyn 27, ymatal 0.

Amendment 35 not agreed: For 27, Against 28, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 35.](#)

[Result of the vote on amendment 35.](#)

16:52	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 3.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 3 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 3.</p> <p><i>Amendment 3 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:52	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:52	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 3 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 3 ei dderbyn felly.</p> <p><i>Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:52	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 4.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 4 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 4.</p> <p><i>Amendment 4 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:52	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:52	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 4 be agreed. Does any Member object? Then amendment 4 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 4 ei dderbyn felly.</p> <p><i>Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:53	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 5.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 5 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 5.</p> <p><i>Amendment 5 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:53	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:53	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 5 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 5 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Caiff gwelliant 5 ei dderbyn felly.</p> <p><i>Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:53	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Bethan Jenkins, amendment 27.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 27 (Bethan Jenkins).</i></p>	<p>Bethan Jenkins, gwelliant 27.</p> <p><i>Amendment 27 (Bethan Jenkins) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

16:53	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography Formally.	Yn ffurfiol.	Senedd.tv Fideo Video
16:53	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 27 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. Voted in favour 27. Voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 27 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid. Pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 27: O blaid 27, yn erbyn 27, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 27 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.</i>	
	<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 27	Result of the vote on amendment 27	
	Grŵp 4: Cynlluniau Ffioedd a Mynediad—Gorfodi (Gwelliannau 6, 6A, 6B, 14, 15, 16, 17 ac 20)	Group 4: Fee and Access Plans—Enforcement (Amendments 6, 6A, 6B, 14, 15, 16, 17 and 20)	
16:53	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The next group of amendments relates to fee and access plans. The lead amendment in this group is amendment 6. I call on the Minister to move and speak on the lead amendment and the other amendments in the group.	Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â chynlluniau ffioedd a mynediad. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 6. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant a siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 6 (Huw Lewis).</i>	<i>Amendment 6 (Huw Lewis) moved.</i>	
16:53	Huw Lewis Bywgraffiad Biography Thank you, Deputy Presiding Officer. I'll begin by setting out my reasons for bringing forward amendments to section 13 of the Bill. Section 13 of the Bill, as introduced, enables the Welsh Ministers to make regulations concerning the steps to be taken by HEFCW if they are satisfied that a regulated institution has failed to comply with the general provisions of its approved plan. At Stage 2 I brought forward an amendment that sought to address the Children, Young People and Education Committee's Stage 1 report recommendations. That amendment fell at Stage 2. However I feel strongly that amendment number 6, which proposes a new section 13, alongside other amendments to sections 4, 6, 36, 38 and 40 of the Bill, addresses the concerns of the committee by, first of all, removing a regulation making power, secondly, placing more detail on the face of the Bill, and thirdly, providing clarity about the Government's policy intention with regard to enforcement of fee and access plan commitments.	Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Dechreuaf drwy nodi fy rhesymau dros gyflwyno gwelliannau i adran 13 o'r Bil. Mae adran 13 o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y camau i'w cymryd gan CCAUC os yw wedi'i fodloni bod sefydliad a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau cyffredinol ei gynllun cymeradwy. Yn ystod Cyfnod 2 cyflwynais welliant a oedd yn ceisio rhoi sylw i argymhellion adroddiad Cam 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Methodd y gwelliant hwnnw yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, rwy'n teimlo'n gryf bod gwelliant rhif 6, sy'n cynnig adran 13 newydd, ochr yn ochr â gwelliannau eraill i adrannau 4, 6, 36, 38 a 40 y Bil, yn mynd i'r afael â phryderon y pwyllgor drwy, yn gyntaf oll, gael gwared â'r pŵer i wneud rheoliadau, yn ail, drwy roi mwy o fanylion ar wyneb y Bil, ac yn drydydd, drwy ddarparu eglurder ynghylch bwriad polisi'r Llywodraeth o ran gorfodi ymrwymadau cynllun ffioedd a mynediad.	Senedd.tv Fideo Video

The effect of the amendment to section 13 is to enable HEFCW to direct the governing body of an institution to take steps, or to refrain from taking steps, for the purpose of dealing with, or preventing a failure to comply with, a general requirement of the institution's approved fee and access plan. This amendment is necessary to ensure that HEFCW is able to require institutions to undertake activities that they have voluntarily committed to in their approved plans. Such commitments might relate, by way of example, to the retention of students from under-represented groups.

Members will also wish to note that the new section 13(5) provides that HEFCW will not be able to issue a direction under section 13 if they are satisfied that the governing body has taken all reasonable steps to comply with the requirement in question. This will provide an important additional protection to institutions in respect of circumstances that might be beyond their control.

Amendment 6A tabled by Aled Roberts and amendment 6B tabled by Suzy Davies both seek to amend Government amendment 6 to section 13 of the Bill. In my opinion, these amendments are unnecessary and I will briefly cover both in turn. Amendment 6A, which seeks to insert a new reasonableness requirement into the issuing of directions under section 13, is unnecessary because HEFCW is a public body and must exercise its functions in a reasonable and rational manner. HEFCW is subject to the usual requirements of administrative law that governs the taking of decisions by public bodies. If HEFCW are satisfied that a governing body has failed to comply with the general requirement of its approved plan, and that it is not taking all reasonable steps to comply with the requirement, then HEFCW may, if they consider it appropriate, take enforcement action under section 13. In making a decision to use its powers, HEFCW must act in a reasonable and rational manner. Those powers do not need to be qualified again as would be the case under amendment 6A. Indeed, to do so may cast doubt on how HEFCW should exercise their other statutory functions.

Turning now to amendment 6B, which seeks to introduce a regulation-making power into Government amendment 6, I'm aware that stakeholders have expressed concerns about the extent of HEFCW's powers of direction and I believe that this amendment provides clarity about the scope of those powers. The amendment's narrow focus on the general requirements of a plan, rather than the broader general provisions of a plan, as at present, means that it's no longer necessary to retain provisions such as section 13(2)(b). HEFCW will be able to determine whether an institution has failed to comply with a commitment to undertake a specific activity without the need for further guidance or clarification via regulations. For that reason, I consider amendment 6B to be unnecessary.

Effaith y gwelliant i adran 13 yw galluogi CCAUC i gyfarwyddo corff llywodraethu sefydliad i gymryd camau, neu i ymatal rhag cymryd camau, er mwyn ymdrin â, neu atal methiant i gydymffurfio â, gofyniad cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy'r sefydliad. Mae'r gwelliant hwn yn angenrheidiol i sicrhau bod CCAUC yn gallu ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ymgymryd â gweithgareddau y maent wedi ymrwymo yn wirfoddol iddynt yn eu cynlluniau a gymeradwywyd. Gallai ymrwymadau o'r fath fod yn berthnasol, er enghraifft, i gadw myfyrwyr o grwpiau lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol.

Bydd yr Aelodau hefyd yn dymuno nodi bod y rhan 13(5) newydd yn darparu na chaiff CCAUC gyhoeddi cyfarwyddyd o dan adran 13 os yw wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad o dan sylw. Bydd hyn yn darparu diogelwch ychwanegol pwysig i sefydliadau mewn cysylltiad ag amgylchiadau a allai fod y tu hwnt i'w rheolaeth.

Mae gwelliant 6A a gyflwynwyd gan Aled Roberts a gwelliant 6B a gyflwynwyd gan Suzy Davies yn ceisio diwygio gwelliant 6 y Llywodraeth i adran 13 o'r Bil. Yn fy marn i, mae'r gwelliannau hyn yn ddiangen, a byddaf yn ymdrin â nhw yn fyr yn eu tro. Mae gwelliant 6A, sy'n ceisio mewnosod gofyniad rhesymoldeb newydd i gyhoeddi cyfarwyddiadau o dan adran 13, yn ddiangen oherwydd bod CCAUC yn gorff cyhoeddus ac mae'n rhaid iddo arfer ei swyddogaethau mewn modd rhesymol a rhesymegol. Mae CCAUC yn ddarostyngedig i ofynion arferol y gyfraith weinyddol sy'n llywodraethu gwneud penderfyniadau gan gyrff cyhoeddus. Os yw CCAUC yn fodlon bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol ei gynllun cymeradwy, ac nad yw'n cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad, yna gall CCAUC, os yw o'r farn bod hynny'n briodol, gymryd camau gorfodi dan adran 13. Wrth wneud penderfyniad i ddefnyddio ei bwerau, mae'n rhaid i CCAUC weithredu mewn modd rhesymol a rhesymegol. Nid oes angen cymhwyso'r bwerau hynny unwaith eto fel y byddai'n digwydd dan welliant 6A. Mewn gwirionedd, gallai gwneud hynny o bosibl fwrw amheuaeth ar sut y dylai CCAUC arfer ei swyddogaethau statudol eraill.

Gan droi yn awr at welliant 6B, sy'n ceisio cyflwyno pŵer i wneud rheoliadau i welliant 6 y Llywodraeth, rwy'n ymwybodol bod rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch faint o bwerau cyfarwyddo sydd gan CCAUC ac rwy'n credu bod y gwelliant hwn yn rhoi eglurder ynghylch cwmmpas y bwerau hynny. Mae pwyslais cul y gwelliant ar ofynion cyffredinol y cynllun, yn hytrach na darpariaethau cyffredinol ehangach cynllun, fel sy'n bodoli ar hyn o bryd, yn golygu nad yw bellach yn angenrheidiol i gadw darpariaethau megis adran 13(2)(b). Bydd CCAUC yn gallu penderfynu pa un a yw sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag ymrwymiad i ymgymryd â gweithgaredd penodol heb fod angen arweiniad neu eglurhad pellach drwy reoliadau. Am y rheswm hwnnw, rwyf o'r farn fod gwelliant 6B yn ddiangen.

Members will note that I've also brought forward a number of other amendments in consequence of amendment 6. These are designed to ensure that the direction power in amendment 6 is harmonised with procedures and protections associated with the other direction powers in the Bill. I'll summarise each of these consequential amendments in turn.

Amendments 14 and 15 amend section 36. Amendment 14 clarifies the circumstances in relation to which HEFCW may refuse to approve a new fee and access plan for an institution, by adding reference to the direction power introduced by amendment 6. This means that where HEFCW are satisfied that an institution has failed to comply with a direction relating to a general requirement failure, they may give notice that they will not approve a new plan relating to the institution before the end of a specified period. This corresponds with the position in respect of a number of other direction powers in the Bill.

Amendment 15 ensures that if a former regulated institution fails to comply with a direction under the new section 13, HEFCW will continue to be able to give a notice under section 36 to that institution. In my view, it's right that HEFCW is able to enforce agreed fee plan requirements, even after a plan has ceased to have effect. Although the institution may no longer be a regulated institution, it will have received all of the benefits of being part of the regulated system, including of course the public money, and should be required to undertake activity it has voluntarily committed to.

Amendment 16 amends section 38 and its purpose is to extend the conditions listed in section 38(2), in relation to which HEFCW may withdraw their approval of the fee and access plan relating to an institution. Where HEFCW are satisfied that the governing body of an institution has failed to comply with a direction given under the new section 13 proposed under amendment 6, HEFCW may withdraw their approval of the fee and access plan relating to the institution by giving notice to the institution's governing body.

Turning to amendment 17, which amends section 40, this amendment is designed to ensure that institutions are afforded the same procedural protection in respect of directions issued under the proposed amendment 6 as they are in respect of other directions already set out in the Bill. These protections involve the giving of warning notices by HEFCW and the availability of independent reviews.

Finally, DPO, turning to amendment 20, which amends section 51, section 51 of the Bill requires HEFCW to prepare and publish a statement that sets out how they propose to exercise certain intervention functions. This amendment provides that the new direction power proposed by amendment 6 is classed as an 'intervention function' for this purpose. This will ensure that institutions are informed about how HEFCW will exercise this new function, alongside its other intervention functions.

Bydd yr Aelodau'n nodi fy mod hefyd wedi cyflwyno nifer o newidiadau eraill o ganlyniad i welliant 6. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i sicrhau bod y pŵer cyfarwyddo yng ngwelliant 6 yn cael ei gysoni â gweithdrefnau a mesurau diogelwch sy'n gysylltiedig â'r pwerau cyfarwyddo eraill yn y Bil. Rwyf am grynhai pob un o'r gwelliannau canlyniadol hyn yn eu tro.

Mae gwelliannau 14 a 15 yn diwygio adran 36. Mae gwelliant 14 yn egluro'r amgylchiadau pryd y gall CCAUC wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd ar gyfer sefydliad, drwy ychwanegu cyfeiriad at y pŵer cyfarwyddo a gyflwynwyd gan welliant 6. Mae hyn yn golygu, pan fo CCAUC yn fodlon bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd sy'n ymwneud â methiant gofyniad cyffredinol, caiff roi rhybudd na fydd yn cymeradwyo cynllun newydd yn ymwneud â'r sefydliad cyn diwedd cyfnod penodol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sefyllfa ynglŷn â nifer o bwerau cyfarwyddo eraill yn y Bil.

Mae gwelliant 15 yn sicrhau os yw sefydliad a reoleiddiwyd yn flaenorol yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd o dan yr adran 13 newydd, bydd CCAUC yn parhau i allu rhoi hysbysiad o dan adran 36 i'r sefydliad hwnnw. Yn fy marn i, mae'n iawn bod CCAUC yn gallu gorfodi gofynion cynllun ffioedd y cytunwyd arno, hyd yn oed ar ôl i gynllun beidio â bod yn weithredol. Er y gall y sefydliad fod yn sefydliad na reoleiddir bellach, bydd wedi derbyn yr holl fanteision o fod yn rhan o'r system a reoleiddir, gan gynnwys, wrth gwrs, yr arian cyhoeddus, a dylai fod yn ofynnol iddo ymgymryd â gweithgarwch y mae wedi ymrwymo yn wirfoddol iddo.

Mae gwelliant 16 yn diwygio adran 38 a'i bwrpas yw ymestyn yr amodau a restrir yn adran 38(2), y caiff CCAUC, mewn cysylltiad â hwy, dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i gynllun ffioedd a mynediad sy'n berthnasol i sefydliad. Pan fo CCAUC yn fodlon bod corff llywodraethu sefydliad wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan yr adran 13 newydd a gynigir dan welliant 6, caiff CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth i'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n berthnasol i'r sefydliad drwy roi rhybudd i gorff llywodraethol y sefydliad.

I droi at welliant 17, sy'n diwygio adran 40, mae'r gwelliant hwn wedi'i gynllunio i sicrhau bod sefydliadau'n cael yr un diogelwch gweithdrefnol o ran cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd o dan y gwelliant 6 arfaethedig ag y maent o ran cyfarwyddiadau eraill sydd eisoes wedi'u nodi yn y Bil. Mae'r diogelwch hwn yn cynnwys cyflwyno hysbysiadau rhybudd gan CCAUC a bod adolygiadau annibynnol ar gael.

Yn olaf, Ddirprwy Lywydd, gan droi at welliant 20, sy'n diwygio adran 51, mae adran 51 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer swyddogaethau ymyrraeth penodol. Mae'r gwelliant hwn yn darparu bod y pŵer cyfarwyddo newydd a gynigir gan welliant 6 yn cael ei ystyried yn 'swyddogaeth ymyrraeth' at y diben hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod sefydliadau yn cael gwybod sut y bydd CCAUC yn arfer y swyddogaeth newydd hon, ochr yn ochr â'i swyddogaethau ymyrraeth eraill.

17:01	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Will the Minister give way?	A wnaiff y Gweinidog ildio?	Senedd.tv Fideo Video
17:01	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	I will.	Gwnaf.	Senedd.tv Fideo Video
17:01	Simon Thomas Bywgraffiad Biography	Thank you, Minister. Will you just use the opportunity to clarify that these powers will not be used for very minor matters, to call in or stop a fee and access plan, but rather be used in the spirit of the Bill for actual persistent or serious breaches by an institution?	Diolch i chi, Weinidog. A wnewch chi ddefnyddio'r cyfle dim ond i'w gwneud yn eglur na fydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer materion mân iawn, i alw i mewn neu i atal cynllun ffioedd a mynediad, ond yn hytrach yn cael eu defnyddio yn ysbryd y Bil ar gyfer sefydliad mewn gwirionedd yn torri ymrwymiadau mewn modd parhaus neu ddirifol?	Senedd.tv Fideo Video
17:02	Huw Lewis Bywgraffiad Biography	I'd be happy so to do, Deputy Presiding Officer, in the spirit of putting on record here the context around this legislation. Simon Thomas is quite right here, and, of course, all those safeguards in the Bill that relate to 'staged interventions' and 'reasonableness' in terms of HEFCW's actions, should safeguard against that, as well as the oversight of ourselves as an Assembly.	Byddwn yn hapus i wneud hynny, Ddirprwy Lywydd, yn yr ysbryd o roi ar gofnod yma y cyd-destun o gwmpas y ddeddfwriaeth hon. Mae Simon Thomas yn llygad ei le yma, ac, wrth gwrs, dylai pob un o'r mesurau diogelu hynny yn y Bil sy'n ymwneud ag 'ymyraethau fesul cam' a 'rhesymoldeb' o ran camau gweithredu CCAUC, ddiogelu yn erbyn hynny, yn ogystal â goruchwylio ein hunain fel Cynulliad.	Senedd.tv Fideo Video
		If I could just conclude, Deputy Presiding Officer, amendments 6, 14, 15, 16, 17 and 20 make clear the Government's policy intent that HEFCW's enforcement of fee and access plans is to be focused on the commitments made by institutions in their approved plans, and that a safeguard should be afforded to institutions that undertake all reasonable steps to comply with those commitments. So, I urge Members to support these amendments and to resist amendments 6A and 6B.	Os caf i gloi, Ddirprwy Lywydd, mae gwelliannau 6, 14, 15, 16, 17 a 20 yn gwneud bwriad polisi'r Llywodraeth yn glir fod gorfodi cynlluniau ffioedd a mynediad CCAUC i'w ganolbwyntio ar yr ymrwymiadau a wnaed gan sefydliadau yn eu cynlluniau cymeradwy, ac y dylai dull diogelu gael ei ganiatáu i sefydliadau sy'n cynnal pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r ymrwymiadau hynny. Felly, rwy'n annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn ac i wrthod gwelliannau 6A a 6B.	
17:03	Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Members, there are three core provisions in this Bill: the requirements of a fee and access plan, the failure to comply with that plan and its immediate consequences, and the future consequences of failure to comply. The question of what happens to institutions that fail to comply with the restrictions and freedom introduced by this Bill, with the requirement of approved fee and access plans, has been a vexed one, and we have sought at various stages to ensure that the restrictions are narrow in scope, clear in their intent and content, and that sanctions for failure to comply are proportionate. Because these restrictions are so significant, I think they merit the closest attention.	Aelodau, mae tair darpariaeth graidd yn y Bil hwn: gofynion cynllun ffioedd a mynediad, y methiant i gydymffurfio â'r cynllun hwnnw a'i ganlyniadau uniongyrchol, a chanlyniadau yn y dyfodol o fethu â chydymffurfio. Mae'r cwestiwn o beth sy'n digwydd i sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio â'r cyfyngiadau a'r rhyddid a gyflwynir gan y Bil hwn, gyda'r gofyniad o gynlluniau ffioedd a mynediad cymeradwy, wedi bod yn un dyrys, ac rydym wedi ceisio ar wahanol adegau sicrhau bod y cyfyngiadau yn gul eu cwmpas, yn glir yn eu bwriad a'u cynnwys, a bod cosbau am fethu â chydymffurfio yn gymesur. Oherwydd bod y cyfyngiadau hyn mor bwysig, rwy'n meddwl eu bod yn haeddu'r sylw mwyaf gofalus.	Senedd.tv Fideo Video
		The Government's amendment 6 goes a considerable way to meeting concerns raised about the immediate consequences of failure to comply with the general requirements of a fee and access plan, and I thank the Minister for listening on that and tabling amendment 6, and I also reinforce his point about the harmonisation of the type of powers that HEFCW can exercise. The Bill now contains a definition of general requirements, and this new section makes it clear that HEFCW has power to act in one of two specific circumstances: failure to comply, and likely failure to comply, with those general requirements. I think that drafting is an improvement.	Mae gwelliant 6 y Llywodraeth i raddau helaeth yn diwallu pryderon a godwyd am ganlyniadau uniongyrchol y methiant i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad, ac rwy'n diolch i'r Gweinidog am wrando ar hynny a chyflwyno gwelliant 6, ac rwyf hefyd yn atgyfnerthu ei bwynt ynghylch cysoni'r math o bwerau y caiff CCAUC eu hymarfer. Mae'r Bil erbyn hyn yn cynnwys diffiniad o ofynion cyffredinol, ac mae'r adran newydd hon yn ei gwneud yn glir bod gan CCAUC bŵer i weithredu mewn un o ddau amgylchiad penodol: methiant i gydymffurfio, a methiant tebygol i gydymffurfio, â'r gofynion cyffredinol hynny. Credaf fod drafftio yn welliant.	

Now, I appreciate what you said earlier in these debates, Minister, that HEFCW has a duty to act reasonably in the exercise of all its powers, but what is missing from the section, as you have introduced it through amendment, is any indication of proof—or standard of proof, I think, is probably better—that HEFCW would have to meet in making an accusation of failure or, I think perhaps more importantly, likely failure. I think that my amendment 6B addresses that. I just want to reinforce that it's not simply trying to reintroduce a draft section that was removed at Stage 2. Regulations introduced under this amendment speak directly to how HEFCW would prove a failure or likely failure to comply. And, actually, I think that providing HEFCW with some minimum, perhaps non-exhaustive guidance, through regulation on what evidence it would need to support an accusation—a threshold of some type—not only helps HEFCW make its case, but helps institutions to defend themselves where such thresholds are not met, because no-one in this Chamber, I hope, would wish to see the delay and the cost and the stasis involved of HEFCW and an institution, possibly a troubled institution, wrangling over whether a breach had occurred or not, and institutions will definitely wrangle if they are fighting for their reputations.

Now, for those who think that this might be a detail too far, I ask them to take a quick look at section 38 of this Bill. This refers to HEFCW's power to withdraw approval for an existing fee and access plan, which, again, would be a serious blow to the reputation of an institution. Here, there is an acknowledgement that HEFCW needs some guidance about how to evidence the appropriateness of its decision to act in the event of a failure to comply. Section 38(4) allows for future regulations to determine a standard of proof, if you like. And I think similar assistance is necessary when an institution is accused of failure to comply under the new section introduced by amendment 6. So, I do recommend my amendment to that amendment to the Chamber.

With regard to amendment 6A, at the moment—and maybe I can be persuaded on this, Aled—I think that the amendment adds confusion, not clarity. Now, I think that the intent is that HEFCW should not be unreasonably satisfied, and that is a concept that we support and which is actually underlined in my amendment 6B. However, the way that it's currently drafted allows for an interpretation at the other end of the scale that HEFCW need only be reasonably satisfied—not cast-iron satisfied, not meeting-all-evidential-requirements-and-more satisfied—before it embarks on a journey of enforcing compliance. As HEFCW already has a duty to act reasonably, I don't think that amendment 6A as it stands alone really adds anything, and I note the Minister's comments earlier. But I think that combined with amendment 6B, which speaks to evidential burden, it would make a difference. So, I look forward to your response to that.

Nawr, rwy'n gwerthfawrogi'r hyn a ddywedasochoch yn gynharach yn y dadleuon hyn, Weinidog, fod gan CCAUC ddyletswydd i ymddwyn yn rhesymol wrth arfer ei holl bwerau, ond beth sydd ar goll o'r adran, fel yr ydych wedi ei chyflwyno drwy'r gwelliant, yw unrhyw arwydd o brawf—neu safon y prawf, rwy'n meddwl, sy'n well—y byddai'n rhaid i CCAUC ei fodloni wrth wneud cyhuddiad o fethiant neu, rwy'n meddwl yn bwysicach efallai, methiant tebygol. Credaf fod fy ngwelliant 6B yn mynd i'r afael â hynny. Rwyf eisiau atgyfnerthu nad ceisio ailgyflwyno adran drafft a gafodd ei ddileu yng Nghyfnod 2 yn unig yw hyn. Mae rheoliadau a gyflwynwyd o dan y gwelliant hwn yn siarad yn uniongyrchol ynghylch sut y byddai CCAUC yn profi methiant neu fethiant tebygol i gydymffurfio. Ac, mewn gwirionedd, rwy'n meddwl y byddai darparu CCAUC â rhywfaint, efallai o gyfarwyddyd heb fod yn gynhwysfawr, drwy reoleiddio ar ba dystiolaeth fyddai ei angen arno i gefnogi cyhuddiad—trothwy o ryw fath—nid yn unig yn helpu CCAUC i wneud ei achos, ond yn helpu sefydliadau i amddiffyn eu hunain pan na fodlonir trothwyon o'r fath, oherwydd nad oes unrhyw un yn y Siambr hon, rwy'n gobeithio, yn dymuno gweld yr oedi a'r gost a'r diffyg gweithredu sy'n gysylltiedig â chael CCAUC a sefydliad, sefydliad mewn trafferthion o bosibl, yn dadlau ynghylch pa un a oedd torri rheolau wedi digwydd ai peidio, a bydd sefydliadau yn bendant yn barod i ffræo os ydynt yn ymladd am eu henw da.

Nawr, ar gyfer y rhai sy'n credu y gallai hwn fod yn un manylyn yn ormod, gofynnaf iddynt gymryd golwg sydyn ar adran 38 o'r Bil hwn. Mae hon yn cyfeirio at bŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad sy'n bodoli eisoes, a fyddai, unwaith eto, yn ergyd ddifrifol i enw da'r sefydliad. Yma, ceir cydnabyddiaeth bod angen peth arweiniad ar CCAUC ynglŷn â sut i ddangos pa mor briodol yw ei benderfyniad i weithredu mewn achos o fethiant i gydymffurfio. Mae adran 38(4) yn caniatáu ar gyfer rheoliadau yn y dyfodol i benderfynu ar safon prawf, os mynnwch chi. Ac rwy'n meddwl bod cymorth tebyg yn angenrheidiol pan fydd sefydliad yn cael ei gyhuddo o fethu â chydymffurfio o dan yr adran newydd a gyflwynwyd gan welliant 6. Felly, rwyf yn argymhell fy ngwelliant i'r gwelliant hwnnw i'r Siambr.

O ran gwelliant 6A, ar hyn o bryd—ac efallai y gellir fy mherswadio ar hyn, Aled—credaf fod y gwelliant yn ychwanegu dryswch, nid eglurder. Nawr, credaf mai'r bwriad yw na ddylai CCAUC fod yn afresymol o fodlon, ac mae hynny'n gysyniad yr ydym yn ei gefnogi ac sy'n cael ei danlinellu mewn gwirionedd yn fy ngwelliant 6B. Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd yn caniatáu ar gyfer dehongliad ar ben arall y raddfa nad oes ond angen i CCAUC fod yn rhesymol fodlon—nid yn hollol fodlon, nid yn diwallu pob gofyniad tystiolaethol a mwy bodlon—cyn iddo gychwyn ar daith o orfodi cydymffurfiaid. Gan fod gan CCAUC ddyletswydd i weithredu'n rhesymol eisoes, nid wyf yn credu bod gwelliant 6A fel y mae'n sefyll ar ei ben ei hun yn ychwanegu unrhyw beth mewn gwirionedd, a nodaf sylwadau'r Gweinidog yn gynharach. Ond rwy'n credu o'i gyfuno â gwelliant 6B, sy'n siarad am faich tystiolaethol, byddai yn gwneud gwahaniaeth. Felly, edrychaf ymlaen at eich ymateb i hynny.

I will try to convince Suzy Davies for the first time. I can confirm that what we were looking at here was the evidential burden, and seeking to ensure that the power was not exercised unreasonably. Certainly, we felt that your particular amendment was going about the same thing, but going through it a different way. Certainly, we were quite content to support 6B if 6A falls.

What we have here, I think, is a nervousness about the threshold at which HEFCW will actually potentially exercise these powers. We shall be supporting the Government amendments, and I certainly think that the amendments put forward by the Government do actually seek to reassure us, although I think there is danger of a conflict between amendment 6 and amendment 16. The purpose of amendment 6, as I read it, is to replace the current section 13 of the Bill and, in doing so, actually replace the current regulation-making power in that section with a new HEFCW function on the face of the Bill. The effect of this amendment is to enable HEFCW to direct the governing body of an institution to take steps, or to refrain from taking steps, for the purpose of dealing with, or preventing a failure to comply with, a general requirement of a fee and access plan. As I read it, HEFCW can only give that direction if they're satisfied that one of two conditions is met. The first condition is that a governing body has failed to comply with a general requirement of the institution's approved fee and access plan, at a time when the plan was approved under section 7. The second condition is that a governing body is likely to fail to comply with a general requirement of the approved plan. Now, the Minister seeks to reassure us that HEFCW will not be able to give a direction to the governing body under the new section if they're satisfied that the governing body has taken all reasonable steps to comply with the requirement in question. I accept what he says with regard to the application of administrative law, that it does, but I think there's need to underline the precise point that Suzy Davies made that they still should not unreasonably exercise that function.

Now, my real concern is if we read amendment 6 and amendment 16 together, because the purpose of amendment 16 is to extend the conditions listed in section 38(2) in relation to which HEFCW may withdraw their approval of the fee and access plan relating to an institution, where the governing body of a regulated institution has failed to comply with a direction given under the new section under amendment 6. The effect of this amendment is that, where HEFCW are satisfied that the governing body of a regulated institution has failed to comply with the direction given under the new section proposed under amendment 6, HEFCW can withdraw their approval of the fee and access plan by giving notice to the institution's governing body.

Rwyf am geisio argyhoeddi Suzy Davies am y tro cyntaf. Gallaf gadarnhau mai'r hyn yr oeddem yn edrych arno yn y fan yma oedd y baich tystiolaethol, a cheisio sicrhau nad oedd y pŵer yn cael ei arfer yn afresymol. Yn sicr, roeddem yn teimlo bod eich gwelliant penodol chi yn cyfeirio at yr un peth, ond yn ei drin mewn ffordd wahanol. Yn sicr, roeddem yn eithaf bodlon cefnogi 6B os yw 6A yn methu.

Yr hyn sydd gennym yma, rwy'n meddwl, yw nerfusrwydd ynghylch y trothwy lle bydd CCAUC mewn gwirionedd o bosibl yn arfer y pwerau hyn. Byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth, ac rwy'n sicr yn credu bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth wir yn ceisio rhoi sicrwydd inni, er fy mod yn meddwl bod perygl o wrthdaro rhwng gwelliant 6 a gwelliant 16. Pwrpas gwelliant 6, fel yr wyf yn ei ddarllen, yw disodli adran 13 presennol y Bil ac, wrth wneud hynny, disodli'r pŵer presennol i wneud rheoliadau yn yr adran honno mewn gwirionedd, gan roi swyddogaeth CCAUC newydd ar wyneb y Bil. Effaith y gwelliant hwn yw galluogi CCAUC i gyfarwyddo corff llywodraethu sefydliad i gymryd camau, neu i ymatal rhag cymryd camau, er mwyn ymdrin â, neu atal methiant i gydymffurfio â, gofyniad cyffredinol cynllun ffi a mynediad. Fel yr wyf i'n ei ddarllen, caiff CCAUC ddim ond rhoi'r cyfarwyddyd hwnnw os yw'n fodlon bod un o ddau amod wedi ei fodloni. Yr amod cyntaf yw bod corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy'r sefydliad, ar adeg pan oedd y cynllun wedi ei gymeradwyo o dan adran 7. Yr ail amod yw bod corff llywodraethol yn debygol o fethu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol y cynllun cymeradwy. Nawr, mae'r Gweinidog yn ceisio ein sicrhau na fydd CCAUC yn gallu rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu o dan yr adran newydd os yw'n fodlon bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad o dan sylw. Rwy'n derbyn yr hyn a ddywed ynglŷn â chymhwyso cyfraith weinyddol, fel y mae'n ei wneud, ond rwy'n meddwl bod angen tanlinellu'r union bwynt a wnaeth Suzy Davies na ddylent o hyd ddal i arfer y swyddogaeth honno yn afresymol.

Nawr, fy mhryder gwirioneddol yw os ydym yn darllen gwelliant 6 a gwelliant 16 gyda'i gilydd, oherwydd mai diben gwelliant 16 yw ymestyn yr amodau a restrir yn adran 38(2) y caiff CCAUC mewn cysylltiad â hwy dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth o'r cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad, pan fo corff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan yr adran newydd dan welliant 6. Effaith y gwelliant hwn yw, pan fo CCAUC yn fodlon bod corff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wedi methu â chydymffurfio â'r cyfarwyddyd a roddwyd o dan yr adran newydd a gynigir o dan welliant 6, y caiff CCAUC dynnu'n ôl ei gymeradwyaeth o'r cynllun ffioedd a mynediad trwy roi rhybudd i gorff llywodraethu'r sefydliad.

Now, the Government have helpfully provided a clarification note, which highlights that a plan can be withdrawn for failure to comply with a compliance and reimbursement direction where excess fees have been charged. This is the only instance in section 38 where plan approval can be withdrawn on grounds of a simple failure to comply. In all other instances, a higher threshold is required: for example, there's reference to 'persistently failed to comply' with fee limits, 'persistently failed to comply' with general plan requirements, or for 'seriously inadequate' quality issues, or for 'serious failure' to comply with the code. So, this is the only instance that failure to comply with a direction is a ground in itself for withdrawing approval, and that is what concerns us with regard to reasonableness.

I think the point that Simon Thomas made in his intervention— What assurance can we have that this will not be used at the slightest instance of failure with regard to a particular direction? I'm not convinced, on what I've heard to date, that, if we take amendment 6 and amendment 16 together, we have that degree of reassurance that the Minister would seek that we accept. So—

Nawr, mae'r Llywodraeth yn ddefnyddiol wedi darparu nodyn eglurhad, sy'n nodi y gall cynllun gael ei dynnu'n ôl am fethu â chydymffurfio â chyfarwyddyd cydymffurfio ac ad-dalu pan fo ffioedd ychwanegol wedi eu codi. Dyma'r unig enghraifft yn adran 38 lle y gall cymeradwyaeth cynllun gael ei dynnu'n ôl ar sail methiant syml i gydymffurfio. Ym mhob achos arall, mae angen trothwy uwch: er enghraifft, mae cyfeiriad at 'yn gyson wedi methu â chydymffurfio' â therfynau ffioedd, 'yn gyson wedi methu â chydymffurfio' â gofynion y cynllun cyffredinol, neu am faterion ansawdd 'difrifol o annigonol', neu am 'fethiant difrifol' i gydymffurfio â'r cod. Felly, dyma'r unig enghraifft lle mae methiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd yn sail ynddo'i hun ar gyfer tynnu cymeradwyaeth yn ôl, a dyna beth sy'n ein pryderu o ran rhesymoldeb.

Rwy'n meddwl bod y pwynt a wnaeth Simon Thomas yn ei ymyriad yn—. Pa sicrwydd sydd gennym na fydd hyn yn cael ei ddefnyddio yn y digwyddiad lleiaf o fethiant o ran cyfarwyddyd penodol? Dydw i ddim wedi fy argyhoeddi, o ran yr hyn yr wyf wedi ei glywed hyd yn hyn, os byddwn yn cymryd gwelliant 6 a gwelliant 16 gyda'i gilydd, bod gennym y lefel o sicrwydd y byddai'r Gweinidog yn gofyn i ni ei dderbyn. Felly—

17:12 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I ask if you will take an intervention on that?

A gaf i ofyn a wnewch chi dderbyn ymyriad ar hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:12 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, sure.

Gwnaf, siŵr iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:13 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I share your concerns on that, but I'm just wondering whether amendment 43 might not go some way to allay your concerns on that. Now, I appreciate it's not been grouped with this group, which makes putting the argument forward at this stage slightly difficult, but I wonder if you might give that some consideration when the time comes if necessary.

Rwy'n rhannu eich pryderon ynglŷn â hynny, ond rwy'n meddwl tybed efallai a fydd gwelliant 43 yn mynd rhywfaint o'r ffordd i dawelu eich pryderon ynglŷn â hynny. Nawr, rwy'n gwerthfawrogi nad yw wedi cael ei grwpio gyda'r grŵp hwn, sy'n gwneud rhoi'r ddadl ymlaen ar hyn o bryd ychydig yn anodd, ond tybed a wnewch chi ystyried hynny pan ddaw'r amser os bydd angen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:13 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly. And it may be that the Minister can provide us with the reassurance. I think Simon Thomas was trying to tease out and place on the record what the exact thinking of the Government was behind this. The Minister, both in committee and in Plenary, has sought to reassure us that, you know, de minimis would not apply, that we would need to be looking at a concerted course of action or a series of failures, but, at the moment, I would ask Members to read amendment 6 and amendment 16 together and come to the conclusion that they are not sufficiently reassured at this stage.

Gwnaf, yn sicr. Ac efallai y gall y Gweinidog roi'r sicrwydd inni. Rwy'n meddwl bod Simon Thomas yn ceisio cael gwybod a'i roi ar y cofnod beth yn union oedd meddylfryd y Llywodraeth y tu ôl i hyn. Mae'r Gweinidog, yn y pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn, wedi ceisio rhoi sicrwydd inni, wyddoch chi, na fyddai de minimis yn berthnasol, y byddai angen i ni fod yn edrych ar gwrs cydunol o weithredu neu gyfres o fethiannau, ond, ar hyn o bryd, gofynnaf i'r Aelodau ddarllen gwelliant 6 a gwelliant 16 gyda'i gilydd a dod i'r casgliad nad ydynt wedi cael digon o sicrwydd ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:14

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. In terms of my response to the points regarding amendment 6A, it remains my opinion—the debate has not altered my view—that this is an unnecessary amendment. HEFCW must comply with the requirements of administrative law and I believe that that point has been made very clearly.

In terms of amendment 6B, it remains my view that this amendment is unnecessary. HEFCW will be able to determine whether an institution has failed to comply with a commitment to undertake a specific activity without the need for regulations.

In terms of amendment 6, I believe this is both very necessary and that it is also a constructive response to the recommendations of the CYPE committee set out in its Stage 1 report, namely that the Bill should provide more clarity on the proposed operation of fee and access plans, the number of regulation-making powers should be reduced, and greater detail added to the face of the Bill. Now, I believe that amendment 6 responds to that constructively and properly.

In terms of the points that have been made surrounding amendments 16 and 43, of course, we will discuss those amendments. But, there may be times, of course, it is worth remembering, when we might demand that HEFCW acts swiftly—and when I say 'we', I mean that the public interest would demand that HEFCW acts swiftly—and to remove that possibility from the menu of options that are available might be viewed by the public as a very curious approach to take. For instance, in terms of overcharging through fees, I don't know that it would be—. I would attempt to persuade the public that HEFCW could only act if we were persistently diddling students: you diddle students in terms of fees and charges—you put it right straight away. There must be swift action in terms of that hypothetical situation. It's not something that could be allowed to become persistent. So, there has to be the room for manoeuvre in terms of this legislation for HEFCW to act swiftly and decisively, should the circumstances demand it.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. O ran fy ymateb i'r pwyntiau ynghylch gwelliant 6A, fy marn i yn dal i fod yw—nid yw'r ddadl wedi newid fy marn—bod hwn yn welliant diangen. Mae'n rhaid i CCAUC gydymffurfio â gofynion cyfraith weinyddol a chredaf fod y pwynt wedi'i wneud yn glir iawn.

O ran gwelliant 6B, fy marn i yn dal i fod yw bod y gwelliant hwn yn ddiangen. Bydd CCAUC yn gallu penderfynu pa un a yw sefydliad wedi methu â chydymffurfio ag ymrwymiad i ymgymryd â gweithgaredd penodol heb fod angen rheoliadau.

O ran gwelliant 6, rwy'n credu bod hwn yn angenrheidiol iawn a'i fod hefyd yn ymateb adeiladol i argymhellion y pwyllgor CYPE a nodwyd yn ei adroddiad Cam 1, sef y dylai'r Bil ddarparu mwy o eglurder ar weithrediad arfaethedig cynlluniau ffi a mynediad, a dylid lleihau nifer y pwerau i wneud rheoliadau, a dylid ychwanegu mwy o fanylion i wyneb y Bil. Nawr, rwy'n credu bod gwelliant 6 yn ymateb i hynny yn adeiladol ac yn briodol.

O ran y pwyntiau a wnaed ynghylch gwelliannau 16 a 43, wrth gwrs, byddwn yn trafod y gwelliannau hynny. Ond, efallai y bydd adegau, wrth gwrs, mae'n werth cofio, pryd y gallem fynnu bod CCAUC yn gweithredu'n gyflym—a phan yr wyf yn dweud 'ni', rwy'n golygu y byddai budd y cyhoedd yn mynnu bod CCAUC yn gweithredu'n gyflym—ac efallai y byddai cael gwared ar y posibilrwydd hwnnw o'r ddewislen o opsiynau sydd ar gael yn cael ei ystyried gan y cyhoedd fel dull rhyfedd iawn i'w gymryd. Er enghraifft, o ran codi gormod trwy ffioedd, nid wyf yn gwybod a fyddai—. Byddwn yn ceisio darbwyllo'r cyhoedd na châi CCAUC weithredu dim ond pe byddem yn barhaus yn twyllo myfyrwyr: rydych yn twyllo myfyrwyr o ran ffioedd a thaliadau—rydych yn ei gywiro ar unwaith. Rhaid bod camau cyflym o ran y sefyllfa ddamcaniaethol honno. Nid yw'n rhywbeth y gellid caniatáu iddo ddod yn barhaus. Felly, mae'n rhaid cael lle i symud o ran y ddeddfwriaeth hon er mwyn i CCAUC allu gweithredu'n gyflym ac yn bendant, os yw'r amgylchiadau yn gofyn am hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As there are two amendments to amendment 6, we will dispose of those first. Aled Roberts, amendment 6A.

Gan fod dau welliant i welliant 6, byddwn yn cael gwared ar y rheini yn gyntaf. Aled Roberts, gwelliant 6A.

Cynigiwyd gwelliant 6A (Aled Roberts).

Amendment 6A (Aled Roberts) moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ffurfiol.

Formally.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 6A be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 6A yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant *6A](#)

[Result of the vote on amendment *6A](#)

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Suzy Davies, amendment 6B. Suzy Davies, gwelliant 6B.

Cynigiwyd gwelliant 6B (Suzy Davies).

Amendment 6B (Suzy Davies) moved.

17:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Formally. Yn ffurfiol.

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 6B be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 6B yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais i yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant *6B.](#)

[Result of the vote on amendment *6B.](#)

17:17 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If amendment 6 is not agreed, amendments 14, 15, 16, 17 and 20 all fall. Os nad yw gwelliant 6 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 14, 15, 16, 17 a 20 i gyd yn methu.

The question is that amendment 6 be agreed. Does any Member object? Then amendment 6 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 6 wedi ei dderbyn felly.

Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 5: Asesu Ansawdd (Gwelliannau 31, 32, 7 ac 8)

Group 5: Quality Assessment (Amendments 31, 32, 7 and 8)

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The next group of amendments relates to quality assessment. The lead amendment in this group is amendment 31, and I call on Simon Thomas to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud ag asesu ansawdd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 31, a galwaf ar Simon Thomas i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 31 (Simon Thomas).

Amendment 31 (Simon Thomas) moved.

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n cynnig y prif welliant.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I move the lead amendment.

Cyn imi ymdroi at welliannau 31 a 32 sydd yn f'enw i, rwyf jest eisiau crybwyll y gwelliannau sydd yn enw'r Llywodraeth, gwelliannau 7 ac 8, sydd yn ymwneud â chynrychiolaeth myfyrwyr yn y broses o asesu ansawdd a dweud fy mod i'n croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth yn cynnig y gwelliannau hyn. Byddwn ni yn eu cefnogi nhw.

Before I turn to amendments 31 and 32 in my name, I just want to mention the amendments in the Government's name, amendments 7 and 8, which relate to student representation in the process of quality assessment and say that I welcome the fact that the Government is proposing these amendments. We will be supporting them.

Nawr, y cefndir i welliannau 31 a 32 yw'r ffaith bod y Bil wedi ei baratoi ar adeg pan nad ystyriwyd y peth oedd yn mynd i ddigwydd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Dyma'r asiantaeth sydd yn dilysu ansawdd ar gyfer addysg uwch drwy Brydain gyfan—wel, drwy'r Deyrnas Gyfunol, a dweud y gwir—ac mae'n bwysig. Mae'n bwysig i brifysgolion Cymru, ac mae'n bwysig i brifysgolion drwy'r Deyrnas Gyfunol bod yna gorff annibynnol sydd yn dilysu ansawdd, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd ac felly sydd yn gynsail i enw da, ar y cyfan, addysg uwch yng Nghymru a Phrydain a thu hwnt—enw da rhyngwladol yr addysg uwch sydd gennym ni yma yng Nghymru. Felly, mae parhau â chorff dilysu ansawdd annibynnol yn mynd i fod yn hollbwysig i lwyddiant y Bil yma ac i lwyddiant y prifysgolion.

Now, the background to amendments 31 and 32 is the fact that the Bill was prepared at a time when it did not take into account what was to happen to the Quality Assurance Agency for Higher Education. This is the agency that validates quality in higher education throughout the whole of Britain—throughout the whole of the UK, in fact—and it is important. It is important for Welsh universities, and it is important to universities across the UK that there is an independent body that validates quality, is responsible for quality assurance and therefore provides a foundation for the good reputation, on the whole, of higher education in Wales and Britain and beyond—the internationally good reputation of the higher education that we have in Wales. Therefore, ensuring that there is an independent quality assurance body is crucially important for the success of this Bill and the success of our universities.

Ers inni gychwyn, serch hynny, trafod y Bil a derbyn tystiolaeth ar y pwyllgor ar y Bil, fe benderfynodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr ail-wneud y broses o ddilysu ansawdd. Fe benderfynodd y cyngor hwnnw, a oedd yn arwain, mae'n ymddangos, ar y mater yma, er bod yr asiantaeth yn gweithio dros bob cenedl yn y Deyrnas Gyfunol, bod yn rhaid mynd i 'franchise' neu i dendr ar gyfer corff sy'n dilysu ansawdd. Felly, mae yna broses ar y gweill ar hyn o bryd lle mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn gorfod cystadlu yn erbyn pwy bynnag er mwyn sicrhau mai dyma'r corff sy'n dilysu ansawdd yn Lloegr o hyn ymlaen, ac, i bob pwrpas, ar gyfer Prydain gyfan. Y rheswm rwy'n dweud hynny yw mae'n amlwg wrth drafod gyda sector y prifysgolion yng Nghymru eu bod angen ac yn moyn bod yn rhan o gorff ehangach yn y Deyrnas Gyfunol, achos maen nhw'n ei weld fel rhywbeth sydd yn dda yn rhyngwladol, ac maen nhw'n ei weld fel rhywbeth sy'n adlewyrchu'n ffafriol ar statws a dilysrwydd y sector fan hyn yng Nghymru.

Since we started discussing this Bill and gathering evidence as a committee on the Bill, the Higher Education Funding Council for England has decided to redesign the process of quality assurance. That council, which, apparently, was leading on this issue, although the agency works for each nation within the UK, decided that there had to be a tender process for a quality assurance body. Therefore, there is a process ongoing at present whereby the Quality Assurance Agency for Higher Education has to compete against whichever other body wishes to tender in order to ensure that it is the body that provides quality assurance in England from hereon in, and, to all intents and purposes, for the whole of Britain. The reason I make that point is that it is clear in discussing with the university sector in Wales that they want to be part of a wider UK body, because they see it as something that is effective at an international level and that reflects favourably on the status and validity of the sector here in Wales.

Nawr, y broblem gyda'r broses yma, wrth gwrs, yw, i bob pwrpas, ein bod wedi rhoi'r penderfyniad ynglŷn â phwy sy'n dilysu addysg uwch yng Nghymru i Weinidogion yn Lloegr, ac i gorff cyllido addysg uwch yn Lloegr. Y nhw'n sy'n penderfynu ac yn rheoli'r broses. Pwrpas y ddau welliant yma yw ceisio dod â rhywfaint o reolaeth ar y broses yma yn ôl i'r Cynulliad ac yn ôl i Weinidogion Cymru.

Now, the problem with this process, of course, is that, to all intents and purposes, we have passed that decision on who validates higher education in Wales to Ministers in England, and to HEFCE. They are in control of this whole process. The purpose of these two amendments is to try to bring some control over the process back to the Assembly and back to Welsh Ministers.

Mae gwelliant 31 yn sicrhau y bydd unrhyw gorff, naill ai'r asiantaeth sicrhau ansawdd presennol, neu unrhyw gorff arall sy'n gwneud y gwaith o ddilysu ansawdd i brifysgolion yng Nghymru, yn gorff elusennol neu ddielw arall. Pam rwyf wedi penderfynu bod yn rhaid i'r corff yma fod yn un elusennol neu'n un dielw arall? Heblaw, mae'n rhaid dweud, am hanes rhyfedd ac anffodus cyrff preifat sy'n dueddol o wneud y gwaith yma y tu mewn i'r sector cyhoeddus—rydym wedi gweld y peth sy'n digwydd i'r gwasanaeth iechyd yn nwylo preifat yn Lloegr yn ddiweddar—y rheswm rwy'n ei ddweud yn benodol yw achos ei fod yn ffitio i mewn i fframwaith y Bil. Mae'r Bil dim ond yn caniatáu i brifysgolion fod yn brifysgolion cofrestredig y tu mewn i'r Bil a derbyn arian cyhoeddus os ydyn nhw'n elusennol. Mae'r Bil yn dweud hynny'n glir. Fedr wch chi ddim bod yn brifysgol a derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru oni bai eich bod yn elusen. Rwy'n meddwl ei bod yn briodol, felly, bod y corff sy'n gyfrifol am ddilysu ansawdd yn y prifysgolion hynny hefyd yn elusen neu'n gorff tebyg. Mae'r corff presennol, sef yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, yn elusen ac yn gweithio—

Suzy Davies a gododd—

17:23 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mewn munud.

[Yn parhau.]—yn elusen ac yn gweithio ar draws y sector i gyd yn yr un modd.

Fe wnaif ildio i Suzy.

Amendment 31 ensures that any body, either the current quality assurance agency, or any other body that does this work for universities in Wales, will be a charitable or not-for-profit body. Why have I decided that this body should be a charitable or not-for-profit body? Apart from, it has to be said, the strange and unfortunate history of the private firms that tend to do this work within the public sector—we only need look at the health service in private hands in England recently—the reason I make this point specifically is that it fits in with the wider framework of the Bill. The Bill allows universities to be registered universities and to receive public funding only if they have charitable status. The Bill makes that clear. You cannot be a university and be in receipt of public funds in Wales unless you are a charitable body. I think it's appropriate, therefore, that the body responsible for quality assurance within those universities should also be a charitable or similar body. The current body, namely the Quality Assurance Agency for Higher Education, is a charitable body and works—

Suzy Davies rose—

In a minute.

[Continues.]—a charitable body and works across the whole of the sector.

I will give way to Suzy.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:23 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Simon. Thank you very much. Just to reassure you, we would like to support these amendments, but can you just give me some reassurance that the way the amendment is drafted wouldn't interfere with the role that professional bodies play in quality-assuring particular courses, like law or accountancy?

Diolch, Simon. Diolch yn fawr iawn. Dim ond i'ch sicrhau chi, byddem yn hoffi cefnogi'r gwelliannau hyn, ond a allwch chi roi rhywfaint o sicrwydd i mi na fyddai'r ffordd y mae'r gwelliant wedi ei ddrafftio yn tarfu ar swyddogaeth cyrff proffesiynol mewn sicrhau ansawdd cyrsiau penodol, fel y gyfraith neu gyfrifyddiaeth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:23 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Suzy Davies, am y pwynt yna. Hoffwn i roi, yn sicr, y sicrhau yna, achos nid yw'n ymyrryd ar rôl bresennol y mae Cymdeithas y Gyfraith yn chwarae, er enghraifft, yn y broses yna, neu unrhyw broses arall. Y cyfan mae'r asiantaeth yma yn ei wneud yw dilysu'r ansawdd; nid yw'n dilysu cyrsiau a chynnwys a phethau felly—job y cyrff proffesiynol yr ydych yn sôn amdanyh nhw yw gwneud hynny, ac felly nid yw'n amharu ar y broses yna. Nid yw, ychwaith, yn amharu ar allu cyrff tebyg i gyfrannu at y broses. Y cyfan mae'n sicrhau yw mai corff elusennol neu ddielw arall sy'n arwain ar y broses.

I thank Suzy Davies for that point. I would certainly want to give that assurance, because it does not have any impact on the current role that the Law Society plays, for example, in this process, or any other process. All this agency does is to provide quality assurance; it does not validate courses or their content or such things—it is the job of the professional bodies that you mentioned to do that, and therefore it has no influence over that process. Neither does it have an effect on the ability of those bodies to contribute to the process. All it does is to ensure that it is a charitable or not-for-profit body that undertakes that work.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Mae'r ail welliant, gwelliant 32, a dweud y gwir, yn ymateb i rai o'r pryderon a godwyd gan Suzy Davies ac eraill yn y pwyllgor, sef, 'Wel, beth yw corff elusennol neu ddielw arall—a oes diffiniad o'r corff?' Mae gwelliant 32 yn rhoi diffiniad llwyr o beth yw ystyr corff dielw. Mae'r diffiniad i'w gael mewn deddfwriaeth arall, a rhag ofn bod rhywun yn mynd i ofyn i fi beth yw'r ddeddfwriaeth arall, nid wy'n cofio, a bod yn onest. Ond mae'n dod o ddeddfwriaeth arall. Mae diffiniad o gorff dielw i'w gael mewn deddfwriaeth, ac rydym wedi'i fenthgy ar gyfer pwrpas y Bil yma.

Felly, beth rwyf am geisio'i wneud yn y ddau welliant yn sicrhau bod ethos y system sicrhau ansawdd presennol yn parhau, a'i fod yn gwneud hynny yn gydnaws â'r Bil presennol ac yn gydnaws â'r sector sydd gennym yng Nghymru. Rŷm ni'n moyn gweld y sector yn dewis, a dweud y gwir. Achos bod y sector yn annibynnol, ac achos bod rhyddid yn y sector, mae'n dewis y cyrff, i fod yn onest, sy'n dilysu ansawdd. Mae'n rhydd i wneud hynny, ond rwyf am wneud yn siŵr ei bod hi'n gwneud y dewis yna mewn ffordd ddoeth, sy'n sicrhau ansawdd ryngwladol addysg uwch yng Nghymru, ond hefyd sydd yn gydnaws, fel y dywedais i, ag ethos y Bil.

17:25

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Jest yn fyr iawn, rwy'n meddwl bod y pwynt y mae Simon Thomas wedi'i wneud yn un da. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn awyddus iawn i ddweud wrthym ni bod yna ddim lle i'r sector breifat, i ryw raddau, yn addysg uwch yng Nghymru. Yn amlwg, fel y dywedodd Simon Thomas, mi oedd newidiadau yn y ddarpariaeth tra oeddem ni'n trafod hwn yn y pwyllgor. Nid wy'n siŵr iawn a oedd Llywodraeth Cymru neu HEFCW yn ymwybodol o'r trafodaethau yna, a hwyrach eu bod nhw wedi camu yn ôl o achos hynny. Ond yn bendant, mae yna deimlad ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n rhan o'r system Brydeinig, i ryw raddau, o achos bod hynny'n rhoi'r hyder o ran ansawdd, ond wrth gwrs, ar hyn o bryd, HEFCW, o ran deddf, sydd yn gyfrifol yng Nghymru—jest eu bod nhw'n is—. Wel, mae yna is-gytundeb, i ryw raddau, rhyngddynt nhw a'r QAA ar hyn o bryd ynglŷn â'r modd y mae'r ansawdd yng Nghymru yn cael ei weinyddu.

Felly, rwy'n teimlo ei bod hi'n briodol bod y Llywodraeth yn cymryd safbwynt ar y maes ac ar y sector ei hun, ac yn dweud ein bod ni'n awyddus i weld sector sydd yn ddi-elw ac yn cael ei weithredu gan elusennau, a'n bod ni'n creu union yr un sefyllfa o ran y ffordd y mae ansawdd o fewn y sector yn cael ei reoli. Felly, byddem ni fel grŵp yn bendant yn cefnogi gwelliant 31 a 32.

17:27

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Now, amendments 31 and 32 of course amend section 17, and I would caution Members that I believe we should be very wary of unintended consequences with regard to these amendments.

The second amendment, amendment 32, indeed responds to some of the concerns raised by Suzy Davies and others in committee, namely, 'What is a charitable or not-for-profit body—is there a definition?' Amendment 32 provides a comprehensive definition of what is meant by a not-for-profit body. The definition is included in other legislation, and in case anyone is going to ask me what that other legislation is, I can't remember, to be honest. But it is in other legislation. There is a definition of a not-for-profit body in legislation, and we have borrowed that for the purposes of this Bill.

So, what I am seeking to achieve through these two amendments is to ensure that the ethos of the current quality assurance system remains in place, and that it is in keeping with the Bill and in keeping with the sector that we have here in Wales. We want to see the sector choosing, in all honesty. Because the sector is independent, and because there is freedom in the sector, it chooses the bodies, to be honest, that quality-assure. It's free to do that, but I do want to make sure that it makes that choice wisely in a way that ensures international quality for higher education in Wales, but also is in keeping, as I said, with the ethos of the Bill.

Just very briefly, I think the point that Simon Thomas has made is a good one. The Government has been very eager to tell us that there is no place for the private sector, to an extent, in higher education in Wales. Obviously, as Simon Thomas said, there were changes made to the provision while we were debating this in committee. I'm not sure whether Welsh Government or HEFCW were aware of those discussions, and perhaps they stepped back because of that. But most definitely, there is a feeling that it's important that we should be part of the British system, to some extent, because that gives the confidence as regards quality assurance, but of course, at the present time, it is HEFCW, in terms of the law, which is responsible in Wales—it's just that they're lower—. Well, there is a sub-contract, in one way, between them and the QAA at the moment, as regards the way in which quality assurance in Wales is administered.

So, I think it's appropriate for the Government to take a position on the field and on the sector itself, and say that we are keen to see a sector that is not for profit and has charitable status, and that we create the exact same situation as regards the way in which quality within the sector is assured. So, we as a group will most definitely support amendments 31 and 32.

Diolch yn fawr. Nawr, mae gwelliannau 31 a 32, wrth gwrs, yn diwygio adran 17, ac rwyf yn rhybuddio Aelodau fy mod yn credu y dylem fod yn wyladwrus iawn o ganlyniadau anfwriadol o ran y diwygiadau hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, I share Simon Thomas's and Aled Roberts's disquiet in terms of developments across the border with reference to the QAA. However, amending this legislation in response to what's happening at the moment in relation to the QAA—and we don't yet know the conclusion of what is going to happen—could cause us serious difficulty, in my view, here in Wales. Changes of the nature being proposed by Simon Thomas through amendments 31 and 32, it's worth remembering also, have not been consulted upon, and the existing provisions on which the Bill is based have been considered fit for purpose to date. I don't believe it would be appropriate to include in primary legislation a reference to a named body, or to restrict HEFCW to a particular type of body. I believe this would be unwelcome, and an unnecessary departure from the current position, and not the role of primary legislation in this regard. HEFCW's existing powers enable the council to make arrangements for assessing the quality of education without naming any particular body, or imposing any constraints as to who undertakes the assessment. This follows the approach taken across the UK. I believe it is crucial to ensure that we maintain the highest quality in Welsh institutions. However, this amendment could unduly constrain HEFCW, in comparison with other administrations, when responding to the changes in the higher education sector, and changes in the rest of the UK.

As I emphasised at Stage 2, it is essential that HEFCW has the flexibility to discharge its quality assessment duty. A consistent approach to quality assessment across England and Wales has been, and is, extremely beneficial, and this will be reflected in statutory guidance issued by the Welsh Ministers to HEFCW under the Bill. However, imposing restrictions like the ones contained in amendments 31 and 32 on the type of assessor that HEFCW may use could potentially prevent the current UK-wide approach to quality being maintained under circumstances that are not too difficult to foresee. If, for example, the outcome of the recently announced HEFCE review and subsequent tender were to result in any significant change in quality assurance arrangements, HEFCW would need flexibility in order to respond appropriately on behalf of Wales.

Turning to amendments 7 and 8, which are Government amendments, in their written evidence to the Children, Young People and Education Committee, the NUS Wales requested that the Bill include a requirement for national student representation on HEFCW's quality assessment committee. I've reflected on that request, and, while there is student representation on HEFCW's existing quality assessment committee, and while section 25 of the Bill, as currently drafted, would not prevent that continuing in the future, I wish to put the matter beyond doubt. Students make a considerable investment in their learning and must be partners in the development of their experience of higher education. It is vital that they are involved in quality assessment of HE at both strategic and operational level.

Amendment 7 will require HEFCW to ensure that their quality assessment committee membership continues to include student representation.

Nawr, rwy'n rhannu anesmwythyd Simon Thomas ac Aled Roberts o ran datblygiadau ar draws y ffin o ran yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Fodd bynnag, gallai diwygio'r ddeddfwriaeth hon mewn ymateb i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd—ac nid ydym yn gwybod eto beth fydd diwedd yr hyn sy'n mynd i ddiwydd—achosi anhawster difrifol i ni, yn fy marn i, yma yng Nghymru. Mae'n werth cofio hefyd nad ymgynghorwyd ar y math o newidiadau sy'n cael eu cynnig gan Simon Thomas drwy welliannau 31 a 32, ac mae'r darpariaethau presennol y mae'r Bil hwn yn seiliedig arnynt wedi eu hystyried yn addas i'w diben hyd yn hyn. Nid wyf yn credu y byddai'n briodol cynnwys cyfeiriad mewn deddfwriaeth sylfaenol at gorff a enwir, nac i gyfyngu CCAUC i fath arbennig o gorff. Rwy'n credu y byddai hyn yn annerbyniol, ac yn ymadawiad diangen oddi wrth y sefyllfa bresennol, ac nid yn swyddogaeth deddfwriaeth sylfaenol yn y cyswllt hwn. Mae pwerau presennol CCAUC yn galluogi'r cyngor i wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr addysg heb enwi unrhyw gorff penodol, neu osod unrhyw gyfyngiadau o ran pwy sy'n ymgymryd â'r asesiad. Mae hyn yn dilyn yr ymagwedd a gymerwyd ar draws y DU. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol sicrhau ein bod yn cynnal y safon uchaf mewn sefydliadau yng Nghymru. Fodd bynnag, gallai'r gwelliant hwn gyfyngu CCAUC yn ormodol, o'i gymharu â gweinyddiaethau eraill, wrth ymateb i'r newidiadau yn y sector addysg uwch, a newidiadau yng ngweddill y DU.

Fel y pwysleisiais yng Nghyfnod 2, mae'n hanfodol bod gan CCAUC yr hyblygrwydd i gyflawni ei ddyletswydd asesu ansawdd. Mae dull cyson o asesu ansawdd ar draws Cymru a Lloegr wedi bod, ac mae, yn fuddiol dros ben, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu mewn canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru i CCAUC o dan y Bil. Fodd bynnag, gallai gosod cyfyngiadau fel y rhai a geir yng ngwelliannau 31 a 32 ar y math o aseswr y caiff CCAUC ei ddefnyddio atal yr agwedd gyfredol a gymerir ar draws y DU o ran cynnal safon dan amgylchiadau nad ydynt yn rhy anodd eu rhagweld. Pe byddai, er enghraifft, canlyniad adolygiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r tendr dilynol yn arwain at unrhyw newid sylweddol yn y trefniadau sicrhau ansawdd, byddai angen hyblygrwydd ar CCAUC er mwyn ymateb i'r briodol ar ran Cymru.

Gan droi at welliannau 7 ac 8, sef gwelliannau'r Llywodraeth, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, gofynnodd UCM Cymru bod y Bil yn cynnwys gofyniad am gynrychiolaeth genedlaethol i fyfyrwyr ar bwylgor asesu ansawdd CCAUC. Rwyf wedi myfyrio ar y cais hwnnw, ac, er y ceir cynrychiolaeth myfyrwyr ar bwylgor asesu ansawdd presennol CCAUC, ac er na fyddai adran 25 o'r Bil, fel y'i drafftiiwyd ar hyn o bryd, yn atal hynny rhag parhau yn y dyfodol, hoffwn roi'r mater y tu hwnt i amheuaeth. Mae myfyrwyr yn gwneud buddsoddiad sylweddol yn eu dysgu ac mae'n rhaid iddynt fod yn bartneriaid wrth ddatblygu eu profiad o addysg uwch. Mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cynnwys mewn asesu ansawdd AU ar lefel strategol a gweithredol.

Bydd gwelliant 7 yn ei gwneud yn ofynnol i CCAUC sicrhau bod eu haelodaeth pwyllgor asesu ansawdd yn parhau i gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr.

Amendment 8 is necessary to ensure that HEFCW will not have to take into account a student representative in relation to the requirement in section 25 of the Bill that the majority of members of the committee are not members of HEFCW, and that a majority are persons who have experience of, or who have shown capacity in, the provision of higher education. These majority requirements would, though, apply to any additional student representatives appointed. Amendment 8 will make the practicalities of the appointment process easier for HEFCW to manage, whilst ensuring student interests are represented on the committee.

In summary, DPO, placing a restriction on the type of quality assessor that HEFCW are able to use could potentially prevent a UK-wide approach to quality being maintained in the future. It is essential that HEFCW retain flexibility in order to discharge their quality assessment duty appropriately for Wales, taking into account developments across the UK. Furthermore, students should be recognised as partners in the development of their higher education, and so it is appropriate to make student representation on HEFCW's quality assessment committee a statutory requirement. For these reasons, I urge Members to resist amendments 31 and 32, and to support amendments 7 and 8.

Mae gwelliant 8 yn angenrheidiol i sicrhau na fydd yn rhaid i CCAUC ystyried cynrychiolydd myfyrwyr o ran y gofyniad yn adran 25 o'r Bil nad yw'r rhan fwyaf o aelodau'r pwyllgor yn aelodau o CCAUC, a bod y mwyafrif yn bobl sydd â phrofiad o, neu sydd wedi dangos gallu mewn, darparu addysg uwch. Byddai'r gofynion mwyafrif hyn, fodd bynnag, yn berthnasol i unrhyw gynrychiolwr myfyrwyr ychwanegol a benodid. Bydd gwelliant 8 yn gwneud yr agweddau ymarferol ar y broses benodi yn haws i CCAUC eu rheoli, gan sicrhau hefyd bod buddiannau myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar y pwyllgor.

I grynhoi, Ddirprwy Lywydd, gallai gosod cyfyngiad ar y math o aseswr ansawdd y caiff CCAUC ei ddefnyddio atal dull gweithredu ar draws y DU o ran ansawdd rhag cael ei gynnal yn y dyfodol. Mae'n hanfodol bod CCAUC yn cadw hyblygrwydd er mwyn cyflawni ei ddyletswydd asesu ansawdd yn briodol ar gyfer Cymru, gan ystyried y datblygiadau ar draws y DU. Yn ogystal, dylai myfyrwyr gael eu cydnabod fel partneriaid wrth ddatblygu eu haddysg uwch, ac felly mae'n briodol i wneud cynrychiolaeth myfyrwyr ar y pwyllgor asesu ansawdd CCAUC yn ofyniad statudol. Am y rhesymau hyn, rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliannau 31 a 32, ac i gefnogi gwelliannau 7 ac 8.

17:32

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Simon Thomas to reply.

Simon Thomas i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:32

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank the Members who've taken part in the debate and say to the Minister that I'm glad of one thing, because I think it's the first time he has actually admitted a disquiet as to what's happening over the border, as regards the quality assurance agency. I have something much more deep than a disquiet about that; I feel that it's being privatised, and I think it's quite likely, or possible, that we could end up with G4S, or some similar organisation, responsible for assessing quality assurance in our universities.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl a dweud wrth y Gweinidog fy mod yn falch o un peth, oherwydd credaf mai dyma'r tro cyntaf y mae mewn difrif wedi cyfaddef i anesmwythyd o ran yr hyn sy'n digwydd dros y ffin, o ran yr asiantaeth sicrhau ansawdd. Mae gen i ryw beth llawer dyfnach nag anesmwythyd am hynny; rwy'n teimlo ei fod yn cael ei breifateiddio, ac rwy'n meddwl ei fod yn dra thebygol, neu bosibl, mai G4S, neu ryw sefydliad tebyg, fydd yn y diwedd yn gyfrifol am asesu sicrwydd ansawdd yn ein prifysgolion.

Since we have Welsh legislation that says that universities can only be charities, it would be a nonsense to allow them to be then assessed for their quality assurance by a private company, even if that private company does turn out to be cheaper than the current quality assurance arrangements. That's why I brought forward these amendments, and I am surprised that a Labour Minister wants to resist amendments that ensure the public interest in that way, because I don't feel this is an appropriate area in which we need to go down that route. What's more, to the case, I think HEFCE decided this without any consultation with Welsh Government—at least, Welsh Government hasn't been prepared to answer any questions about consultation to me—and I believe that this was something that took Welsh Government by surprise and the Ministers by surprise.

Gan fod gennym ddeddfwriaeth yng Nghymru sy'n dweud na chaiff prifysgolion ond bod yn elusennau, byddai'n wiriondeb i ganiatáu iddynt gael eu hasesu wedyn o ran eu sicrwydd ansawdd gan gwmni preifat, hyd yn oed os yw'r cwmni preifat hwnnw'n profi i fod yn rhatach na'r trefniadau sicrhau ansawdd presennol. Dyna pam y cyflwynais y gwelliannau hyn, ac rwy'n synnu bod Gweinidog Llafur eisiau gwrthwynebu gwelliannau sy'n sicrhau lles y cyhoedd yn y ffordd honno, gan nad wyf yn teimlo bod hwn yn faes priodol lle mae angen i ni fynd i lawr y llwybr hwnnw. A hefyd, ar gyfer yr achos, rwy'n credu bod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr wedi penderfynu hyn heb unrhyw ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru—o leiaf, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau am ymgynghoriad i mi—ac rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth annisgwyl i Lywodraeth Cymru ac i'r Gweinidogion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm not prepared to leave this just drifting in the wind. I want to put key principles down on the face of this Bill now, so that any changes that do happen in England we can accommodate, if necessary, and maintain a UK-wide system, or we can use the alternative approach, which the Minister has alluded to—because HEFCW, in Wales, already has some powers in this regard, and could, therefore, use an alternative body to quality-assure universities in Wales. Now, that would not be the optimum, because the optimum is to have a UK-wide body, particularly from the point of view of international reputation, but, in my regard, it may be a preferable route if England decides to go down the cheap-and-cheerful route, which may not be what's necessarily ensuring the best quality assurance that we want to see.

I think, therefore, the amendments are reasonable and certainly within the spirit of the Bill. Yes, they would limit some choices going down to the future, but I would assume that Labour Party Members would want those choices to be limited, because you don't really want the private sector to be doing this on behalf of Welsh higher education. So, though there are some safeguards in the Bill, in that HEFCW does, at the end of the day, have some option to not go down the route of anything that might happen in England if it doesn't feel that that is the correct route, I feel we should have a statement on the face of the Bill stating our values here, as an Assembly, stating what we would like to see happening, particularly as regards the higher education sector in Wales. We say that only public money can go to charities. Why would we want public money to go to a private company to be quality-assessing those charities? It makes no sense. Put it in the Bill. Just sort it out.

Dydw i ddim yn fodlon gadael hyn i chwythu yn y gwynt. Rwyf eisiau rhoi egwyddorion allweddol i lawr ar wyneb y Bil hwn nawr, fel y gallwn ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd yn Lloegr, os bydd angen, a chynnal system y DU gyfan, neu gallwn ddefnyddio'r dull amgen, y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato—oherwydd bod gan CCAUC, yng Nghymru, rai pwerau yn hyn o beth eisoes, a gallai, felly, ddefnyddio corff arall i sicrhau ansawdd prifysgolion yng Nghymru. Nawr, nid dyna fyddai'r ateb gorau, gan mai'r ateb gorau yw cael corff ar gyfer y DU gyfan, yn enwedig o safbwynt enw da rhyngwladol, ond, o'm rhan i, gallai fod yn llwybr gwell os bydd Lloegr yn penderfynu mynd i lawr y llwybr rhad ond gwneud y tro, nad yw efallai yr hyn sydd o reidrydd yn sicrhau'r sicrwydd ansawdd gorau yr ydym yn dymuno ei weld.

Rwy'n credu, felly, bod y gwelliannau yn rhesymol ac yn sicr o fewn ysbryd y Bil. Byddent fe fyddent yn cyfyngu ar rai dewisiadau yn mynd i lawr at y dyfodol, ond rwyf yn cymryd yn ganiataol y byddai Aelodau'r Blaid Lafur eisiau i'r dewisiadau hynny fod yn gyfyngedig, oherwydd nad ydych o ddirif eisiau i'r sector preifat fod yn gwneud hyn ar ran addysg uwch yng Nghymru. Felly, er bod rhai mesurau diogelu yn y Bil, o ran y ffaith fod gan CCAUC, yn y pen draw, rywfaint o ddewis i beidio â mynd i lawr llwybr unrhyw beth a allai ddigwydd yn Lloegr os nad yw'n teimlo mai dyna'r llwybr cywir, rwy'n teimlo y dylem gael datganiad ar wyneb y Bil yn datgan ein gwerthoedd yma, fel Cynulliad, yn datgan yr hyn yr hoffem ei weld yn digwydd, yn enwedig o ran y sector addysg uwch yng Nghymru. Rydym yn dweud mai dim ond arian cyhoeddus gaiff fynd i elusennau. Pam y byddem ni'n dymuno gweld arian cyhoeddus yn mynd i gwmni preifat i asesu ansawdd yr elusennau hynny? Nid yw'n gwneud unrhyw synnwy'r. Rhowch hyn yn y Bil. Rhowch drefn ar bethau.

17:35

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 31 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 31 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symudwn ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf fi'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 31.](#)

[Result of the vote on amendment 31.](#)

17:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Simon Thomas, amendment 32.

Simon Thomas, gwelliant 32.

Cynigiwyd gwelliant 32 (Simon Thomas).

Amendment 32 moved (Simon Thomas).

17:36

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig.

Move.

17:36	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 32 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 32.</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 32 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symudwn ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwyf fi'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 32.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:36	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 7.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 7 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 7.</p> <p><i>Amendment 7 moved (Huw Lewis).</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:36	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:36	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? Then, the amendment is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae'r gwelliant wedi ei dderbyn felly.</p> <p><i>Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:36	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 8.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 8 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 8.</p> <p><i>Amendment 8 moved (Huw Lewis).</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:36	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:36	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? Then amendment 8 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 8 wedi ei dderbyn felly.</p> <p><i>Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

**Grŵp 6: Cod Rheolaeth Ariannol
(Gwelliannau 36, 37, 9, 10, 11, 12 ac 13)**

**Group 6: Financial Management Code
(Amendments 36, 37, 9, 10, 11, 12 and 13)**

17:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The next group of amendments relates to the financial management code. The lead amendment in this group is amendment 36. I call on Aled Roberts to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â'r cod rheolaeth ariannol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 36. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 36 (Aled Roberts).

Amendment 36 (Aled Roberts) moved.

17:37

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. As the Deputy Presiding Officer has already mentioned, these deal with the financial management code. The effect of amendment 36 is to take out the words 'organisation and' at line 5 of section 27. The purpose, obviously, is to clarify that the financial management code only relates to the management of the financial affairs of regulated institutions and not to the organisation of those regulated institutions, because I think the inclusion of the words 'organisation and' again starts to impinge on the autonomy of those particular institutions.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Fel y mae'r Dirprwy Lywydd eisoes wedi crybwyll, mae'r rhain yn ymdrin â'r cod rheolaeth ariannol. Effaith gwelliant 36 yw tynnu'r geiriau 'threfnu a' allan yn llinell 5 adran 27. Y pwrpas, yn amlwg, yw egluro nad yw'r cod rheolaeth ariannol ond yn ymwneud â rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir ac nid â threfniadaeth y sefydliadau hynny, oherwydd y credaf fod cynnwys y geiriau 'threfnu a' unwaith eto yn dechrau amharu ar ymreolaeth y sefydliadau penodol hynny.

The purpose of amendment 37 is to clarify that the focus of the financial management code is to enable the governing body to demonstrate that it is exercising appropriate management of the financial affairs of a regulated institution. In doing so, all that does is affirm the responsibility of the charitable trustees, who are the members of the governing body. So, again, it seeks to actually provide more detail on the reassurances that we feel, to date, the Government has not provided with regard to the autonomy of these institutions.

Pwrpas gwelliant 37 yw egluro mai ffocws y cod rheolaeth ariannol yw galluogi'r corff llywodraethu i ddangos ei fod yn arfer rheolaeth briodol dros faterion ariannol sefydliad a reoleiddir. Wrth wneud hynny, y cyfan y mae hynny'n ei wneud yw cadarnhau cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr elusennol, sef aelodau'r corff llywodraethu. Felly, unwaith eto, mae'n ceisio rhoi mwy o fanylion mewn gwirionedd am y sicrwydd nad ydym ni'n teimlo bod y Llywodraeth, hyd yma, wedi'i ddarparu o ran ymreolaeth y sefydliadau hyn.

17:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister.

Weinidog.

17:38

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and my thanks also to Aled Roberts. Amendments 36 and 37 amend section 27 and are concerned with the scope of the financial management code, as we've heard. In line with my commitment at Stage 2, I have reviewed the provisions in section 27 in detail. Having done so, I continue to be of the view that the Bill already makes clear the matters to which the financial management code can relate. Under section 27, the code can only relate to how a regulated institution organises its financial affairs and how a regulated institution manages its financial affairs. Section 27 cannot, I believe, be meaningfully interpreted in any other way. Indeed, to put this matter beyond doubt, section 46 prevents HEFCW doing anything that requires an institution to act in a manner that is incompatible with its governing documents or which interferes with its obligations as a charity. This includes any requirements imposed by HEFCW under the financial management code.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, a diolch hefyd i Aled Roberts. Mae gwelliannau 36 a 37 yn diwygio adran 27 ac yn ymwneud â chwmpas y cod rheolaeth ariannol, fel yr ydym wedi clywed. Yn unol â'm hymrwymiad yng Nghyfnod 2, rwyf wedi adolygu'r darpariaethau yn adran 27 yn fanwl. Ar ôl gwneud hynny, rwy'n dal i fod o'r farn bod y Bil eisoes yn ei gwneud yn glir i ba faterion y gall y cod rheolaeth ariannol fod yn berthnasol. O dan adran 27, ni all y cod ond ymwneud â sut y mae sefydliad a reoleiddir yn trefnu ei faterion ariannol a sut y mae sefydliad a reoleiddir yn rheoli ei faterion ariannol. Ni ellir dehongli Adran 27, rwy'n credu, yn ystyrllon mewn unrhyw ffordd arall. Yn wir, i roi'r mater hwn y tu hwnt i amheuaeth, mae adran 46 yn atal CCAUC rhag gwneud unrhyw beth sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliad weithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'i ddogfennau llywodraethu neu sy'n ymyrryd â'i dyletswyddau fel elusen. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofynion a osodir gan CCAUC o dan y cod rheolaeth ariannol.

So, to be clear, the code cannot relate to how a regulated institution organises and governs itself more widely. Such matters are and will remain a matter for institutions. We must also remember that HEFCW's preparation of the code will be subject to robust oversight. Institutions must be consulted on a draft code, and the draft code must be approved by Welsh Ministers.

I have also brought forward an amendment that would allow the National Assembly for Wales to resolve not to approve the code. This provides a further safeguard to institutions that the requirements imposed by the code will be reasonable and proportionate. I also have serious concerns about how effectively these amendments would operate in practice. As drafted, they would make the ambit of the code unclear and could cause significant operational difficulties for HEFCW as they develop the code. I have listened to the concerns raised by stakeholders, however I consider that the Bill already provides ample protection for institutions. I do not therefore consider amendments 36 and 37 to be necessary and I ask Members not to support them.

Felly, er mwyn bod yn glir, ni all y cod ymwneud â sut y mae sefydliad a reoleiddir yn ei drefnu ac yn ei reoli ei hun yn fwy eang. Mater i sefydliadau yw materion o'r fath, a byddant yn parhau felly. Rhaid inni gofio hefyd y bydd y ffordd y mae CCAUC yn paratoi'r cod yn destun goruchwyliaeth gadarn. Rhaid ymgynghori â sefydliadau ar god drafft, a rhaid i'r cod drafft gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno gwelliant a fyddai'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru benderfynu peidio â chymeradwyo'r cod. Mae hwn yn rhoi mesur diogelwch ychwanegol i sefydliadau y bydd y gofynion a osodir gan y cod yn rhesymol ac yn gymesur. Mae gennyf hefyd bryderon difrifol ynghylch pa mor effeithiol y byddai'r gwelliannau hyn yn gweithredu'n ymarferol. Fel y'u drafftwyd, byddent yn gwneud cwmpas y cod yn aneglur a gallent achosi anawsterau gweithrediadol sylweddol i CCAUC wrth iddynt ddatblygu'r cod. Rwyf wedi gwrandao y pryderon a godwyd gan randdeiliaid, ond rwyf o'r farn bod y Bil eisoes yn darparu digon o ddiogelwch ar gyfer sefydliadau. Felly, nid wyf yn ystyried gwelliannau 36 a 37 yn angenrheidiol a gofynnaf i Aelodau beidio â'u cefnogi.

17:40 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister give way? I'm grateful. I just want to refer to his amendment 13, which is in this group, which I want to support—

A wnaiff y Gweinidog ildio? Rwy'n ddiolchgar. Rwyf eisiau cyfeirio at ei welliant 13, sydd yn y grŵp hwn, yr wyf yn awyddus i'w gefnogi—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:40 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was coming on to that.

Roeddwn yn dod at hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:40 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'll anticipate your comments, if I may, Minister. Just to say that, obviously, you have responded to what was said in committee by me and other Members here in bringing forward an Assembly procedure to deal with the possible financial code. Could you also say, now you're dealing with 13 therefore, how that Assembly procedure might take into account some of the concerns that Aled Roberts and others have had on this?

Wel, fe wnaif ragweld eich sylwadau, os caf, Weinidog. Dim ond i ddweud, yn amlwg, rydych chi wedi ymateb i'r hyn a ddywedwyd yn y pwyllgor gennyf fi ac Aelodau eraill yma wrth gyflwyno gweithdrefn y Cynulliad i ddelio â'r cod ariannol posibl. A allech chi hefyd ddweud, nawr eich bod yn delio gyda 13 felly, sut y gallai gweithdrefn y Cynulliad roi ystyriaeth i rai o'r pryderon y bu gan Aled Roberts ac eraill ynglŷn â hyn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll try my best, and I'll turn now to amendments 9, 10, 11, 12 and 13. Having listened carefully to the views expressed by both committees and by stakeholders in respect of the approval procedure for the financial management code, I made a commitment at Stage 2 to bring forward an amendment that would provide the National Assembly with a role in scrutinising the draft code submitted by HEFCW, and amendments 9 to 13 follow up on this commitment. Amendment 13 will insert a new section into the Bill that sets out the procedure for Assembly scrutiny following the Welsh Ministers' approval of a draft of the first code or of a subsequent revision to the code. Under the proposed procedure, the Welsh Ministers will be required to lay an approved draft before the Assembly for a 40-day period, during which the Assembly can resolve not to approve it. If there is no resolution, HEFCW must publish the code in the terms approved by the Welsh Ministers and laid before the Assembly. If the Assembly resolve not to approve the draft, HEFCW must then not publish the code. This approach aligns with the procedure recommended by the Constitutional and Legislative Affairs Committee at the end of Stage 1 and it is similar to the amendments tabled by Suzy Davies at Stage 2.

Byddaf yn gwneud fy ngorau, ac fe drof yn awr at welliannau 9, 10, 11, 12 a 13. Ar ôl gwrando'n ofalus ar y safbwyntiau a fynegwyd gan y ddau bwyllgor a chan randdeiliaid mewn cysylltiad â'r weithdrefn gymeradwyo ar gyfer y cod rheolaeth ariannol, gwnes i ymrwymiad yng Nghyfnod 2 i gyflwyno gwelliant a fyddai'n rhoi rôl i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran craffu ar y cod drafft a gyflwynir gan CCAUC, ac mae gwelliannau 9 i 13 yn cyflawni'r ymrwymiad hwn. Bydd gwelliant 13 yn mewnosod adran newydd yn y Bil sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer craffu gan y Cynulliad wedi i Weinidogion Cymru gymeradwyo drafft o'r cod cyntaf neu o adolygiad dilynol i'r cod. O dan y drefn arfaethedig, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft cymeradwy gerbron y Cynulliad am gyfnod o 40 diwrnod, a gall y Cynulliad benderfynu peidio â'i gymeradwyo o fewn y cyfnod hwnnw. Os nad oes penderfyniad, mae'n rhaid i CCAUC gyhoeddi'r cod yn y termau a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru ac a osodwyd gerbron y Cynulliad. Os bydd y Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, yna rhaid i CCAUC beidio â chyhoeddi'r cod. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â'r weithdrefn a argymhellwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ddiwedd Cyfnod 1 ac mae'n debyg i'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Suzy Davies yng Nghyfnod 2.

Amendments 9, 10, 11 and 12 amend sections 27, 28 and 29, and they're consequential to amendment 13. I consider that these amendments—9 through to 13—address the concerns raised in previous stages of scrutiny about the approval procedure for the financial management code. They will provide a clear role for the National Assembly in scrutinising the code and put in place a procedure that will operate effectively. Therefore, I ask that Members support them.

Mae gwelliannau 9, 10, 11 a 12 yn diwygio adrannau 27, 28 a 29, ac maen nhw'n ganlyniadol i welliant 13. Rwyf o'r farn bod y gwelliannau hyn—9 hyd at 13—yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y cyfnodau craffu blaenorol am y weithdrefn gymeradwyo ar gyfer y cod rheolaeth ariannol. Byddant yn darparu rôl glir ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol o ran craffu ar y cod ac yn sefydlu gweithdrefn a fydd yn gweithredu'n effeithiol. Felly, gofynnaf i'r Aelodau eu cefnogi.

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n amlwg bod yna wahaniaeth barn eto. Nid wyf yn derbyn—. Roedd y Gweinidog yn dweud bod y ffaith ein bod ni'n cymryd y ddau air yma allan—'threfnu a' a 'organisation and'—yn gwneud pwrpas y Ddeddf neu bwrpas y cod yn aneglur. Roeddwn i'n meddwl mai holl bwrpas y gwelliant yma oedd creu sefyllfa mwy sicr, lle roedd hi'n amlwg mai'r unig bwrpas i'r cod oedd rheoli materion ariannol y sefydliadau sydd wedi'u rheoleiddio, felly rwy'n meddwl mai jest mater o weld beth yn union ydy'r bleidlais yw hi. Yn bendant, nid wyf i'n teimlo bod sicrwydd. Roedd y Gweinidog yn ceisio awgrymu bod y sicrwydd yna.

There is clearly a difference of opinion once again. The Minister said that the fact that we were deleting the two words, 'organisation and', makes the purpose of the legislation or the purpose of the code unclear. I don't accept that. I thought that the whole purpose of this amendment was to create greater assurance, where it was clear that the only purpose of the code was to regulate financial issues within institutions that are regulated and, therefore, I think that it's just a matter of seeing where the vote takes us. Certainly, I don't feel that the assurance that the Minister tried to suggest exists is in place.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 36 be agreed to. Does any Member object? [Objection]. We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27 and there voted against 27. Therefore, amendment 37 is not agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad]. Byddwn yn symud ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, a phleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 36 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 36: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment 36 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 36.](#)

[Result of the vote on amendment 36.](#)

- 17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Aled Roberts, amendment 37. Aled Roberts, gwelliant 37.

Cynigiwyd gwelliant 37 (Aled Roberts). *Amendment 37 (Aled Roberts) moved.*
- 17:44 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Ffurfiol. Formally.
- 17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 37 be agreed. Does any Member object? [Objection.] Proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26 and there voted against 27. Therefore, amendment 37 is not agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 37 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Symudwn ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 26 o blaid, a phleidleisiodd 27 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 37 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 37: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0. *Amendment 37 not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 37.](#) [Result of the vote on amendment 37.](#)
- 17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, amendment 9. Weinidog, gwelliant 9.

Cynigiwyd gwelliant 9 (Huw Lewis). *Amendment 9 (Huw Lewis) moved.*
- 17:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move. Rwy'n cynnig.
- 17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 9 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 9.

Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, amendment 10. Weinidog, gwelliant 10.

Cynigiwyd gwelliant 10 (Huw Lewis). *Amendment 10 (Huw Lewis) moved.*
- 17:45 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move. Rwy'n cynnig.
- 17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 10 be agreed. Does any Member object? Then amendment 10 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 10 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 10.

Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Amendment 10 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:45	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 11.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 11 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 11.</p> <p><i>Amendment 11 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 11 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 11.</p> <p><i>Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 12.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 12 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 12.</p> <p><i>Amendment 12 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 12 be agreed. Does any Member object? Then amendment 12 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 12.</p> <p><i>Amendment 12 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 13.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 13 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 13.</p> <p><i>Amendment 13 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:45	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 13 be agreed. Does any Member object? Then amendment 13 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 13 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 13.</p> <p><i>Amendment 13 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:46	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 14.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 14 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 14.</p> <p><i>Amendment 14 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 17:46 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I move. Rwy'n cynnig.
- 17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 14 be agreed. Does any Member object? Then amendment 14 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 14 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 14.
Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. *Amendment 14 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The next group of amendments relates to institutional safeguards. Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â dulliau diogelu sefydliadol.
- Grŵp 7: Dulliau Diogelu Sefydliadol (Gwelliannau 38, 39, 43 a 42)** **Group 7: Institutional Safeguards (Amendments 38, 39, 43 and 42)**
- 17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The lead amendment in this group is amendment 38. I call on Aled Roberts to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 38. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
Cynigiwyd gwelliant 38 (Aled Roberts). *Amendment 38 (Aled Roberts) moved.*
- 17:46 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
As far as amendments 38 and 39 are concerned, these again seek to establish the reasonable test as far as the exercise of HEFCW's powers are concerned, in that we would say that it shouldn't be possible for HEFCW to come to an unreasonable conclusion with regard to being satisfied that the governing body of a regulated institution has taken all reasonable steps to comply with a general requirement of the approved plan. I assume that the Minister will use the same argument as previously as far as the administrative law is concerned, but, clearly, there is a difference of opinion. O safbwynt gwelliannau 38 a 39, mae'r rhain eto yn ceisio sefydlu'r prawf rhesymol o ran arfer pwerau CCAUC, yn y ffaith y byddem yn dweud na ddylai fod yn bosibl i CCAUC ddod i gasgliad afresymol gyda golwg ar gael ei fodloni bod corff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio ag un o ofynion cyffredinol y cynllun a gymeradwywyd. Rwy'n tybio y bydd y Gweinidog yn defnyddio'r un ddadl ag o'r blaen o safbwynt y gyfraith weinyddol, ond, yn amlwg, mae gwahaniaeth barn.

We are quite happy to support the other amendments within this group, save for amendment 16, and that's because I would ask you—. We've already accepted amendment 6, which was a Government amendment. I think there is a real danger as far as amendment 16 is concerned and, for that reason, in this group, we won't be accepting that. My only other matter, actually, is amendment 39, where, again, we believe that HEFCW should have a reasonable basis for being satisfied that the governing body of the institution has taken all reasonable steps. Rydym yn ddigon hapus i gefnogi'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn, ac eithrio gwelliant 16, a hynny oherwydd y byddwn yn gofyn ichi—. Rydym eisoes wedi derbyn gwelliant 6, a oedd yn welliant gan y Llywodraeth. Rwy'n credu bod perygl gwirioneddol o ran gwelliant 16 ac, am y rheswm hwnnw, yn y grŵp hwn, ni fyddwn yn derbyn hynny. Yr unig fater arall sydd gennyf fi, mewn gwirionedd, yw gwelliant 39, ac, unwaith eto, credwn y dylai CCAUC â sail resymol dros fod yn fodlon bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi cymryd pob cam rhesymol.

I will just begin by acknowledging Aled Roberts's arguments on amendments 38 and 39, but then move on to say that I hope that my amendment 43 will resolve the question that this Assembly has already considered about the relationship between the Government's amendment 6 and the Government's amendment 16. As Aled Roberts said earlier in the Chamber today, together, those amendments do set up the possibility that a non-compliance direction relating to a fee and access plan could be issued for a single and potentially not terribly important failure to comply with general requirements of a plan. Section 45, however, gives us an alternative way of dealing with that concern. That sets out the circumstances in which any direction in this Bill can be issued, including the treatment of the troublesome direction, which Aled Roberts referred to earlier. My amendment 43, which seeks to amend section 45, seeks to introduce a de minimis safeguard, which the Welsh Government's amendments 16 and 6 don't include at the moment. It does allow for a direction to be issued for one failure as opposed to persistent failures, as long as that failure is serious, and I hope that addresses Aled Roberts's concerns. But it also does allow for directions to be issued in the case of one failure, again, provided that failure is serious, which I hope allays the Minister's concerns. I therefore recommend this particular amendment to the Chamber.

Amendment 42 I cannot support as, actually, I see that it fundamentally undermines the whole Bill. I may, personally, not see an absolute need for this Bill, but a Bill we have and it must therefore have a function. This amendment, as drafted, basically says that, if HEFCW doesn't follow a very specific process set out in the amendment, governing bodies are pretty much free to ignore anything that HEFCW tells them—in particular, anything that's not identified as mandatory, and that does not leave any room for requirements that might be imposed from outside, for example, from the European Union, or leave any space for a value for guidance and certain other provisions that might emerge through the code, for example.

Now, HEFCW does have a duty to behave reasonably in exercising its powers. The regulation-making power, I suggested in amendment 6B, which already exists in section 38(4), would have allowed for certain minimum requirements to be placed on HEFCW before they can say that an institution has failed to comply with guidance, for example. I appreciate that that amendment has fallen, but it still serves an illustrative purpose. Whether guidance was statutory or not would have been a good and proportionate relevant consideration for regulations under that amendment as to whether a governing body should give them due weight, if you like. This amendment is definitely a hammer to crack a nut. Now, my amendments to date have really been about preventing HEFCW making unreasonable requirements of higher education institutions, but I regret that I think I would go as far as to say that this amendment, as drafted, would allow the state to make an unreasonable requirement of HEFCW. Thank you.

Rwyf am ddechrau drwy gydnabod dadleuon Aled Roberts ar welliannau 38 a 39, ond yna symud ymlaen i ddweud fy mod yn gobeithio y bydd gwelliant 43 gennyf fi yn ateb y cwestiwn y mae'r Cynulliad hwn eisoes wedi'i ystyried ynglŷn â'r berthynas rhwng gwelliant 6 y Llywodraeth a gwelliant 16 y Llywodraeth. Fel y dywedodd Aled Roberts yn gynharach yn y Siambr heddiw mae'r gwelliannau hynny, gyda'i gilydd, yn sefydlu'r posibilrwydd y gallai cyfarwyddyd diffyg cydymffurfio yn ymwneud â chynllun ffioedd a mynediad gael ei gyhoeddi ar gyfer un methiant ac nid un ofnadwy o bwysig o bosibl i gydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun. Mae adran 45, fodd bynnag, yn rhoi ffordd arall o ddelio â'r pryder hwnnw inni. Mae hwnnw'n nodi o dan ba amgylchiadau y gellir cyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd yn y Bil hwn, gan gynnwys y cyfarwyddyd trafferthus, y cyfeiriodd Aled Roberts ato yn gynharach. Nod gwelliant 43 gennyf fi, sy'n ceisio diwygio adran 45, yw cyflwyno diogelwch de minimis, nad yw gwelliannau 16 a 6 gan Lywodraeth Cymru'n ei gynnwys ar hyn o bryd. Mae yn caniatáu i gyfarwyddyd gael ei gyhoeddi ar gyfer un methiant yn hytrach na methiannau parhaus, cyn belled â bod y methiant hwnnw'n un difrifol, ac rwy'n gobeithio bod hynny'n mynd i'r afael â phryderon Aled Roberts. Ond mae hefyd yn caniatáu i gyfarwyddiadau gael eu cyhoeddi yn achos un methiant, unwaith eto, ar yr amod bod y methiant hwnnw'n un difrifol, ac rwyf yn gobeithio bod hynny'n lleddfu pryderon y Gweinidog. Rwyf felly'n argymhell y gwelliant penodol hwn i'r Siambr.

Ni allaf gefnogi gwelliant 42 oherwydd ei fod, mewn gwirionedd, yn sylfaenol yn tanseilio'r Bil cyfan yn fy marn i. Efallai nad wyf i, yn bersonol, yn gweld angen absoliwt am y Bil hwn, ond mae gennym Fil a rhaid iddo felly gael swyddogaeth. Mae'r gwelliant hwn, fel y'i drafftwyd, yn y bôn yn dweud, os nad yw CCAUC yn dilyn proses benodol iawn a nodwyd yn y gwelliant, bod rhywydd hynt i gyrff llywodraethu i raddau helaeth anwybyddu unrhyw beth y mae CCAUC yn ei ddweud wrthynt—yn benodol, unrhyw beth nad yw wedi ei nodi fel bod yn orfodol, ac nid yw hynny'n gadael unrhyw le ar gyfer gofynion a allai gael eu gosod o'r tu allan, er enghraifft, gan yr Undeb Ewropeaidd, nac yn gadael unrhyw le ar gyfer gwerth canllawiau a rhai darpariaethau eraill a allai ddod i'r amlwg drwy'r cod, er enghraifft.

Nawr, mae gan CCAUC ddyletswydd i ymddwyn yn rhesymol wrth arfer ei bwerau. Byddai'r pŵer i wneud rheoliadau, a awgrymais yng ngwelliant 6B, sydd eisoes yn bodoli yn adran 38(4), wedi caniatáu ar gyfer gosod gofynion sylfaenol penodol ar CCAUC cyn y gall ddweud bod sefydliad wedi methu â chydymffurfio â chanllawiau, er enghraifft. Rwy'n gwerthfawrogi bod y gwelliant hwnnw wedi methu, ond mae'n dal yn ddefnyddiol i ddangos y pwynt. Byddai pa un a oedd canllawiau'n statudol ai peidio wedi bod yn ystyriaeth berthnasol dda a chymesur ar gyfer rheoliadau o dan y gwelliant hwnnw ynghylch a ddylai corff llywodraethu roi sylw dyledus iddynt, os hoffech chi. Mae'r gwelliant hwn yn bendant yn forthwyl i dorri cneuen. Nawr, mae fy ngwelliannau i hyd yn hyn wedi bod yn ymwneud mewn gwirionedd ag atal CCAUC rhag rhoi gofynion afresymol ar sefydliadau addysg uwch, ond rwy'n gresynu fy mod yn credu y byddwn yn mynd mor bell â dweud bod y gwelliant hwn, fel y'i drafftwyd, yn caniatáu i'r wladwriaeth roi gofyniad afresymol ar CCAUC. Diolch yn fawr.

As has been said, the amendments in this group are concerned with institutional safeguards, and before commenting on each of them in turn, I'd like to draw Members' attention to the fact that the Bill already contains a significant number of safeguards for institutions. In particular, sections 40 through to 43 of the Bill set out the procedural safeguards that are to apply to the exercise of HEFCW's enforcement functions. The procedural protections include the issue of warning notices prior to giving a direction and the right for institutions to seek a review of a decision to issue a direction by an independent person, or panel of persons appointed by Welsh Ministers.

Now, turning first to amendments 38 and 39 tabled by Aled Roberts, to sections 36 and 38 of the Bill, respectively, these amendments seek to introduce a requirement, once again, for HEFCW to be 'satisfied reasonably' rather than merely 'satisfied' before taking a decision to give notice of their intention to refuse to approve a new fee and access plan or to withdraw approval of an extant plan. Now, the Bill—at the risk of repeating myself—is quite deliberately silent on the issue of reasonableness in respect of decisions taken by HEFCW, simply because it is unnecessary to explicitly restate administrative law principles that apply to public bodies. HEFCW is subject to the requirements of administrative law that govern the taking of decisions by public bodies and which, amongst other things, require that decisions of public bodies must fall within the bounds of reason.

I am aware of the concerns of stakeholders in respect of HEFCW's powers to give notice of intention to refuse to approve a new fee and access plan or to withdraw approval of an extant fee and access plan. To make it clear though, in making a decision to use its powers under these provisions, HEFCW must already act in a reasonable and rational manner in accordance with those administrative law principles. If the term 'reasonably' were inserted in sections 36 and 38 of the Bill, it would imply, to my mind, an intention that the normal decision-making rules do not apply to these provisions, and it may even cast doubt on other aspects of the operation of HEFCW's functions by implying that reasonableness is not required in those areas. Such a situation would cause confusion for HEFCW and make untidy law, and institutions also might be confused, and it would be highly undesirable in terms of its effect on the Bill.

Fel y dywedwyd, mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn ymwneud â dulliau diogelu sefydliadol, a chyn gwneud sylwadau ar bob un ohonynt yn eu tro, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at y ffaith bod y Bil eisoes yn cynnwys nifer sylweddol o ddulliau diogelu ar gyfer sefydliadau. Yn benodol, mae adrannau 40 hyd at 43 o'r Bil yn nodi'r mesurau diogelwch gweithdrefnol sydd i fod yn berthnasol i'r drefn o arfer swyddogaethau gorfodi CCAUC. Mae'r amddiffyniadau gweithdrefnol yn cynnwys rhoi hysbysiadau rhybuddio cyn rhoi cyfarwyddyd a'r hawl i sefydliadau geisio adolygiad o benderfyniad i roi cyfarwyddyd gan berson annibynnol, neu banel o bersonau a benodir gan Weinidogion Cymru.

Nawr, gan droi yn gyntaf at welliannau 38 a 39 a gyflwynwyd gan Aled Roberts, i adrannau 36 a 38 y Bil, yn y drefn honno, mae'r gwelliannau hyn yn ceisio cyflwyno gofyniad, unwaith eto, i CCAUC i fod yn 'fodlon yn rhesymol' yn hytrach na dim ond yn 'fodlon' cyn gwneud penderfyniad i roi hysbysiad o'u bwriad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd neu i dynnu cymeradwyaeth cynllun sy'n bodoli yn ôl. Nawr, mae'r Bil—os caf fentro fy ailadrodd fy hun—yn fwrriadol dawel ynglŷn â rhesymoldeb mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan CCAUC, yn syml oherwydd ei bod yn ddiangen ailddatgan yn benodol egwyddorion cyfraith weinyddol sy'n berthnasol i gyrrff cyhoeddus. Mae CCAUC yn ddarostyngedig i ofynion cyfraith weinyddol sy'n rheoli'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ac sydd, ymhlith pethau eraill, yn nodi bod yn rhaid i benderfyniadau cyrff cyhoeddus ddod o fewn ffiniau rheswm.

Rwy'n ymwybodol o bryderon rhanddeiliaid mewn cysylltiad â phwerau CCAUC i roi rhybudd o fwriad i wrthod cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd neu i dynnu cymeradwyaeth o gynllun ffioedd a mynediad sy'n bodoli yn ôl. I fod yn glir fodd bynnag, wrth wneud penderfyniad i ddefnyddio ei bwerau o dan y darpariaethau hyn, mae'n rhaid i CCAUC eisoes weithredu mewn modd rhesymol a rhesymegol yn unol ag egwyddorion cyfraith weinyddol. Pe byddai'r term 'yn rhesymol' yn cael ei fewnosod yn adrannau 36 a 38 o'r Bil, byddai'n awgrymu bwriad, yn fy marn i, nad yw'r rheolau arferol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn berthnasol i'r darpariaethau hyn, ac fe allai hyd yn oed fwrw amheuaeth ar agweddau eraill ar weithrediad swyddogaethau CCAUC drwy awgrymu nad oes angen rhesymoldeb yn y meysydd hynny. Byddai sefyllfa o'r fath yn peri dryswch i CCAUC ac yn gwneud cyfraith anniben, ac fe allai hefyd fod yn ddryslyd i sefydliadau, a byddai'n annymunol iawn o ran ei effaith ar y Bil.

I hope that Members would agree that the usual requirements of administrative law give sufficient assurance about how HEFCW must exercise its functions. HEFCW's role in future will, in many respects, remain as at present. They will continue as an arm's-length body between the Welsh Government and the HE sector and will have to take into account guidance issued by Welsh Ministers; they will continue to work in partnership with the Welsh universities to deliver the Government's broad policy objectives and priorities for HE, by means of guidance and funding; they'll continue to act as a guarantor of public accountability in respect of Welsh universities' institutional integrity, their financial sustainability, their financial probity, the quality of their academic provision and also as the regulator of fair access to higher education in Wales; they will continue to distribute public funding on behalf of the Government; and, most importantly, they will continue to be subject to general administrative law principles and be required to operate all of their functions in a reasonable and rational manner.

I concluded that I do not consider that amendments 38 and 39 provide more protection for institutions. As a public body, HEFCW cannot exercise its functions in anything other than a reasonable, rational manner, having taken into account all relevant factors, and ignoring all irrelevant factors, when it makes its decisions. So, the Welsh Government will not be supporting amendment numbers 38 and 39.

If I could turn to amendment 42, also tabled by Aled Roberts, this amendment inserts a new section in the Bill that deals with consultation on and compliance with information, advice and guidance that HEFCW may issue. With regard to consultation, the Bill, as introduced, already makes provision for HEFCW to be required to consult on guidance issued under sections 12, 23 and 24. HEFCW is also required to consult on the development of its draft financial management code. So, for these reasons, the consultation requirements in amendment 42, to my mind, are unnecessary.

With regard to compliance, it is important to note that there is nothing in the Bill that provides for guidance, advice or information to be 'complied with'. The notion that the Bill will require institutions to 'comply' with information is misplaced. That's why the Bill provides for information to be 'taken into account'.

Guidance, advice and information are not mandatory. The Bill just provides for information, guidance and advice to be taken into account by institutions. If, having taken guidance, advice or information into account, an institution considers that there are good, rational reasons for diverting from that guidance or diverting from that advice or the information, then it can do so. As such, amendment 42 is unnecessary, and I urge Members not to support it.

Rwy'n gobeithio y byddai Aelodau'n cytuno bod gofynion arferol cyfraith weinyddol yn rhoi digon o sicrwydd ynghylch sut y mae'n rhaid i CCAUC arfer ei swyddogaethau. Bydd rôl CCAUC yn y dyfodol, mewn sawl ffordd, yr un fath ag y mae ar hyn o bryd. Bydd yn parhau fel corff hyd braich rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector Addysg Uwch a bydd yn rhaid iddo ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru; bydd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion Cymru i gyflawni amcanion a blaenoriaethau polisi eang y Llywodraeth ar gyfer addysg uwch, drwy gyfrwng arweiniad a chyllid; bydd yn parhau i warantu atebolrwydd cyhoeddus o safbwynt uniondeb sefydliadol prifysgolion Cymru, eu cynaliadwyedd ariannol, eu cywirdeb ariannol, ansawdd eu darpariaeth academaidd; bydd yn rheoleiddio mynediad teg at addysg uwch yng Nghymru; bydd yn parhau i ddsbarthu arian cyhoeddus ar ran y Llywodraeth; ac, yn bwysicaf oll, bydd yn parhau i fod yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith weinyddol gyffredinol a bydd yn ofynnol iddo weithredu ei holl swyddogaethau mewn modd rhesymol a rhesymegol.

Deuthum i'r casgliad nad wyf o'r farn bod gwelliannau 38 a 39 yn rhoi mwy o amddiffyniad i sefydliadau. Fel corff cyhoeddus, ni all CCAUC arfer ei swyddogaethau mewn unrhyw beth ond modd rhesymol, rhesymegol, ar ôl ystyried yr holl ffactorau perthnasol, a chan anwybyddu pob ffactor amherthnasol, pan fydd yn gwneud ei benderfyniadau. Felly, ni fydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwelliannau 38 a 39.

Os caf i droi at welliant 42, a gyflwynwyd hefyd gan Aled Roberts, mae'r gwelliant hwn yn mewnosod adran newydd yn y Bil, yn ymdrin ag ymgynghori a chydymffurfio â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad y gall CCAUC eu cyhoeddi. O ran ymgynghori, mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, eisoes yn gwneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i CCAUC ymgynghori ar ganllawiau a gyflwynwyd o dan adrannau 12, 23 a 24. Mae gofyn i CCAUC hefyd ymgynghori ar ddatblygiad ei god rheolaeth ariannol drafft. Felly, am y rhesymau hyn, mae'r gofynion ymgynghori yng ngwelliant 42, yn fy marn i, yn ddiangen.

O ran cydymffurfio, mae'n bwysig nodi nad oes dim yn y Bil sy'n darparu ar gyfer 'cydymffurfio â' chanllawiau, cyngor neu wybodaeth. Mae'r syniad y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau 'gydymffurfio' â gwybodaeth yn anghywir. Dyna pam mae'r Bil yn darparu i wybodaeth gael ei 'hystyried'.

Nid yw canllawiau, cyngor a gwybodaeth yn orfodol. Nid yw'r Bil ond yn darparu i sefydliadau ystyried gwybodaeth, canllawiau a chyngor. Os bydd sefydliad o'r farn, ar ôl ystyried canllawiau, cyngor neu wybodaeth, bod rhesymau da, rhesymegol ar gyfer troi oddi wrth y canllawiau neu droi oddi wrth y cyngor hwnnw neu'r wybodaeth honno, yna gall wneud hynny. Fel y cyfryw, mae gwelliant 42 yn ddiangen, ac rwy'n annog yr Aelodau i beidio â'i gefnogi.

Finally, turning to amendment 43, tabled by Suzy Davies, which amends section 45, this amendment seeks to place limitations on HEFCW's power to issue directions. I appreciate that stakeholders have expressed concerns about HEFCW's powers to issue directions. However, I believe these concerns are misplaced. Issuing a direction will not usually be HEFCW's first line of action in the event of a regulated institution failing to comply with some element of the new regulatory system. The usual course of events will be for HEFCW to offer advice and support to the institution before seeking to take enforcement action.

However, there may well be rare occasions when a direction is necessary, and, at these times, HEFCW, as I've already mentioned in the debates earlier, must have the flexibility to act swiftly, yet proportionately, according to the facts of a particular case. Amendment 43 would unduly restrict HEFCW's ability to act in that way.

I would also like to emphasise that the Bill already provides numerous safeguards and protections to institutions in relation to HEFCW's powers to issue directions. To be clear, each power of direction may only be used under certain narrow circumstances, and they're set out on the face of the Bill. For example, directions relating to quality may only be issued where quality is deemed to be inadequate, and directions relating to fee limits may only be given where those limits have been breached.

The Government's intent is to provide HEFCW with a suite of intervention powers and for HEFCW to be afforded discretion as to which intervention to apply, according to the circumstances of each case. I do not wish to prescribe each and every circumstance in which HEFCW may issue a direction. Such an approach would be micromanagement of both HEFCW and the sector by Government; of course, that would be something I would be keen to avoid. For these reasons, I do not think the reference to 'serious' in amendment 41 is necessary. In summary, DPO, I urge Members to resist amendments 38, 39, 42 and 43.

Yn olaf, i droi at welliant 43, a gyflwynwyd gan Suzy Davies, sy'n diwygio adran 45, mae'r gwelliant hwn yn ceisio gosod cyfyngiadau ar bŵer CCAUC i gyhoeddi cyfarwyddiadau. Rwy'n sylweddoli bod rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon ynghylch pwerau'r CCAUC i gyhoeddi cyfarwyddiadau. Fodd bynnag, credaf nad oes sail i'r pryderon hyn. Nid rhoi cyfarwyddyd fydd cam cyntaf CCAUC fel arfer os bydd sefydliad a reoleiddir yn methu â chydymffurfio â rhyw elfen o'r system reoleiddio newydd. Y broses arferol fydd i CCAUC gynnig cyngor a chefnogaeth i'r sefydliad cyn ceisio cymryd camau gorfodi.

Fodd bynnag, gallai fod achlysuron prin pan fydd angen cyflwyno cyfarwyddyd, ac, ar yr adegau hyn, rhaid i CCAUC, fel yr wyf eisoes wedi crybwyll yn y dadleuon yn gynharach, gael yr hyblygrwydd i weithredu'n gyflym, ac eto'n gymesur, yn unol â ffeithiau'r achos penodol. Byddai gwelliant 43 yn cyfyngu'n ormodol ar allu CCAUC i weithredu yn y modd hwnnw.

Hoffwn hefyd bwysleisio bod y Bil eisoes yn darparu nifer o fesurau i ddiogelu ac amddiffyn sefydliadau mewn cysylltiad â phwerau CCAUC i gyhoeddi cyfarwyddiadau. I fod yn glir, ni ellir ond defnyddio pob pŵer cyfarwyddo o dan rai amgylchiadau penodol, ac maent wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Er enghraifft, ni ellir ond cyhoeddi cyfarwyddiadau'n ymwneud ag ansawdd pan ystyrir bod ansawdd yn annigonol, ac ni ellir ond cyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer terfynau ffioedd pan fo'r terfynau hynny wedi cael eu torri.

Bwriad y Llywodraeth yw rhoi cyfres o bwerau ymyrryd i CCAUC ac i CCAUC gael disgrisiwn o ran pa ymyriad i'w ddefnyddio, yn unol ag amgylchiadau pob achos. Nid wyf yn dymuno rhagnodi pob amgylchiad pryd y gall CCAUC roi cyfarwyddyd. Pe byddem yn gwneud hynny, byddai'r Llywodraeth yn microreoli CCAUC a'r sector; wrth gwrs, byddai hynny'n rhywbeth y byddwn yn awyddus i'w osgoi. Am y rhesymau hyn, nid wyf yn credu bod y cyfeiriad at 'difrifol' yng ngwelliant 41 yn angenrheidiol. I grynhoi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliannau 38, 39, 42 a 43.

17:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And Aled Roberts to reply.

Ac Aled Roberts i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:59

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n mynd i fod yn fyr iawn. Yn amlwg, mae yna wahaniaeth barn. Mae'r Gweinidog yn ceisio ein bodloni ni bod yna ddigon o bwerau a grymoedd sy'n cael eu diogelu o ran y sefydliadau eu hunain. Yn amlwg, nid yw rhannau o'r sector yn fodlon efo hynny. Mae yna rai yn poeni am y ffordd y bydd HEFCW yn gweithredu'r grymoedd yma ac, yn amlwg, mae yna nifer ohonom ni a oedd yn aelodau o'r pwyllgor a wnaeth graffu ar y ddeddfwriaeth, a hefyd sydd wedi bod yn bresennol yn y dadleuon yma heddiw, yn parhau i fod yn anfodlon. Amser a ddengys. Mae'n siŵr bod y ffaith bod y Gweinidog wedi rhoi'r ffordd y mae o'n edrych ar y sefyllfa a'r bwriad y tu ôl i'r Ddeddf yn bwysig. Os bydd yna unrhyw achos yn y pen draw, bydd hynny hwyrach, yn dangos bod rhai ohonom ni'n iawn yn y ffordd roeddem yn pryderu. Amser a ddengys. Rwy'n meddwl mai jest mater o bleidleisio ydy o rŵan.

I will be very brief. Clearly, there is a difference of opinion. The Minister is trying to satisfy us that adequate powers are safeguarded in terms of the institutions themselves. Clearly, parts of the sector aren't content with that. There are those who are concerned about how HEFCW will implement these powers and, clearly, there are many of us who were members of the committee that scrutinised the legislation, and who have been present in the debates here today, who continue to be dissatisfied. It remains to be seen. I am sure that the fact that the Minister has stated how he sees the situation and the intention behind the Act is important. If any case is ultimately brought, that will, perhaps, show that some of us are right to be concerned. It remains to be seen. I think it's just a matter of voting now.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:00	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 38 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 38: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 38.</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 38 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.</p> <p><i>Amendment 38 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 38.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 15.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 15 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 15.</p> <p><i>Amendment 15 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 15 be agreed. Does any Member object? Amendment 15 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 15 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 15 wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 15 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 16.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 16 (Huw Lewis).</i></p>	<p>Weinidog, gwelliant 16.</p> <p><i>Amendment 16 (Huw Lewis) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Huw Lewis Bywgraffiad Biography</p> <p>I move.</p>	<p>Rwy'n cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 16 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 49, there voted against 5. Therefore, amendment 16 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 16: O blaid 49, Yn erbyn 5, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 16.</p>	<p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 16 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn symud ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 49 o blaid, pleidleisiodd 5 yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 16.</p> <p><i>Amendment 16 agreed: For 49, Against 5, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 16.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Aled Roberts, amendment 39.</p>	<p>Aled Roberts, gwelliant 39.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

	<i>Cynigiwyd gwelliant 39 (Aled Roberts).</i>	<i>Amendment 39 (Aled Roberts) moved.</i>	
18:02	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Ffurfiol.	Formally.	Senedd.tv Fideo Video
18:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 39 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 39 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 39: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 39 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.</i>	
	<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 39.	Result of the vote on amendment 39.	
18:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Minister, amendment 17.	Weinidog, gwelliant 17.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 17 (Huw Lewis).</i>	<i>Amendment 17 (Huw Lewis) moved.</i>	
18:02	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I move.	Rwy'n cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? Amendment 17 is agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Derbynnir gwelliant 17.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 17 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
18:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Suzy Davies, amendment 43.	Suzy Davies, gwelliant 43.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 43 (Suzy Davies).</i>	<i>Amendment 43 (Suzy Davies) moved.</i>	
18:02	Suzy Davies Bywgraffiad Biography Move.	Cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 43 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 43 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.	Senedd.tv Fideo Video

Gwrthodwyd gwelliant 43: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment 43 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 43.](#)

[Result of the vote on amendment 43.](#)

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Aled Roberts, amendment 40. Aled Roberts, gwelliant 40.

Cynigiwyd gwelliant 40 (Aled Roberts).

Amendment 40 (Aled Roberts) moved.

18:03 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Ffurfiol. Formally.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If amendment 40 is agreed to, amendment 44 falls. The question is that amendment 40 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15, there voted against 27. There were 12 abstentions. Therefore, the amendment is not agreed.

Os derbynnir gwelliant 40, mae gwelliant 44 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 40 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Roedd 12 ymataliad. Felly, nid yw'r gwelliant wedi ei dderbyn.

Gwrthodwyd gwelliant 40: O blaid 15, Yn erbyn 27, Ymatal 12.

Amendment 40 not agreed: For 15, Against 27, Abstain 12.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 40.](#)

[Result of the vote on amendment 40.](#)

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Suzy Davies, amendment 44. Suzy Davies, gwelliant 44.

Cynigiwyd gwelliant 44 (Suzy Davies).

Amendment 44 (Suzy Davies) moved.

18:03 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Moved. Wedi'i gynnig.

18:03 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 44 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 44 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.

Gwrthodwyd gwelliant 44: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.

Amendment 44 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 44.](#)

[Result of the vote on amendment 44.](#)

18:04	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Aled Roberts, amendment 41.	Aled Roberts, gwelliant 41. <i>Amendment 41 (Aled Roberts) moved.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 41 (Aled Roberts).</i>		
18:04	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Ffurfiol.	Formally.	Senedd.tv Fideo Video
18:04	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 41 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 27, there voted against 27. I cast my vote against the amendment, which consequently falls.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 41 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 27 o blaid, pleidleisiodd 27 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 41: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 41 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.</i>	
	<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20 the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 41.	Result of the vote on amendment 41.	
	Grŵp 8: Gofynion Llunio Adroddiadau (Gwelliannau 18 ac 19)	Group 8: Reporting Requirements (Amendments 18 and 19)	
18:04	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The next group of amendments relates to reporting requirements. The lead amendment in this group is amendment 18. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendment in the group.	Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â gofynion llunio adroddiadau. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 18. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliant arall yn y grŵp.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 18 (Huw Lewis).</i>	<i>Amendment 18 (Huw Lewis) moved.</i>	
18:04	Huw Lewis Bywgraffiad Biography Thank you, Deputy Presiding Officer.	Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.	Senedd.tv Fideo Video
	Amendments 18 and 19 to section 49 are concerned with HEFCW's annual reporting requirements. These amendments have been brought forward in response to a commitment made during the Stage 2 proceedings. Under section 49 of the Bill, HEFCW are obliged to report annually to the Welsh Ministers on how they've exercised their new functions under the Bill. Reports must comply with any requirements that Ministers may specify by way of direction to HEFCW.	Mae gwelliannau 18 a 19 i adran 49 yn ymwneud â'r gofynion ar CCAUC i lunio adrodd blynyddol. Mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu dwyn ymlaen mewn ymateb i ymrwymiad a wnaed yn ystod y trafodion Cyfnod 2. O dan adran 49 o'r Bil, mae'n rhaid i CCAUC gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar sut y mae wedi arfer ei swyddogaethau newydd o dan y Bil. Rhaid i adroddiadau gydymffurfio ag unrhyw ofynion y caiff Gweinidogion eu pennu drwy gyfarwyddyd i CCAUC.	

At Stage 2, a non-Government amendment was tabled that would have required the Welsh Ministers to lay annual reports received from HEFCW before the Assembly within 14 days of their receipt. The Government did not support that amendment as it might not always be possible for the Welsh Ministers to meet the 14-day period, and this would result in the Welsh Ministers breaching their statutory duty. Consequently, I have tabled amendment 19, which requires the Welsh Ministers to lay HEFCW's annual reports before the Assembly as soon as possible upon receipt. Amendment 18 aligns HEFCW's annual reporting requirement with the proposal under amendment 19 that Welsh Ministers lay HEFCW's annual reports before the Assembly. Taken together, amendments 18 and 19 address the concerns raised by Members during Stage 2 scrutiny.

Yn ystod Cyfnod 2, cafodd gwelliant heb fod yn un y Llywodraeth ei gyflwyno a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiadau blynyddol a dderbynnir gan CCAUC gerbron y Cynulliad o fewn 14 diwrnod i'w derbyn. Nid oedd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant hwnnw gan na fyddai modd o bosibl i Weinidogion Cymru fodloni'r cyfnod o 14 diwrnod, a byddai Gweinidogion Cymru yn torri eu dyletswydd statudol o ganlyniad. O ganlyniad, rwyf wedi cyflwyno gwelliant 19, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiadau blynyddol CCAUC gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn. Mae gwelliant 18 yn sicrhau bod y gofyniad i CCAUC lunio adrodd blynyddol yn gydnaws â'r cynnig o dan welliant 19 bod Gweinidogion Cymru yn gosod adroddiadau blynyddol CCAUC gerbron y Cynulliad. Gyda'i gilydd, mae gwelliannau 18 a 19 yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau yn ystod proses graffu Cyfnod 2.

- 18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Are there other speakers? The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? Then amendment 18 is agreed.
- A oes siaradwyr eraill? Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 18.
- Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, amendment 19.
- Weinidog, gwelliant 19.
- Cynigiwyd gwelliant 19 (Huw Lewis).* *Amendment 19 (Huw Lewis) moved.*
- 18:06 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move.
- Rwy'n cynnig.
- 18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? Then amendment 19 is agreed.
- Y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 19.
- Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, amendment 20.
- Weinidog, gwelliant 20.
- Cynigiwyd gwelliant 20 (Huw Lewis).* *Amendment 20 (Huw Lewis) moved.*
- 18:06 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I move.
- Rwy'n cynnig.
- 18:06 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? Then amendment 20 is agreed.
- Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 20.
- Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:06	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Minister, amendment 21.	Weinidog, gwelliant 21. <i>Amendment 21 (Huw Lewis) moved.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 21 (Huw Lewis).</i>		
18:06	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I move.	Rwy'n cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:06	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 21 be agreed. Does any Member object? Then amendment 21 is agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 21. <i>Amendment 21 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>		
18:06	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Minister, amendment 22.	Weinidog, gwelliant 22. <i>Amendment 22 (Huw Lewis) moved.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 22 (Huw Lewis).</i>		
18:07	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I move.	Rwy'n cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:07	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? Then amendment 22 is agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 22. <i>Amendment 22 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>		
18:07	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Aled Roberts, amendment 42.	Aled Roberts, gwelliant 42. <i>Amendment 42 (Aled Roberts) moved.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 42 (Aled Roberts).</i>		
18:07	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Ffurfiol.	Formally.	Senedd.tv Fideo Video
18:07	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 42 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will proceed to an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 14. There voted against 39. Therefore, amendment 42 is not agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 42 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Byddwn yn symud ymlaen i bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 14 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 42 wedi'i dderbyn. <i>Amendment 42 not agreed: For 14, Against 39, Abstain 0.</i>	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 42: O blaid 14, Yn erbyn 39, Ymatal 0.</i>		
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 42.	Result of the vote on amendment 42.	

Grŵp 9: Trefniadau Trosiannol (Gwelliannau 23, 24 a 25)

Group 9: Transitional Arrangements (Amendments 23, 24 and 25)

18:07

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The final group of amendments relates to transitional arrangements. The lead amendment in this group is amendment 23. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp olaf o welliannau yn ymwneud â threfniadau trosiannol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 23. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 23 (Huw Lewis).

Amendment 23 (Huw Lewis) moved.

18:07

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. In October last year, during the general principles debate, I committed to delaying full implementation of the new regulatory system arising from the Bill from 2016-17 to 2017-18. The Bill as currently drafted provides for a transitional year in 2015-16. During the transitional year, certain provisions of the Bill will apply in relation to institutions with an existing fee plan in place. Those provisions provide for such institutions to be required, firstly, to comply with fee limits and for HEFCW to be able to take action to enforce those limits, and, secondly, to co-operate with HEFCW for the purposes of quality assessment and for HEFCW to be able to enforce such co-operation and take action in respect of inadequate quality of education. Additionally, the transitional provisions will allow HEFCW to consult on their statement of intervention policy and the initial draft of the financial management code as well as issue guidance to institutions about quality assessment and information and advice relating to equality of opportunity and the promotion of higher education.

Diolch yn fawr. Ym mis Hydref y llynedd, yn ystod y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol, ymrwymais i ohirio gweithrediad llawn y system reoleiddio newydd sy'n deillio o'r Bil, o 2016-17 i 2017-18. Mae'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer blwyddyn bontio yn 2015-16. Yn ystod y flwyddyn bontio, bydd darpariaethau penodol yn y Bil yn gymwys mewn cysylltiad â sefydliadau sydd â chynllun ffioedd eisoes ar waith. Mae'r darpariaethau hynny'n darparu ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau o'r fath, yn gyntaf, gydymffurfio â therfynau ffioedd ac i CCAUC allu cymryd camau i orfodi'r terfynau hynny, ac, yn ail, iddynt gydweithio â CCAUC at ddibenion asesu ansawdd ac i CCAUC allu eu gorfodi i gydweithredu fel hyn a chymryd camau o safbwynt ansawdd addysg annigonol. Yn ogystal, bydd y darpariaethau trosiannol yn galluogi CCAUC i ymgynghori ar ei ddatganiad o bolisi ymyrryd a drafft cychwynnol y cod rheolaeth ariannol yn ogystal â chyhoeddi canllawiau i sefydliadau ynghylch asesu ansawdd a gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a hirwyddo addysg uwch.

The change in implementation timescales has implications for the length of the period required for transition from the current system to the new regulatory system. I have therefore tabled amendment 25 to the Schedule to amend the end date of the transitional period to 31 August 2017. The effect of this amendment is to extend the end of the transitional period from 31 August 2016 until 31 August 2017, which will provide for a two-year transitional period commencing in September 2015. As a consequence of amendment 25, two other amendments to the Schedule are also necessary. Amendment 24 ensures that, if HEFCW issue guidance about the criteria for assessing the quality of education under section 24(1) of the Bill during the transitional period, then they must first consult all institutions with an existing fee plan in place.

Mae i'r newid mewn amserlenni gweithredu oblygiadau ar gyfer y cyfnod sy'n ofynnol ar gyfer pontio o'r system bresennol i'r system reoleiddio newydd. Rwyf felly wedi cyflwyno gwelliant 25 i'r Atodlen i newid dyddiad diwedd y cyfnod trosiannol i 31 Awst 2017. Effaith y gwelliant hwn yw ymestyn diwedd y cyfnod trosiannol o 31 Awst 2016 i 31 Awst 2017, a bydd hyn yn darparu ar gyfer cyfnod trosiannol o ddwy flynedd a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2015. O ganlyniad i welliant 25, mae dau welliant arall i'r Atodlen yn angenrheidiol hefyd. Mae gwelliant 24 yn sicrhau bod yn rhaid i CCAUC yn gyntaf ymgynghori â'r holl sefydliadau sydd â chynllun ffioedd eisoes ar waith, os yw'n cyhoeddi canllawiau am y meini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg o dan adran 24(1) o'r Bil yn ystod y cyfnod trosiannol.

Amendment 23 provides that the Welsh Ministers make regulations to amend the maximum period of a fee and access plan during a transitional period, when they will also be required to consult all institutions with an existing fee plan in place. So, taken together, amendments 23, 24 and 25 address the transitional arrangements necessary to ensure full implementation of the new regulatory system in the 2017-18 academic year. I therefore urge Members to support these amendments.

Mae gwelliant 23 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddiwygio cyfnod hiraf cynllun ffioedd a mynediad yn ystod cyfnod trosiannol, pryd y bydd gofyn iddynt hefyd ymgynghori â'r holl sefydliadau sydd â chynllun ffioedd eisoes ar waith. Felly, gyda'i gilydd, mae gwelliannau 23, 24 a 25 yn rhoi sylw i'r trefniadau trosiannol sy'n angenrheidiol i sicrhau y caiff y system reoleiddio newydd ei rhoi ar waith yn llawn yn y flwyddyn academaidd 2017-18. Felly, anogaf yr Aelodau i gefnogi'r gwelliannau hyn.

18:10	Simon Thomas Bywgraffiad Biography I will simply note that the Government has taken these steps, which I welcome. There was a great deal of concern, as we were collecting evidence around the Bill, that the timetable was very tight indeed. Now, the Government had already indicated, as the Minister said, that they were looking to extend the timetable, but there are implications within that and the amendments today deal with those implications and, I think, give the assurance that the sector was looking for that this would be a much more manageable process and would have the right support in place to manage that. Therefore, I welcome the amendments. In order to have a complete record of the debate, if I may also put on record, Deputy Presiding Officer, that the definition of 'non-profit organisation' that I used earlier does, in fact, come from the Financial Services and Markets Act 2000.	Byddaf yn syml yn nodi bod y Llywodraeth wedi cymryd y camau hyn, ac rwy'n croesawu hynny. Mynegwyd llawer iawn o bryder, wrth inni gasglu tystiolaeth o amgylch y Bil, bod yr amserlen yn dynn iawn. Nawr, roedd y Llywodraeth eisoes wedi mynegi, fel y dywedodd y Gweinidog, ei bod yn bwriadu ymestyn yr amserlen, ond mae goblygiadau i hynny ac mae'r gwelliannau heddiw yn delio gyda'r goblygiadau hynny, ac, rwy'n credu, yn rhoi'r sicrwydd yr oedd y sector yn dymuno'i gael y byddai hon yn broses lawer mwy hylaw ac y byddai'r cymorth iawn ar waith i reoli hynny. Felly, rwy'n croesawu'r newidiadau. Er mwyn cael cofnod cyflawn o'r ddadl, os caf hefyd nodi, Ddirprwy Lywydd, bod y diffiniad o 'sefydliad dielw' a ddefnyddiais yn gynharach, mewn gwirionedd, yn dod o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000.	Senedd.tv Fideo Video
18:11	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Minister, do you wish to reply?	Weinidog, a ydych am ymateb?	Senedd.tv Fideo Video
18:11	Huw Lewis Bywgraffiad Biography Nothing to respond. I've no response to that.	Dim ymateb. Nid oes gennyf ymateb i hynny.	Senedd.tv Fideo Video
18:11	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 23 be agreed. Does any Member object? Then amendment 23 is agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 23 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 23.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 23 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
18:11	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Minister, amendment 24.	Weinidog, gwelliant 24.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 24 (Huw Lewis).</i>	<i>Amendment 24 moved (Huw Lewis).</i>	
18:12	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I move.	Rwy'n cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
18:12	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 24 be agreed. Does any Member object? Then amendment 24 is agreed.	Y cwestiwn yw bod gwelliant 24 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 24.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 24 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
18:12	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Minister, amendment 25.	Weinidog, gwelliant 25.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 25 (Huw Lewis).</i>	<i>Amendment 25 moved (Huw Lewis).</i>	
18:12	Huw Lewis Bywgraffiad Biography I move.	Rwy'n cynnig.	Senedd.tv Fideo Video

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 25 be agreed. Does any Member object? Then amendment 25 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 25 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbynnir gwelliant 25.

Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 25 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Higher Education (Wales) Bill. I declare that all sections and Schedules of the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 and today's proceedings.

Rydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth Cyfnod 3 o'r Bil Addysg Uwch (Cymru). Rwy'n datgan yr ystyrir bod pob adran ac Atodlen o'r Bil wedi cael eu derbyn. Dyna ddiwedd Cyfnod 3 a thrafodion heddiw.

Barnwyd y cytunwyd ar bob adran o'r Bil.

All sections of the Bill deemed agreed.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:12.

The meeting ended at 18:12.